Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
13/2024
Dyddiad cyhoeddi:
09/05/2024

# Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-617-9

Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau

Awduron:
Philip Wilson, Tim Allan, Beth Whistance, Martha Julings, Hannah Russell (York Consulting) a Mark Beynon (PDR Cymru). Gan ymgynghori gyda'r Athro Sally Power a'r Athro Chris Taylor (Parc Ymchwil Gwyddor Gymdeithasol Prifysgol Caerdydd - SPARK).

Adroddiad llawn: Wilson, P; Allan, T; Whistance, B; Beynon, M; Julings, M; Russell, H. (2023). (2023). *Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad ymchwil cymdeithasol y llywodraeth rhif 13/2024.
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/adolygu-arferion-er-mwyn-ceisio-atal-gwaharddd-dysgwyr-or-ysgol

Barn yr ymchwilydd yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd.

Hoffai'r ymchwilwyr ddiolch i bawb o'r rheini a gyfwelwyd fel rhan o'r adolygiad, gan gynnwys y plant, rheini, staff ysgolion, staff awdurdodau lleol a rhanddeiliaid.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ........................................ 2

Geirfa ........................................ 4

1. Cyflwyniad ........................................ 6

2. Methodoleg ........................................ 19

3. Canfyddiadau'r ymchwil: ystyriaethau sy'n dylanwadu ar gyfraddau gwahardd ...... 39

4. Canfyddiadau'r ymchwil: arferion a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau ........................................ 53

5. Canfyddiadau'r ymchwil: arferion i gynnal cyswllt yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol ........................................ 96

6. Canfyddiadau'r ymchwil: arferion i gefnogi ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad .. 100

7. Canfyddiadau'r ymchwil: cymorth sydd ei angen i rwystro gwaharddiadau, cynnal cydweithrediad a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd ........................................ 106

8. Casgliadau ac argymhellion ........................................ 126

Llyfryddiaeth ........................................ 138

Atodiad A: Fframwaith ymchwil ........................................ 153

Atodiad B: Offerynnau Ymchwil ........................................ 156

Atodiad C. Adolygiad llenyddiaeth ........................................ 184

**Rhestr o dablau**

Tabl 1.1 Cyfraddau gwahardd parhaol yng Nghymru – 2014/15 i 2021/22 .......................... 10
Tabl 1.2 Cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yng Nghymru i bob 1,000 o ddisgyblion – 2014/15 i 2021/22 .......... 11
Tabl 1.3 Cyfraddau gwahardd yng Nghymru i bob 1,000 o ddisgyblion yn ôl math o ysgol – 2021/22 .......... 12
Tabl 2.1 Math o ffynhonnell .......... 22
Tabl 2.2 Daearyddiaeth .......... 23
Tabl 2.3 Cyfnod addysg .......... 23
Tabl 2.4 Cyfweliadau cwmpasu .......... 24
Tabl 2.5 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg ysgolion yn ôl rôl yr ymatebydd .......... 26
Tabl 2.6 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg ysgolion yn ôl math o ysgol .......... 26
Tabl 2.7 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg ysgolion yn ôl iaith cyfrwng .......... 26
Tabl 2.8 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg ysgolion yn ôl chwarteli cymhwysedd am brydau ysgol am ddim .......... 26
Tabl 2.9 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn ymateb i'r arolwg ysgolion yn ôl chwarteli cymhwysedd am brydau ysgol am ddim .......... 27
Tabl 2.10 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg ysgolion yn ôl chwarteli ADY .......... 28
Tabl 2.11 Cyfweliadau ag Awdurdodau Lleol yn ôl rhanbarthau o Gymru .......... 31
Tabl 2.12 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd yn ôl math .......... 31
Tabl 2.13 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth .......... 32
Tabl 2.14 Nodweddion sampl ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn ôl niferoedd targed a gwirioneddol .......... 33
Tabl 2.15 Plant a rhieni a gyfwelwyd .......... 35
Tabl 7.1 Cymorth sydd ei angen gan awdurdodau lleol .......... 106
Tabl 7.2 Enghreifftiau o adborth awdurdodau lleol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru .......... 107
Tabl 7.3 Cymorth sydd ei angen ar ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion .......... 111
Tabl 7.4 Enghreifftiau o adborth ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar ganllawiau Llywodraeth Cymru .......... 116

Tabl 7.5 Cymorth sydd ei angen gan rieni ........................................................................117
Tabl 7.6 Cymorth sydd ei angen gan blant .......................................................................121

**Geirfa**

| Talfyriad | Diffiniad |
|---|---|
| ACE | Profiad niweidiol yn ystod plentyndod (Adverse childhood experience) |
| ADHD | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (Attention deficit hyperactivity disorder) |
| ADY (ALN) | Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, 'Anghenion Addysgol Arbennig' neu 'AAA' oedd y termau a ddefnyddid ar gyfer anghenion a oedd yn gofyn am ddarpariaeth ychwanegol. Gall fod yr hen dermau hyn yn dal i gael i gael eu defnyddio wrth i'r Ddeddf gael ei gweithredu'n llawn. |
| Amserlenni llai | Reduced timetables |
| ASD | Anhwylderau'r Sbecrwm Awtistig (Autism spectrum disorder) |
| Arferion adferol | Restorative practice |
| Arferion cyffredinol | Universal practices |
| Arferion penodol | Targeted practices |
| Arferion sy'n ystyriol o drawma | Trauma-informed practice |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (Child and adolescent mental health services) |
| Cwnsela yn yr ysgol | School-based counselling |
| Cwricwlwm wedi'i addasu | Modified curriculum |
| CYBLD (PLASC) | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| Cydlynydd ADY | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Cydweithrediad rhieni | Parental engagement |
| Cymorth pontio | Transition support |

| | |
|---|---|
| Dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol | Whole-school approach to emotional and mental well-being |
| Dull ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad | Whole-school approach to behaviour |
| Dulliau therapiwtig | Theraputic approaches |
| FSM | Prydau Ysgol am Ddim[1] |
| EEF | Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (Education Endowment Foundation) |
| eFSM | Cymwys am Brydau Ysgol am Ddim |
| ELSA | Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (Emotional literacy support assistant) |
| EOTAS | Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Education otherwise than at school)* |
| Gwaharddiad cyfnod penodol | Fixed-term exclusion |
| Gwaharddiad mewnol | Internal exclusion |
| Gwaharddiad parhaol | Permanent exclusion |
| Gwella sgiliau academaidd | Enhancing academic skills |
| Grwpiau anogaeth | Nurture groups |
| Mentora | Mentoring |
| PRU | Uned Cyfeirio Disgyblion (Pupil Referral Unit) |
| Symud drwy drefniant | Managed moves |
| Ymlyniad | Attachment |
| Ymwybyddiaeth ofalgar | Mindfulness |

[1] Nid yw hyn yn cyfeirio at y rheini sy'n derbyn prydau ysgol am ddim drwy'r cynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn addysg gynradd.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd York Consulting gan Lywodraeth Cymru i gyflawni adolygiad o arferion a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a gwaharddiadau parhaol ac i archwilio sut y gellir helpu awdurdodau lleol, ysgolion, plant, a'u rhieni/gofalwyr[2] i rwystro gwaharddiadau o ysgolion.

1.2 Amcanion yr ymchwil oedd:

- Archwilio arferion a dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion ac y bernir eu bod yn effeithiol ar gyfer:
  - Rhwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol o'r lleoliadau hyn.
  - Cynnal cyswllt a chydweithrediad gyda phlentyn unwaith mae ar waharddiad cyfnod penodol.
  - Helpu ailintegreiddio plant i addysg brif ffrwd yn dilyn gwaharddiad.
- Deall y cymorth sydd ar awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, rhieni a phlant ei angen i rwystro gwaharddiadau, cynnal cydweithrediad yn dilyn gwaharddiadau cyfnod penodol, a helpu pontio'n ôl i addysg brif ffrwd lle bo plant wedi cael eu gwahardd.
- Datblygu casgliadau ac argymhellion ar gyfer sut y gall ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol, yn ogystal â sut y gellir helpu awdurdodau lleol, ysgolion, plant a'u rhieni i rwystro gwaharddiadau, cynnal cyswllt yn dilyn gwaharddiadau cyfnod penodol, a helpu pontio'n ôl i addysg brif ffrwd lle bo plant wedi cael eu gwahardd.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y canfyddiadau o'r adolygiad hwn.

### Cefndir a chyd-destun

1.4 Mae llenyddiaeth a gyhoeddwyd yn amlygu amrywiaeth o effeithiau negyddol ar blant a gaiff eu gwahardd o ysgolion. Yn y tymor byrrach, mae hyn yn cynnwys effeithiau niweidiol uniongyrchol ar iechyd meddwl a llesiant (Munn a Lloyd, 2005; Martin-Denham, 2020) a chanlyniadau addysgol gwael (Adran Addysg Lloegr, 2011;

[2] Drwy gydol gweddill yr adroddiad hwn, bydd y term 'rhieni' yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at rieni a gofalwyr, er mwyn rhwyddineb.

Swyddfa'r Comisiynydd Plant, 2020; Martin-Denham 2020). Yn fwy hirdymor, mae gwaharddiad o'r ysgol yn cael effeithiau negyddol sy'n parhau pan ddaw'r plentyn yn oedolyn, wrth leihau potensial enillion a chynyddu risg o ddiweithdra, problemau iechyd meddylion a chorfforol, digartrefedd ac ymwneud â gweithgareddau troseddol (Daniels, 2011; Madia et al., 2022; Pirrie et al., 2011).

1.5 Mae tystiolaeth ymchwil ar fuddion posibl gwaharddiadau yn brin mewn cymhariaeth (Madia et al., 2022). Er i ymchwil Martin-Denham's (2021) gyda phrifathrawon yn y Deyrnas Unedig ganfod bod rhai wedi nodi buddion, gan gynnwys diogelwch plant a staff, cyfleoedd i ganfod atebion allanol, ac amser i feddwl i'r plentyn a rhoddwyr gofal, roedd eraill yn dweud nad oedd unrhyw fuddion i waharddiadau o'r ysgol ac nad oedd effaith gadarnhaol barhaol ar ymddygiad y rheini a gaiff eu gwahardd. Mae gweithiau ymchwil eraill yn amlygu diffygion arferion gwahardd yn sgil eu cyndynrwydd i adnabod anawsterau sylfaenol y plentyn (Dupper et al., 2009; Bowman-Perot et al. 2013; Martin-Denham 2020).

1.6 Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cyson o helpu lleoliadau dysgu i sicrhau y gellir cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial. Mae *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2011*, y Fframwaith ar gyfer sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol (Llywodraeth Cymru 2021b) a Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn enghreifftiau o rai o'r ymyraethau mwyaf sylweddol sy'n cynnwys pwyslais ar sicrhau bod anghenion plant sy'n profi anawsterau yn yr ysgol yn cael eu diwallu.

1.7 Mae Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2019a – a gyhoeddwyd gyntaf yn 2012) yn rhoi canllawiau ar weithdrefnau gwahardd ac apelio i ysgolion prif ffrwd ac unedau cyfeirio disgyblion. Pan ysgrifennwyd hyn, roedd y canllawiau'n cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth a pholisi, er mwyn cryfhau'r canllawiau ynghylch plant sydd â nodweddion gwarchodedig a hyrwyddo dull seiliedig ar hawliau ac ystyriol o drawma.

1.8 Mae amrywiaeth o ganllawiau eraill Llywodraeth Cymru yn nodi cyngor pellach a disgwyliadau i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion o ran presenoldeb, cyrhaeddiad, llesiant, ymddygiad a chynhwysiant. Mae'r rhain yn cynnwys 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' (Llywodraeth Cymru, 2016a), 'Defnydd Effeithiol o

Symudiadau wedi'u Rheoli' (Llywodraeth Cymru, 2011), 'Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol' (Llywodraeth Cymru, 2021b), 'Y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: Trosolwg' (Llywodraeth Cymru, 2022a – cyflwynwyd yn gyntaf yn 2013), 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' (Llywodraeth Cymru, 2019b), 'Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2016b) a 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr' (Llywodraeth Cymru, 2023a).

*Diffinio gwaharddiad*

1.9 O dan Adran 52 o *Ddeddf Addysg 2002*, dim ond prifathro ysgol neu uned cyfeirio disgyblion sydd â'r grym i wahardd plentyn.

1.10 Yr unig achosion lle dylid penderfynu gwahardd disgybl yw lle bo polisi ymddygiad yr ysgol wedi cael ei dorri'n ddifrifol ac os byddai caniatáu i'r plentyn aros yn yr ysgol niweidio'n ddifrifol addysg neu les y plentyn neu blant eraill.

1.11 Mae dau fath o waharddiad o'r ysgol – parhaol a chyfnod penodol (Llywodraeth Cymru, 2019a)[3]:

- **Gwaharddiad parhaol:** Ni chaniateir i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol a chaiff ei enw ei ddileu o gofrestr yr ysgol (yn dilyn cwblhau unrhyw broses apeliadau). Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir mai'r cam olaf un yw gwahardd yn barhaol a'i fod yn gydnabyddiaeth fod yr holl strategaethau sydd ar gael i helpu'r plentyn i aros yn yr ysgol wedi methu.
- **Gwaharddiad cyfnod penodol**: Caiff y plentyn ei wahardd am gyfnod penodol ac nid yw'n gallu mynd i'w ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw. Yng Nghymru, rhaid i gyfanswm gwaharddiadau cyfnod penodol beidio â bod yn fwy na 45 o ddyddiau mewn un flwyddyn ysgol.

1.12 Mae hefyd rai arferion gwahardd nad ydynt yn gyfreithlon ac na chaiff eu cofnodi mewn ystadegau swyddogol. Mae'r rhain yn cynnwys:

[3] Cafodd gwaharddiadau 'cyfnod penodol' a 'pharhaol' o'r ysgol eu cyflwyno gan Y Ddeddf Addysg (1986, c.61) sy'n caniatáu symud plentyn o'r ysgol os bernir eu bod yn gwyro'n barhaus neu'n ddifrifol oddi wrth bolisi ymddygiad yr ysgol, a phan y byddai caniatáu iddynt aros yn niweidio'n ddifrifol addysg neu les eraill. (Adran Addysg Lloegr, 2017).

- **Gwaharddiad anghyfreithlon:** mae hyn yn cynnwys anfon plant adref am resymau disgyblu, neu i lonyddu a thawelu, ond heb ddilyn y gweithdrefnau sy'n ofynnol ar gyfer gwaharddiad ffurfiol. Mae arferion o'r fath yn anghyfreithlon boed hwy wedi cael eu cyflawn gyda chytundeb y rhieni neu beidio (Llywodraeth Cymru, 2019a).
- **Dadgofrestru:** mae hyn yn cynnwys dileu disgybl o gofrestr yr ysgol lle na ddarperir ar gyfer hyn o dan *Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010* neu annog rhiant i dynnu'r disgybl yn ôl 'yn wirfoddol' o gofrestr yr ysgol. Mae'r arferion hyn er budd yr ysgol yn bennaf (ee i osgoi cofnodi gwaharddiad ffurfiol neu i wella data canlyniadau Blwyddyn 11 a adroddir), yn hytrach nag er budd y disgybl (Estyn, 2019; Ofsted, 2018).

1.13 Er bod rhywfaint o dystiolaeth o ddadgofrestru yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2018; Estyn, 2019), mae'r polisi presennol yn cefnogi cael gwared ar gymhellion systemig a all gyfrannu tuag at hyn. Yn benodol, mae mwy o bwyslais ar alluogi cynnydd i bob plentyn drwy'r Cwricwlwm i Gymru a'r Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru, 2022c).

1.14 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru (2019a) yn ei gwneud yn ofynnol yn ogystal na ddylid defnyddio gwaharddiadau os oes atebion eraill ar gael. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, a gaiff eu hystyried hefyd fel dulliau ataliol ymhellach ymlaen yn yr adolygiad hwn:

- **Rhaglenni cymorth bugeiliol:** cynlluniau i helpu plant yn reoli eu hymddygiad yn well, a gaiff eu llunio wrth ddefnyddio dull amlasiantaeth ac a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd.
- **Cyfiawnder adferol:** dull o fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad a gwrthdaro sy'n defnyddio deialog i annog atebolrwydd am weithredoedd unigolyn ac atgyweirio perthynas lle bo niwed wedi digwydd.
- **Gwaharddiadau mewnol:** a ddefnyddir i dawelu sefyllfaoedd mewn ysgol sy'n gofyn am i blentyn gael ei symud dros dro o'r ystafell ddosbarth i le penodol o fewn yr ysgol neu i ddosbarth arall.
- **Symud trwy drefniant:** lle mai'r peth gorau er budd y plentyn yw symud ysgolion i roi dechrau newydd.

1.15 Er y gallai amserlenni â llai o oriau hefyd gael eu hystyried fel dewis arall yn lle gwaharddiad gan rai rhanddeiliaid, mae'r canllawiau (Llywodraeth Cymru, 2023a) yn glir na ddylid defnyddio amserlenni â llai o oriau ond mewn amgylchiadau eithriadol fel mesur tymor byr, (yn gyffredinol dim mwy na chyfnod o chwe wythnos) gyda'r bwriad o ddychwelyd at bresenoldeb llawn-amser yn yr ysgol yn gynt, os yn ymarferol. Dylai ysgolion sicrhau bod plant sydd ar amserlen â llai o oriau, yn derbyn addysg lawn, lle bo hyn yn addas i blant unigol.

1.16 Yn ogystal, mae'r canllawiau'n glir na ddylid defnyddio amserlenni â llai o oriau fel modd o reoli problemau ymddygiad. Felly, ni ddylid defnyddio amserlenni â llai o oriau fel dewis arall yn lle gwahardd (Llywodraeth Cymru, 2023a).

### Cyfraddau gwahardd

1.17 Fel y dangosir yn Nhabl 1.1, cododd cyfraddau gwahardd mewn ysgolion a gynhelir bob blwyddyn rhwng 2014/15 a 2018/19 (Llywodraeth Cymru, 2022b). Mae'r gyfradd yn disgyn yn 2019/20 a 2020/21 a dylid dehongli'r lleihad hwn yn ofalus gan ei bod yn debygol o fod oherwydd bod cymaint o ysgolion wedi cau mor aml rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021 yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19). Ni ddychwelodd yr holl ddisgyblion yn llawn tan fis Ebrill 2021. Roedd cynnydd bach mewn gwaharddiadau parhaol yn 2021/22 o gymharu â 2018/19 i'r gyfradd uchaf a welwyd yn ystod y cyfnod hwn.

**Tabl 1.1 Cyfraddau gwahardd parhaol yng Nghymru – 2014/15 i 2021/22**

| Blwyddyn academaidd | Cyfradd gwaharddiadau parhaol i bob 1,000 o ddisgyblion |
|---|---:|
| 2014/15 | 0.19 |
| 2015/16 | 0.23 |
| 2016/17 | 0.35 |
| 2017/18 | 0.36 |
| 2018/19 | 0.53 |
| 2019/20 | 0.47 |
| 2020/21 | 0.27 |
| 2021/22 | 0.58 |

Ffynhonnell: Gwaharddiadau o Ysgolion a Gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022, Llywodraeth Cymru (2023b)

1.18 Mae Tabl 1.2 yn dangos data gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion a gynhelir wedi eu rhannu'n ddau gategori: gwaharddiadau o bum diwrnod neu lai a'r rheini dros bum diwrnod. Mae pob categori yn dangos patrwm gwahanol:

- **Pum diwrnod neu lai**. Digwyddodd cynnydd blwyddyn-ar-flwyddyn rhwng 2014/15 a 2018/19, a ddilynwyd gan leihad a ddylanwadwyd gan ysgolion yn cau yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd cynnydd yn y gyfradd o waharddiadau cyfnod penodol (5 diwrnod neu lai) yn 2021/22 o 2018/19 i'r gyfradd uchaf a arsylwyd yn ystod y cyfnod hwn.
- **Dros bum diwrnod**. Mae cyfraddau cyffredinol wedi aros yn debyg er gwaethaf rhywfaint o anwadalwch bob blwyddyn rhwng 2014/15 a 2018/19. Roedd lleihad clir dros 2019/20 a 2020/21, unwaith eto o dan ddylanwad ysgolion yn cau yn ystod y pendemig COVID-19. Yn 2021/22, cynyddodd cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol (mwy na 5 diwrnod) o gymharu â 2018/19 i'r gyfradd uchaf a welwyd yn ystod y cyfnod hwn.

**Tabl 1.2 Cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yng Nghymru i bob 1,000 o ddisgyblion – 2014/15 i 2021/22**

| Blwyddyn academaidd | Pum diwrnod neu lai | Mwy na phum diwrnod |
|---|---:|---:|
| 2014/15 | 28.01 | 1.68 |
| 2015/16 | 28.81 | 1.35 |
| 2016/17 | 32.43 | 1.80 |
| 2017/18 | 34.74 | 1.67 |
| 2018/19 | 39.10 | 1.68 |
| 2019/20 | 27.19 | 1.17 |
| 2020/21 | 26.41 | 1.07 |
| 2021/22 | 48.83 | 1.98 |

Ffynhonnell: Gwaharddiadau o Ysgolion a Gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022, Llywodraeth Cymru (2023b)

1.19 Yn gyffredinol, mae'r data hwn yn amlygu bod cyfraddau gwaharddiadau ar gyfer gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol (5 diwrnod neu lai) wedi cynyddu bob blwyddyn cyn y pandemig COVID-19 o 2014/15 i 2018/19. O gymharu â 2018/19, mae pob cyfradd gwaharddiadau wedi cynyddu ymhellach ers y pandemig COVID-19.

1.20 Yn yr un modd, mae adroddiadau lleol yn awgrymu bod cyfraddau gwahardd wedi cynyddu:

- Adroddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2023) gynnydd mewn gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol yn hydref 2022. Roedd y cyngor yn nodi bod "nifer y gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd yn dal yn rhy uchel a bod cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a'r nifer o ddyddiau a gollwyd yn rhy uchel mewn ysgolion cynradd ac uwchradd".
- Adroddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (2023) gynnydd mewn gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023, wrth gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Roeddent yn dweud hefyd fod "patrymau tebyg o gynnydd yn cael eu profi gan awdurdodau lleol ledled Cymru ar ôl COVID".

1.21 Dengys Tabl 1.3 gyfraddau cyfartalog o wahardd (i bob 1,000 o ddisgyblion) yn ôl sector ysgolion yng Nghymru yn 2021/22. Ar gyfer gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol, mae'r cyfraddau isaf, o gryn dipyn, mewn ysgolion cynradd. Ysgolion uwchradd oedd â'r cyfraddau uchaf o waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol (Llywodraeth Cymru, 2023b).

**Tabl 1.3 Cyfraddau gwahardd yng Nghymru i bob 1,000 o ddisgyblion yn ôl math o ysgol – 2021/22**

| | Parhaol | Cyfnod penodol (5 diwrnod neu lai) | Cyfnod penodol (dros 5 diwrnod) |
|---|---:|---:|---:|
| Ysgolion cynradd | 0.03 | 9.77 | 0.33 |
| Ysgolion canol | 0.89 | 95.71 | 2.40 |
| Ysgolion uwchradd | 1.40 | 101.14 | 4.31 |
| Ysgolion arbennig | 0.00 | 76.56 | 2.56 |

Ffynhonnell: Gwaharddiadau o Ysgolion a Gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022, Llywodraeth Cymru (2023b).

### Ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau gwahardd

1.22 Mae llenyddiaeth a gyhoeddwyd yn amlygu amryw o ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau gwahardd, a gallai cynnydd diweddar yn rhai o'r rhain esbonio cynnydd mewn gwaharddiadau yng Nghymru (cyn ac ar ôl COVID-19). Gellir categoreiddio'n

fras y ffactorau sy’n dylanwadu ar gyfraddau gwaharddiadau yn ffactorau cymdeithasol, a rhai sy’n ymwneud â’r ysgol, y teulu a’r plentyn.

1.23 **Ffactorau cymdeithasol:** Gall problemau cymdeithasol ehangach, megis tlodi, ansefydlogrwydd teuluol a llesiant meddwl teuluol, effeithio ar ymddygiad a llesiant plant (Kiernan a Mensah, 2009), sydd yn ei dro â’r potensial o effeithio ar gyfraddau gwahardd (Klein, Sosu a Dare, 2020). Er enghraifft, awgryma Tseliou (2021a, 2021b) fod plant sydd wedi cael eu gwahardd yn fwy tebygol o fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim, gan amlygu’r cysylltiad rhwng amddifadedd a gwaharddiadau o’r ysgol. Mae’r pandemig COVID-19 wedi cael effaith uniongyrchol ar gyfraddau gwahardd, gan arwain at ostyngiadau yn y tymor byr oherwydd ysgolion yn cau, a ddilynwyd gan godiadau serth mewn cyfraddau gwahardd. Gall y cynnydd hwn adlewyrchu llawer o wahanol resymau megis ôl-groniad o broblemau disgyblaethol, cyfnod o addasu wrth i blant ddychwelyd i ysgolion, ond hefyd resymau sylfaenol mwy cymhleth a achoswyd neu a waethygwyd gan y pandemig, megis mwy o anawsterau iechyd meddwl mewn plant a theuluoedd (Samji et al. 2022), mwy o straen a phwysau teuluol (ee mwy o ansefydlogrwydd ariannol (Gayatri a Irawaty, 2021)), ac effeithiau parhaus tarfu ar addysg neu anghydraddoldeb a brofwyd yn ystod y pandemig (Parentkind, 2023; Blundell et al. 2022). Gall fod effeithiau niweidiol y pandemig COVID-19 wedi eu cynyddu ymhellach gan yr argyfwng costau byw, sydd wedi rhoi mwy o straen ariannol a meddyliol ar unigolion (Chapman et al. 2022). Yn wir, mae Partridge et al. (2020) a’r Samariaid (2019) yn amlygu tlodi cynyddol, unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, ynghyd â chynnydd mewn salwch meddwl a niferoedd cynyddol o blant gyda gweithiwr cymdeithasol. Gall y tueddiadau a’r pwysau cymdeithasol ehangach cymhleth a rhyngweithiol hyn fod wedi cyfrannu at y cyfraddau gwahardd cynyddol mewn plant a phobl ifanc.

1.24 **Ffactorau sy’n ymwneud â’r ysgol:** Mae ffactorau sy’n dylanwadu ar gyfraddau gwahardd yn cynnwys amrywiaeth o amodau ar lefel ysgol megis arferion a gwerthoedd ysgol benodol wrth reoli ymddygiad, strwythurau hyfforddiant athrawon a chymorth arbenigol yn eu lle ar gyfer adnabod a diwallu anghenion dysgu, y graddau mae cymorth bugeiliol a phontio ar gael, a chysylltiadau effeithiol â rhieni (Partridge et al., 2020; Graham et al., 2019). Canfu Power a Taylor (2021) fod rhai

ysgolion yng Nghymru mewn sefyllfaoedd llawer gwell na'i gilydd i ddarparu'r strwythurau cymorth hyn, gyda gwell mynediad at adnoddau (lle ffisegol a staff unswydd) i'w rheoli'n fewnol.

1.25 **Ffactorau'n ymwneud â theuluoedd**: Mae tystiolaeth fod agweddau rhieni tuag at bresenoldeb yn yr ysgol wedi newid yn sylweddol yn sgil COVID-19 a ffactorau economaidd-gymdeithasol. Adroddodd Burtonshaw a Dorrell (2023) fod llawer o rieni nad ydynt mwyach yn ystyried bod pob diwrnod ysgol yn hanfodol, ac mae dirywiad wedi bod yn y berthynas rhwng ysgolion a rhieni ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol. Yn ogystal, mae cynnydd mewn iechyd meddwl, tlodi teuluol, y graddau mae gwyliau yn ystod y tymor yn cael eu derbyn, a systemau presenoldeb llym yn cyfrannu'n niweidiol at broblemau presenoldeb. Er nad yw'n archwilio gwaharddiadau ysgol yn benodol, mae presenoldeb gwael yn yr ysgol yn rhannu llawer o'r un ffactorau risg (ee bod yn agored i drais teuluol a domestig, Orr et al., 2023) a gall fod yn rhybudd cynnar o ganlyniadau gwael yn ddiweddarach.

1.26 **Ffactorau'n ymwneud â'r plentyn:** Mae gwaharddiadau'n digwydd ar gyfraddau anghymesur o uchel ymysg grwpiau penodol o blant (Llywodraeth Cymru, 2023b).

- **Bechgyn:** Yn 2021/22, cafodd bechgyn eu gwahardd o ysgolion tua dwywaith cyn amled â genethod.
- **Cefndir Ethnig:** Yn 2021/22, plant â chefndir ethnig Roma oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol byrrach (5 diwrnod neu lai), a rhai â chefndir ethnig Gwyn oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol hirach (dros 5 diwrnod). Plant â chefndir ethnig du oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau parhaol.
- **Plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim:** Yn 2021/22, roedd cyfradd gwaharddiadau ymysg plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim bron bedair gwaith yn uwch nag ymysg y rheini nad ydynt yn gymwys.
- **Plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY):** disgyblion sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol oedd â'r cyfraddau uchaf o waharddiadau yn 2021/22:

  - Roedd cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA)/ADY ADHD yn 407 i bob 1,000 o ddisgyblion.
  - Roedd cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol disgyblion sydd ag AAA/ADY anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn 394 i bob 1,000 o ddisgyblion.
  - Disgyblion sydd ag anghenion. anawsterau dysgu dwfn a lluosog sydd â'r gyfradd isaf o waharddiadau cyfnod penodol. Y disgyblion hyn yw'r unig grŵp ag AAA/ADY sydd â chyfradd is o waharddiadau na disgyblion heb AAA/ADY.
- Mae cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol wedi cynyddu ymysg y rhan fwyaf o anghenion rhwng 2018/19 a 2021/22. Fodd bynnag, mae cyfradd gwaharddiadau disgyblion sydd heb AAA/ADY wedi bron â dyblu o 16.5 i 31.4 yn yr un cyfnod.

1.27 Mae ymchwil yn amlygu ymhellach gysylltiadau rhwng bregusrwydd gwybyddol, emosiynol ac economaidd-gymdeithasol mewn plant sydd â risg uwch a thebygolrwydd uwch o wahardd o'r ysgol:

- **Iechyd meddwl a llesiant:** Canfu John et al. (2022) fod unigolion sydd â hanes o anhwylder niwroddatblygiadol, anhwylder meddwl neu hunan-niweidio yn fwy tebygol o fod yn absennol neu o gwael eu gwahardd, a chanfu ymchwil a gyflawnwyd fel rhan o HeadStart (Lereya a Deighton, 2019) fod plant a gafodd eu gwahardd â sgoriau is am lesiant cadarnhaol o gymharu â'r rheini na chafodd eu gwahardd. Canfu Tseliou (2021c) fod, rhwng 2011/12 a 2018/19 yng Nghymru, plant ag anghenion iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod wedi cael eu gwahardd na'r rheini heb anghenion o'r fath.
- **Anawsterau cymdeithasol ac emosiynol:** Canfu Graham et al. (2019) fod anghenion cymdeithasol ac emosiynol yn un o'r amryw o fathau o fregusrwydd sy'n cynyddu risg plentyn o waharddiad. Canfu Lereya and Deighton (2019) hefyd fod plant a gaiff eu gwahardd yn adrodd yn aml ganfyddiadau o straen uwch, lefelau is o empathi a gallu salach i ddatrys problemau, gosod nodau a rheoli emosiynau na'r rheini na chafodd eu gwahardd.

- **Ymddygiadol:** Roedd Lereya a Deighton (2019) yn nodi bod plant a gafodd eu gwahardd o ysgolion sgoriau uwch am anawsterau ymddygiadol, anawsterau gyda'u canolbwyntio a pherthynas gyda chymheiriaid.
- **Mathau lluosog o ADY**: Canfu Tseliou (2022) fod cyfan uwch o waharddiadau cyfnodau penodol hirach a gwaharddiadau parhaol wedi eu cofnodi ymysg plant sydd â mathau lluosog o ADY, sy'n awgrymu y gallai plant ag anghenion cymhleth fod yn profi mwy o darfu ar eu haddysg.
- **Tlodi a bywydau anodd yn y cartref**: Canfu Graham et al. (2019) a Gill (2017) fathau penodol o fregusrwydd sy'n cynyddu risg plentyn o waharddiad. Mae'r rhain yn cynnwys tyfu i fyny mewn tlodi, trawma bywyd megis profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, bod â gweithiwr cymdeithasol a heriau mewn bywyd gartref.

**Pam fod plant yn cael eu gwahardd?**

1.28 Dengys data Llywodraeth Cymru (2023b) mai'r rheswm mwyaf cyffredin roddir dros bob gwaharddiad (pob gwaharddiad, o bob hyd, cyfnod penodol a pharhaol) yn 2021/22 'ymddygiad sy'n tarfu'n barhaus ar eraill', sy'n cyfrif am fymryn o dan chwarter yr holl waharddiadau. Yr ail reswm mwyaf cyffredin oedd 'cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn' ar 20 y cant o'r holl waharddiadau.

1.29 O edrych ar fathau penodol o waharddiadau:

- 'Ymddygiad sy'n tarfu'n barhaus ar eraill' oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai ar 25.0 y cant o'r gwaharddiadau hynny.
- 'Ymosodiad corfforol yn erbyn disgybl' oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu fwy, gan gyfrif am 25.4 y cant o'r gwaharddiadau hynny.
- Y rheswm mwyaf cyffredin dros waharddiadau parhaol oedd 'ymosodiad corfforol yn erbyn disgybl' ar 22.7 y cant o'r gwaharddiadau hynny.

**Strwythur yr adroddiad**

1.30 Mae gweddill yr adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- **Methodoleg:** Cyflwyno nodweddion y samplau a'r dulliau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwil, gan amlinellu'r dull ar gyfer: yr adolygiad llenyddiaeth,

cyfweliadau cwmpasu, arolwg ysgolion/unedau cyfeirio disgyblion, cyfweliadau gyda staff awdurdodau lleol, staff ysgolion, rhieni a phlant.

- **Canfyddiadau'r ymchwil: materion cyd-destunol ynghylch y system bresennol.** Amlinellu materion a amlygwyd gan y rhai a gyfwelwyd sy'n rhoi cyd-destun i'r arferion a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiad cyfnod penodol a pharhaol.
- **Canfyddiadau'r ymchwil: arferion a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiad.** Disgrifio'r arferion a ddefnyddir i adnabod plant sydd mewn risg o waharddiad a'r rheini a ddefnyddir i rwystro gwaharddiad yng Nghymru.
- **Canfyddiadau'r ymchwil: arferion i gynnal cyswllt yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol.** Trafod y cyfathrebu gyda'r plentyn a'i rieni a gwirio a monitro gwaith ysgol.
- **Canfyddiadau'r ymchwil: arferion i gefnogi ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad cyfnod penodol.** Gan gynnwys y dulliau a ddefnyddir yn ystod cyfarfodydd ailintegreiddio a deialog rheolaidd gyda'r plentyn a'i rieni.
- **Cymorth sydd ei angen i rwystro gwaharddiadau, cynnal cydweithrediad a helpu ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd.** Disgrifio'r cymorth amrywiol y dywedodd rhanddeiliaid y byddai'n ddefnyddiol.
- **Casgliadau ac argymhellion.** Nodi'r casgliadau o'r adolygiad hwn ac amlinellu argymhellion a allai fod yn effeithiol wrth rwystro gwaharddiadau, cynnal cydweithrediad a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd.

1.31 Tri atodiad sy'n cynnwys:

- **Fframwaith yr ymchwil.** Y cwestiynau manwl i'w harchwilio drwy'r ymchwil.
- **Offerynnau'r ymchwil.** Canllawiau pwnc a holiaduron a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil.
- **Canfyddiadau'r ymchwil: adolygiad llenyddiaeth.** Trafod yr ymchwil sydd ar gael ar ddulliau ac ymyraethau i leihau gwahardd a thystiolaeth o'u heffeithiolrwydd.

**Arddulliau adrodd**

1.32 Defnyddir y gair 'rhiant' drwy gydol yr adroddiad hwn i gynnwys rhieni a gofalwyr. Mae'r term 'prifathro' yn cynnwys 'athrawon sy'n gyfrifol' am unedau cyfeirio disgyblion. Mae'r term ysgol 'ganol' yn cynnwys ysgolion 'pob oed'.

# 2. Methodoleg

### Cyflwyniad

2.1 Dechreuodd yr ymchwil (adolygiad llenyddiaeth a chyfweliadau cwmpasu) ym mis Mawrth 2023. Cyflawnwyd y gwaith maes rhwng misoedd Ebrill a Gorffennaf 2023. Roedd yr ymchwil yn cynnwys:

- Adolygiad llenyddiaeth.
- Cyfweliadau cwmpasu gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol.
- Arolwg ysgolion (ffurflen) i recriwtio ysgolion ar gyfer gwaith maes.
- Cyfweliadau gyda swyddogion cynhwysiant awdurdodau lleol.
- Cyfweliadau gydag uwch arweinwyr, athrawon a staff bugeiliol mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.
- Cyfweliadau gyda phlant a oedd wedi bod mewn risg o waharddiad neu a oedd wedi profi gwaharddiad.
- Cyfweliadau gyda rhieni plant a oedd wedi bod mewn risg o waharddiad neu a oedd wedi profi gwaharddiad.

2.2 Y cwestiynau ymchwil oedd:

- Pa strategaethau neu ddulliau y bernir eu bod o gymorth cadarnhaol i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a/neu barhaol i blant mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, a sut maent yn gwneud hyn?
- A oes strategaethau neu ddulliau y bernir eu bod o gymorth cadarnhaol i rwystro gwaharddiadau o ysgolion o gwmpas adegau penodol mewn addysg plentyn?
- I blant sydd wedi profi gwaharddiadau cyfnod penodol, pa strategaethau neu ddulliau y bernir eu bod o gymorth cadarnhaol i rwystro gwaharddiadau pellach, gan gynnwys gwaharddiadau parhaol, a pham?
- Pa strategaethau neu ddulliau y bernir eu bod yn effeithiol wrth gynnal cysylltiad a chydweithrediad cadarnhaol gyda phlant sydd wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol, a pham?
- Pa strategaethau neu ddulliau y bernir eu bod yn effeithiol ac o gymorth cadarnhaol i ailintegreiddio plant sydd wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol i addysg brif ffrwd, a pham?

- Sut gellir cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, a phwy ddylai wneud hynny, i helpu plant a'u rhieni i osgoi gwaharddiadau?
- Sut gellir cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i hwyluso dychweliad plant sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol i addysg brif ffrwd?

2.3 Roedd fframwaith ymchwil yn pennu'r cwestiynau manwl i'w harchwilio drwy'r ymchwil (Atodiad A). Cafodd yr holl offerynnau ymchwil, megis canllawiau pwnc, eu datblygu a'u cadarnhau gan reolwr y contract a thîm polisi Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad B). Trefnwyd bod yr holl offerynnau ymchwil, taflenni gwybodaeth a hysbysiadau preifatrwydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**Adolygiad llenyddiaeth**

2.4 Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn Atodiad C yn trafod ymyraethau ac arferion a all helpu i rwystro gwaharddiadau. Cyflawnwyd yr adolygiad gam wrth gam rhwng misoedd Mawrth a Medi 2023. Caiff y termau ymchwil gwreiddiol a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad eu dangos isod (lle bo'n briodol, ychwanegwyd at y rhain gyda '+ exclusion' a '+ Wales'). Wrth i ganfyddiadau ddechrau dod i'r amlwg o'r ymchwil uniongyrchol, ehangwyd cwmpas yr adolygiad er mwyn sicrhau bod yr ymyraethau a'r dulliau a grybwyllwyd yn yr ymchwil uniongyrchol yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad llenyddiaeth hefyd. Cafodd y cwmpas ei ehangu ymhellach wedyn i ystyried effeithiau anuniongyrchol yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol yr ymyraethau ar waharddiadau. Roedd hyn yn golygu ystyried llenyddiaeth a oedd yn archwilio effaith ymyraethau ac arferion ar yr hyn y gwyddom sy'n ffactorau risg gwaharddiad (llesiant cymdeithasol ac emosiynol, ymddygiad heriol etc.).

| Termau ymchwil gwreiddiol a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth | | |
|---|---|---|
| School exclusion | Permanent exclusion | Fixed-term exclusion |
| Alternative provision | Education otherwise than at school / EOTAS | Practices to prevent school exclusion |
| Interventions to prevent school exclusion | Preventing school exclusion | School exclusion case studies |
| Pupil Referral Unit exclusion | Reintegration after exclusion | Managed move |
| Alternative provision and mainstream school | Reasons for school exclusion | Additional learning needs |
| Pastoral support programme | Whole-school approach to exclusion | Hidden exclusion |
| Pastoral support plan | Illegal moves school exclusion | Counselling in school |
| Classroom exclusion | Nurture group | Therapeutic approaches in school |
| Mentoring in school | Emotional Literacy Support Assistant | Trauma-informed practice |
| Social and emotional skills development | Reduced timetable | Person-centred practice[4] |

2.5 Defnyddiwyd Google a Google Scholar i ganfod deunydd perthnasol i'w gynnwys yn yr adolygiad. Defnyddiwyd cronfeydd data academaidd a ffynonellau cyfnodolion hefyd, gan gynnwys Mynegai Addysg Prydain, yr International Education Journal a'r Cambridge Journal of Education.

2.6 Cytunwyd rhwng yr ymchwilwyr a thîm y cleientiaid yn Llywodraeth Cymru mai'r prif feini prawf ar gyfer cynnwys gweithiau (yn ogystal â pherthnasedd y pwnc) fyddai eu bod:

- Wedi eu hysgrifennu yn Saesneg.
- Wedi eu cyhoeddi ddim cynt na 2010. Noder, fodd bynnag, fod y maen prawf hwn wedi cael ei lacio yn ystod yr adolygiad i alluogi'r tîm ymchwil i weithredu eu doethineb ar y maen prawf hwn gan iddi ddod yn amlwg fod amryw o adroddiadau/papurau allweddol wedi cael eu cyhoeddi cyn 2010. Os oedd yr

[4] Ffordd o gydweithio a chyfathrebu'n gadarnhaol yw arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion (person-centred practice), gyda'r plentyn yng nghanol y broses. Dylai fod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn fod yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau. Gweler y ddolen am fwy o fanylion: Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn addysg yng Nghymru

adroddiadau/papurau hyn, ym marn yr ymchwilwyr, yn berthnasol i nodau'r adolygiad, ac yn arbennig os oeddent yn ymdrin â phwnc neu bynciau lle'r oedd tystiolaeth a gyhoeddwyd yn fwy diweddar yn brin, yna penderfynwyd eu cynnwys (cafodd 22 o'r 188 o gyfeiriadau eu cyhoeddi cyn 2010).

- Yn canolbwyntio ar arferion neu ymchwil yng Nghymru, rhywle arall yn y Deyrnas Unedig neu mewn gwledydd sydd â systemau addysg cymharol, megis Unol Daleithiau America, Awstralia neu Seland Newydd.

2.7 Edrychwyd ar fwy na 200 o ffynonellau, gan gynnwys 188 ohonynt yn yr adolygiad. Cafodd ffynonellau eu gadael allan naill ai oherwydd nad oeddent ond yn cyfeirio'n gyfyngedig iawn ar bwnc yr adolygiad, neu eu bod wedi cael eu cynhyrchu gan sefydliadau sydd â budd masnachol mewn ymyraethau penodol.

2.8 Caiff y 188 o ffynonellau a ddefnyddir yn yr adolygiad eu rhestru yn y llyfryddiaeth ar ddiwedd yr adroddiad. Caiff eu nodweddion allweddol eu crynhoin yn Nhablau 2.1 i 2.3.

**Tabl 2.1 Math o ffynhonnell**

| Math o ffynhonnell | Nifer o ffynonellau |
|---|---|
| Adroddiad | 54 |
| Tudalen we neu bostiad blog | 21 |
| Erthygl mewn cyfnodolyn | 74 |
| Canllawiau neu ddogfen bolisi | 31 |
| Traethawd neu thesis | 6 |
| Llyfr | 1 |
| Astudiaeth achos | 1 |

Ffynhonnell: Adolygiad llenyddiaeth York Consulting, Medi 2023.

**Tabl 2.2 Daearyddiaeth**

| Daearyddiaeth | Nifer o ffynonellau |
|---|---|
| Cymru | 49 |
| Lloegr | 65 |
| Y Deyrnas Unedig | 33 |
| Unol Daleithiau America | 24 |
| Yr Alban | 5 |
| Awstralia | 1 |
| Iwerddon | 2 |
| Yr Eidal | 1 |
| Amryw o wledydd | 3 |
| Sweden | 1 |
| Heb ei nodi | 4 |

Ffynhonnell: Adolygiad llenyddiaeth York Consulting, Medi 2023.

**Tabl 2.3 Cyfnod addysg**

| Cyfnod | Nifer o ffynonellau |
|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | 17 |
| Cynradd | 107 |
| Uwchradd | 125 |
| Heb ei nodi | 38 |

Ffynhonnell: Adolygiad llenyddiaeth York Consulting, Medi 2023.

Noder: Mae niferoedd yn ffurfio cyfanswm o fwy na 178 gan fod llawer o'r ffynonellau'n ymdrin â mwy nag un cyfnod addysg

.

*Terminoleg*

2.9 Drwy gydol yr adolygiad, mae 'ysgolion' yn cyfeirio at ysgolion a gynhelir ac nid at ysgolion annibynnol neu cholegau chweched dosbarth (gan eu bod yn penderfynu eu gweithdrefnau gwahardd eu hunain).

2.10 Mewn llawer o achosion, mae'r llenyddiaeth a gynhwysir yn yr adolygiad yn cyfeirio at 'waharddiadau' yn unig ac nid yw'n gwahaniaethu rhwng gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol. Am y rheswm hwnnw, mae cyfeiriadau niferus at waharddiadau yn y papur hwn lle nad yw wedi bod yn bosibl gwahaniaethu rhwng gwaharddiadau parhaol a rhai cyfnod penodol.

**Cyfweliadau cwmpasu gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol**

2.11 Nod y cyfweliadau cwmpasu oedd helpu'r dull samplu, rhoi gwybodaeth i'r timau chwilio ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth a datblygu themâu ar gyfer cyfweliadau diweddarach. Crewyd y sampl wrth drafod gyda swyddogion ymchwil a pholisi Llywodraeth Cymru er mwyn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau a rhwydweithiau ymgynghorol perthnasol.

2.12 Mae'r canllawiau pwnc wedi eu cynnwys yn Atodiad B. Parhaodd y cyfweliadau am rhwng 52 munud a 75 munud. Cynigiwyd dewis i gyfranogwyr gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg; dewisodd pawb gymryd rhan drwy gyfrwng y Saesneg.

2.13 Cynhaliwyd cyfanswm o 14 o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethnol a lleol rhwng misoedd Ebrill a Mai 2023 (Tabl 2.4).

**Tabl 2.4 Cyfweliadau cwmpasu**

| Rhanbarth | Nifer a gyfwelwyd |
|---|---|
| Awdurdodau lleol | 5 |
| Rhanddeiliaid cenedlaethol[5] | 4 |
| Consortia addysg | 2 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 2 |
| Ysgol | 1 |
| Cyfanswm | 14 |

Ffynhonnell: Data cyfweliadau York Consulting, Gorffennaf 2023.
Sail: Cyfwelwyd â 14.

*Dadansoddi*

2.14 Dadansoddwyd y cyfweliadau cwmpasu gan ddefnyddio dadansoddi thematig gyda meddalwedd dadansoddi data ansoddol NVivo. Cafodd yr adroddiadau ar y tri chyfweliad cyntaf eu codio gan ymchwilydd a'u trafod gyda rheolwr y prosiect i ddatblygu fframwaith codio. Unwaith y cytunwyd ar hyn, cafodd gweddill y cyfweliadau eu codio gan un aelod o'r tîm ymchwil, gydag ansawdd sampl yn cael ei asesu gan ail ymchwilydd. Cafodd y fframwaith codio ei ddiwygio wrth i'r codio ddatblygu i gynnwys codau newydd i gyfleu barn cyfranogwyr yn gywir. Wrth

[5] Mae enwau sefydliadau wedi cael eu dal yn ôl.

gwblhau'r codio, datblygodd y tîm ymchwil themâu allweddol a oedd yn ymdrin â chwestiynau ymchwil yr astudiaeth.

*Cryfderau a chyfyngiadau*

2.15 Roedd y cyfweliadau cwmpasu yn werthfawr wrth ddatblygu themâu a chwestiynau ar gyfer y gwaith maes oedd i ddod, gan alluogi archwilio trylwyr o amrywiol bersbectifau. Er bod y nifer llai o gyfweliadau yn hwyluso ymdrin mewn dyfnder â materion allweddol, gallai sampl mwy fod wedi darparu safbwyntiau mwy amrywiol. Fodd bynnag, gallai'r broses ddewis rhanddeiliaid fod wedi colli rhai barnau a phrofiadau hanfodol.

**Arolwg ysgolion**

2.16 Nod yr arolwg ar-lein (ffurflen fer) oedd adnabod ysgolion posibl i'w cynnwys yn y gwaith maes ansodd a chael rhai atebion i bum cwestiwn cyffredinol. Lluniwyd yr arolwg i'w gwblhau gan staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n ymwneud â gwaharddiadau neu â chefnogi plant i osgoi gwaharddiad o'r ysgol, er enghraifft, aelodau o'r uwch dîm rheoli ac arwain, cydgysylltwyr anghenion dysgu ychwanegol ac arweinwyr llesiant. Datblygwyd yr arolwg (Atodiad B) gyda rheolwr y contract, o dîm polisi Llywodraeth Cymru, ac fe'i cadarnhawyd ganddo.

2.17 Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac fe'i darparwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Oherwydd y raddfa amser fer ar gyfer cynnal yr adolygiad, nid oedd yn bosibl treialu'r arolwg.

2.18 Rhannwyd yr arolwg gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru trwy gylchlythyr newyddion Mai 2023 Dysg[6] ar ar lwyfan Hwb[7]. Roedd rhai rhanddeiliaid awdurdodau lleol a gyfwelwyd wedi rhannu'r arolwg yn uniongyrchol hefyd ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn eu rhwydwaith. Roedd yr arolwg yn fyw o 4 Mai 2023 hyd 1 Gorffennaf 2023.

[6] Dysg yw'r e-gylchlythyr addysg swyddogol gan Lywodraeth Cymru i ysgolion sy'n ymwneud â'r sectorau cyn-11 ac ôl-11 .
[7] Trwy Hwb, mae Llywodraeth Cymru'n darparu gwasanaethau dwyieithog, digidol, i bob ysgol a gynhelir i gefnogi dysgu ac addysgu trwy'r Cwricwlwm i Gymru.

2.19 Crewyd hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg, a rannwyd ynghyd â dolen yr arolwg. Derbyniwyd cyfanswm o 37 o ymatebion i'r arolwg ysgolion (Tabl 2.5). Nid oedd nifer targed o ymatebion wedi cael ei osod.

**Tabl 2.5 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg ysgolion yn ôl rôl yr ymatebydd**

| Rôl yr ymatebydd | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| Prifathro neu brifathro dros dro | 24 |
| Prifathro cynorthwyol | 5 |
| Dirprwy brifathro | 5 |
| Pennaeth adran | 1 |
| Cadeirydd llywodraethwyr | 1 |
| Swyddog cyswllt rhieni | 1 |
| Cyfanswm | 37 |

Ffynhonnell: Data arolwg York Consulting, Gorffennaf 2023.

Sail: 37 o ymatebwyr i'r arolwg ysgolion.

2.20 Gofynnwyd i ymatebwyr roi eu cyfeirnod ID ysgol i alluogi cyfateb â data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgybl (CYBLD) a data Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Gwnaed hyn er mwyn lleihau'r baich o ofyn cwestiynau ynghylch nodweddion ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Rhoddodd mwyafrif yr ymatebwyr (34) eu cyfeirnod ID ysgol, er bod tri achos lle na roddwyd hyn.

2.21 O ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd y deuai mwyafrif ymatebwyr yr arolwg. (Tabl 2.6). Fodd bynnag, roedd ysgolion cynradd wedi eu tan-gynrychioli.

**Tabl 2.6 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg ysgolion yn ôl math o ysgol**

| Math o ysgol | Nifer o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion |
|---|---|
| Ysgol uwchradd | 16 |
| Ysgol gynradd | 11 |
| Ysgol ganol | 5 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 2 |
| Anhysbys | 3 |
| Cyfanswm | 37 |

Ffynhonnell: Data arolwg York Consulting, Gorffennaf 2023.

Sail: 37 o ymatebwyr i'r arolwg ysgolion.

2.22 Ysgolion cyfrwng Saesneg oedd mwyafrif yr ymatebwyr i’r arolwg ac roedd pedair yn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog (Tabl 2.7).

**Tabl 2.7 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i’r arolwg ysgolion yn ôl iaith cyfrwng**

| Iaith yr ysgol | Nifer o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion |
|---|---|
| Cyfrwng Saesneg | 28 |
| Cyfrwng Cymraeg/dwyieithog | 4 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 2 |
| Anhysbys | 3 |
| Cyfanswm | 37 |

Ffynhonnell: Data arolwg York Consulting, Gorffennaf 2023.
Sail: 37 o ymatebwyr i’r arolwg ysgolion.

2.23 Roedd ymatebwyr i’r arolwg yn dod o bod un o ranbarthau Cymru. Dangosir dadansoddiad o’r ysgolion yn ôl rhanbarth yn Nhabl 2.8.

**Tabl 2.8 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i’r arolwg ysgolion yn ôl rhanbarth**

| Rhanbarth | Nifer o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion |
|---|---|
| Canol De Cymru | 5 |
| Gogledd Cymru | 11 |
| De-Ddwyrain Cymru | 6 |
| De-Orllewin a Chanolbarth Cymru | 12 |
| Anhysbys | 3 |
| Cyfanswm | 37 |

Ffynhonnell: Data arolwg York Consulting, Gorffennaf 2023.
Sail: 37 o ymatebwyr i’r arolwg ysgolion.

2.24 Roedd yr ysgolion a ymatebodd i’r arolwg yn tueddu i fod y rheini sydd â chyfrannau uwch o blant yn gymwys am brydau ysgol am ddim na’r cyfartaledd ar gyfer pob ysgol ledled Cymru (Tabl 2.9).

**Tabl 2.9 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn ymateb i’r arolwg ysgolion yn ôl chwarteli cymhwysedd am brydau ysgol am ddim**

| Chwarteli | Nifer o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion |
|---|---|
| Chwartel cyntaf 32.4% i 85.7% (lefelau uchaf o ddisgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim) | 9 |
| Ail chwartel 20.1% i 32.3% | 12 |
| Trydydd chwartel 12.0% i 20.0% | 5 |

| | |
|---|---|
| Pedwerydd chwartel 0% i 11.9% (lefelau isaf o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim) | 6 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 2 |
| Anhysbys | 3 |
| Cyfanswm | 37 |

Ffynhonnell: Data arolwg York Consulting, Gorffennaf 2023. Mae amrediadau'r chwartelau yn deillio o CYBLD, Chwefror 2022.

Sail: 37 o ymatebwyr i'r arolwg ysgolion.

2.25 Roedd yr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg yn tueddu i fod y rheini sydd â chyfrannau uwch o blant ag ADY na chyfartaledd yr holl ysgolion ledled Cymru (Tabl 2.10).

**Tabl 2.10 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg ysgolion yn ôl chwarteli ADY**

| Chwarteli ADY | Nifer o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion |
|---|---|
| Chwartel cyntaf 21.9% i 100% (lefelau uchaf o ddisgyblion ADY) | 13 |
| Ail chwartel 13.7% i 21.8% | 12 |
| Trydydd chwartel 8.2% i 13.7% | 5 |
| Pedwerydd chwartel 0% i 8.1% (lefelau isaf o ddisgyblion ADY) | 2 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 2 |
| Anhysbys | 3 |
| Cyfanswm | 37 |

Ffynhonnell: Data arolwg York Consulting, Gorffennaf 2023. Mae amrediadau'r chwartelau yn deillio o CYBLD, Chwefror 2022.

Sail: 37 o ymatebwyr i'r arolwg ysgolion.

*Dadansoddi*

2.26 Cysylltwyd data ysgol i ymatebion i'r arolwg lle'r oedd yr ymatebydd wedi rhoi cyfeirnod ID ysgol dilys. Dadansoddwyd data disgrifiadol ar ddata'r arolwg trwy ddefnyddio Excel i archwilio amlder ymatebion.

*Cryfderau a chyfyngiadau*

2.27 Er bod y gyfradd ymateb i'r arolwg yn isel, roedd data'r arolwg yn gyffredinol ar draws y rhan fwyaf o gategorïau, yn enwedig o ran cael sampl digonol o ysgolion sydd â lefelau uwch o gymhwysedd am brydau ysgol am ddim a ADY. Cafodd ei ddefnyddio ar gyfer gwahodd ysgolion i gymryd rhan yn y prif waith maes. Roedd cyfyngiadau. Ni roddodd pob ymatebydd rif ysgol, a oedd yn golygu na ellid cyfateb

eu data. O gymharu â'r gyfran o ysgolion sydd â'r nodweddion hyn, roedd llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog nag ysgolion Saesneg a llai o ysgolion yng Nghanol De Cymru a De-Ddwyrain Cymru, na rhanbarthau eraill. Roedd cyfanswm o wyth o ymatebwyr na chytunodd i gymryd rhan yn yr ymchwil dilynol a gallent fod wedi cynnig persbectif gwahanol. Roedd yr amrywiaeth o ysgolion yn helpu i gyrraedd y rhan fwyaf o dargedau'r sampl ar gyfer dewis ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn y fframwaith ansoddol.

**Cyfweliadau gyda swyddogion cynhwysiant awdurdodau lleol**

2.28 Nod y cyfweliadau gyda swyddogion cynhwysiant awdurdodau lleol oedd ennill dealltwriaeth o arferion i rwystro gwaharddiadau ar draws ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion o fewn ardaloedd awdurdodau lleol dethol a chanfod ysgolion posibl i'w cynnwys yn y gwaith maes ansoddol. Rhannwyd gwahoddiad gan Lywodraeth Cymru i gymryd rhan yn yr ymchwil gyda staff o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol trwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

2.29 Mae'r canllawiau pwnc i'w gweld yn Atodiad B. Roedd cyfweliadau'n parhau rhwng 56 munud ac 80 munud. Roedd cyfranogwyr yn cael cynnig dewis cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a dewisodd ddau gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhannwyd hysbysiad preifatrwydd gydag ymatebwyr cyn y cyfweliad.

Cyfwelwyd cyfanswm o 20 o staff o 15 o awdurdodau lleol, yn bennaf swyddogion cynhwysiant awdurdodau lleol ac aelodau eraill o staff sy'n ymwneud â gwaharddiadau o ysgolion, rhwng misoedd Mai a Mehefin 2023 (Tabl 2.11).

**Tabl 2.11 Cyfweliadau ag Awdurdodau Lleol yn ôl rhanbarthau Cymru**

| Rhanbarth | Nifer o awdurdodau lleol | Nifer a gyfwelwyd |
|---|---:|---:|
| Canol De Cymru | 4 | 6 |
| Gogledd Cymru | 4 | 3 |
| De-Ddwyrain Cymru | 2 | 3 |
| De-Orllewin a Chanolbarth Cymru | 5 | 8 |
| Cyfanswm | 15 | 20 |

Cyfanswm: Data York Consulting, Gorffennaf 2023.

Sail: 20 a gafodd eu cyfweld.

*Dadansoddi*

2.30 Dadansoddwyd y cyfweliadau gyda swyddogion cynhwysiant awdurdodau lleol trwy ddefnyddio dadansoddiad thematig gyda meddalwedd dadansoddi data ansoddol NVivo. Cafodd adroddiadau'r tri chyfweliad cyntaf eu codio gan ymchwilydd a'u trafod gydag ail ymchwilydd i ddatblygu fframwaith codi. Roedd y fframwaith yn cynnwys codau a oedd yn mapio ar gwestiynau ymchwil yr astudiaeth. Unwaith y cytunwyd ar hyn cafodd gweddill y cyfweliadau eu codio gan un aelod o'r tîm ymchwil, gydag ansawdd sampl yn cael ei asesu gan ail ymchwilydd. Cafodd y fframwaith codio ei ddiwygio wrth i'r codio ddatblygu i gynnwys codau newydd i gyfleu safbwyntiau cyfranogwyr yn gywir. Wrth gwblhau'r codio, roedd y tîm ymchwil yn datblygu themâu allweddol a oedd yn ymdrin â chwestiynau ymchwil yr astudiaeth.

*Cryfderau a chyfyngiadau*

2.31 Helpodd y cyfweliadau cwmpasu i ddatblygu themâu a chwestiynau i'r gwaith maes dilynol. Trwy'r dull cyfweld roedd yn bosibl archwilio safbwyntiau o amrywiol bersbectifau mewn dyfnder. Fodd bynnag, nid oedd pob awdurdod lleol yn gallu cymryd rhan mewn cyfweliad, a gallent fod wedi cynnig bersbectifau gwahanol.

**Cyfweliadau gyda staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion**[8]

2.32 Nod y cyfweliadau gyda staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion oedd deall sut roeddent yn rhwystro gwaharddiadau o ysgolion, ac archwilio pa gymorth sydd ar ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, plant a theuluoedd ei angen i osgoi gwaharddiadau a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd.

2.33 Cafodd ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion eu dewis ar gyfer cyfweliadau ar sail meini prawf y sampl targed (gweler Tabl 2.14), law yn llaw â dyfarniad gwerthusol o dull yr ysgolion a'u llwyddiant canfyddedig wrth rwystro gwaharddiadau o ysgolion yn ôl gwybodaeth o drafodaethau gyda staff awdurdodau lleol (lle'r enillwyd yr wybodaeth hyn trwy gyfweliadau â staff awdurdodau lleol). Y nod oedd cael cynrychiolaeth dda o ysgolion y canfyddid eu bod yn gwneud yn dda a rhai nad oeddent yn gwneud yn dda. Cyfatebwyd ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion â

[8] Gweler atodiad B am y canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweliadau.

meini prawf y sampl o blith y rheini a oedd yn cytuno i gymryd rhan drwy'r arolwg ysgolion a thrwy atgyfeiriadau gan staff awdurdodau lleol. Cytunodd dros dri chwarter o ymatebwyr yr arolwg (29 allan o 37) i gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol. Crewyd hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, a rannwyd gydag ymatebwyr cyn eu cyfweld.

2.34 Y cyntaf i gael ei gyfweld ym mhob ysgol neu uned cyfeirio disgyblion oedd prifathro neu uwch arweinydd. Gofynnwyd i'r cysylltiadau hyn wedyn i'n cyflwyno ni i staff eraill perthnasol sydd â rolau cysylltiedig â rhwystro gwaharddiad.

2.35 Digwyddodd cyfweliadau gyda staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion rhwng misoedd Mehefin a Gorffennaf 2023. Dengys Tabl 2.12 y dadansoddiad o'r 23 o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd yn ôl math. Cwblhawyd cyfweliadau trwy gyfuniad o ddulliau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mewn rhai achosion, cwblhawyd sawl cyfweliad gydag unigolion o'r un ysgol neu uned cyfeirio disgyblion/

**Tabl 2.12 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd yn ôl math**

| Math | Nifer o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion | NIfer a gyfwelwyd |
|---|---|---|
| Uned cyfeirio disgyblion | 6 | 10 |
| Cynradd | 4 | 5 |
| Canol | 4 | 9 |
| Uwchradd | 9 | 16 |
| Cyfanswm | 23 | 40 |

Ffynhonnell: Data York Consulting, Gorffennaf 2023.
Sail: 40 o gyfweliadau.

2.36 Roedd staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gafodd eu cyfweld yn cynnwys 15 o brifathrawon, 10 o brifathrawon cynorthwyol neu ddirprwy brifathrawon a 15 o staff eraill gan gynnwys cydgysylltwyr ADY, arweinwyr cynhwysiant, swyddogion bugeiliol, swyddogion arweiniol ymddygiad a rolau eraill. Profodd yn angenrheidiol siarad gyda mwy o staff nag a fwriadwyd o fewn pob ysgol neu uned cyfeirio disgyblion i ennill dealltwriaeth lawn o'u dull o wahardd. Dengys Tabl 2.13 y dadansoddiad o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd a'r cyfanswm a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth.

**Tabl 2.13 Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd yn ôl rhanbarth**

| Rhanbarth | Nifer o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion | Nifer a gyfwelwyd |
|---|---|---|
| Canol De Cymru | 4 | 8 |
| Gogledd Cymru | 6 | 7 |
| De-Ddwyrain Cymru | 5 | 7 |
| De-Orllewin a Chanolbarth Cymru | 8 | 18 |
| Cyfanswm | 23 | 40 |

Ffynhonnell: Data York Consulting, Gorffennaf 2023.

Sail: 40 o gyfweliadau.

2.37 Roedd y sampl y llwyddwyd i'w gael yn gyffredinol unol â'r gynrychiolaeth a drefnwyd ar draws newidynnau allweddol (Tabl 2.14). Roedd un ysgol yn llai nag a fwriadwyd yng Nghanol De Cymru a llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog nag a fwriadwyd ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd ysgolion sydd â lefelau uchel ac isel o blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant ag ADY wedi eu cynrychioli'n briodol yn y sampl. Mae'r ymchwil yn gwyro ychydig tuag at Dde-Orllewin a Chanolbarth Cymru (er bod yr adborth yn gyson ar draws ardaloedd daearyddol).

**Tabl 2.14 Nodweddion sampl ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn ôl niferoedd targed a gwirioneddol**

| **Nodweddion** | **Targed** | **Gwirioneddol** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 20 | 23 |
| Daearyddiaeth: | | |
| • Canol De Cymru | 5 | 4 |
| • Gogledd Cymru | 5 | 6 |
| • De-Ddwyrain Cymru | 5 | 5 |
| • De-Orllewin a Chanolbarth Cymru | 5 | 8 |
| Natur wledig: | | |
| • Trefol | 10 | 10 |
| • Gwledig | 10 | 13 |
| Math o leoliad: | | |
| • Ysgolion cynradd | 4 | 4 |
| • Ysgolion canol | 2 | 4 |
| • Ysgolion uwchradd | 8 | 9 |
| • Unedau cyfeirio disgyblion | 6 | 6 |
| Iaith (ysgolion cynradd): | | |
| • Saesneg | 2 | 4 |
| • Cyfrwng Cymraeg | 2 | 0 |
| Iaith (ysgolion canol ac uwchradd): | | |
| • Saesneg gyda Chymraeg sylweddol | 3 | 1 |
| • Cyfrwng Saesneg | 3 | 7 |
| • Cyfrwng Cymraeg | 1 | 3 |
| • Dwyieithog (Categori A) | 0 | 2 |
| • Dwyieithog (Categori B) | 1 | 0 |
| • Dwyieithog (Categori C) | 1 | 0 |
| • Dwyieithog (Categori Ch) | 1 | 0 |
| Cymhwysedd am brydau ysgol am ddim [1]: | | |
| • 1 - 32.4% i 85.7% | - | 4 |
| • 2 - 20.1% i 32.3% | - | 4 |
| • 3 - 12.0% i 20.0% | - | 5 |
| • 4 - 0% i 11.9% | - | 4 |
| ADY [1]: | | |
| • 1 - 21.8% i 100% | - | 5 |
| • 2 - 13.7% i 21.8% | - | 7 |
| • 3 - 8.1% i 13.7% | - | 3 |
| • 4 - 0% i 8.1% | - | 2 |

Ffynhonnell: Data York Consulting, Gorffennaf 2023. Targedau'n deillio o ddata CYBLD, Chwefror 2022.
Sail: 23 o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Noder [1]: nid oedd data cymhwysedd am brydau ysgol am ddim ac ADY ar gael ar gyfer y chwe uned cyfeirio disgyblion.

*Dadansoddi*

2.38 Dadansoddwyd y cyfweliadau gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion trwy ddefnyddio dadansoddiad thematig gyda meddalwedd dadansoddi data ansoddol NVivo. Cafodd adroddiadau'r tri chyfweliad cyntaf eu codio gan ymchwilydd a'u trafod gyda rheolwr i ddatblygu fframwaith codio. Roedd y fframwaith yn cynnwys codau a oedd yn mapio ar gwestiynau ymchwil yr astudiaeth. Unwaith y cytunwyd ar hyn cafodd gweddill y cyfweliadau eu codio gan un aelod o'r tîm ymchwil, gydag ansawdd sampl yn cael ei asesu gan ail ymchwilydd. Cafodd y fframwaith codio ei ddiwygio wrth i'r codio ddatblygu i gynnwys codau newydd i gyfleu safbwyntiau cyfranogwyr yn gywir. Wrth gwblhau'r codio, roedd y tîm ymchwil yn datblygu themâu allweddol a oedd yn ymdrin â chwestiynau ymchwil yr astudiaeth.

*Cryfderau a chyfyngiadau*

2.39 Cynhyrchodd y cyfweliadau gyda staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion amrywiaeth helaeth o wybodaeth sy'n gysylltiedig â chwestiynau'r canllawiau pwnc. Trwy'r dull cyfweld roedd yn bosibl archwilio safbwyntiau o wahanol bersbectifau mewn dyfnder. Mewn rhai ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion cynhaliwyd cyfweliadau gyda mwyn nag un aelod o staff. Roedd cyfyngiadau. Nid oedd pawb o'r unigolion yn gallu cymryd rhan mewn cyfweliad, roedd rhai staff ysgolion na chytunodd i gyfweliad, er gwaethaf dangos parodrwydd yn yr arolwg, a gallent fod wedi cynnig persbectif gwahanol.

2.40 Mae'n bwysig nodi cyd-destun a chronoleg y gwaith o gasglu data ansoddol o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Gan fod cwmpas yr adolygiad llenyddiaeth wedi cael ei ehangu (gweler Atodiad C), cyflawnwyd yr adolygiad llenyddiaeth a'r gwaith maes yn gyfochrog. Felly, ni wnaeth y rhestr o arferion yn y llenyddiaeth arwain cynllun yr offerynnau ymchwil. Un ystyriaeth ar gyfer unrhyw ymchwil tebyg yn y dyfodol fyddai defnyddio'r rhestr o arferion i wirio a yw ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn defnyddio'r rhain. Yn y cyfweliadau ansoddol ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion roedd yr arferion ynglŷn â gwaharddiadau wedi cael eu crybwyll yn ddigymell, felly ni allwn ragdybio bod hyn yn rhestr gyflawn o bob

gweithgaredd mewn ysgol neu uned cyfeirio disgyblion penodol nac y gellid defnyddio rhyw arfer nas crybwyllwyd mewn cyfweliad.

**Cyfweliadau gyda phlant a rhieni**[9]

2.41 Nod y cyfweliadau gyda phlant oedd deall ymhellach yr ystyriaethau wrth rwystro gwaharddiadau o ysgolion, ac archwilio pa gymorth mae ar blant a'u teuluoedd ei angen i osgoi gwaharddiadau a cefnogi'r ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd.

2.42 Gofynnwyd i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion gysylltu â rhieni a phlant i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil, lle'r oedd y plentyn wedi cael ei wahardd yn flaenorol neu wedi bod mewn risg o waharddiad. Crewyd hysbysiadau preifatrwydd a thaflenni gwybodaeth i esbonio'r ymchwil i rieni a phlant. Darparwyd cymhelliad o £30 i rieni gymryd rhan yn y cyfweliad.

2.43 Digwyddodd cyfweliadau gyda phlant a chyda rhieni[10] ym mis Gorffennaf 2023. Cynhaliwyd cyfweliadau naill ai wyneb yn wyneb gyda rhieni a disgyblion gyda'i gilydd, neu'n unigol os nad oeddent ar gael yr un pryd. I rieni, cyfweliad ffôn oedd hwn. Digwyddodd cyfweliadau unigol gyda phlant yn yr ysgol gydag aelod o staff yn bresennol yn ystod y cyfweliad a oedd wedi cael ei drefnu cyn yr ymweliad. Mewn rhai achosion, dim ond y plentyn a gafodd ei gyfweld ac mewn un achos dim ond y rhiant a gyfwelwyd. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn gyda rhieni a phlant o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar draws pob rhanbarth. Dengys Tabl 2.15 y dadansoddiad o'r plant a'r rhieni a gyfwelwyd fel rhan o'r adolygiad.

**Tabl 2.15 Plant a rhieni a gyfwelwyd**

| Math o gyfweliad | Nifer o blant | Nifer o rieni |
|---|---:|---:|
| Plentyn yn unig | 8 | - |
| Plentyn a rhiant | 8 | 8 |
| Rhiant yn unig | - | 1 |
| Cyfanswm | 16 | 9 |

Ffynhonnell: Data York Consulting, Gorffennaf 2023.
Sail: 16 o blant a 9 o rieni a gyfwelwyd.

2.44 Cafodd cyfanswm o 16 o blant eu cyfweld. Trefnwyd chwe chyfweliad ychwanegol gyda phlant ond nid oeddent ar gael neu ddim yn yr ysgol ar ddiwrnod y cyfweliad.

[9] Gweler atodiad B am y canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweliadau.
[10] Yn yr adroddiad hwn defnyddir y term rhiant i gynnwys rhieni a gofalwyr plant sy'n mynychu ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion.

Aflwyddiannus fu pob ymgais i aildrefnu'r rhain, gan fod yr ymchwil wedi rhedeg allan o amser i aildrefnu oherwydd gwyliau'r haf.

2.45 Roedd mwyafrif y plant (12) yn adnabod eu hunain fel bechgyn a phedair fel genethod. Roedd y plant ar wahanol gyfnodau ysgol[11]:

- Pump o blant o Gyfnod Allweddol 2.
- Pump o blant o Gyfnod Allweddol 3.
- Chwech o blant o Gyfnod Allweddol 4.

2.46 Roedd mwyafrif y plant (naw) wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol, roedd chwech wedi bod mewn risg o waharddiad ac roedd un wedi ei wahardd yn barhaol. Roedd niferoedd tebyg o blnat yn mynychu ysgol (chwech) ac uned cyfeirio disgyblion (chwech), gyda phedwar yn mynychu uned cyfeirio disgyblion ac ysgol.

2.47 Cafodd naw o rieni eu cyfweld ac roedd eu plant yn cynnwys:

- Pump wedi eu gwahardd am gyfnod penodol.
- Wyth bachgen ac un eneth.
- Dau o Gyfnod Allweddol 2, tri o Gyfnod Allweddol 3 a phedwar o Gyfnod Allweddol 4.
- Roedd pump yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol, dau mewn uned cyfeirio disgyblion, a dau mewn uned cyfeirio disgyblion ac ysgol.

2.48 Dywedodd rhai ysgolion nad oeddent yn gallu rhoi blaenoriaeth i drefnu cyfweliadau neu wedi dweud ar y cychwyn y gallent drefnu cyfweliadau ond yn dweud wedyn nad oedd hyn yn bosibl neu fod arnynt angen mwy o amser. Adroddodd ysgolion eraill fod rhieni yn gyndyn i gymryd rhan oherwydd y stigma canfyddedig o fod â'u plentyn mewn risg o waharddiad neu wedi cael ei wahardd. Mewn rhai achosion, nid ymatebodd rheini i'r ysgol pan holodd yr ysgol hwy am yr ymchwil. Rhedodd yr ymchwil allan o amser i recriwtio rhieni pellach i gyfweliadau oherwydd gwyliau haf yr ysgol gan fod y cyfweliadau'n cael eu trefnu trwy ysgolion/unedau cyfeirio disgyblion.

---

[11] Cyfnod Allweddol 2 (plant saith i 11 oed), Cyfnod Allweddol 3 (plant 11 i 14 oed), Cyfnod Allweddol 4 (plant 14 i 16 oed).

2.49 Roedd y cyfweliadau â rhieni yn ymwneud â'r rheini a oedd â phlant yng Nghyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 4.

*Dadansoddi*

2.50 Dadansoddwyd y cyfweliadau gyda rhieni a phlant trwy ddefnyddio dadansoddiad thematig gyda meddalwedd dadansoddi data ansoddol NVivo. Cafodd adroddiadau'r ddau gyfweliad cyntaf eu codio gan ymchwilydd a'u trafod gyda rheolwr i ddatblygu fframwaith codio. Roedd y fframwaith yn cynnwys codau a oedd yn mapio ar gwestiynau ymchwil yr astudiaeth. Unwaith y cytunwyd ar hyn cafodd gweddill y cyfweliadau eu codio gan un aelod o'r tîm ymchwil, gydag ansawdd sampl yn cael ei asesu gan ail ymchwilydd. Cafodd y fframwaith codio ei ddiwygio wrth i'r codio ddatblygu i gynnwys codau newydd i gyfleu safbwyntiau cyfranogwyr yn gywir. Wrth gwblhau'r codio, roedd y tîm ymchwil yn datblygu themâu allweddol a oedd yn ymdrin â chwestiynau ymchwil yr astudiaeth.

*Cryfderau a chyfyngiadau*

2.51 Cynhyrchodd y cyfweliadau gyda rhieni a phlant amrediad eang o wybodaeth gysylltiedig â chwestiynau'r canllawiau pwnc. Trwy'r dull cyfweld, roedd yn bosibl archwilio safbwyntiau o bersbectifau amrywiol mewn dyfnder. Roedd cyfyngiadau. Cafodd rhieni a phlant eu dewis gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, a allai fod wedi cynnwys rhagfarn oddrychol. Roedd niferoedd is na'r disgwyl o rieni, o gymharu â grwpiau rhanddeiliaid eraill, wedi cymryd rhan mewn cyfweliad. Cytunodd rhai rhieni, ac ychydig o blant, i gyfweliad ond nid oeddent ar gael a gallent fod wedi cynnig persbectif i'r rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil.

**Dadansoddi o fewn yr adroddiad hwn**

2.52 Wrth ddisgrifio data ansoddol yn yr adroddiad hwn, defnyddir mesuryddion bras i ddangos y gyfran o sefydliadau neu unigolion a ymatebodd a wnaeth sylw ar fater penodol. Y mesuryddion[12] hyn yw:

- bron bob un = gydag ychydig iawn o eithriadau
- y rhan fwyaf = 90% neu fwy

[12] Cymerwyd o wefan Estyn [Geirfa | Estyn]

- llawer = 70% neu fwy
- mwyafrif = dros 60%
- hanner = 50%
- tua hanner = yn agos i 50%
- lleiafrif = o dan 40%
- ychydig = o dan 20%
- ychydig iawn = llai na 10%.

**Grŵp Ymgynghorol y Prosiect**

2.53 Roedd Grŵp Ymgynghorol i'r Prosiect yn darparu llywodraethiant a goruchwyliaeth strategol. Cyfarfu'r grŵp dair gwaith dros gwrs yr astudiaeth. Roedd yn cynnwys rheolwr y contract, tîm polisi a thîm ymchwil Llywodraeth Cymru, yn ogystal â llunwyr polisi ac arbenigwyr addysg perthnasol. Cyfrannodd y grŵp at gynllun yr astudiaeth, y cynllun ymchwil, a chyfarfu i drafod canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg. Cafodd y grŵp y cyfle hefyd i roi sylwadau ar ddogfennau allweddol yn ystod y prosiect.

# 3. Canfyddiadau’r ymchwil: ystyriaethau sy’n dylanwadu ar gyfraddau gwahardd

3.1 Mae’r bennod hon yn disgrifio amrywiaeth o ystyriaethau a amlygwyd gan wahanol randdeiliaid y barnwyd eu bod yn rhoi cyd-destun pwysig ynghylch gallu a chapasiti ysgolion i rwystro gwaharddiadau.

**Newidiadau mewn ymddygiad a phresenoldeb**

*Cynnydd mewn ymddygiad heriol*

3.2 Roedd llawer o’r rheini a gafodd eu cyfweld yn disgrifio natur gynyddol heriol ymddygiad plant dros y pum mlynedd ddiwethaf, ond yn enwedig ers cyfnod cau ysgolion yn ystod COVID-19. Er y nodwyd amrywiaeth o resymau posibl dros hyn, roedd y rhai a gyfwelwyd yn dueddol o briodoli ymddygiad cynyddol heriol plant i gyfuniad o blant yn profi anawsterau gartref yn gyffredinol, a waethygwyd gan y pandemig (megis diffyg cartrefi sefydlog, diffyg lle personol, teuluoedd yn chwalu, trais domestig a diffyg cwsg) a bod ag ADY (a waethygwyd hefyd gan y pandemig).

3.3 Roedd llawer o’r rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio effeithiau amddifadedd ar blant s’n gymwys am brydau ysgol am ddim. Roedd athrawon yn disgrifio pum prif ffactor sy’n effeithio’n negyddol ar ymddygiad plant, a ddisgrifir isod.

- Gall diffyg cwsg olygu bod plant wedi ymlâdd ac yn flin, sy’n gallu arwain at anhawster i ganolbwyntio a risgiau o ymddygiad mwy heriol.
- Mae peidio â chael bwyd digonol (y diwrnod cynt a/neu i frecwast) yn gadael plant yn teimlo’n llwglyd, sy’n effeithio’n negyddol ar eu canolbwyntio ac sy’n arwain at iddynt deimlo’n rhwystredig. Mae llawer o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn mynd i’r afael â hyn trwy glybiau brecwast a mentrau tebyg.
- Mae digwyddiadau negyddol gartref megis dadleuon, gyda rhieni a rhwng rhieni a’i gilydd, yn golygu y gall plant deimlo gofid neu ddicter emosiynol (ac yn aml heb grybwyll hyn wrth athrawon) gan arwain at ymddygiad anwadal a heriol yn yr ysgol.
- Gall digwyddiadau y tu allan i’r ysgol cyn cychwyn y diwrnod ysgol, megis anghydfodau neu ymladd gyda phlant eraill arwain at ddigwyddiadau mwy difrifol megis wynebu dylanwadau gwrth-gymdeithasol neu droseddol (roedd yr

enghreifftiau a ddisgrifiwyd gan athrawon yn cynnwys gangiau a masnachu gyda llinellau cyffuriau). Gall profiad o ddigwyddiadau o'r fath, yn ôl athrawon a gyfwelwyd, adael plant yn teimlo o dan fygythiad neu dynnu eu sylw oddi wrth ddysgu a all arwain at amrediad o ymddygiadau heriol sy'n amrywio o golli sylw a pheidio â chydymffurfio i wrthdaro.

- Mae dod i'r ysgol yn afreolus, yn aml yn gysylltiedig ag ADHD ond hefyd â'r agweddau eraill a ddisgrifir isod, yn cyfyngu ar allu plentyn i ganolbwyntio ac yn cynyddu'r tebygolrwydd iddo golli hunan-reolaeth yn eiriol neu'n gorfforol.

3.4 Roedd rhai staff o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r plant maent yn gweithio gyda hwy, a oedd mewn risg o waharddiadau, fel rhai sy'n dioddef profiadau niweidiol lluosog yn ystod plentyndod – nid oeddent yn disgrifio'r holl brofiadau niweidiol – ond yr un a grybwyllyd amlaf oedd profiad o'r system gofal.

3.5 Roedd llawer o ymatebwyr yn crybwyll anghenion dysgu ychwanegol eu plant, yn ogystal ag anghenion sy'n gysylltiedig â diagnoses o anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) ADHD, a'u hiechyd meddwl, a heriau ymddygiadol rhai o'r plant hyn. Mae tystiolaeth bod blant sydd ag anhwylder niwroddatblygiadol mewn mwy o risg o waharddiadau (John et al. 2022). Cynyddodd y nifer o blant sydd ag ASD o 7,655 yn 2018[13] i 9,994 yn 2022[14], cynnydd o tua thraean. Mae'r un data cyfrifiad ysgolion yn dangos y nifer o blant sydd ag ADHD yn aros yn sefydlog rhwng 2018 (2,840) a 2022 (2,836). Rhan o'r esboniad dros arsylwadau athrawon yw eu bod yn disgrifio nodweddion tebyg i ADHD yn hytrach na bod plant o angenrheidrwydd yn cael diagnosis ar gyfradd uwch.

3.6 Yn ogystal, fe wnaeth ychydig o'r rhai a gyfwelwyd amlygu'r pontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, a Chyfnod Allweddol 3 yn gyffredinol, fel rhywbeth sy'n cyfrannu at gynnydd mewn ymddygiad heriol. Roedd prifathrawon yn priodoli'r heriau mewn grwpiau Cyfnod Allweddol 3 i ddatblygiad plant a oedd yn y cyfnod cynradd yn ystod y pandemig COVID-19 a bod ganddynt sgiliau cymdeithasol tanddatblygedig.

3.7 Cyfeiriodd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion hefyd at ddigwyddiadau cysylltiedig â fepio a oedd wedi arwain at waharddiadau

[13] Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2018
[14] Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Chwefror 2022

(meddu ar fepiau neu eu defnyddio neu eu gwerthu yn yr ysgol yn groes i bolisïau'r ysgol), ffonau symudol (meddu ar ffonau neu eu defnyddio mewn ysgolion lle'r oedd polisïau'r ysgol yn gwahardd eu defnydd) a chyfryngau cymdeithasol (yn gysylltiedig ag iaith a lluniau anaddas a bwlio). Cafodd fepio, ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol eu disgrifio fel ffynonellau o densiynau, rhwng plant a rhwng plant a staff, gan effeithio ar ymddygiad plant.

*Problemau presenoldeb*

3.8 Er nad yw'r un peth, mae presenoldeb gwael yn yr ysgol yn rhannu llawer o'r un ffactorau risg â gwaharddiadau o'r ysgol (ee, Orr et al., 2023) a gall fod yn arwydd o rybudd cynnar am ganlyniadau gwael tebyg yn ddiweddarach (Madia et al. 2022; Cattan et al. 2023). Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r lefelau is o bresenoldeb yn yr ysgol ers y cyfnod o gau ysgolion yn ystod COVID-19. Roedd staff yn disgrifio cyswllt rhwng perthynas rhai plant â'r ysgol a'u hagwedd tuag at yr ysgol a'u hymddygiad ynddi. Roedd rhai yn priodoli hyn i newid mewn agwedd tuag at bresenoldeb yn yr ysgol, gyda lleiafrif o plant a rhieni yn gweld mynd i'r ysgol fel rhywbeth llai pwysig neu'n fwy negyddol ers gorfod dysgu o bell yn ystod cyfnodau clo. Rhoddwyd enghreifftiau o rieni nad oedd yn mynnu bod eu plant yn mynychu ysgol. Yn ogystal, roedd staff ysgolion yn disgrifio ymddygiad cynyddol heriol gan rieni tuag at athrawon a staff eraill yr ysgol.

**Arferion gwahardd**

*Tystiolaeth o gynnydd mewn gwahardd mewnol*

3.9 Mae cynnydd wedi bod yn y defnydd o waharddiadau mewnol, yn ôl llawer o staff awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd. Priodolwyd hyn i gyfyngiadau ar y lleoedd sydd ar gael mewn unedau cyfeirio disgyblion neu ysgolion arbennig ac i ysgolion yn ceisio lleihau niferoedd o waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol. Roedd tua hanner yr ysgolion wedi datblygu eu trefniadau gwahardd mewnol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac roedd ychydig o rai eraill newydd gychwyn datblygu eu trefniadau gwahardd mewnol. Roedd ychydig ohonynt yn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau gwahardd mewnol a roddwyd ar waith yn ddiweddar.

3.10 Roedd ychydig o staff awdurdodau lleol ac unedau cyfeirio disgyblion yn mynegi pryderon ynghylch ansawdd y cymorth sy’n digwydd mewn rhai lleoedd gwahardd mewnol. Roedd enghraifft o bryderon o’r fath yn cynnwys dyrannu cynorthwywyr addysgu i ystafelloedd gwaharddiadau mewnol ond heb hyfforddiant penodol i gefnogi anghenion plant penodol.

3.11 Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd gan ychydig o ysgolion i ddisgrifio ystafelloedd gwaharddiadau mewnol yn fwy negyddol a chosbedigol nac eraill, er enghraifft, uned ynysu, ystafell ynysu, ystafell gwaharddiadau, ac weithiau gyfeiriadau at aros neu weithio y tu allan i swyddfa’r prifathro.

3.12 Roedd rhai prifathrawon wedi mynd ati o ddifrif i osgoi gwaharddiadau cyfnod penodol, ond gan ddefnyddio ffurfiau o wahardd mewnol yn lle hynny. Roeddent, fodd bynnag, yn disgrifio’r penderfyniadau anodd roedd yn rhaid iddynt eu gwneud rhwng gwahardd plentyn am gyfnod penodol o gymharu â’r risg o niwed corfforol i staff a phlant eraill yr ysgol.

*Dulliau ysgolion o wahardd yn amrywio*

3.13 Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd staff yn disgrifio amrywiaeth mewn arferion rhwng eu hysgolion a’i gilydd, yn enwedig ysgolion uwchradd. Roedd hyn yn ymwneud â dull cyffredinol yr ysgol o wahardd, hyd gwaharddiad am ddigwyddiadau tebyg a gwahardd plant sydd ag ADY.

3.14 Roedd staff o tua hanner yr awdurdodau lleol yn disgrifio amrywiadau yn hyd gwaharddiadau cyfnod penodol am yr un math o ddigwyddiad. Roeddent yn esbonio bod rhieni weithiau wedi dod i sylweddoli hyn ac wedi cysylltu â’r awdurdod lleol ynghylch anghysondeb rhwng ysgolion a’i gilydd.

> “Gall digwyddiadau a all dderbyn gwaharddiad pum-diwrnod mewn un ysgol dderbyn gwaharddiad [cyfnod penodol] o 15-diwrnod mewn ysgol arall, sy’n achosi pob mathau o broblemau.” (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

3.15 Roedd ychydig o’r rhai a gyfwelwyd o ysgolion yn disgrifio gwaharddiadau cyfnod penodol fel modd o roi amser i blentyn dawelu, meddwl, ac ailganolbwyntio ac i weithredu gwell cymorth i blant.

3.16 Dywedodd ychydig o staff awdurdodau lleol fod gan rai prifathrawon a'u ysgolion le i wella ynghylch gwahardd. Y teimlad oedd bod gwahardd yn fater "emosiynol iawn" (swyddog cynhwysiant awdurdod lleol) sy'n gofyn am arweiniad cryf o fewn ysgol. Yn ôl un o'r rhai a gyfwelwyd, os nad yw'r arweiniad yn gadarn, yna gall heriau ddod i'r amlwg a all danseilio meysydd eraill o waith yn yr ysgol. Gall heriau ddod gan rieni, y gymuned ehangach a chan athrawon o fewn yr ysgol. Gall yr heriau hyn fod ynglyn â sut y caiff polisïau eu gweithredu ac effeithiau plant sy'n tarfu ar eraill ac sydd mewn risg o waharddiad.

> "Mae dehongliadau prifathrawon o fod yn 'gynhwysol' yn amrywio. Gallai rhai o'n hysgolion wneud ychydig mwy." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

3.17 Roedd rhai a gyfwelwyd mewn ychydig o awdurdodau lleol yn esbonio'r her o weithio gydag ysgolion mewn achosion o blant sydd ag ADY:

> "Mae'r berthynas rhwng ADY a gwaharddiadau yn eithaf cymhleth a chaiff ei dehongli'n wahanol yn aml o ysgol i ysgol. Bydd rhai ysgolion yn teimlo na allant wahardd, rhywbeth nad yw'n wir. Yn naturiol, dylent wneud popeth a allan nhw i osgoi gwahardd, ond does dim agwedd gyfreithiol o'r canllawiau sy'n eu rhwystro rhag gwneud hynny, hyd yn oed y rheini â datganiad." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

3.18 Roedd un a gyfwelwyd o awdurdod lleol yn awgrymu angen am ganllawiau i ddal i fyny â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Roedd yn ei dsigrifio fel "maes gwirioneddol anodd i weithio ynddo", cefnogi plant sydd mewn risg o waharddiad neu sydd ag ADY a/neu â diagnosis, megis ASD/ADHD. Roedd staff awdurdodau lleol yn cydnabod y gwrthdrawiad buddiannau ynghylch cydbwyso anghenion y plentyn ag anghenion plant eraill ac athrawon, gyda'r nod o'u cadw'n ddiogel.

*Sut mae ysgolion yn adnabod y rhai sydd mewn risg o waharddiad*

3.19 Y prif ddulliau o adnabod plant sydd mewn risg o waharddiad a ddaeth i'r amlwg o gyfweliadau ag ysgolion oedd trwy systemau fel pwyntiau ymddygiad, y berthynas gyffredinol rhwng athro a phlentyn, a thrwy asesu. Roedd y dulliau hyn yn cael eu gweithredu yng nghyfnodau cynradd ac uwchradd addysg.

3.20 Mae gan rai ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion systemau pwyntiau ymddygiad. Mewn rhai achosion caiff plant eu gwobrwyo am ymddygiad da trwy ennill pwyntiau ac maent yn colli pwyntiau lle nad yw eu hymddygiad yn cyrraedd y disgwyliadau o ran ymddwyn yn dda. Mewn ysgolion eraill, yr unig adeg y rhoddir pwyntiau ymddygiad yw pan nad yw ymddygiad yn cyrraedd y disgwyliadau. Mae'r data hwn, ynghyd â dealltwriaeth ehangach athrawon, yn adeiladu tystiolaeth o ymddygiad cyffredinol plentyn. Caiff plant eu hadnabod trwy systemau o'r fath fel rhai sydd mewn risg o gael eu gwahardd os oes tystiolaeth gyson o ymddygiad heriol neu newidiadau systematig na ellir eu hesbonio. Roedd prifathrawon yn cyfeirio at adnabod "disgyblion tariff uchel" a oedd yn gwaethygu yn nhermau pwyntiau ymddygiad. Mewn ysgolion o'r fath, bydd y tîm ymddygiad a'r pennaeth gofal bugeiliol a llesiant yn adolygu'n rheolaidd y gefnogaeth i'r plant hyn (yn aml yn wythnosol, weithiau'n ddyddiol). Yn gysylltiedig â hyn, mae rhai ysgolion yn gweithredu system Coch, Melyn a Gwyrdd i adnabod plant sy'n profi anawsterau yn yr ysgol. Dywedodd un prifathro ysgol uwchradd fod athrawon yn "graddio pob plentyn yn goch, melyn neu wyrdd o safbwynt lle maent arni'n emosiynol ac o safbwynt eu llesiant cyffredinol". Roedd yn ymatebydd o ysgol yn disgrifio system o gofnodi, lle mae athrawon yn anfon cofnod o ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad i'r pennaeth blwyddyn. Caiff y rhain wedyn eu casglu ynghyd a gellir eu hadolygu mewn ffordd debyg neu law yn llaw â'r data a ddisgrifir uchod.

3.21 Dywedodd ychydig o brifathrawon fod gan eu hathrawon ddealltwriaeth o'r anawsterau mae plant maent yn eu haddysgu yn eu hwynebu, dealltwriaeth sy'n datblygu trwy eu perthynas â phob plentyn a thrwy arsylwi i ddarganfod pethau sy'n ysgogi camymddwyn.

> "Yn ddiwylliannol, mae'r ysgol yn dda iawn am ddatblygu perthynas gyda disgyblion, a chaiff athrawon eu hannog (ac mae disgwyl arnynt) i gadw llygad am unrhyw ddisgyblion sy'n profi anawsterau a/neu arddangos ymddygiadau sy'n peri pryder. Cefnogir hyn trwy weithdrefnau strwythuredig a ffurfiol, ond yn sylfaenol, mae'n ymwneud â datblygu perthynas ac athrawon yn adnabod eu disgyblion." (Dirprwy Brifathro ysgol uwchradd)

3.22 Cafodd adnabod plant sydd mewn risg trwy asesu ei grybwyll yn llai aml ond cafodd ei ddisgrifio gan ymatebwyr mewn cyfnodau cynradd ac uwchradd (er bod rhai o'r

dulliau hyn yn canolbwyntio'n fwy ar lesiant). Adroddwyd unwaith neu ddwy fod ysgolion yn defnyddio asesiadau (ee agweddau tuag atynt eu hunain a'r ysgol, eu llesiant) i amcangyfrif risg o waharddiad ac adnabod y rheini y gallai fod arnynt angen cymorth pellach. Nid oedd yn eglur fodd bynnag a oedd yr asesiadau hyn yn cael eu cyflawni ar gyfer pob plentyn neu ddim ond y rheini y bernir eu bod mewn risg.

**Perthynas â rhanddeiliaid**

*Amrywiol drefniadau unedau cyfeirio disgyblion*

3.23 Roedd unedau cyfeirio disgyblion mewn 17 allan o'r 22 o awdurdodau lleol fel roedd ar 30 Gorffennaf 2023. Y rheini nad oedd ganddynt unedau cyfeirio disgyblion oedd Castell-nedd Port Talbot, Sir Fôn, Gwynedd, Blaenau Gwent a Bro Morgannwg. Ym mhob un o'r rhain, roedd trefniadau eraill yn bod, yn arferol wedi eu lleoli ar safleoedd ysgol neu leoliadau eraill i gefnogi plant ag amrywiol anghenion. Roedd yr unedau cyfeirio disgyblion yn yr 17 o awdurdodau lleol yn gymysgedd o leoliadau un-safle ac aml-safle, wedi eu cynllunio i ddarparu gwahanol fathau o gymorth i wahanol grwpiau oedran.

3.24 Roedd rhai staff unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion yn disgrifio allgymorth a oedd yn cael ei ddarparu gan staff unedau cyfeirio disgyblion mewn ysgolion. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn canolbwyntio ar gymorth i blant penodol a oedd mewn risg o waharddiad. Mewn enghreifftiau eraill, roedd staff unedau cyfeirio disgyblion yn helpu nifer o staff addysgu i ddatblygu eu sgiliau mewn rheoli ymddygiad neu wahanol ffurfiau o gymorth. Dywedodd rhai prifathrawon fod hyn yn fuddiol o ran trosglwyddo sgiliau a datblygu perthynas rhwng gweithwyr proffesiynol. Dywedodd un ymatebydd o uned gyfeirio disgyblion mai eu dyhead oedd cyflwyno'r model hwn o gymorth i'w hysgolion a'u bod yn datblygu cynllun i allu gwneud hyn trwy ddatblygu a hyfforddi eu staff. Roedd y trefniadau hyn yn gyffredinol gadarnhaol ac mae'n faes y gellid ei ddatblygu ymhellach.

3.25 Lle nad yw plant wedi cael eu gwahardd yn barhaol, roedd staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio cofrestru deuol i rai plant sy'n mynychu ysgol ac uned cyfeirio disgyblion. Soniwyd yn benodol am hyn mewn cysylltiad â phlant ysgol gynradd. Teimlai rhai staff unedau cyfeirio disgyblion y gall cynnal cyswllt â grŵp

cymheiriaid y plant fod yn fuddiol i'w datblygiad, ac yn angenrheidiol, os oes unrhyw siawns iddynt ddychwelyd i ysgol brif ffrwd. Nid oedd cofrestru deuol yn boblogaidd gydag ymatebwyr o ysgolion, a deimlai ei fod yn rhy ddryslyd ac yn tarfu gormod y disgybl wrth iddo symud rhwng dau leoliad cwbl wahanol.

3.26 Roedd prifathrawon yn disgrifio gweithredu unedau ar safle eu hysgol a oedd yn darparu cymorth i blant a allai fel arall gael eu gwahardd yn barhaol neu gael eu hanfon i uned cyfeirio disgyblion. Dywedodd prifathrawon eu bod yn gweithredu'r math hwn o ddarpariaeth er mwyn rhwystro gwaharddiadau. Roedd rhai prifathrawon yn dadlau bod y math hwn o gymorth yn wahanol i uned gwaharddiadau mewnol oherwydd y cymorth a ddarperir. Roedd y cymorth hwn yn cynnwys yr arferion a ddisgrifir ym Mhennod 4.

*Y berthynas rhwng ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol*

3.27 Ymysg y rheini a gyfwelwyd, roedd tystiolaeth o berthynas gref rhwng llawer o awdurdodau lleol a'u hysgolion. Yn yr achosion hyn, roedd y rheini a gyfwelwyd o awdurdodau lleol yn disgrifio deialog reolaidd rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion unigol, yn ogystal â dulliau cyffredin o wahardd y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdod lleol a phob ysgol. “Mae angen inni allu herio heb niweidio'r berthynas gyda'r prifathro.” (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

3.28 Lle'r oedd y berthynas yn gweithio'n dda, roedd enghreifftiau o gyfathrebu effeithiol a oedd er budd plant. Er enghraifft, cysylltodd ysgol â'u hawdurdod lleol ynghylch plentyn, geneth, nad oedd ganddynt ond gwybodaeth gyfyngedig amdani a chyfrannodd y tîm amddiffyn yn y cyngor wybodaeth gyd-destunol pwysig fel sail i'r ymchwiliad a'r penderfyniad. Yn yr achos hwn, daeth i'r amlwg fod yr eneth yn ofalwr ifanc, rhywbeth nad oedd yr ysgol yn ei wybod.

3.29 Mewn ychydig o awdurdodau lleol lle'r oedd perthynas wanach, roedd staff awdurdodau lleol yn dweud mai cyfyngedig oedd eu dylanwad.

- “Bydd rhai [prifathrawon] ysgolion yn tueddu i wneud eu penderfyniad a dim ond siarad gyda'r awdurdod wedyn.” (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

3.30 Roedd ychydig o awdurdodau lleol yn creu canllawiau atodol i'w hysgolion, yn ogystal â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Roedd y canllawiau atodol hyn i gyd yn cyfeirio at ganllawiau

Llywodraeth Cymru ac roeddent wedi eu haddasu ar gyfer yr awdurdod lleol gan gynnwys manylion cyswllt a sut y dylai trefniadau weithio yn yr ardal honno. Roedd rhai o'r canllawiau hyn wedi eu cyhoeddi ar wefannau awdurdodau lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, 2017; Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, 2021), roedd eraill yn cael eu rhannu gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, ond nid oeddent ar gael i'r cyhoedd.

3.31 Mae trefniadaeth y swyddogaeth cynhwysiant o fewn yr awdurdod lleol a'i pherthynas gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn creu gwahanol linellau cyfathrebu gydag ysgolion ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Cyflwynir dwy enghraifft wahanol isod:

> "Mae gan yr awdurdod lleol dîm mawr sydd ar gael i fynd i ysgolion i gynnig cymorth a helpu llunio atebion unswydd, yn enwedig yn nhermau llunio cynlluniau unigol a chefnogi disgyblion sydd ag ADY neu broblemau lles emosiynol." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

> "Does dim tîm cefnogi ymddygiad yn yr awdurdod lleol felly mae'n anodd mynd i ysgolion." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

3.32 Roedd llawer o staff ysgolion a gyfwelwyd yn sôn yn gadarnhaol am rôl staff cynhwysiant awdurdodau lleol, gan ddisgrifio perthynas gadarnhaol a oedd yn effeithiol wrth gefnogi plant. Roedd hyn yn cynnwys rhwyddineb cysylltu â staff awdurdodau lleol, cael gwybodaeth a gallu cynghori athrawon neu eu cyfeirio at gydweithwyr neu gysylltiadau eraill. Lle'r oedd hyn yn gweithio'n dda, roedd yn arwain at gymorth cyflym ac effeithiol i blant.

> "Mae'r berthynas gyda'r awdurdod lleol yn un gadarnhaol ac maent yn llwyddo'n dda ar y cyfan. Maen nhw fodd bynnag yn eithriadol o fiwrocrataidd ac mae hynny'n achos rhwystredigaeth. Lle i wella, ond yn gyffredinol rydym yn hapus gyda'u ffordd o weithio. Mae'n ymddangos eu bod nhw'n gweithio tuag at ethos cyffredin ledled yr ardal, sy'n rhywbeth cadarnhaol." (Prifathro Ysgol Uwchradd)

> "Mae perthynas adeiladol a chefnogol." (Prifathro Ysgol Ganol)

3.33 Roedd ychydig o staff ysgolion a gyfwelwyd yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar y cymorth gan eu hawdurdod lleol i blant sydd mewn risg o waharddiad.

> “Mae systemau cymorth da ar waith. Maen nhw [yr awdurdod lleol] â phecynnau cymorth effeithiol gydag adnoddau cymharol dda. Mae’r rhan fwyaf o’r ymyraethau maen nhw wedi eu datblygu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn yr ardal.” (Prifathro Ysgol Uwchradd)

3.34 Mewn ychydig o awdurdodau lleol roedd uned cymorth cynnar neu dîm ac iddo enw tebyg (fel gwasanaethau gwirfoddol neu drwy wasanaethau cymdeithasol[15] ac iddynt y nod o gefnogi plant a theuluoedd cyn gynted ag y daw problemau i’r amlwg). Roedd ychydig o staff ysgolion yn crybwyll hyn o safbwynt cadarnhaol gan ddisgrifio sut mae cymorth cynnig yn rhwystro sefyllfaoedd rhai plant rhag gwaethygu. Roedd un prifathro ysgol gynradd yn disgrifio sut roedd panel cymorth cynnar eu hawdurdod lleol yn nodi sefydliadau gwirfoddol lleol y gallai’r ysgol gysylltu â hwy.

> “Mae’r panel cymorth cynnar yn rhagorol gan eu bod yn gweithio gyda llawer o asiantaethau gwirfoddol a all gefnogi’r plentyn neu’r teulu.” (Prifathro Ysgol Gynradd)

3.35 Mewn ardaloedd eraill roedd cred bod anawsterau wrth dderbyn y cymorth a ddisgwylid.

> “Mae rhwystredigaeth wirioneddol gyda’r gwasanaeth mae ysgolion yn ei gael gan wasanaethau cymdeithasol plant. Gwnaed ymdrechion i fynd i’r afael â hyn, ond mae’n ymddangos bod negeseuon yn mynd ar goll ac ychydig iawn sy’n digwydd. Mae’n amlwg fod y cyfathrebu rhwng addysg ac adrannau eraill yn wael, ac mae hyn yn cael effaith ganlyniadol ar y cymorth sydd ar gael i ysgolion a disgyblion, ac ar lif prydlon o wybodaeth yn gyffredinol.” (Prifathro Ysgol Uwchradd)

3.36 Mewn rhai achosion, roedd rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn teimlo’n rhwystredig nad oedd gwasanaethau addas ar gael yn ddigon cyflym i gefnogi plant. Roedd hyn yn arbennig o wir am asesiadau diagnostig gan wasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed (CAMHS), ASD ac ADHD.

---

[15] Mae enghreifftiau’n cynnwys gwasanaeth cymorth cynnar ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir y Fflint.

3.37 Roedd ychydig o staff ysgolion yn nodi rhwystredigaethau a heriau cysylltiedig â'u canfyddiadau o brofiadau staff awdurdodau lleol a pha mor gyfarwydd oeddent ag amgylcheddau ysgol a gwahanol flaenoriaethau:

> "Yn gyffredinol, mae'r berthynas gyda'r awdurdod lleol yn anodd. Mae gennym bryderon am alluoedd swyddogion awdurdodau lleol. [Mae llawer heb gael] profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd ysgol, felly allan nhw ddim deall realiti'r heriau mae ysgolion yn eu hwynebu. Maen nhw'n brin o allu i feddwl yn strategol am y materion hyn … [Mae] diffyg teimlad o frys neu gynllunio o gwmpas y ffactorau sy'n effeithio ar waharddiadau." (Prifathro Ysgol Uwchradd)

> "Mae perthynas anghyson â'n hawdurdod lleol a ffordd wahanol o weithio, gyda blaenoriaethau gwahanol. Mae arnyn nhw eisiau cadw ystadegau gwahardd i lawr, a dydyn nhw ddim yn canolbwyntio ar beth mae ar y plentyn unigol ei angen. Nid yw'r system yn helpu neb." (Prifathro Ysgol Uwchradd)

3.38 Roedd ar ychydig o'r rheini a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion eisiau gwell dealltwriaeth hefyd o sut y gallai eu hawdurdod lleol eu helpu i ddeall yr amrediad o gymorth sydd ar gael a sut i'w gael ar gyfer eu plant.

*Gweithio amlasiantaeth*

3.39 Roedd llawer o'r rheini a gyfwelwyd yn cyfeirio at wahanol enghreifftiau o weithio amlasiantaeth er budd plant a oedd wedi cael eu hadnabod fel rhai mewn risg o waharddiad cyfnod penodol neu barhaol. Roedd cyfeiriadau helaeth at Tîm o Amgylch yr Ysgol a chynlluniau tebyg. Mewn rhai achosion, roedd y rhain yn cael eu disgrifio fel rhai a drefnwyd gan yr ysgol ac mewn eraill yr awdurdod lleol oedd yn arwain. Roedd un enghraifft o weithio amlasiantaeth i gefnogi plentyn a oedd mewn risg o waharddiad yn cynnwys yr ysgol, Barnardos, Gwasanaethau Plant a'r elusen Gofalwyr Ifanc yn cyfarfod i benderfynu a fyddent yn cyfeirio plentyn penodol at y Tîm o Amgylch y Teulu neu at wasanaeth amddiffyn plant. Dangosodd enghraifft arall gan brifathro ysgol gynradd sut oeddent yn gwneud y trefniadau hyn.

> "Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn cynadleddau amddiffyn plant, cyfarfodydd cymorth gofalu, ac rydym yn rhannu llawer o wybodaeth gyda gwasanaethau cymdeithasol … dw i yn y broses o gychwyn dull Tîm o Amgylch yr Ysgol, lle bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r tîm

cydlyniant cymunedol i drafod beth yw'r risgiau i blant penodol. Bwriadwn weithredu hyn ym mis Medi, mae angen y dull cymunedol hwn gan fod llawer o'r risgiau mae disgyblion yn eu hwynebu yn cychwyn y tu allan i'r ysgol. Mae angen i'r ysgol weithio law yn llaw ag asiantaethau eraill i newid pethau yn y gymuned – dyw hyn ddim yn hawdd, ond rydym yn ceisio gwneud gwahaniaeth." (Prifathro Ysgol Gynradd)

3.40 Roedd ymatebwyr yn adrodd am achosion lle'r oedd amrywiaeth asiantaethau'n cyfarfod yn fisol neu bob hanner tymor i asesu achosion newydd ac adolygu achosion presennol i wella canlyniadau i blant sydd mewn risg o waharddiad.

3.41 Rhoddwyd enghreifftiau o gyfarfodydd misol neu bob hanner tymor, i asesu achosion newydd ac adolygu cymorth mewn achosion a oedd yn bod eisoes. Y diben oedd sicrhau cydweithio ar draws gwasanaethau er mwyn gwella canlyniadau i blant sydd mewn risg o waharddiad. Roedd y cyfarfodydd hyn yn aml yn ymwneud ag amrywiaeth o asiantaethau perthnasol, gan gynnwys:

- Adrannau awdurdodau lleol megis gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau ieuenctid, timau iechyd meddwl, Teuluoedd yn Gyntaf, a thimau cymorth cynnar/ymyrraeth gynnar.
- Gyrfa Cymru.
- Iechyd/CAMHS.
- Heddlu cymunedol.
- Cyfiawnder ieuenctid.
- Prosiectau a ariannwyd megis TRAC[16].
- Elusennau cenedlaethol megis Ymddiriedolaeth y Tywysog, Cymorth i Fenywod a MIND.
- Grwpiau cymunedaol mewn lleoliadau penodol sy'n cefnogi teuluoedd.

3.42 Roedd ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r anawsterau wrth ymwneud â gwasanaethau a phartneriaid megis CAMHS. Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd o uned cyfeirio disgyblion yn esbonio bod rhai asiantaethau a oedd eisoes yn ymwneud â phlentyn mewn ysgol yn gweld yr uned cyfeirio disgyblion fel

[16] Enw ar raglen yw TRAC, nid talfyriad, rhaglen a oedd yn cefnogi pobl ifanc 11-16 oed a oedd yn ymddieithrio o addysg ac mewn perygl o ddod yn NEET.

darpariaeth arbenigol a byddent yn aml yn ymddieithrio'n gyflym. Roedd yn rhaid iddynt felly ddatblygu strategaethau i rwystro hyn rhag digwydd.

3.43 Roedd ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn nodi her arall mewn gweithio amlasiantaeth sy'n gysylltiedig â chapasiti ac adnoddau asiantaethau partner. Y teimlad oedd bod sefydliadau eraill a oedd yn ymwneud mewn gofal asiantaethol plentyn hefyd yn brin o adnoddau ac y gallent fod yn ei chael yn anodd i chwarae rhan mor lawn ag y gallent fod wedi'i wneud yn y gorffennol. Soniodd un ysgol uwchradd fod, ychydig flynyddoedd yn ôl, lawer o swyddi ychwanegol yn cael eu hariannu'n lleol a oedd yn helpu hwyluso gwaith amlasiantaeth effeithiol, fodd bynnag mae llawer o'r swyddi hyn wedi diflannu oherwydd pwysau cyllidebol.

3.44 Dywedodd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd o awdurdodau lleol y gallai gweithio amlasiantaeth gael ei ddatblygu ymhellach. Dywedent fod hyn yn golygu her i awdurdodau lleol ac ysgolion:

> "Y peth mwyaf y byddwn i'n ei newid fyddai'r teimlad hwnnw o berchnogaeth gyda'r ysgolion. Mae'r atebion gorau yn dod o'r holl wasanaethau ac asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd, ac mae angen datblygu'r dull hwn ymhellach fel y gall pawb ddweud eu bod yn gwneud popeth a allant i gefnogi pob plentyn. Sut i gyflawni'r cydgysylltu hwn fel bod adnoddau'r troi o amgylch … y disgybl a'r teulu yw'r cwestiwn mawr. Ond, ni fydd y pethau hyn yn cael eu datrys wrth i'r ysgol ddilyn proses a pholisi yn unig ac wedyn yr awdurdod lleol yn cytuno neu'n peidio â chytuno. Yn y diwedd, byddwn yn rhedeg allan o leoedd mewn unedau cyfeirio disgyblion, allan o leoedd addysgu, lleoedd ar gyfer cwricwlwm amgen, etc. Bydd pob awdurdod lleol yn rhedeg allan o ddarpariaeth os ydych ceisio gweithredu ar eich pen eich hun. Mae'n rhaid inni afael ynddi yn gynnar, yn effeithiol, a gweithio mewn ffordd amasiantaeth." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

3.45 Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd o awdurdod lleol fod parodrwydd ymysg ysgolion ac asiantaethau eraill i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â phroblemau, fodd bynnag, roedd angen datblygu gwybodaeth o ran 'pwy all wneud beth'. Roedd yr awdurdod lleol hwn yn ceisio dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i wella dealltwriaeth o'r arbenigedd a'r adnoddau a oedd yn eu lle, ac edrych ar sut y gellid datblygu atebion newydd creadigol.

3.46 Roedd un arall a gyfwelwyd o awdurdod lleol yn disgrifio'r heriau a'r effeithiau yn sgil oedi wrth geisio cefnogi plant gan weithio'n amlasiantaethol:

> "[Mae'r] dull amlasiantaeth yn bwysig oherwydd yr hyn rydym yn sylwi arno yw bod llwybrau ADY yn cymryd amser hir, gydag amrywiol eiriolwyr, gweithwyr cymdeithasol, yn dweud na ddylen nhw [y plant] gael eu gwahardd, ond eu bod nhw [y plant] yn peri risg. Mae angen inni ddod at ein gilydd i drafod y ffordd orau i ddiwallu anghenion y plentyn o ystyried bod CAMHS a llwybrau niwroddatblygiadol yn cymryd mor hir, gan greu gorbryder cysylltiedig mewn rhai ysgolion." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

**Cyfyngiadau adnoddau**

3.47 Roedd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn crybwyll rhwystrau sy'n cyfyngu ar y cymorth sydd ar gael i rai plant sydd mewn risg o waharddiad. Roedd rhai o'r rheini a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio hyn yn nhermau cyllid – roedd un prifathro'n esbonio na fyddai'r gyllideb ysgol a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o gymorth ychwanegol i bobl ifanc yn y flwyddyn gyfredol ar gael y flwyddyn ganlynol oherwydd pwysau cyllidebol.

3.48 Roedd prifathrawon mewn ychydig o ysgolion yn esbonio cyfyngiadau lle ffisegol ac ystafelloedd addas yn eu hysgol ar gyfer darparu cymorth ychwanegol, tra bod eraill yn wynebu heriau wrth recriwtio staff sydd â sgiliau addas mewn rheoli a chefnogi ymddygiad. Roedd ychydig o brifathrawon hefyd yn disgrifio'r swm o amser athrawon sy'n cael ei ddefnyddio i reoli sefyllfaoedd cysylltiedig ag ymddygiad, gyda chanlyniadau i gyfrifoldebau eraill athrawon a'u llesiant cyffredinol.

3.49 Roedd rhai a gyfwelwyd o tua hanner yr awdurdodau lleol yn disgrifio cyfyngiadau cyllid ar gyfer y gwasanaethau maent yn eu darparu, y lleoedd cyfyngedig sydd ar gael o fewn eu hunedau cyfeirio disgyblion a'r graddau cyfyngedig mae darpariaeth ysgolion arbennig ar gael. Roedd staff o ychydig awdurdodau lleol yn disgrifio anawsterau recriwtio o fewn yr awdurdod lleol ar gyfer swyddi sy'n gysylltiedig â chymorth gyda gwaharddiadau a chyfyngiadau ar eu hamser, "mae cael amser i eistedd i lawr a chael cyfarfodydd tîm gydag ysgolion yn anodd." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

# 4. Canfyddiadau'r ymchwil: arferion a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau

4.1 Mae'r bennod hon yn defnyddio'r arolwg o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, plant a rhieni, i ddisgrifio'r arferion a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau. Crynhoir hefyd dystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth ar effeithiolrwydd pob un o'r arferion wrth rwystro gwahardd.

4.2 Gellir defnyddio amrywiaeth helaeth o ymyraethau mewn ysgol ac iddynt y nod o leihau'r risg o waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol. Gall yr ymyraethau hyn dargedu ffactorau risg ac ymddygiadau ar lefel unigolyn/plentyn, ar lefel ysgol, neu'r ddau. Wrth wneud hynny, gallant gynnwys rhieni, athrawon, staff yr ysgol a'r gymuned ehangach (Gaffney, Farrington and White, 2021). Dengys tystiolaeth o'r gwaith maes ansoddol y gall gwahanol gyfuniadau o'r arferion hyn gael eu defnyddio mewn rhai achosion i gefnogi plant.

4.3 Caiff yr arferion a nodwyd eu disgrifio isod. Maent wedi cael eu trefnu yn ôl y ddau bennawd canlynol:

- **Cyffredinol.** Disgrifio arferion y gellir eu gweithredu ar gyfer pawb o'r plant (ee trwy ddull ysgol-gyfan).
- **Penodol**. Disgrifio arferion sy'n canolbwyntio ar anghenion is-set o blant neu blant a ddewiswyd yn benodol.

4.4 O fewn pob un o'r penawdau hyn mae'r arferion wedi eu gosod yn nhrefn y nifer o weithiau y cawsant eu crybwyll drwy'r gwaith ansoddol.

**Arferion Cyffredinol**

*Arferion sy'n ystyriol o drawma*

4.5 Mae dulliau sy'n ystyriol o drawma mewn ysgolion yn strategaethau ac arferion a gynlluniwyd i greu amgylchedd gefnogol ac ystyriol i fyfyrwyr sydd wedi profi trawma (gweler Atodiad C).

4.6 Roedd lleiafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a atebodd yr arolwg yn amlygu'r defnydd o arferion sy'n ystyriol o drawma. Roedd mwyafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r defnydd o arferion sy'n ystyriol o drawma i

rwystro gwaharddiadau yn ôl cyfweliadau â staff. Roedd staff yn disgrifio amrywiaeth o safbwyntiau ar y defnydd o arferion sy'n ystyriol o drawma er mwyn sicrhau negeseuon cyson a chlir i blant, yn enwedig i'r plant hynny a oedd yn ansefydlog:

- Roedd rhai ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn sicrhau bod y defnydd o arferion sy'n ystyriol o drawma yn ymdrech ysgol-gyfan a bod gwerthoedd staff yn gydnaws â'r gwerthoedd yn yr arferion hyn.
- Amlygwyd hyfforddiant parhaus a rheolaidd mewn arferion sy'n ystyriol o drawma fel elfennau pwysig ar gyfer eu gweithredu'n llwyddiannus. Roedd gan rai ysgolion arweinwyr trawma dynodedig a oedd wedi eu sefydlu drwy'r holl ysgol.

4.7 Disgrifiodd un dirprwy brifathro ysgol uwchradd sut mae arferion sy'n ystyriol o drawma ac arferion adferol wedi cychwyn cael eu cyfuno'n un polisi ysgol er mwyn sefydlu'r rhain yn llawn yn ethos yr ysgol.

> "Yn hytrach na chael polisïau ar wahân ar gyfer arferion sy'n ystyriol o drawma ac arferion adferol, rydym wedi ceisio tynnu'r ddau ddull i mewn i'n hethos. Fodd bynnag, mae hyn yn cymryd amser i'w sefydlu ac i fyfyrwyr ddeall y dull adferol a diwylliant yr ysgol." (Dirprwy Brifathro Ysgol Uwchradd)

4.8 Roedd llawer o ymatebwyr o awdurdodau lleol yn nodi bod arferion sy'n ystyriol o drawma yn cael eu defnyddio i ryw raddau mewn ysgolion ar draws eu hawdurdod. Roeddent yn amlygu nifer o bersbectifau:

- Roedd arferion sy'n ystyriol o drawma yn helpu staff ysgolion i ddeall y rheswm dros yr ymddygiad a oedd yn gosod plentyn mewn risg o gael ei wahardd ac yn eu helpu i amau ai gwahardd oedd y peth priodol i'w wneud.
- Roedd ysgolion a oedd yn defnyddio arferion sy'n ystyriol o drawma yn cyflawni gwell canlyniadau i blant, megis cyfraddau gwahardd is.
- Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi defnyddio swyddogion ymddygiad a lles, sy'n ymarferwyr hyfforddedig ystyriol o drawma, i gefnogi ysgolion uwchradd.

4.9 Roedd ychydig o ymatebwyr o awdurdodau lleol yn mynegi'r farn fod newid meddylfryd yn effeithiol mewn ysgolion tuag at arferion sy'n ystyriol o drawma yn ddibynnol ar ennyn cydweithrediad cadarnhaol staff ar bob lefel mewn ysgol.

“Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae’n hanfodol sicrhau ymrwymiad ar bob lefel, yn enwedig gan yr arweinwyr. Mae hyn wedi bod yn frwydr ar adegau. Mae cynnydd sylweddol wedi’i gyflawni yn [ardal leol], gan ein bod wedi gwneud ymdrech lew i ddod yn ardal sy’n rhoi ystyriaeth lawn i drawma.” (Ymatebydd o Awdurdod Lleol)

**Astudiaeth achos: Arferion sy’n ystyriol o drawma**

*Mae’r astudiaeth achos hon o blentyn mewn ysgol yn dangos pwysigrwydd bod aelodau o staff ysgol yn ymwybodol o brofiadau niweidiol plentyn yn ystod ei blentyndod ac yn gweithredu arferion sy’n ystyriol o drawma. Roedd defnyddio arferion sy’n ystyriol o drawma yn galluogi’r plentyn, yn yr achos hwn, i deimlo’n gysurus yn ei amgylchedd ac ymddiried mewn aelodau penodol o staff yr ysgol. Mae hyn wedi ei alluogi i orffen ei addysg uwchradd ac edrych ymlaen tuag at y dyfodol.*

Roedd plentyn â phrofiad o fod mewn gofal, a oedd wedi profi plentyndod anodd gyda llawer o brofiadau niweidiol, yn ei chael yn anodd cydweithredu â’r ysgol, yn defnyddio iaith anweddus ac yn cael ei weld gan athrawon fel un ag agwedd wrthdrawiadol yn barhaus. Pan gychwynnodd yn yr ysgol, datblygodd y plentyn grŵp o gyfoedion hefyd y teimlai staff eu bod yn ddylanwad negyddol arno.

Defnyddiodd yr ysgol ddull sy’n ystyriol o drawma i weithio gyda’r plentyn. Trefnodd a gweithredodd yr ysgol becyn o gymorth i’r plentyn hwn, gan gynnwys cymorth gan weithwyr ieuenctid a oedd wedi cydweithio’n agos â gofalwyr maeth y plentyn. Darparodd yr ysgol leoliad ffisegol diogel i’r plentyn fynegi ei emosiynau, yn unol ag arferion ystyriol o drawma yr ysgol.

Roedd y plentyn yn gallu creu perthynas dda a chysylltiadau gydag aelodau penodol o staff a allai weld gwelliant yn ei ymddygiad, a dechreuodd y plentyn ddechrau teimlo fel pe bai’n gallu ymddiried yn yr aelodau hyn o staff i beidio â’i adael i lawr.

Mae’r plentyn bellach wedi gorffen addysg yn yr ysgol ac mae’n mynd ymlaen i gwblhau prentisiaeth mewn harddwch.

4.10 Mae dulliau sy’n ystyriol o drawma yn galluogi staff ysgolion i gydnabod y profiadau a allai fod yn sail i ymddygiadau plentyn, deall eu heffaith, cydnabod y diffyg rheolaeth y gall plentyn ei gael, addasu ei ymatebion a mynd ati o ddifrif i ddatblygu sgiliau’r plentyn i allu dygymod â’r heriau mae’n eu hwynebu. Mae arferion sy’n ystyriol o drawma yn dull cyffredin a ddefnyddio mewn gwasanaethau plant ac mewn ysgolion yn rhyngwladol a ledled y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, lansiwyd fframwaith cenedlaethol arferion trawma yn 2022 (Hyb ACE Cymru, 2022) ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd ag elusennau eraill, wedi bod yn cyflwyno hyfforddiant i ysgolion.

4.11 Mae tystiolaeth galonogol o’r llenyddiaeth fod arferion sy’n ystyriol o drawma yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol (megis gwell presenoldeb, cyrhaeddiad academaidd, rheolaeth emosiynol a hyder) i blant i sydd â nodweddion tebyg i’r rheini a gaiff eu hadnabod fel rhai mewn risg o waharddiad cyfnod penodol a pharhaol (ee rhai a gafodd brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, neu sydd â phroblemau ymddygiadol).

4.12 Mae tystiolaeth gyfyngedig o astudiaethau arbrofol sy’n archwilio effeithiau arferion sy’n ystyriol o drawma i rwystro gwahardd cyfnod penodol a pharhaol. Canfu un astudiaeth cyn- ac ôl-ymyrraeth yn Lloegr ostyngiadau mewn gwaharddiadau yn deillio o ddull ystyriol o drawma (cynllun o’r enw Attachment Aware Schools Pilots) mewn dau awdurdod lleol. Mae dwy astudiaeth arall yn Lloegr yn cysylltu arferion sy’n ystyriol o drawma mewn ysgolion â gostyngiadau mewn gwaharddiadau.

4.13 Yn gyffredinol, cafodd arferion sy’n ystyriol o drawma eu crybwyll yn aml gan rai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion fel rhai a gaiff eu defnyddio gyda phlant i rwystro gwahardd cyfnod penodol a pharhaol. Yn ogystal, mae tystiolaeth fod arferion sy’n ystyriol o drawma yn cael eu defnyddio’n helaeth mewn llawer o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru. Mae’n bwysig, fodd bynnag, nodi y gall effeithiolrwydd arferion sy’n ystyriol o drawma amrywio gan ddibynnu ar sawl ffactor gan gynnwys graddau ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgol, diwylliant yr ysgol, ansawdd hyfforddiant staff a’r amser staff sydd ar gael.

*Ennyn cydweithrediad rhieni*

4.14 Gellir diffinio ennyn cydweithrediad rhieni fel athrawon ac ysgolion yn cynnwys rhieni yn y gwaith o gefnogi dysgu academaidd a llesiant eu plentyn. Gall ennyn cydweithrediad rhieni gynnwys dulliau cyffredinol sy’n annog rhieni i gefnogi darllen neu waith cartref eu plentyn, cynnwys rhieni yng ngweithgareddau dysgu eu plentyn neu raglenni cymorth mwy dwys i deuluoedd sydd mewn argyfwng.

4.15 Wrth i staff ysgolion ddefnyddio strategaethau cynnwys rhieni gall fod effaith gadarnhaol ar nifer o ganlyniadau i blant, gan gynnwys sgiliau llythrennedd a chyrhaeddiad academaidd, a all fynd ymlaen wedyn i leihau’r risg o waharddiad cyfnod penodol neu barhaol (gweler Atodiad C).

4.16 Er nad oedd dim ond lleiafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cyfeirio at gydweithrediad rhieni yn yr arolwg, roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion yn cyfeirio at gydweithrediad rhieni mewn cyfweliadau â staff. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn disgrifio'r canlynol:

- Datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda rhieni er mwyn helpu lleihau'r risg o waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol trwy ddeialog er mwyn deall problemau o dan yr wyneb cyn gynted â phosibl.

  "Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i fod yn agored a gonest gyda rhieni, ac mae hyn wedi helpu eu cael nhw (ar y cyfan) o'n plaid. Mae'r pwyslais ar ddod â rhieni i'r sgwrs yn gynnar a'u gwneud nhw'n rhan o'r ateb, yn hytrach na'u beio am fod yn rhan o'r broblem. Mae'r ysgol yn deall yr heriau mae rhieni'n eu hwynebu ac yn ceisio gweithio gyda nhw." (Prifathro Ysgol Gynradd)

- Defnyddir 'arolwg tair-ffordd' mewn rhai ysgolion rhwng yr athro, y plentyn a'r rhiant i greu darlun o anghenion plentyn (cymdeithasol, ymddygiadol neu emosiynol) er mwyn archwilio arferion penodol, unswydd ar gyfer y plentyn.
- Roedd ysgolion yn sôn bod gweithio gyda rheini a'u cynnwys mewn sgyrsiau yn yr ysgol yn 'broses o ddysgu wrth fynd ymlaen' i raddau helaeth iawn, ac nad yw'n gweithio gyda phob teulu.

4.17 Lleiafrif o ymatebwyr awdurdodau lleol oedd yn cyfeirio at ennyn cydweithrediad rhieni yn eu cyfweliadau. Yn benodol, creu perthynas gyda rhieni yn gynnar os oes angen i'r awdurdod lleol ymwneud â'r rhieni. Cafodd cymorth awdurdod lleol ei ddisgrifio fel gofyn i rieni a oeddent yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi, a oedd unrhyw beth ar goll a bod yn rhagweithiol yn y trafodaethau hyn. Trwy greu'r cysylltiadau hyn, dywedodd ychydig o awdurdodau lleol eu bod yn fwy abl i gyfeirio rhieni at wasanaethau penodol yr awdurdod lleol y teimlent y byddent yn fuddiol.

4.18 Roedd y defnydd o weithio amlasiantaethol a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac eraill i gefnogi rhieni hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth buddiol.

  "Mae gennym berthynas dda gyda'r plentyn a'r gwasaeth teuluoedd, gwasanaethau ieuenctid a swyddogion lles addysg sy'n eistedd mewn

canolfannau cymorth cynnar ac sy'n rhan o'r sgyrsiau a'r gweithgareddau hyn [ynghylch gwaharddd]." (Ymatebydd o awdurdod lleol)

4.19 Roedd mwyafrif y rhieni yn y cyfweliadau hyn yn cyfeirio at y cyfathrebu a'r ohebiaeth barhaus a gawsant gydag ysgolion, a oedd yn helpu datblygu 'cyswllt gwirioneddol effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol'. Yn yr achosion hyn, gwnaed y cyfathrebu gan aelod o'r tîm bugeiliol neu'r tîm arwain yn yr ysgol neu'r unedau cyfeirio disgyblion.

4.20 Roedd mwyafrif y rhieni a gyfwelwyd yn teimlo'u bod yn cael eu hysbysu'n dda am unrhyw broblemau a oedd yn digwydd yn yr ysgol ac unrhyw arferion a oedd yn cael eu gweithredu i'w plentyn.

**Astudiaeth achos: ennyn cydweithrediad rhieni**

*Dengys yr astudiaeth achos hon sut y gall cydweithrediad effeithiol â rhieni leihau'r risg o waharddiad parhaol. Roedd yr ysgol uwchradd yn yr astudiaeth achos hon yn gallu cydweithio'n agos â rhiant y plentyn a chael eu cefnogaeth lawn mewn penderfyniadau.*

Roedd plentyn a oedd yn arddangos ymddygiad heriol iawn wedi dod yn destun pryder diogelwch pan oedd yr ysgol. Roedd yr ymddygiad yn cynnwys y plentyn yn gadael safle'r ysgol heb ganiatâd, cerdded i ffwrdd pan siaredid ag ef, a chamddefnyddio diffoddyddion tân.

Cydweithredodd mam y plentyn yn llawn â'r ysgol ac atgyfnerthu'r negeseuon gan athrawon pa mor bwysig oedd i'r plentyn gydweithredu'n gadarnhaol ag athrawon, a'i addysg. Oherwydd hyn, lleihaodd problemau ymddygiad a chafwyd gwell cydweithrediad ag addysgu gan arwain at leihad yn y risg o waharddiad parhaol.

Roedd yr ysgol yn nodi y byddai eisoes wedi arwain at waharddiad parhaol pe na bai'r fam wedi bod mor gefnogol. Roedd amheuaeth fod y plentyn yn ymwneud â gweithgareddau llinellau cyffuriau, ond gan fod y fam yn fodlon cefnogi'r ysgol yn eu penderfyniadau, roeddent yn gallu helpu i rwystro hyn.

Sylwodd yr ysgol fod ymddygiad y plentyn wedi gwella'n ddiweddar.

4.21 Cyfyngedig yw'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd cydweithrediad rhieni wrth atal gwaharddiadau. Fodd bynnag, mae corff mawr o dystiolaeth ynghylch ei effaith ar gyrhaeddiad academaidd, gydag adolygiad o 97 o astudiaethau yn amlygu y gall cydweithrediad rhieni gael effaith gadarnhaol, yn enwedig gyda rhieni plant iau, sydd gyfwerth â phedwar mis o gynnydd ychwanegol i blant. Yn ogystal, awgryma nifer bach o astudiaethau achos a gwerthusiadau ansoddol o raglenni ennyn cydweithrediad rhieni y gallant helpu lleihau'r risg o waharddiad.

4.22 Nodir rhwystrau cyffredin rhag ennyn cydweithrediad effeithiol rhieni yn y llenyddiaeth, gan gynnwys y staff yn brin o amser i ymwneud â rhieni, pryderon staff y gallai cynnwys rhieni, o'i wneud yn wael, wneud y sefyllfa gyda'r plentyn yn waeth, a diffyg hyfforddiant i staff ar sut i gael sgyrsiau anodd gyda rhieni. Mae'n bwysig hefyd sicrhau bod strategaethau ennyn cydweithrediad rhieni yn cyrraedd pawb o'r rhieni er mwyn osgoi'r perygl o gynyddu'r bwlch cyrhaeddiad i blant o gefndiroedd difreintiedig.

4.23 Roedd cydweithrediad rhieni yn cael ei grybwyll yn aml gan ymatebwyr o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn y gwaith maes. Y teimlad oedd bod datblygu perthynas gadarnhaol gyda rhieni yn helpu i ddarganfod y problemau gwaelodol sy'n dylanwadu ar ymddygiad heriol y plentyn, er y nodwyd hefyd nad oedd cynigion i ddatblygu perthynas o'r fath yn llwyddiannus bob amser. Cefnogir hyn gan atodiad Datblygu Trefniadau ar gyfer Ymgysylltu â Theuluoedd y Canllawiau Ysgolion Bro (Llywodraeth Cymru, 2023c). Fel yr amlygwyd yn y llenyddiaeth, gall ennyn cydweithrediad effeithiol rhieni fod yn heriol ac felly mae'n gofyn am amser digonol a hyfforddiant penodol i adeiladu hyder staff. Er gwaethaf hyn, roedd rhieni a gyfwelwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn dweud yn gyffredinol fod y cyfathrebu gydag ysgol neu uned cyfeirio disgyblion eu plentyn yn effeithiol, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am unrhyw broblemau a chymorth a ddarparwyd.

*Arferion adferol*

4.24 Dull o fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad a gwrthdaro yw arferion adferol, sy'n defnyddio deialog i annog atebolrwydd am weithredoedd unigolyn ac atgyweirio perthynas lle bo niwed wedi digwydd. Gellir defnyddio arferion adferol fel rhan o ddull ysgol-gyfan fel mewn ffordd benodol fel ymateb i ddigwyddiadau a/neu gyda grwpiau a dargedwyd o blant (gweler Atodiad C).

4.25 Roedd lleiafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg yn nodi'r defnydd o arferion adferol i rwystro gwaharddiadau. Fe wnaeth mymryn o dan hanner yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion ddisgrifio'r defnydd o arferion adferol ar sail cyfweliadau â staff. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ychydig o staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd yn disgrifio eu bod wedi datblygu diwylliant adferol ar draws yr holl ysgol ac yn defnyddio'r

dulliau hyn. Roedd staff ysgolion yn disgrifio ‘newid diwylliant’ a oedd yn galluogi eu hysgol i symud oddi wrth systemau blaenorol o reoli ymddygiad. Dywedodd un ymatebydd eu bod “wedi symud oddi wrth ganlyniad a chosb at [arferion] adferol” (Dirprwy Brifathro Ysgol Uwchradd). I un ysgol, roedd hyn wedi arwain at lai o waharddiadau cyfnod penodol nag y credent y byddent wedi eu profi fel arall. Roedd uwch aelodau staff yn esbonio bod newidiadau fel hyn yn cymryd amser i sefydlu eu hunain, ond eu bod yn arwain at well deialog rhwng staff a phlant.

- Eraill a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn crybwyll plant yn gallu cael sgyrsiau adferol gydag aelodau staff neu wiriadau gydag aelod o staff i helpu i atgyweirio perthynas a allai fod wedi torri i lawr. Roedd rhai a gyfwelwyd yn dweud bod hyn yn effeithiol, yn enwedig pan oedd yn cael ei wneud yn gyflym er mwyn osgoi i blant gymryd agweddau penderfynol a digyfaddawd sy’n fwy anodd eu datrys.

4.26 Dywedodd un prifathro o uned cyfeirio disgyblion pa mor dda mae arferion adferol i rwystro gwaharddiadau wedi ymwreiddio. Roedd yr enghraifft hon yn ymwneud â phlentyn 15 oed a etholwyd i’w cyngor ysgol uned cyfeirio disgyblion gan arwain at effaith gadarnhaol ar ei fywyd trwy gynyddu hyder, lleihau tebygolrwydd o waharddiadau pellach a chymryd cyfrifoldeb am gyfrannu at bolisi ymddygiad a system wobrwyo newydd a ddatblygwyd gan gymheiriaid.

> "Mae disgyblion hŷn, yn enwedig, yn adnabod budd arferion adferol pan fo gwrthdaro rhwng cyfoedion, ac yn ceisio cyngor gan staff i ddatrys hyn.”
> (Prifathro uned cyfeirio disgyblion)

4.27 Roedd rhai a gyfwelwyd o leiafrif o awdurdodau lleol yn disgrifio defnydd cynyddol ysgolion o arferion adferol i helpu ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i ddatblygu perthynas gyda phlant, a rhwng plant a’i gilydd. Roedd un awdurdod lleol yn nodi gwaith eu seicolegwyr addysgol, wrth hyfforddi staff ysgolion mewn systemau ymddygiad cadarnhaol i helpu gweithredu arferion adferol. Cafodd hyn ei groesawu ac arweiniodd at gymorth cyson ac effeithiol yn cael ei roi i blant.

4.28 Roedd ychydig o awdurdodau lleol yn rhoi sylwadau ar bwysigrwydd gael ethos adferol, fel y darlunir gan y dyfyniad canlynol.

> "Dw i'n teimlo fel pe baen ni'n symud yn nes, wrth siarad am ddulliau adferol a thrwy ddefnyddio'r model hwn, mae polisïau rheoli ymddygiad yn cael eu disodli gan bolisïau meithrin perthynas, er mwyn creu ethos o atgyweirio yn hytrach na chanlyniad yn unig." (Ymatebydd o awdurdod lleol)

4.29 Roedd ychydig o blant yn eu cyfweliadau yn nodi bod arferion adferol yn cael eu defnyddio, pan oeddent mewn risg o waharddiad, a sut roedd hyn yn gweithio. Roedd y plant hyn yn disgrifio sut roedd edrych yn ôl ar eu gweithredoedd yn eu helpu i feddwl am eu hymddygiad yn y dyfodol.

> "Rydym yn gwneud arferion adferol ar ôl bod mewn cynhwysiant am y diwrnod … lle'r ydym yn edrych ar y sefyllfa, beth dw i wedi'i wneud, ac wedyn rydym yn mynd drosto ac edrych ar ffyrdd o rwystro iddo ddigwydd eto." (Plentyn)

**Astudiaeth achos: Arferion adferol**

*Mae'r astudiaeth achos hon o blentyn mewn uned cyfeirio disgyblion yn dangos sut mae arferion adferol wedi helpu i ddatblygu deialog gyda'r plentyn ynghylch ei ymddygiad ac wedi ei helpu i'w reoli ei hun.*

Roedd y plentyn wedi dod i uned cyfeirio disgyblion yn dangos ymddygiad heriol iawn.

Roedd ei ymddygiad wedi dod i darfu fwyfwy ar eraill, gan fod arno eisiau cael ei wahardd ac ni allai ddeall pam nad oedd staff wedi gweithredu gwaharddiad fel cosb am ei ymddygiad. Teimlai'r plentyn fel pe na bai unrhyw reolau iddo ef a daeth yn ddifrïol a heriol tuag at staff. Arweiniodd hyn at i'r plentyn gymryd amser i ffwrdd o'r uned cyfeirio disgyblion oherwydd fod arno ormod o gywilydd i wynebu athrawon mewn cyfarfodydd adferol.

Ar ôl sawl mis o weithio gyda'r plentyn hwn mewn ffordd adferol, dechreuodd ei ymddygiad dawelu a dechreuodd y plentyn fynegi gwir edifeiriwch ynghylch rhai o'i weithredoedd. Roedd staff yr uned cyfeirio disgyblion yn cydnabod bod y plentyn yn teimlo bod gwaharddiad yn ddihangfa o'i drafferthion ac wedi dod i deimlo fel pe bai'n haeddu gwaharddiad am ei ymddygiad.

4.30 Awgryma tystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth fod ysgolion sy'n gweithredu arferion adferol yn profi lleihad yn y nifer o waharddiadau a gyflwynir. Roedd mwyafrif yr astudiaethau a adolygwyd ar draws y llenyddiaeth a ddewiswyd yn adrodd canlyniadau cadarnhaol arferion adferol, gan gynnwys gwella sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol plant. Canfu'r adolygiad astudiaethau arbrofol a lled-arbrofol yn asesu effaith arferion adferol, gyda chanfyddiadau cymysg ynghylch effeithiolrwydd y dull wrth leihau gwaharddiadau.

4.31 Mae galluogwyr allweddol gweithredu'n effeithiol arferion adferol mewn ysgolion yn cynnwys defnyddio dull ysgol-gyfan, uwch-aelodau staff yn dangos ymroddiad ac esiampl, a hyder staff yn cael ei gefnogi â hyfforddiant rheolaidd. Mae heriau wrth weithredu yn cynnwys sicrhau ymrwymiad staff a chael digon o amser ar gyfer sgyrsiau adferol.

4.32 Yn gyffredinol, mae tystiolaeth y gall arferion adferol, yn enwedig wrth eu gweithredu fel dull ysgol-gyfan, wella ymddygiad a lleihau gwaharddiadau. Er na chanfu'r adolygiadu llenyddiaeth unrhyw ymchwil i effeithiolrwydd dulliau adferol yn ysgolion Cymru'n benodol, roedd rhai ymatebwyr yn y gwaith maes yn disgrifio eu manteision, gan gynnwys sut maent yn helpu i feithrin perthynas gadarnhaol rhwng staff a phlant ac, mewn rhai achosion, yn lleihau'r risg o waharddiad.

*Dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol*

4.33 Mae dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol plant yn ceisio cefnogi lleisant emosiynol a meddyliol da trwy hyrwyddo amgylchedd diwylliannol cadarnhaol mewn ysgolion. Mae tystiolaeth o risg rhwng iechyd meddwl a llesiant gwael, a chynnydd mewn risg o waharddiadau (gweler Atodiad C).

4.34 Er nad oedd dim ysgolion nac unedau cyfeirio disgyblion yn cyfeirio at y dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn yr arolwg, roedd hanner y staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd yn disgrifio'r defnydd o ddull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol fel ffactor i helpu i rwystro gwaharddiadau. Roedd rhai a gyfwelwyd yn disgrifio agweddau o'u dulliau:

- Timau llesiant unswydd ar gael mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i ddyrannu cymorth i blant sydd ag anghenion llesiant mwy heriol.
- Darparu cymorth cymdeithasol-emosiynol i blant mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Mewn rhai ysgolion roedd hyn yn cynnwys gweithiwr bugeiliol ym mhob grŵp blwyddyn.
- Roedd timau llesiant yn aml yn cynnwys staff bugeiliol mewnol ac mewn un achos, gweithiwr CAMHS.

"Mae iechyd meddwl yn thema sy'n dod fwyfwy i'r amlwg a dyna pam fod gennym ganolfan lesiant gyda phedwar o staff hyfforddedig Lefel 2 mewn llwybr

hunan-niweidio a gweithiwr CAMHS o fewn cyrraedd." (Dirprwy Brifathro Ysgol Uwchradd)

4.35 Roedd lleiafrif o ymatebwyr o awdurdodau lleol yn eu cyfweliadau yn cyfeirio at ddull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol. Amlygwyd y canlynol gan rai a gyfwelwyd:

- Mae'n galluogi plant i ddod i'r ysgol gan wybod beth i'w ddisgwyl pan maent yn teimlo'n fregus, lle maent yn gallu adnabod emosiynau a siarad amdanynt.
- Mae wedi cael effaith fawr mewn meysydd llesiant penodol i rai awdurdodau, sy'n defnyddio ymarferwyr Thrive[17], ond gall eu llwythi achosion gael eu llethu yn gyflym iawn.
- Mae'n cyfuno agweddau o anogaeth gyda llesiant sy'n galluogi canolbwyntio mwy ar ddeall anghenion a phrofiadau niweidiol yn ysgo plentyndod, a chaiff ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n helpu rhwystro gwaharddiadau mewn rhai awdurdodau lleol.

4.36 Ni chyfeiriodd rhieni a phlant at ddulliau ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn eu cyfweliadau.

**Astudiaeth achos: Dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol**

*Dengys yr astudiaeth achos hon sut y defnyddiodd uned cyfeirio disgyblion eu dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol trwy amrywiaeth o arferion, rhaglenni cymorth ac asesiadau llesiant.*

Roedd un uned cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r amrywiaeth o arferion a rhaglenni cymorth a oedd ganddynt ar waith i helpu plant wrth ddatblygu eu hiechyd emosiynol a sgiliau cymdeithasol. Mae plant yn yr uned cyfeirio disgyblion hon yn cael cyfle i ddilyn sesiynau rheoli dicter, ioga ac ymwybyddiaeth ofalgar.

Caiff asesiadau llesiant eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod ymyraethau priodol a phenodol ar waith i gefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol. Gall ymyraethau dilynol o'r asesiadau hyn gynnwys chwarae therapiwtig a chwnsela, sydd ar gael i bawb o'r plant.

Canlyniad hyn oedd plant a oedd yn gyffredinol dawelach, eu rheoli'n well, a oedd yn helpu i rwystro digwyddiadau a allai arwain at waharddiad.

4.37 Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth sy'n cysylltu gwelliannau mewn llesiant emosiynol a meddyliol plant â gwell canlyniadau addysgol, ond nid â lleihad mewn gwaharddiadau. Fodd bynnag, caiff gwell llesiant emosiynol a

[17] Rhaglen lesiant cymdeithasol ac emosiynol yw Thrive a gynlluniwyd i gefnogi llesiant datblygiad emosiynol a llesiant meddyliol plant oed ysgol gynradd.

meddyliol ei gysylltu â gwell canlyniadau addysgol, gan gynnwys llai o waharddiadau, i blant. Roedd ymatebwyr yn y gwaith maes hefyd yn nodi risg is o waharddiad yn gysylltiedig â chymorth i ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol plant. Mae ffactorau pwysig wrth weithredu yn cynnwys cyfathrebu clir gan uwch arweinwyr, adolygu holl bolisïau'r ysgol, cyfeirio at lesiant staff, hyfforddiant i staff, cydbwysedd rhwng cymorth cyffredinol a phenodol, a chynnwys rhieni, teuluoedd a'r gymuned.

*Cymorth pontio*

4.38 Mae cymorth pontio yn cyfeirio at arferion (naill ai rhai cyffredinol neu benodol) ac iddynt y nod o ymdrin â'r heriau posibl y gall plant eu derbyn wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Gall gynnwys dulliau ac iddynt y nod o ddatblygu cysylltiadau rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo neu weithgareddau i helpu lleddfu pryderon plant ynghylch y pontio a'u gwneud hwy'n gyfarwydd â'u hysgol newydd (gweler Atodiad C).

4.39 Wrth ymateb i'r arolwg, ni wnaeth yr un ysgol nac uned cyfeirio disgyblion gyfeirio at gymorth pontio penodol. Fodd bynnag, soniodd llawer o staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion am bwysigrwydd cymorth pontio yn ystod eu cyfweliadau a sut y gallai hyn gefnogi llesiant plant a lleihau risgiau o waharddiad. Roeddent yn disgrifio cymorth i adeiladu perthynas gydag athrawon a phlant eraill yn yr ysgol newydd, dygymod â'r newid mewn amgylchedd, cydymffurfio â rheolau newydd a disgwyliadau o ran ymddygiad, ac ymdrin â straen o ganlyniad i ddulliau dysgu ac addysgu ar lefel uwch. Roedd enghreifftiau o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cynnwys:

- Un ysgol uwchradd yn disgrifio gwaith penodol a wnaed gydag ysgolion cynradd mewn clwstwr i adnabod y plant hynny sy'n debygol o fod angen cymorth pellach pan fyddont yn pontio i'r ysgol uwchradd.
- Ysgolion cynradd bach yn rhoi amser dynodedig i blant gyda'u hathro newydd wrth symud i fyny ddosbarth mewn pontio mewnol. Yn aml, defnyddir proffil un-dudalen o'r plentyn i rannu gwybodaeth rhwng y ddau athro ac i helpu'r athro newydd i wybod am anghenion y plentyn. Mae elfennau eraill sy'n cynyddu ymddiriedaeth yn cynnwys ymwneud â rhieni.

“Trosglwyddo ymddiriedaeth o un oedolyn i’r llall – rydym yn gweithio’n galed cyn yr haf i i baratoi’r plentyn gyda’i athro presennol a’i athro newydd. Lluniau o’r staff i fynd adref. Cyfarfodydd i rieni gyda’r ddau athro.” (Prifathro Ysgol Gynradd)

4.40 Roedd mwyafrif ymatebwyr o awdurdodau lleol yn cyfeirio at gymorth pontio a pham y gallai hyn helpu lleihau’r risgiau o waharddiad.

- Teimlai rhai staff awdurdodau lleol fod angen mwy o waith ar adeg y pontio, mewn rhannau o’u hardaloedd daearyddol, lle teimlant ei fod yn cael blaenoriaeth isel, fel bod gan ysgolion uwchradd wir ddealltwriaeth o anghenion plentyn, ar sail eu profiad yn yr ysgol gynradd.
- Roedd adnoddau anogaeth yn cael eu disgrifio fel rhai sy’n amrywio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ac, felly, teimlai staff awdurdodau lleol fod angen mwy o bwyslais er mwyn sicrhau cysondeb i blant penodol a oedd wedi elwa ar amgylchedd o anogaeth mewn ysgol gynradd.

4.41 Ni chyfeiriodd rhieni a phlant yn benodol at gymorth pontio penodol yn eu cyfweliadau. Mewn rhai achosion, lle’r oedd plant wedi cael eu symud o ysgol brif ffrwd i uned cyfeirio disgyblion, dywedodd rhieni fod y lefelau cyffredinol o gymorth a roddwyd gan staff yr uned cyfeirio disgyblion yn well nag mewn ysgolion prif ffrwd.

4.42 Er bod llawer o lenyddiaeth ar bontio cyffredinol o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd, mae ymchwil sy’n gwerthuso ymyraethau penodol ac iddynt y nod o wella profiadau plant o bontio yn fwy cyfyngedig, ac ni chanfuwyd unrhyw astudiaethau sy’n asesu’n benodol effaith ymyraethau cymorth pontio ar y risg o waharddiad.

4.43 Mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn canolbwyntio’n arferol ar effeithiolrwydd ymyraethau cymorth pontio wrth leihau pryderon plant ynghylch pontio a gwella eu llesiant. Awgryma mai ymyraethau sy’n pontio’r ddwy lefel o addysg, sy’n cefnogi perthynas plant gyda’u cymheiriaid ac athrawon, sy’n cynnwys rhieni, mynd i’r afael â phryderon cyffredin ynghylch pontio, ac sy’n darparu cymorth unigoledig i blant agored i ganlyniadau negyddol yw’r rhai sy’n debygol o fod y rhai mwyaf effeithiol wrth gefnogi llesiant yn ystod pontio.

4.44 Yn wyneb natur amrywiol gweithgareddau cymorth pontio, mae’n anodd adnabod rhwystrau a galluogwyr cyffredin wrth eu gweithredu. Roedd rhai rhwystrau a

amlygwyd o fewn y llenyddiaeth fel rhai a allai fod yn berthnasol ar draws gwahanol fathau o weithgareddau cymorth pontio yn cynnwys gweithgareddau cystadleuol yn cael eu cynnal yn ystod tymor haf olaf yr ysgol gynradd, a'r risg o deimlo cywilydd a labelu i grwpiau sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau penodol. Mae galluogwyr allweddol yn cynnwys ymrwymiad a chefnogaeth yr awdurdod lleol, ymrwymiad ac arweiniad gan uwch arweinwyr yn y ddwy ysgol, a chyfathrebu cryf rhwng pawb perthnasol, gan gynnwys staff yr ysgol, rhieni a phlant.

4.45 Yn gyffredinol, er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd ymyraethau cymorth pontio, dengys y llenyddiaeth sydd ar gael y gall gael effaith gadarnhaol ar lesiant plant, yn enwedig wrth helpu i leihau gorbryder am y newid. Mae hyn yn cyd-fynd â safbwyntiau a gafwyd yn ystod y gwaith maes, gyda llawer o ymatebwyr yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd cymorth pontio wrth helpu plant i ddygymod â'r heriau a ddaw yn sgil symud i'r ysgol uwchradd. Roedd ymatebwyr o'r farn hefyd fod cymorth pontio, yn enwedig y cymorth sy'n helpu ysgolion uwchradd i gael dealltwriaeth glir o anghenion plentyn ysgol gynradd, cyn cychwyn y tymor, yn gallu helpu i leihau'r risg o waharddiad.

*Dull ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad*

4.46 Dull ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad yw un lle mae safonau a disgwyliadau ymddygiad da yn treiddio i bob agwedd o fywyd ysgol. Mae hyn yn cynnwys diwylliant, ethos a gwerthoedd yr ysgol, sut y caiff plant eu haddysgu a'u hannog i ymddwyn, yr ymateb i gamymddwyn a'r berthynas rhwng staff, plant a rhieni. Dylid ei weithredu'n gyson ac yn deg er mwyn creu amgylchedd y gellir ei ddisgwyl ar draws yr ysgol (gweler Atodiad C). Gall dulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad gynnwys hyfforddiant i athrawon, systemau gwobrwyo, atgyfnerthu ymddygiad rhag-gymdeithasol, a disgyblaeth ar gyfer camymddygiadau.

4.47 Wrth ymateb i'r arolwg, lleiafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion oedd yn cyfeirio at ddulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad. Soniodd ychydig dros hanner y rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion am ddulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad yn eu cyfweliadau. Roeddent yn disgrifio'r canlynol:

- Bod angen i ysgolion gael ethos a diwylliant clir sy’n dod gan dîm arwain cryf er mwyn i holl staff a phlant yr ysgol ddeall y defnydd o wahardd.
- Gwahardd yn cael ei ddefnyddio fel y cam olaf un pan fo pob dewis arall wedi cael eu harchwilio, sy’n arwain at fwy o gysondeb wrth ei ddefnyddio.
- Diffyg canolbwyntio ar wraidd y problemau mae plant yn eu hwynebu, gyda mwy o bwyslais ar ddisgyblaeth.

4.48 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o awdurdodau lleol yn cyfeirio at ddulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad yn eu cyfweliadau. Roedd eu hawgrymiadau’n cynnwys:

- Yr ysgolion a’r unedau cyfeirio disgyblion ‘mwyaf llwyddiannus’ yw’r rheini sy’n gallu mabwysiadu dull hyblyg, sydd wedi ei deilwra i anghenion ac ymddygiadau’r plentyn unigol.
- Caiff cyfraddau gwahardd eu dylanwadu’n aml gan ethos ymddygiadol ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, eu prosesau penodol, yr agweddau gan y tîm arwain ac a oes ymroddiad neu beidio i ‘wneud popeth posibl’ dros blentyn penodol.

“Mae gan ysgolion yr offer sydd arnynt ei angen i wneud y gwaith, ond yn pen draw mae’n dibynnu ar arweiniad ac ethos.” (Ymatebydd o awdurdod lleol)

4.49 Ni wnaeth dim rhieni na phlant grybwyll dulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad yn eu cyfweliadau. Gallai hyn fod oherwydd bod ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn rhoi mwy o wybodaeth i rieni a phlant am arferion penodol a fyddai’n cael eu defnyddio, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad.

4.50 Canfu adolygiad systematig o dystiolaeth ar effaith ymyraethau ymddygiad ysgol-gyfan eu bod yn cael rhai effeithiau buddiol ar ganlyniadau ymddygiad. Canfuwyd y gall naill ai hyfforddi athrawon neu roi systemau gwobrwyo clir ar waith wella ymddygiad disgyblion ymhlith pawb o’r plant, ac yn fwy fyth felly wrth eu targedu a’u haddasu ar gyfer plant sy’n arddangos ymddygiad sy’n tarfu ar eraill. Efallai mai dulliau sy’n cyfuno elfennau cyffredinol a phenodol yw’r rhai mwyaf llwyddiannus ar gyfer gwella ymddygiad. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd o astudiaethau arbrofol yn yr Unol Daleithiau y gall ymyraethau ysgol-gyfan i annog ymddygiad cadarnhaol leihau cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol. Nodwyd yn y llenyddiaeth fod

dulliau sy’n canolbwyntio ar annog ymddygiad cadarnhaol yn tueddu i gael mwy o effaith ar wella ymddygiad na mesurau cosbedigol megis dulliau dim goddefgarwch. Fodd bynnag roedd cysondeb wrth weithredu a chydlyniant yn cael eu hamlygu’n gyffredin fel elfennau allweddol o weithredu dulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad, waeth beth fo’r dull cyffredinol a ddefnyddir.

4.51 Mae nodweddion allweddol eraill a nodwyd fel rhai pwysig ar gyfer gweithredu dulliau ysgol-gyfan effeithiol o ymdrin ag ymddygiad yn cynnwys ymroddiad uwch-arweinwyr, disgwyliadau uchel o ran ymddygiad i blant, hyfforddiant i staff ar reoli ymddygiad, cyfrifoldeb ar y cyd ymysg staff, a dealltwriaeth o effaith ddisgwyliedig y dull ysgol-gyfan a sut y mesurir hyn. Yn gyffredinol, mae llawer y dystiolaeth y gall dulliau ysgol-gyfan wella ymddygiad, gyda rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod dulliau cadarnhaol, yn hytrach na rhai cosbedigol, yn fwy effeithiol yn y cyswllt hwn. Cafodd dulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad eu hamlygu fel ffactor wrth leihau gwaharddiadau gan rai ymatebwyr o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a’r mwyafrif o ymatebwyr o awdurdodau lleol. Y farn a rennid, yn unol â rhywfaint o’r llenyddiaeth ar ddulliau cadarnhaol ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad, oedd mai’r rheini sy’n ystyried anghenion unigol y plentyn, ac sydd ag ethos o ddefnyddio gwaharddiad fel y cam olaf un, yw’r rhai mwyaf effeithiol wrth leihau cyfraddau gwahardd.

**Arferion penodol**

4.52 O fewn pob un o’r penawdau hyn, caiff yr arferion penodol eu gosod mewn trefn yn ôl y nifer o weithiau y’u crybwyllwyd ar draws y gwaith maes ansoddol. Yr eithriad yw gwaharddiadau mewnol ac amserlenni llai, a drafodir ar y diwedd oherwydd rhai cyfyngiadau yn y ffordd y cânt eu defnyddio.

*Grwpiau anogaeth*

4.53 Amgylcheddau addysgol bach, strwythuredig a chefnogol yw grwpiau anogaeth a gynlluniwyd ar gyfer rhoi cymorth at anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol mewn plant oedran ysgol. Maent yn ddull cynhwyso a all wella mynediad at ddysgu i blant sy’n ei chael yn anodd dysgu mewn dosbarth prif ffrwd. Lle defnyddir grwpiau anogaeth i leihau’r risg o waharddiad, eu nod yn arferol yw

hyrwyddo iechyd meddwl da trwy helpu plant i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac adeiladu eu hyder a'u hunan barch (gweler Atodiad C).

4.54 Roedd tua hanner yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r defnydd o arferion anogaeth yn yr arolwg. Roedd mwyafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn darparu arferion anogaeth yn ôl cyfweliadau â staff. Roedd rhai a gyfwelwyd yn disgrifio sut roedd y rhain yn cael eu defnyddio:

- Roedd ystafelloedd anogaeth yn cael eu disgrifio'n amrywiol fel lleoedd "i dawelu a hunan-reoli" (Prifathro Ysgol Uwchradd), ar gyfer "ymyraethau therapiwtig neu academaidd" (Prifathro Cynorthwyol Ysgol Uwchradd), neu "leoedd ar gyfer gweithio gyda myfyrwyr sy'n ei cael yn anodd gyda gorbryder ac iechyd meddwl" (Prifathro Ysgol Uwchradd).
- Roedd rhai staff ysgolion yn pwysleisio mor bwysig oedd bod cymorth anogaeth yn cael ei gyflwyno yn rhan o brif adeilad yr ysgol, fel ei fod yn teimlo'n gynhwysol a chefnogol i blant. Dywedodd aelodau eraill o staff ysgolion fod cymorth anogaeth yn cael ei gyflwyno mewn adeilad ar wahân ar safle'r ysgol a bod hyn yn gweithio'n dda.

4.55 Roedd aelod o staff o ysgol ganol yn disgrifio eu "Lleoliad Anogaeth" sy'n adeilad lle gall plant fynd iddo os ydynt yn canfod gwersi penodol yn anodd. Mae hyn yn cynnwys "ystafell ymdawelu", a oedd yn galluogi plant i roi eu meddwl ar waith cyn i ymddygiad waethygu. Teimlai'r ymatebydd hwn fod y lle hwn yn gweithio'n dda ac yn cyfrannu at rwystro gwahardd plant a allai fel arall ddod yn afreolus ac mewn risg o dorri cod ymddygiad yr ysgol.

4.56 Roedd Cydlynydd ADY o uned cyfeirio disgyblion yn dangos sut roedd dulliau o fewn grwpiau anogaeth yn gweithio'n dda i'w plant.

> "Beth nad yw disgyblion yn ei weld weithiau yw'r holl ymyraethau cynnil mae staff yn eu defnyddio i ostegu eu hymddygiad a darparu amgylchedd tawel, cydnaws. Gall hyn wedyn gyflawni newid cadarnhaol heb fod disgyblion yn llwyr ddeall eu bod yn gwneud gwaith." (Cydlynydd ADY uned cyfeirio disgyblion)

4.57 Roedd ymatebwyr o lawer o awdurdodau lleol yn crybwyll darpariaeth anogaeth (llai yn cyfeirio'n benodol at grwpiau anogaeth) i helpu plant a oedd wedi eu gwahardd

yn fewnol a'r rheini mewn risg o waharddiad cyfnod penodol. Roeddent yn disgrifio amrywiaeth o bersbectifau:

- Roedd arferion anogaeth yn esblygu mewn rhai ysgolion ond roedd angen iddynt ymwreiddio'n ehangach ar draws yr holl ysgolion i gefnogi plant.
- Roedd ysgolion sy'n defnyddio arferion anogaeth yn cyflawni gwell canlyniadau i blant a gefnogir, megis perfformiad plant o gymharu â lefelau disgwyliedig cynnydd a llai o risg o waharddiad cyfnod penodol.
- Mae rhai plant yn mynd i'r ddarpariaeth anogaeth i gofrestru os yw hynny'n fater o or-bryder iddynt.
- Roedd darpariaeth anogaeth yn aml yn gysylltiedig â dulliau ehangach yn yr ysgol o ran llesiant, arferion sy'n ystyriol o drawma a chymorth cynorthwywyr llythrennedd emosiynol (ELSA).

4.58 Dywedodd ychydig o ymatebwyr o awdurdodau lleol nad oedd gan rai ysgolion ond ychydig o le ffisegol i gynnig darpariaeth anogaeth ychwanegol.

> "Bydd prifathrawon yn dweud y byddent wrth eu bodd o gael darpariaeth anogaeth gyda digonedd o le ychwanegol a gardd braf, ond yn nodi eu bod yn llawn ac yn gweithio ar safleoedd cyfyng." (Ymatebydd o awdurdod lleol)

4.59 Roedd rhieni yn cyfeirio at ddarpariaeth anogaeth mewn cyfweliadau, gan eu disgrifio fel lleoedd i ymdawelu a gostegu. Er enghraifft:

> "Mae [fy mab] yn gwneud cylchedau synhwyraidd ond mae hynny ar gyfer blynyddoedd 7-9, ddim yn siŵr os bydd hynny'n dal ar gael ym mlwyddyn 10 ond maen nhw wedi bod yn dda i'w helpu i hunan-reoli a thawelu mewn lle heddychlon. Mae'r [ysgol] yn lle swnllyd a gallwch glywed drysau'n cau'n glep sy'n ei gwneud yn anodd i'm mab." (Rhiant)

**Astudiaeth achos: Cymorth anogaeth**

*Mae'r astudiaeth achos hon o blentyn mewn ysgol gynradd yn dangos yr effaith gadarnhaol y gall grŵp cymorth anogaeth ei gael ar blentyn. Mae'r astudiaeth achos hon yn cyfuno cymorth anogaeth â gweithio amlasiantaethol.*

Fe wnaeth plentyn ysgol gynradd ym Mlwyddyn 6 a oedd â gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig oherwydd camdriniaeth ac esgeulstod elwa ar fynychu uned anogaeth yn ystod Blwyddyn 5. Gweithiodd y plentyn yn galed o fewn y grŵp anogaeth a chafodd cymorth gan therapydd chwarae a gwasanaethau allgymorth yn dod i mewn yn wythnosol i

gefnogi'r plentyn o fewn yr uned anogaeth. Drwy gydol Blwyddyn 5, cafodd y plentyn gymorth un-i-un gan gynorthwyydd addysgu.

Mae'r plentyn bellach wedi ailintegreiddio'n ôl i Flwyddyn 6 heb ddim cymorth un-i-un ychwanegol. Mae bellach yn ôl gyda'i dad genedigol yn dilyn gwaith gyda gwasanaethau cymdeithasol.

4.60 Dengys tystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth y gall grwpiau anogaeth, i blant sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, fod yn effeithiol wrth wella gweithredu cymdeithasol ac emosiynol, ymddygiad a chyrhaeddiad. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn ymwneud ag ysgolion cynradd. Er bod tystiolaeth ar effeithiolrwydd grwpiau anogaeth ar leihau gwaharddiadau yn fwy cyfyngedig, mae rheoleiddwyr fel Estyn ac Ofsted wedi argymell grwpiau anogaeth fel ffordd o rwystro gwaharddiadau a gwella presenoldeb.

4.61 Mae rhywfaint o waith ymchwil yn awgrymu bod angen i grwpiau anogaeth, er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, gael eu cyflwyno fel ymyrraeth hirdymor, sef dros ddwy flynedd neu fwy. Dywedwyd hefyd fod darparu cyfleoedd i blant ymarfer eu sgiliau cymdeithasol y tu allan i amgylchedd y grŵp anogaeth a chynllunio ar gyfer ailintegreiddio i wersi prif ffrwd yn bwysig er mwyn gweithredu grwpiau anogaeth yn effeithiol. Mae galluogwyr eraill yn cynnwys sefydlu llythrennedd emosiynol ym mhob agwedd o ddarparu grwpiau anogaeth, gan gadw'r nifer o blant yn y grŵp anogaeth yn isel, sicrhau bod y grŵp yn gallu addasu i anghenion pob unigolyn, a chynnwys rhieni ar bob cam o'r broses.

4.62 Yn gyffredinol, er bod tystiolaeth ar effeithiolrwydd grwpiau anogaeth wrth fynd i'r afael ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, roedd ymatebwyr i'r adolygiad hwn yn aml yn disgrifio arferion anogaeth a ddefnyddir gan staff neu leoedd y gall plant fynd iddynt os oeddent yn teimlo wedi eu llethu, yn hytrach na'r grwpiau mwy strwythuredig yn y llenyddiaeth, er y rhoddwyd ychydig enghreifftiau o grwpiau o'r fath.

*Cwricwlwm wedi'i addasu*

4.63 Mae cwricwlwm wedi'i addasu yn golygu newidiadau'n cael eu gwneud i'r cwricwlwm i gefnogi anghenion plentyn a allai fod yn ei chael yn anodd mewn gwersi prif ffrwd. Trwy weithredu cwricwlwm wedi'i addasu, mae'n rhoi cyfle i'r plentyn barhau ei addysg gan dderbyn hefyd gwricwlwm mwy amrywiol i gefnogi

hyn. Gall yr addasiadau hyn leihau'r risg o waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol gan fod plant yn derbyn cymorth unswydd i ddiwallu eu hanghenion, sydd â'r potensial o leihau ymddygiad heriol (gweler Atodiad C).

4.64 Yng Nghymru, mae Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Nid yw 'cwricwlwm wedi'i addasu' yn derm a ddefnyddir fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru a rhaid i unrhyw addasiadau gael eu cyflawni yn unol â'r dyletswyddau a chyfrifoldebau am gwricwlwm cytbwys fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o anghenion ac amgylchiadau pawb o'u dysgwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, gan ystyried cyfle teg wrth roi cymorth ac ymyraethau ar waith neu wneud addasiadau rhesymol. Yn ogystal, rhaid i'r grym i ddatgymhwyso'r cwricwlwm i blant neu bobl ifanc unigol gael ei weithredu gan brifathrawon yn gyson â seiliau perthnasol a amlinellir yn Neddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Dylid nodi bod cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei wneud fesul tipyn fel ei fod yn berthnasol i leoliadau addysgu gyda phlant hyd at flwyddyn 8, tra bod lleoliadau gyda dysgwyr hyn yn parhau gyda Chwricwlwm 2008. Mae Adran 114 o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi'r seiliau perthnasol i brifathrawon wneud eithriadau dros dros o Gwricwlwm 2008 ar gyfer disgyblion unigol.

4.65 Cyfeiriodd ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg at gwricwlwm wedi'i addasu. Mymryn dros hanner yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion a gyfeiriodd at gwricwlwm wedi'i addasu yn y cyfweliadau â staff. Roeddent yn disgrifio'r canlynol:

- Pecynnau dysgu hybrid mewn rhai ysgolion i'r plant hynny sy'n ansefydlog, a'r rhain yn cynnwys dysgu yn yr awyr agored, mynd oddi ar y safle i wneud gweithgareddau a gwersi traddodiadol.
- Ysgolion yn gwneud ceisiadau i'r awdurdod lleol am ddarpariaeth cwricwlwm wedi'i addasu ac mewn rhai achosion yn comisiynu darparwyr allanol lle na ellir diwallu'r galw yn fewnol, a phlant heb fod yn ymateb i ddarpariaeth cwricwlwm prif ffrwd a chymorth ychwanegol.
- Cwricwlwm wedi'i addasu ac allgymorth yn cael eu defnyddio i blant sy'n aros am i leoedd mewn uned cyfeirio disgyblion ddod ar gael. "Mae rhai disgyblion sydd wedi bod ar y rhestr am flwyddyn neu ddwy, a all fod yn dilyn amserlen lai, ac

wedi yn defnyddio darparwyr arbenigwyr eraill (addysg awyr agored, darpariaeth chwaraeon, profiad gwaith, etc.) yn lleol." (Prifathro uned cyfeirio disgyblion)

4.66 Amlygodd tua hanner y rhai a gwelwyd o awdurdodau lleol eu bod yn ymwybodol o gwricwlwm wedi'i addasu wedi cael ei drefnu gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Roeddent yn cyfeirio at y canlynol:

- Nifer o ysgolion sy'n rhedeg eu darpariaeth eu hunain ac sydd â lleoliad penodol lle mae plant yn eu mynychu a derbyn ffurf o ymyrraeth ymddygiad ac anogaeth fel rhan o ymateb graddedig i ymdrin â risgiau o waharddiad.
- Cynlluniau mentora ieuenctid a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnig darpariaeth awyr agored amgen mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol. Yn aml, mae angen atgyfeiriadau at yr awdurdod lleol er mwyn cael y math hwn o ddarpariaeth, a gall hyn arwain at oedi o ganlyniad i restrau aros am ddarpariaeth gyfyngedig.
- Roedd swyddogion cynhwysiant mewn rhai ardaloedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd addasu cwricwlwm yr ysgol a'r ffordd orau o ddefnyddio pecynnau penodol unswydd ynghylch y gweithgareddau a oedd ar gael yn y gymuned i blant.

4.67 Ni wnaeth neb o'r rhieni yn eu cyfweliadau gyfeirio'n benodol at y defnydd o gwricwlwm wedi'i addasu. Roedd plant mewn unedau cyfeirio disgyblion yn cyfeirio at 'gynlluniau pwyntiau' lle gallai plant, os oedd eu hymddygiad yn parhau'n briodol, ymestyn eu cynllun profiad gwaith. Roedd plant yn nodi eu bod yn gwneud hyn am sawl mis gan fod yr uned cyfeirio disgyblion yn deall eu bod yn ei fwynhau.

**Astudiaeth achos: Cwricwlwm wedi'i addasu**

*Dengys yr astudiaeth achos hon sut y cafodd cwricwlwm wedi'i addasu ei ddefnyddio gan ysgol ar gyfer plentyn a oedd yn gwrthod mynd i wersi. Trwy ddefnyddio cwricwlwm wedi'i addasu, roedd y plentyn yn gallu mynychu ei wersi craidd a chymryd rhan mewn gwaith adeiladu'r oedd yr ysgol wedi'i drefnu ar ei gyfer.*

Roedd plentyn ym Mlwyddyn 11 yn gwrthod mynd i'r ysgol gan fod arno eisiau gweithio gyda'i dad mewn adeiladu.

Trefnodd yr uned ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi i'r plentyn fynd i'w wersi craidd drwy gydol yr wythnos a threfnu'r amser a oedd yn weddill yn adeiladu deciau ar gyfer gardd yr ysgol. Caffaelodd yr ysgol gyllid ar gyfer y cyflenwad adeiladu. Cadwodd hyn y plentyn yn yr ysgol am y chwe mis a oedd yn weddill.

4.68 Mae llenyddiaeth a thystiolaeth ar y pwnc hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar bresenoldeb, llesiant ac ymddygiad fel canlyniadau cadarnhaol cwricwlwm wedi'i addasu. Mae corff bach o dystiolaeth ar effeithiolrwydd cwricwlwm wedi'i addasu wrth leihau'r risg o waharddiadau cyfnod penodol neu barhaol. Mae hyn wedi cynnwys astudiaethau achos o sut mae rhaglenni dysgu cysylltiedig â gwaith wedi gwella cydweithrediad plant mewn addysg, presenoldeb, ac ymddygiad, gydag adborth ansoddol yn awgrymu bod y rhaglenni hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o waharddiad. Mae ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno effeithiol gwricwlwm wedi'i addasu yn cynnwys gadw grwpiau addysgu yn fach, defnyddio dull amlasiantaeth o ddatblygu a chyflwyno, a meithrin perthynas gadarnhaol o ymddiriedaeth rhwng plant a staff.

4.69 Yn gyffredinol, roedd gweithredu cwricwlwm wedi'i addasu yn ddull a grybwyllwyd yn aml gan ymatebwyr, er na wnaed sylwadau ar ei effeithiolrwydd wrth leihau'r risg o waharddiad. Mae adborth gan rai plant yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad hwn yn gyson â chanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth ar ddysgu cysylltiedig â gwaith yn helpu i wella agweddau mewn addysg.

*Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)*

4.70 Mae ymyrraeth Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) yn ymwneud â chynorthwywyr addysgu, a gaiff eu hyfforddi gan seicolegwyr addysgol, yn cyflwyno cymorth unigoledig ac iddo'r nod o helpu plant i ddatblygu ymwybyddiaeth emosiynol, dealltwriaeth a sgiliau dygymod (gweler Atodiad C).

4.71 Lleiafrif o'r ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg a grybwyllodd y defnydd o gynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol i rwystro gwahardd. Roedd ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cyfeirio at y defnydd o'r cynorthwywyr hyn yn ystod cyfweliadau, ar gyfer grwpiau oedran cynradd ac uwchradd i helpu plant i ddatblygu deallusrwydd emosiynol, hunan-ymwybyddiaeth, a sgiliau cymdeithasol. Yn arferol, roedd amryw o gynorthwywyr addysgu ysgolion yn cael eu hyfforddi mewn cyflwyno darpariaeth ELSA. Mewn un ysgol uwchradd, roedd darpariaeth ELSA yn cael ei chynnig fel rhan o ymateb graddedig i anghenion plentyn yn gysylltiedig â chymorth therapiwtig arall megis CAMHS.

4.72 Lleiafrif o’r rhai a gyfwelwyd o awdurdodau lleol a gyfeiriodd at ddefnyddio cynorthwywyr ELSA. Mewn un ardal awdurdod lleol, roedd y cynnydd yn y nifer o ysgolion cynradd a oedd bellach yn gweithredu darpariaeth ELSA, ym marn y sawl a holwyd, wedi helpu i leihau’r risgiau o waharddiad. Roedd un arall a gyfwelwyd o awdurdod lleol wedi disgrifio sut roedd asesiadau llythrennedd emosiynol yn cael eu defnyddio i dargedu gwaith cynorthwywyr ELSA ac fel llinell sylfaen i ddarganfod problemau llesiant emosiynol cyn iddynt ddod yn her lethol i’r plentyn a staff yr ysgol. Roedd ychydig o’r rhai a gyfwelwyd o awdurdodau lleol yn nodi’r gefnogaeth a ddarparwyd gan seicolegydd addysg yr awdurdod lleol wrth gyflwyno hyfforddiant a goruchwyliaeth ELSA. Roedd manteision hyn yn cynnwys gwella galluoedd staff ELSA ysgolion a chysylltiadau proffesiynol cadarnhaol (y gellid eu defnyddio i gefnogi achosion mwy heriol).

4.73 Ni wnaeth neb o’r rhieni na phlant gyfeirio’n benodol yn eu cyfweliadau at gynorthwywyr llythrennedd emosiynol, er bod cymorth gan gynorthwywyr addysgu wedi cael ei grybwyll, ac efallai fod rhai o’r rhain wedi cael hyfforddiant ELSA.

4.74 Mae tystiolaeth y gall cynorthwywyr ELSA wella llythrennedd emosiynol plant ac arwain at ganlyniadau cadarnhaol eraill megis gwell presenoldeb a chydweithrediad ag addysg er bod y dystiolaeth hon yn dibynnu i raddau helaeth ar asesiadau athrawon o lythrennedd emosiynol plant ac adborth ansoddol gan staff ysgol. Awgryma adborth ansoddol gan arweinwyr ysgol fod – yn eu barn hwy – ymyraethau ELSA yn arwain at lai o waharddiadau. Mae’r agweddau goddrychol hyn yn cynrychioli cyfyngiadau rhai o’r astudiaethau hyn.

4.75 Gall ffyrdd o hwyluso ymyraethau ELSA yn effeithiol gynnwys cynllunio’r cymorth a fydd yn cael ei ddarparu i blentyn, bod â nodau clir ar gyfer pob sesiwn, sicrhau cyfathrebu da gyda rhieni am y gwaith a gyflawnir, ac ennill cefnogaeth gan arweinwyr ysgol, yn enwedig i reoli disgwyliadau athrawon am yr hyn y gellir ei gyflawni a hwyluso i blant gael eu rhyddhau o wersi. Caiff diffyg cyllid, cynorthwywyr addysgu heb amser digonol neu heb le penodol i gyflwyno gweithgareddau ELSA a diffyg cydweithrediad rhieni eu nodi fel rhwystrau allweddol rhag gweithredu.

4.76 Yn gyffredinol, mae diffyg tystiolaeth gadarn ar effeithiolrwydd gweithgarwch ELSA wrth leihau’r risg o waharddiad, er bod adborth gwerthuso ansoddol gan arweinwyr ysgol yn awgrymu y gall helpu. Er na chafodd gweithgarwch ELSA ei grybwyll yn

aml gan ymatebwyr i'r adolygiad hwn, roedd rhai o'r rheini a wnaeth ei grybwyll yn teimlo y gallai helpu i leihau'r risg o waharddiad.

*Symud drwy drefniant*

4.77 Ystyr symud drwy drefniant yw cynllunio'n ofalus i drosglwyddo disgybl o un ysgol i un arall (gweler Atodiad C). Mae'n galluogi plentyn i symud ymlaen i leoliad neu raglen newydd mewn ffordd sy'n dderbyniol i bob parti perthnasol, yn enwedig y plentyn. Bwriad y broses yw helpu'r plentyn i symud ymlaen a chael dechrau newydd.

4.78 Ychydig o blith yr ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfeiriodd at symud drwy drefniant, o blith y rhai a ymatebodd i'r arolwg nac mewn cyfweliadau staff. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn cynnwys:

- Gwahanol agweddau ymysg prifathrawon at geisio neu dderbyn symudiadau drwy drefniant, gyda rhai yn gadarnhaol ac agored (gan ddisgrifio manteision dechrau newydd i rai plant), tra bod eraill yn disgrifio profiadau negyddol (gan gynnwys ychydig a oedd yn canfod annhegwch rhwng ysgolion lleol, megis ysgol nad yw byth yn derbyn symudiadau drwy drefniant).
- Roedd rhai ysgolion prif ffrwd yn adrodd am diffyg capasiti i gefnogi plant sy'n arddangos ymddygiad anodd. Yn yr achosion hyn, caiff symud drwy drefniant ei weld fel un dewis. Fodd bynnag, fel y dengys y dyfyniad isod, mae rhai prifathrawon nad ydynt yn teimlo mai symudiadau drwy drefniant yw'r dewis gorau i blentyn bob amser.

  "Oherwydd y diffyg capasiti [i roi cymorth gydag ymddygiad heriol plant], mae symud drwy drefniant yn cael ei ddefnyddio fel ateb arwynebol dros dro. Mae'r ysgol yn derbyn symudiadau drwy drefniant pan fo'r amgylchiadau yn iawn, a phan fo gan y disgyblion siawns o lwyddo mewn [ysgol] brif ffrwd." (Prifathro Ysgol Uwchradd)

4.79 Roedd llawer o awdurdodau lleol yn cyfeirio at y defnydd o symudiadau drwy drefniant. Roeddent yn amlygu'r canlynol:

- Cynnydd mewn ysgolion cynradd sydd angen ystyried symudiadau drwy drefniant, fel dewis arall yn lle gwahardd plentyn yn barhaol.

- Y math o symudiadau drwy drefniant sy'n effeithiol yw'r rheini lle gellir rhoi cyfleoedd ffres i'r plant. Mae'r effeithiolrwydd hwn yn dibynnu ar fod symudiadau drwy drefniant yn rhan o ddull ymyrryd cynnar, gyda chyfarfodydd wythnosol rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol lle bo'n berthnasol.
- Gall ysgolion wynebu anawsterau wrth gwblhau symudiadau drwy drefniant oherwydd maint daearyddol yr awdurdod lleol, sy'n golygu y gall ysgolion fod gryn bellter oddi wrth ei gilydd. Gall y pellter hwn olygu y gall fod yn rhaid i blant deithio ymhellach, gan wneud y symud drwy drefniant yn anymarferol neu'n anghynaliadwy.
- Mewn rhai awdurdodau lleol, gall fod yn anodd cael ysgolion sy'n addas ar sail gofynion y plentyn ac sydd hefyd yn gydnaws â dewisiadau eraill, megis ysgolion ffydd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae rhai awdurdodau lleol nad ydynt yn cwblhau llawer o symudiadau drwy drefniant gan fod prifathrawon mewn rhai amgylchiadau yn ei chael yn anodd gweithio gyda'i gilydd ac na welir symudiadau o'r fath yn gamau teg i'w cymryd.
- Mae rhai awdurdodau lleol wedi creu 'protocol mynediad teg' lle mae pob ysgol o fewn yr awdurdod yn cymryd eu tro i 'dderbyn' plant sydd angen eu symud.

4.80 Ni thrafododd rhieni a phlant symudiadau drwy drefniant yn uniongyrchol o fewn eu cyfweliadau. Cyfeiriodd ychydig o rieni at symud eu plentyn i ysgol arall lle teimlent bod mwy o gymorth yn cael ei gynnig, fodd bynnag nid oeddent yn mynegi hyn fel proses o symud drwy drefniant.

**Astudiaeth achos: Symud drwy drefniant**

*Dengys yr astudiaeth achos hon y gall symud drwy drefniant fod yn ffordd effeithiol i blentyn gael cychwyn o'r newydd draw o'r lle mae eu trafferthion yn deillio.*

Cafodd plentyn symudiad drwy drefniant i ysgol leol arall ac wedyn dychwelodd i chweched dosbarth ei ysgol wreiddiol. Roedd yr ysgol yn gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol, gan nad oedd y symudiad yn ymwneud â chwalfa yn y berthynas rhwng yr ysgol a'r plentyn, ond yn gysylltiedig â phroblemau cyfeillgarwch, a'r plentyn o ganlyniad yn ymddwyn mewn ffyrdd penodol.

Trwy gwblhau'r symudiad drwy drefniant, roedd y plentyn y gallu gael cychwyn o'r newydd ac ailddyfeisio'i hun yn yr ysgol newydd, a chymu ymlaen yn llwyddiannus trwy ei addysg.

4.81 Cyfyngedig yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar effeithiolrwydd symudiadau drwy drefniant ar leihau'r risg o waharddiad neu gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant.

Canfu un astudiaeth ymchwil fod grŵp o blant a oedd wedi profi symudiad drwy drefniant yn cyflawni lefelau ychydig yn well o gyrhaeddiad ar Gyfnod Allweddol 4 na'r rheini a gafodd eu gwahardd yn barhaol.

4.82 Mae llenyddiaeth arall sydd ar gael ar symud drwy drefniant yn tueddu i ganolbwyntio ar ffactorau llwyddiant cynnal a pharhau symudiad drwy drefniant, yn hytrach na rhoi tystioliaeth o effeithiau cadarnhaol na negyddol. Roedd adolygiad o naw astudiaeth ar y defnydd o symud drwy drefniant fel dewis arall yn lle gwaharddiadau yn y Deyrnas Unedig yn canfod bod adeiladu perthynas gadarnhaol – rhwng y plentyn, ei gyfoedion ac athrawon, yn ogystal â rhwng athrawon a rhieni – yn allweddol er mwyn integreiddio plentyn yn llwyddiannus mewn ysgol newydd. Yn ogystal, canfu adolygiad o arferion awdurdodau lleol ynghylch symud drwy drefniant fod adnabod a deall anghenion plentyn yn gynnar, gydag atgyfeiriadau amserol ac addas at gymorth amlasiantaeth, yn ffactor allweddol wrth helpu i gynnal symudiad drwy drefniant.

4.83 Yn gyffredinol, er bod symud drwy drefniant yn rhwystro gwahardd parhaol yn y tymor byr, mae'n aneglur o'r llenyddiaeth a ydyw'n lleihau'r risg o wahardd dros y tymor canolig neu'r hirdymor, ac aneglur hefyd yw'r graddau y mae'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol eraill i blant. Roedd ymatebwyr o awdurdodau lleol yn y gwaith maes yn dueddol o grybwyll symud drwy drefniant yn amlach nag ymatebwyr o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, er bod y ddau grŵp o ymatebwyr yn amlygu heriau yn y broses o symud drwy drefniant ac roedd ganddynt farn gymysg ar ei effeithiolrwydd. Er bod ymatebwyr yn teimlo y gallai fod yn effeithiol, nodwyd bod hyn yn dibynnu ar ei ddefnyddio fel ymyrraeth gynnar yn ogystal â chyfathrebu aml, cryf, rhwng pawb oedd yn ymwneud â hyn.

*Cwnsela yn yr ysgol*

4.84 Nod gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol yw cefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl a llesiant neu ofid emosiynol. Gall cwnsela helpu plant i archwilio, deall a goresgyn problemau yn eu bywydau a all fod yn peri anhawster a/neu ofid iddynt. Mae materion sy'n ymwneud â llesiant ac iechyd meddwl yn ffactor risg cydnabyddedig mewn gwaharddiadau, ac felly gall cwnsela effeithiol ac iddo'r nod o fynd i'r afael â'r heriau hyn gyfrannu at leihad mewn gwaharddiadau ysgol (gweler Atodiad C).

4.85 Roedd ychydig o'r ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg yn cyfeirio at y defnydd o gwnsela yn yr ysgol. Roedd rhai a gyfwelwyd o leiafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cyfeirio at y defnydd o gwnsela yn yr ysgol. Roedd y math o wasanaethau yn amrywio llawer ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol.

4.86 Roedd aelod o staff uned cyfeirio disgyblion yn disgrifio gallu cael sgyrsiau agored gyda phlant ynghylch cwnsela a oedd yn sicrhau bod plant yn agored yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt ac nad yw'n rhywbeth i deimlo cywilydd yn ei gylch.

4.87 Roedd un a gyfwelwyd o ysgol yn esbonio sut roedd cwnsela yn yr ysgol yn cydweddu ag ymateb graddedig i gymorth iechyd meddwl:

> "Mewn ysgol, os oes ar blentyn angen cymorth emosiynol yna byddai'n cychwyn gyda chymorth gan ELSA, a chyswllt â chwnselydd yr ysgol, yna gallent gael eu cyfeirio at CAMHS… mae gennym hyb CAMHS, dod i mewn unwaith y mis." (Cyflynydd ADY Ysgol Uwchradd)

4.88 Roedd ychydig o rai a gyfwelwyd o awdurdodau lleol yn crybwyll cwnsela yn yr ysgol. Roedd un aelod o staff awdurdod lleol yn disgrifio'r defnydd o gwnsela yn yr ysgol yn eu hardal a sut roedd yn helpu plant:

- Ysgolion â thîm cwnsela yn yr ysgol, a oedd yn cael ei gefnogi gan brif seicolegydd addysgol o'r awdurdod lleol, yn galluogi dysgu proffesiynol a'r farn oedd bod hyn yn gefnogol i blant.
- Menter addysgol debyg i TRAC 11-24 – prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ddaeth i ben yn ddiweddar – a oedd yn cynnwys agweddau o fentora chwnsela i blant a phobl ifanc gan ddarparu cymorth pwysig i blant.

4.89 Dywedodd ychydig o blant fod cwnsela yn yr ysgol ar gael yn eu hysgolion. Dywedodd un ei fod wedi manteisio ar y cymorth hwn a'i fod wedi ei helpu gyda'i deimladau o orbryder. Roedd un arall na ddefnyddiodd y cwnsela gan nad oedd yn teimlo'i fod yn gallu mynd i lawr i'r ystafell gwnsela na siarad â neb.

4.90 Dywedodd lleiafrif o rieni bod eu plant wedi derbyn cwnsela yn yr ysgol. Roedd un yn ei ddisgrifio fel cwrs o chwe sesiwn gwnsela wythnosol drwy'r ysgol.

**Astudiaeth achos: Cwnsela yn yr ysgol**

*Mae'r astudiaeth achos hon yn amlygu pa mor effeithiol y gall cwnsela a chefnogaeth rhieni fod wrth helpu'r teulu a'r plentyn i leihau gwaharddiadau. Yn yr achos hwn, roedd y plentyn a'i riant yn gallu atgyweirio perthynas a oedd wedi torri a'r ysgol yn gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol â'r rhiant o ganlyniad. Y farn oedd bod defnyddio sesiynau therapi a chwnsela ar y cyd yn effeithiol.*

Y farn oedd bod y plentyn hwn mewn risg o waharddiad. Roedd rhai problemau cyffuriau yn y cartref, ond roedd y teulu yn gallu cael at gymorth a chwnsela gan yr ysgol ynghylch camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Roedd mam y plentyn hefyd yn rhan o'r sesiynau hyn.

Ymatebodd y plentyn yn dda ac arweiniodd hyn at y plentyn a'i fam yn cael sesiynau therapiwtig ar y cyd gyda'i gilydd, a wnaeth ailsefydlu perthynas a oedd wedi chwalu. Adroddodd yr ysgol am ychydig rwystrau ac anawsterau yn y gymuned, ond roedd ymddygiad y plentyn yn yr ysgol yn gyffredinol yn wirioneddol gadarnhaol. Dywedodd staff yr ysgol eu bod bellach yn gallu cael sgyrsiau cwrtais a chadarnhaol gyda'r plentyn a'i fam.

4.91 Cyfyngedig yw'r dystiolaeth ar effaith ymyraethau cwnsela i rwystro gwaharddiadau, er bod nifer bach o astudiaethau sy'n archwilio effaith cwnsela mewn ysgolion yn adrodd am ostyngiadau mewn gwaharddiadau. Canfu gwerthusiad o wasanaeth cwnsela un-i-un Place2Be (Little, 2018) hefyd fod plant a oedd wedi derbyn cwnsela yn colli llai o ddyddiau i waharddiad cyfnod penodol yn y flwyddyn ar ôl yr ymyrraeth o gymharu â'r flwyddyn gynt, gan gynnwys hanner na chafodd unrhyw waharddiadau cyfnod penodol ar ôl hynny.

4.92 Yn ogystal, canfu adolygiad cyflym o'r dystiolaeth o wasanaethau cwnsela yn yr ysgol ac yn y gymuned yn y Deyrnas Unedig fod rhywfaint o dystiolaeth gyffredinol o effeithiau cadarnhaol cwnsela ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau. Cyfyng oedd y dystiolaeth i gefnogi dull penodol o gwnsela. Roedd pryderon ynghylch ansawdd y dystiolaeth gydag astudiaethau ac iddynt gynlluniau gwanach yn adrodd effeithiau mwy cadarnhaol gwasanaethau

cwnsela. Mae'n bwysig nodi na ddangosodd unrhyw astudiaeth fod cwnsela yn cael effaith negyddol neu niweidiol ar iechyd meddwl a llesiant plant neu bobl ifanc.

4.93 Awgryma tystiolaeth mai'r gwasanaethau cwnsela sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol yw'r rhai sydd wedi eu integreiddio o fewn dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant meddwl, gan gwnselwyr o ansawdd dda yn darparu cymorth wedi'i deliwra mewn lleoliad pwrpasol yn yr ysgol, a chyda chefnogaeth gan rieni. Yn ogystal, cafodd cyllid i helpu ysgolion i gyflwyno a chynnal gwasanaethau ei amlygu fel galluogydd allweddol.

4.94 Yn gyffredinol, mae diffyg tystiolaeth gadarn ar effeithiolrwydd cwnsela wrth leihau gwaharddiadau o ysgolion, ond mae rhywfaint o dystiolaeth gadarnhaol dros ei effaith ar lesiant ac iechyd meddwl. Ni chrybwyllwyd hyn yn aml gan y rhai a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes fel ymyrraeth i helpu'r rheini mewn risg o waharddiad, er bod canlyniadau cadarnhaol i blant yn cael eu hadrodd lle'r oedd yn cael ei ddefnyddio.

*Dulliau therapiwtig*

4.95 Yn ogystal â'r gwasanaethau cwnsela un-i-un a drafodwyd uchod, mae amryw o ymyraethau therapiwtig eraill y gallai ysgolion eu defnyddio i gefnogi plant a phobl ifanc gyda'u llesiant meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys rheoli ymddygiadau. Gan fod y rhain, fel y crybwyllwyd eisoes, yn ffactorau risg sy'n gysylltiedig â gwaharddiadau o'r ysgol, gallai'r gweithgareddau hyn fod â'r potensial i gyfrannu tuag at leihau gwaharddiadau yng nghyd-destun yr ysgol (gweler Atodiad C).

4.96 Mae nifer o arferion a amlinellir mewn lleoedd eraill yn yr adroddiad hwn yn ymgorffori dulliau therapiwtig yn aml, gan gynnwys arferion ystyriol o drawma ac adferol, cynlluniau ymyrraeth ar gyfer ymddygiad, grwpiau anogaeth, cynorthwywyr ELSA a mentora.

4.97 Tri math arall o ymyrraeth therapiwtig nas crybwyllwyd yn benodol yn unlle arall yw:

- Therapïau chwarae a chreadigol. Therapïau sy'n defnyddio chwarae neu fynegiant creadigol i helpu plant i fynegi a deall eu hemosiynau, dygymod â straen a phryderon, a datblygu hunan-ymwybyddiaeth a hunan-barch.

- Ymwybyddiaeth ofalgar. Mae hyn yn golygu rhoi sylw bwriadol i brofiad y funud bresennol. Gall dulliau ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion gynnwys sefydlu hyrwyddwyr ymwybyddiaeth ofalgar, hyfforddi athrawon i addysgu ymwybyddiaeth ofalgar, a chyflwyno gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar.
- Rhaglenni dysgu cymdeithasol ac emosiynol. Ymyraethau sy'n ceisio gwella sgiliau penderfynu plant, rhyngweithiau ag eraill a'u hunan-reolaeth o emosiynau.

4.98 Ychydig iawn o'r ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg a gyfeiriodd at therapi chwarae. Cyfeiriodd lleiafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion at therapi chwarae yn eu cyfweliadau staff. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn amlygu'r canlynol:

- Plant mewn lleoliad uned cyfeirio disgyblion penodol yn gallu siarad a chwarae gemau mewn lle diogel a oedd yn helpu i reoli ymddygiad.
- Therapydd chwarae arbenigol ar gael mewn rhai ysgolion cynradd i helpu staff yr ysgol a gweithio gyda phlant a theuluoedd.

  "Wedi gweddnewid pethau'n llwyr i'r rheini sydd wedi cael gwaharddiad cyfnod penodol. Maen nhw [y therapyddion chwarae] yn gwneud llawer i rwystro gwaharddiadau parhaol." (Prifathro Ysgol Gynradd)

- Therapi tywod neu Lego yn cael eu defnyddio'n aml fel ffurfiau o therapi chwarae pan fo angen rhywbeth i dynnu sylw plentyn. Roedd staff ysgolion mewn rhai achosion yn gallu gweld pan oedd plentyn wedi bod yn cael problemau'r tu allan i'r ysgol ac yn gallu defnyddio'r ffurfiau hyn o therapi chwarae i dynnu eu sylw a'u helpu i ddechrau teimlo'n well.

4.99 Ychydig iawn o ymatebwyr o awdurdodau lleol a gyfeiriodd at therapi chwarae. Roedd un ymatebydd yn disgrifio'r cymorth yn eu hardal:

> "Gall cymorth ychwanegol i blant sy'n ei chael yn anodd gynnwys gweithio gyda'r seicolegydd addysgol neu ryngweithio â therapi chwarae." (Ymatebydd o awdurdod lleol)

4.100 Ni chyfeiriodd neb o'r rhieni'n benodol at therapi chwarae yn ystod eu cyfweliadau. Dywedodd plentyn eu bod yn "eistedd i lawr a chwarae gemau" gyda'r arweinydd

ymddygiad bugeiliol o fewn eu ysgol fel rhan o'r cymorth ychwanegol a ddarperir iddynt pan nad ydynt mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

**Astudiaeth achos: Therapi chwarae**

*Dengys yr astudiaeth achos hon o blentyn ym mlwyddyn 7 sut y gall therapi chwarae fod yn arfer effeithiol i'w gweithredu i helpu adeiladu hunan-barch ac ymddiriedaeth. Trwy ddefnyddio'r arfer hon, teimla'r ysgol yn yr achos hwn ei fod wedi eu galluogi i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol lawer gwaith.*

Roedd plentyn ym Mlwyddyn 7 a ddangosodd ymddygiad heriol pan gyrhaeddodd yn yr ysgol ac ar unwaith roedd yn ddifrïol yn eiriol tuag at uwch aelodau o staff.

Derbyniodd y plentyn lawer o gymorth gan ei bennaeth blwyddyn a thrwy therapi chwarae gan ddefnyddio Lego (i'w helpu i siarad wrth wneud rhywbeth creadigol) a chafodd ei gefnogi hefyd trwy feithrin cyfeillgarwch â chi therapi i wella hyder y plentyn a rhoi cyfle i adeiladu perthynas a rheoli ei emosiynau.

Dywedodd yr ysgol fod y plentyn yn ddeallus a'i fod bellach yn ffynnu. Er bod gan y plentyn anawsterau o hyd, gall yr ysgol ei gefnogi'n llwyddiannus i reoli ei ymddygiad.

Mae'r ysgol wedi helpu'r plentyn i osgoi gwaharddiad cyfnod sefydlog oherwydd y buddsoddiad a'r mesurau therapiwtig maent wedi eu rhoi ar waith. Teimlai prifathro'r ysgol fod llawer o'r llwyddiant yn ymwneud â datblygu teimlad y plentyn o hunan-werth trwy gymyd yr amser i siarad gydag ef.

4.101 Mae tystiolaeth fod therapïau celf, ymwybyddiaeth ofalgar, ac ymyraethau dysgu cymdeithasol ac emosiynol yn gallu gwella iechyd meddwl a llesiant plant a helpu plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys ymddygiad rhag-gymdeithasol a gwydnwch. Cyfyngedig, fodd bynnag, yw ymchwil i effeithiau mwy hirdymor ymyraethau o'r fath ac, ar wahân i astudiaethau achos unigol, does dim ymchwil sy'n cysylltu'r ymyraethau therapiwtig hyn yn benodol â llai o waharddiadau.

4.102 Mae ffactorau sy'n ymwneud â gweithredu llwyddiannus yn cynnwys adnoddau digonol, integreiddio'r ymyraethau therapiwtig o fewn dull ysgol-gyfan, ymrwymiad a dealltwriaeth gan uwch arweinwyr a datblygiad parhaus a chymorth i staff.

4.103 Yn gyffredinol, er gwaethaf rhywfaint o dystiolaeth galonogol ar effeithiolrwydd therapïau celf, ymwybyddiaeth ofalgar ac ymyraethau dysgu cymdeithasol ac emosiynol ar gyfer llesiant meddyliol ac emosiynol plant, ychydig a wyddom am eu heffeithiolrwydd wrth leihau gwaharddiadau ac ni chafodd dulliau o'r fath eu crybwyll yn aml gan ymatebwyr.

*Gwella sgiliau academaidd*

4.104 Gall gwella sgiliau academaidd gynnwys rhaglenni sy'n targedu plant penodol sy'n profi heriau gyda'u dysgu academaidd neu eu llythrennedd. Gall hefyd gynnwys rhaglenni sy'n cefnogi plant sydd â phroblemau ymddygiad ac iddynt elfen o gefnogaeth academaidd. Gall cymorth sgiliau academaidd gynnwys help gan gynorthwywyr cymorth dysgu, defnyddio strategaethau ac offerynnau addysgu arbenigol, a thiwtora. Gall darparu cymorth academaidd i blant sy'n ymddieithrio o wersi ac arddangos ymddygiad heriol helpu sicrhau y gallant ddal i gamu ymlaen yn academaidd a lleihau'r risg iddynt gael eu gwahardd o wersi prif ffrwd (gweler Atodiad C).

4.105 Ychydig iawn o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion wrth ymateb i'r arolwg a gyfeiriodd at wella sgiliau academaidd neu diwtora fel roedd rhai ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cyfeirio ato. Yn yr un modd, ychydig iawn o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a oedd yn cyfeirio at diwtora academaidd yn ystod cyfweliadau â staff. Roedd sylwadau rhai a gyfwelwyd yn cynnwys:

- Defnyddio 'hyb ataliol' o fewn un ysgol lle mae ymyraethau academaidd yn digwydd i blant sy'n ymddieithrio, yn osgoi ysgol oherwydd gorbryder, neu'n peidio â mynd i wersi penodol. Defnyddir yr hyb fel dewis arall yn lle dosbarthiadau prif ffrwd yn ystod yr amser hwn i gynnal cynnydd academaidd (ar gyfer gwersi penodol).
- Sut y gall dysgu academaidd o fewn lleoliadau unedau cyfeirio disgyblion weithiau barhau am 10 munud yn unig, gyda'r 50 munud yn weddill fod yn fwy seiliedig ar anogaeth. Golyga hyn y gall gweithredu cymorth academaidd ychwanegol fod yn ddefnyddiol i'w 'gymysgu' â'r arferion sy'n fwy seiliedig ar anogaeth.

4.106 Roedd ymatebwyr o ychydig o awdurdodau lleol yn cyfeirio at diwtora academaidd mae ysgolion yn ei ddarparu. Er enghraifft, cynorthwywyr cymorth dysgu yn cael eu cyflogi gan ysgolion mewn rhai awdurdodau lleol i blant sydd mewn ystafell 'loeren' draw oddi wrth prif safle'r ysgol.

4.107 Soniodd ychydig o rieni fod cymorth llythrennedd academaidd wedi helpu eu plant i gamu ymlaen yn academaidd.

4.108 Dywedodd rhiant arall nad oedd eu plentyn, 12 oed, yn gallu darllen nac ysgrifennu a'i fod yn heriol iawn o safbwynt ymddygiad cyn mynd i'r uned cyfeirio disgyblion ond "ei fod wedi newid yn llwyr ers cychwyn yma [yr uned cyfeirio disgyblion]." Roedd yr uned cyfeirio disgyblion yn darparu perthynas dda gydag athrawon, a lleoedd diogel mewn ystafelloedd llai gyda sesiynau un-i-un.

**Astudiaeth achos: Tiwtora academaidd**

*Mae'r astudiaeth achos hon yn arddangos y defnydd o diwtora academaidd i blentyn penodol allu dal i fyny â'i wersi prif ffrwd tra oedd yn mynychu 'darpariaeth fewnol amgen' o fewn yr ysgol.*

Roedd plentyn Blwyddyn 10 wedi bod yn arddangos ymddygiad heriol am y ddwy flynedd flaenorol ac roedd mewn risg o waharddiad parhaol. Roedd y plentyn yn wynebu heriau lluosog, megis ADHD heb ddiagnosis a'i dad yn y carchar.

Roedd gan y plentyn berthynas dda â'u pennaeth blwyddyn gan ei fod wedi ei adnabod ers Blwyddyn 7. Roedd staff yr ysgol yn disgrifio'r plentyn fel un blin gyda llawer o bethau'n digwydd yn ei fywyd. Byddai'r plentyn yn aml yn troi byrddau mewn mathemateg, taflu biniau a dyrnu waliau.

Treuliodd y plentyn ddwy flynedd mewn 'darpariaeth fewnol amgen' yn llawn amser a gwnaeth wersi craidd yno gan gynnwys mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth. Mae'r 'ddarpariaeth fewnol amgen' yn ganolfan ar safle'r ysgol ar gyfer y rheini sydd wedi ymddieithrio oddi wrth wersi neu nad ydynt yn mynychu'r ysgol gynradd – a agorodd yn 2019. Roedd athrawon y plentyn yn gallu mynd gyda'r plentyn a'i gefnogi. Mae'r plentyn hefyd wedi cwblhau rhaglen Achieve[18] Ymddiriedolaeth y Tywysog. Nid yw'r plentyn wedi cael dim gwaharddiadau cyfnod penodol ers iddo fod yn mynychu'r 'ddarpariaeth fewnol amgen'.

4.109 Cyfyngedig yw'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd rhaglenni sgiliau academaidd wrth leihau'r risg o waharddiad. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cynnwys nifer bach o astudiaethau arbrofol neu led-arbrofol y nodir gan yr awduron na ellir llunio casgliadau cadarn ohonynt.

4.110 Ni wnaeth y nifer bach o ymatebwyr i'r adolygiad hwn a grybwyllodd sgiliau academaidd sylwadau ar eu heffeithiolrwydd wrth leihau gwaharddiadau. Fodd bynnag, mae eu sylwadau yn awgrymu y gall cymorth academaidd ychwanegol chwarae rhan bwysig wrth gynnal cynnydd academaidd i blant sydd mewn risg o waharddiad, yn enwedig i blant mewn unedau cyfeirio disgyblion neu lle mae plant wedi cael eu tynnu oddi wrth wersi prif ffrwd.

[18] Rhaglen Achieve Ymddiriedolaeth y Tywysog

*Mentora*

4.111 Mae mentora yn cyfeirio at gymorth un-i-un i blentyn gan gyfaill cefnogol hŷn neu oedolyn sy'n gweithredu fel esiampl cadarnhaol a'i nod yw adeiladu perthynas gadarnhaol gyda hwy a chefnogi anghenion y plentyn (gweler Atodiad C).

4.112 Ni chafodd mentora ei grybwyll yn aml iawn yn y gwaith maes. Ychydig iawn o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfeiriodd ar fentora fel arfer wrth ymateb i'r arolwg. Ychydig iawn o staff mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfeiriodd at fentora mewn perthynas â rhwystro gwaharddiadau mewn cyfweliadau. Lle cafodd ei ddefnyddio mewn ysgolion, roedd yn tueddu i fod gyda phlant oed ysgol uwchradd ac ar sail ddethol (fel rhan o ymateb graddedig i gefnogi plant a gafodd eu hadnabod fel rhai sydd mewn risg o waharddiad). Dywedodd un prifathro yr hoffai ddarparu mwy o gymorth mentora i'w plant ond na allai fforddio hynny.

4.113 Esboniodd un ymatebydd o ysgol fod mentora ar gael i bawb o'r plant, os oedd angen. Roedd yr ymatebydd hwn yn disgrifio heriau o ran yr amser roedd yn ei gymryd i gynllunio ar gyfer anghenion unigol ymlaen llaw (megis mentora) oherwydd bod anghenion yn newid yn barhaus. Mae hyn yn heriol wrth fentora oherwydd mae'n gyffredinol yn ymrwymiad mwy hirdymor, am dymor ysgol, blwyddyn ysgol neu hirach.

4.114 Roedd ymatebwyr o ychydig o awdurdodau lleol yn amlygu arferion mentora. Roeddent yn disgrifio'r canlynol:

- Rhaglen flaenorol TRAC (i blant 11-16 oed) lle'r oedd Gweithwyr Arweiniol yn gweithredu fel mentoriaid i blant a gafodd eu hadnabod fel rhai mewn risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (trwy ddefnyddio offeryn proffil dysgwr (Maughan et al., 2020)) fel rhan o raglen gymorth ehangach[19]. Er bod TRAC yn ehangach nag ymyrraeth fentorau, roedd adroddiad gwerthuso Gwynedd yn datgan:

[19] Mae TRAC yn ymgorffori dull amlasiantaeth, gan weithio gyda Gyrfa Cymru a rhaglen Ysgogwch o fewn yr holl ysgolion uwchradd. Mae'r cymorth hwn yn darparu ymyraethau wedi eu teilwra i'r bobl ifanc hynny gan gynnwys: cymorth ar gyfer llesiant a phresenoldeb, cwnsela a chymorth iechyd meddwl, cyrsiau a lleoliadau gwaith a sesiynau a gyflwynir gan Gyrfa Cymru.

"Teimlai rhai rhanddeiliaid fod TRAC wedi helpu i rwystro gwaharddiadau trwy ddal achosion yn gynnar" (Maughan et al., 2020).

- Aelodau o staff ysgolion yn cael eu hyfforddi mewn gwydnwch a mentora wrth gyflwyno rhaglen TRAC.
- Enghreifftiau o ychydig ysgolion yn prynu gwasanaethau mentora i blant.
- Mae awdurdod lleol Caerdydd yn cynnig mentora ieuenctid[20] (gan gynnnwys plant ysgol 11 i 18 oed) trwy eu darpariaeth o wasanaethau ieuenctid. Caiff y rhaglen ei chyflwyno mewn ysgolion uwchradd i blant sydd cael cael eu hadnabod fel rhai nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu mewn risg o fod felly (bydd rhai o'r plant hyn mewn risg o waharddiad yn ogystal). Caiff Mentoriaid Ieuenctid eu lleoli mewn ysgolion, lle maent yn darparu cymorth un-i-un ar sail lleisant, cyrhaeddiad a phresenoldeb y plentyn.

4.115 Ni wnaeth neb o'r rhieni grybwyll mentora o fewn eu cyfweliadau.

4.116 Mae tystiolaeth galonogol y gall mentora helpu i leihau lefelau gwaharddiadau cyfnod penodol neu barhaol a lleihau trais ac ymddygiad sy'n tarfu ar eraill. Adroddodd Valdebenito et al., (2018) fod mentora yn dangos un o'r canlyniadau mwyaf sefydlog o ran ei effaith gadarnhaol ar leihau gwaharddiadau o ysgolion. Mewn perthynas â phlant sydd wedi eu lleoli mewn unedau cyfeirio disgyblion, roedd rhywfaint o dystiolaeth y gallai mentora arwain at welliannau mewn iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â chanlyniadau ymddygiadol ac addysgol.

4.117 Roedd ymchwil yn amlygu pwysigrwydd parhau rhaglenni mentora dros gyfnod hirdymor (yn ddelfrydol blwyddyn ysgol), rheoli perthynas fentora nad yw'n gweithio'n llwyddiannus a phwysigrwydd cefnogi plant pan ddaw'r ymyrraeth i ben gan eu bod wedi colli perthynas gefnogol, sy'n rhywbeth a all darfu arnynt a'u hansefydlogi.

4.118 Yn gyffredinol, er na chafodd mentora ei grybwyll yn aml gan ymatebwyr, mae tystiolaeth o'i ddefnydd yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer plant sydd mewn risg o waharddiad cyfnod penodol neu barhaol. Yn wir, mae'r llenyddiaeth yn cefnogi'r defnydd o fentora gan y gall arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant sy'n dangos ymddygiad sy'n tarfu ar eraill a'r rheini mewn risg o waharddiad, gan gynnwys

[20] Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd

effeithiau cadarnhaol ar rwystro gwaharddiadau. Fodd bynnag, ymddengys ei bod yn bwysig cynnal rhaglenni mentora dros gyfnod hir a bod heriau o ran cefnogi plant sydd wedi sefydlu perthynas dda gyda'u mentor pan ddaw'r rhaglen fentora i ben.

*Gwaharddiadau mewnol*

4.119 Roedd gwaharddiadau mewnol, neu'n benodol tynnu plentyn o'r ystafell ddosbarth, yn un o'r atebion eraill yr awgrymai Canllawiau Llywodraeth Cymru(2019a) y gellid ei ystyried cyn i waharddiad parhaol neu gyfnod penodol gael ei wneud. Mae gwahardd mewnol yn derm eang ond gellir ei ddiffinio fel pan fo plentyn yn cael ei dynnu o'i ystafell ddosbarth reolaidd brif ffrwd a'i roi mewn lleoliad dynodedig o fewn safle'r ysgol am gyfnod penodol o amser (gweler Atodiad C). Gall gwahardd mewnol gynnwys ffurfiau mwy cefnogol o dynnu o'r ystafell ddosbarth, megis cymorth dysgu neu grwpiau cynhwysiant ar y cyd ag arferion eraill a ddisgrifir yn y bennod hon, ond mae hefyd yn cynnwys lleoliadau ynysu gyda chymorth cyfyngedig (gweler Atodiad C).

4.120 Roedd disgrifiadau amrywiol o leoedd ar gyfer gwaharddiadau mewnol, a oedd mewn rhai achosion yn ystafelloedd neu lecynnau o fewn y brif ysgol ac mewn eraill yn adeiladau ar wahân a gerddi ar dir yr ysgol. Enghreifftiau o dermau a ddefnyddiwyd mewn ysgolion uwchradd oedd canolfan gynhwysiant ar y safle, canolfan/ystafell gynhwysiant, ystafell hunan-reoli, ystafell ynysu, darpariaeth amgen[21], dychwelyd i ddysgu a hafan. Mewn ysgolion cyradd, roedd y labelau yn cynnwys ystafell enfys a cwtch.

4.121 Roedd mymryn llai na hanner yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg yn disgrifio'r defnydd o arferion gwahardd mewnol. Roedd tua hanner yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion yn cyfeirio at waharddiadau mewnol yn y cyfweliadau â staff. Roedd y disgrifiadau o'u defnydd yn cynnwys:

- Rhai ysgolion yn nodi mewn cyfweliadau staff eu bod yn defnyddio 'ystafelloedd ynysu' neu 'ystafelloedd gwahardd mewnol' fel ymgais i leihau gwaharddiadau cyfnod penodol neu barhaol. Roedd yr ystafelloedd yn cael eu disgrifio gan rai a

[21] Defnyddiwyd y term 'darpariaeth amgen' i ddisgrifio darpariaeth debyg i uned cyfeirio disgyblion mewn ysgol, nid darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

gyfwelwyd fel rhai sy'n galluogi aelodau staff i reoli ymddygiad ar y safle ar gam gynharach nag a fyddai'n digwydd gyda gwaharddiad cyfnod penodol.

- Soniodd staff ysgolion mewn cyfweliadau eu bod yn defnyddio gwaharddiadau mewnol fel dewis arall yn lle gwaharddiadau cyfnod penodol, yn enwedig lle'r oeddent yn gwybod bod amgylchiadau cartref y plentyn yn fwy anodd, er mwyn osgoi gwaethygu amgylchiadau'r plentyn. Er enghraifft, dywedodd un athro ysgol uwchradd y gallent benderfynu gosod lle ynysu y tu allan i swyddfa'r Prifathro yn lle cychwyn proses o waharddiad cyfnod sefydlog. Esboniodd y prifathro canlynol y gallant wynebu dewisiadau anodd rhwng gwaharddiad mewnol a gwaharddiad cyfnod penodol, gyda'r ddau â chanlyniadau negyddol i'r plentyn.

  "Mae'n fater o adnabod y plant a chanfod dull sy'n addas ac effeithiol. Weithiau does dim dewisiadau da." (Prifathro)

- Er bod rhai a gyfwelwyd o ysgolion yn sylweddoli fod gwaharddiad mewnol yn gosb, sy'n symud plentyn o'r ystafell ddosbarth, nid oedd yn cael ei ystyried fel rhywbeth mor ddifrifol â gwaharddiad cyfnod penodol o ysgol.

4.122 Roedd gan un ysgol ystafell ynysu, a oedd yn cael ei defnyddio i geisio lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol trwy reoli ymddygiad heriol ar y safle yn gynnar, yn ôl prifathro. Roedd yr ystafell ynysu'n cael ei defnyddio ar gyfer problemau ymddygiad llai difrifol, lle gellid gosod plant i gyflawni gwaith cysylltiedig â'u dosbarth, wedi ei fonitro gan athro, am hanner diwrnod, neu hyd yn oed hyd at bedwar neu bump diwrnod. Dywedodd y prifathro fod hyn yn ffurfio rhan o'r ymateb graddedig ac yn golygu bod plant yn colli eu hamserau chwarae ac amserau cinio, er mwyn anfon neges fod rhai ymddygiadau yn annerbyniol.

4.123 Roedd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion fod canfyddiad ymysg staff nad yw gwaharddiadau mewnol o angenrheidrwydd yn helpu'r sefyllfa na'r plentyn, gan nad oes efallai unrhyw gymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu, a'u bod, yn hytrach, yn gwneud pethau'n haws i'r staff ddygymod yn y tymor byr. Dywedodd rhai a gyfwelwyd o ysgolion nad yw gwaharddiadau mewnol fel arfer "yn mynd i wraidd y sefyllfa" (Dirprwy Brifathro), er y gall yr effaith o ran sioc weithiau fod yn ddigon i ysgogi newid mewn ymddygiad. Yn amlach, mae ar y

plentyn angen cymorth arbenigol i ymdrin â thrawma a heriau eraill a all gymryd amser i'w drefnu.

4.124 Roedd ychydig o staff ysgolion yn disgrifio sut roeddent yn cyfuno gwahardd mewnol ag arferion eraill i gefnogi plant.

- Roedd gan un ysgol ystafell gynhwysiant lle'r oedd plant yn derbyn ymyraethau therapiwtig, megis gweithio gyda chynorthwyydd ELSA. Trwy fabwysiadu'r dull hwn, credent fod plant yn gweithio'n fwy adeiladol ac yn gallu myfyrio'n well a gwella'u hymddygiadau os oeddent yn derbyn cymorth. Disgrifiodd athro yn yr ysgol hon leihad trawiadol mewn gwaharddiadau o ganlyniad a bod "cynnydd sylweddol" (athro ysgol uwchradd) wedi cael ei wneud gydag ymddygiadau unigolion yn arwain at well graddau o gydweithredu.
- Dywedodd ychydig o staff ysgolion eu bod yn gweithredu darpariaeth fewnol sy'n debyg iawn i'r hyn a gyflwynir mewn uned cyfeirio disgyblion. Roedd gan hyn amrywiol labelau gan gynnwys darpariaeth amgen a chanolfan wahardd ar y safle.

4.125 Mynegodd staff unedau cyfeirio disgyblion mewn cyfweliadau eu bod yn defnyddio gwaharddiadau mewnol am achosion o dorri polisi ymddygiad yr ysgol. Er hyn, roeddent yn esbonio bod lefel uwch o oddefgarwch o ymddygiad sy'n tarfu ar eraill mewn unedau cyfeirio disgyblion o gymharu ag ysgolion prif ffrwd, yn unol â pholisi ymddygiad yr uned cyfeirio disgyblion.

4.126 Lleiafrif o rai a gyfwelwyd o awdurdodau lleol a gyfeiriodd at ddefnyddio gwahardd mewnol. Roeddent yn amlygu'r canlynol:

- Yn aml, nid oedd gwahardd mewnol yn cael ei weld fel arfer gynhwysol ar draws eu hawdurdod lleol.
- Roedd ysgolion yn ceisio lleihau gwaharddiadau tymor sefydlog a pharhaol ac, o ganlyniad, roedd gwaharddiadau mewnol yn cynyddu, a oedd yn peri pryder i awdurdodau lleol.
- Roedd ysgolion yn defnyddio unedau/ystafelloedd ynysu sy'n mynd yn erbyn yr arferion sy'n ystyriol o drawma a gaiff eu gweithredu mewn llawer o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar draws awdurdodau lleol, oherwydd mae unedau/ystafelloedd ynysu yn tueddu i gael eu gweld fel cosb a chymorth

cyfyngedig mewn rhai achosion. Mae rhai awdurdodau lleol yn ceisio cefnogi ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion gan herio'r arfer anghyson a chymysg hon, trwy ddarparu hyfforddiant, megis mewn arferion sy'n ystyriol o drawma. Esboniodd un o'r rhai a gyfwelwyd fod athrawon a staff ysgolion yn datblygu gwybodaeth a mwy o ddealltwriaeth o ddulliau (er enghraifft, o arferion sy'n ystyriol o drawma) a bod hyn wedyn yn gwella eu dealltwriaeth o ymddygiad plant a'u rhyngweithiau â gweithwyr proffesiynol eraill.

"Bydd [ysgolion] yn teimlo'n fwy hyderus i wneud hyn [defnyddio arferion sy'n seiliedig ar drawma] bellach wrth i hyfforddiant ymwreiddio'n fwy. Mae iaith a ddefnyddir ar draws timau eisoes yn gyson bellach gyda chydlynwyr ADY, seicolegwyr etc ynghylch ynysu dilys." (Ymatebydd o awdurdod lleol)

4.127 Roedd rhieni a phlant yn cyfeirio at waharddiadau mewnol yn eu cyfweliadau fel sefyllfaoedd lle'r oeddent hwy [y plant] wedi cael eu tynnu o'r ystafell ddosbarth a'u rhoi mewn lleoedd eraill o fewn yr ysgol megis 'unedau ynysu' neu adeiladau eraill ar safle'r ysgol draw oddi wrth ystafelloedd dosbarth prif ffrwd. Cafodd hyn ei ddisgrifio gan un rhiant y cafodd ei blentyn brofiad o ysgol uwchradd brif ffrwd ac uned cyfeirio disgyblion.

"Byddai'r [ysgol] brif ffrwd yn gwahardd am bethau bach a byddai [y plentyn] yn mynd i le ynysu a chael ei adael yno." (Rhiant).

**Astudiaeth achos: Gwaharddiad mewnol**

*Mae'r astudiaeth achos hon yn amlygu sut y gall ysgol gynradd ddefnyddio gwaharddiadau mewnol, gan fynegi mai ethos yr ysgol yw ceisio cadw plant o fewn yr ystafell ddosbarth lle bo'n bosibl a defnyddio gwaharddiadau mewnol ac allanol fel cam olaf pan fo popeth arall wedi methu.*

Roedd un ysgol gynradd yn nodi eu defnydd o waharddiadau mewnol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r arfer hon pan fo plentyn wedi gwneud rhywbeth na ddylai fod wedi'i wneud, sy'n torri eu polisi ymddygiad ond lle nad yw'r ymddygiad yn haeddu gwaharddiad cyfnod penodol. Mae'r gwaharddiad mewnol yn golygu bod y plentyn yn cael ei anfon i ddosbarth arall i weithio am y diwrnod, lle na fydd yn gyffredinol yn cael yr un berthynas â'i gymheiriaid ag yn ei ddosbarth arferol.

**Astudiaeth achos: Gwaharddiad mewnol**

*Dengys yr astudiaeth achos hon sut mae ysgol uwchradd yn defnyddio gwaharddiadau mewnol o fewn swyddfa'r prifathro, oherwydd anawsterau wrth gael lle addas i waharddiadau mewnol ddigwydd.*

Dywedodd un ysgol uwchradd nad oes ganddynt adnoddau ychwanegol i hwyluso gwaharddiadau mewnol. Er bod yr ysgol yn defnyddio'r arfer hon, mae'n aml yn golygu bod gan y prifathro amryw o blant yn ei swyddfa lle maent yn ceisio gwneud eu gwaith. Teimla'r prifathro fod angen mwy o gyllid ac adnoddau er mwyn gallu gwneud hyn.

4.128 Mae tystiolaeth llenyddiaeth ar waharddiadau mewnol yn ymwneud i raddau helaeth ag ymchwil i ddeall y defnydd a wneir ohonynt mewn ysgolion ledled y Deyrnas Unedig a barn staff ysgolion ar eu heffeithiolrwydd wrth ymdrin â phroblemau ymddygiad a rhwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol. Ar draws yr astudiaethau hyn, a oedd yn aml yn archwilio mannau ynysu yn hytrach na ffurfiau mwy cefnogol o wahardd mewnol, mae'r canfyddiadau yn gymysg. Mae rhai staff ysgolion yn gweld gwahardd mewnol fel pwynt 'hanner ffordd' defnyddiol (rhwng ystafell ddosbarth prif ffrwd a gwaharddiad cyfnod penodol neu barhaol) sy'n helpu i leihau'r risg o waharddiad trwy roi amser a lle defnyddiol i blant oddi wrth yr ystafell ddosbarth a'u grŵp cymheiriaid. Mae ymchwil arall wedi amlygu mai'r un plant yn aml sy'n derbyn gwaharddiadau mewnol yn barhaus, gan awgrymu nad yw'r dull yn effeithiol wrth wella ymddygiad. Awgryma ychydig o astudiaeth y dylai gwaharddiadau mewnol fod yn gefnogol yn hytrach na chosbedigol.

4.129 Roedd gwahardd mewnol yn cael ei grybwyll yn aml gan ymatebwyr o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, gyda'u barn yn adlewyrchu i raddau helaeth ganfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth. Yn gyffredinol, y teimlad oedd, er y gall dulliau cosbedigol o wahardd mewnol helpu cyfleu i blant fod ymddygiad penodol yn annerbyniol, nid ydynt yn arferol yn mynd i'r afael yn effeithiol ag achosion ymddygiad sy'n tarfu ar eraill. Cafodd rhai enghreifftiau o waharddiadau mewnol gyda chymorth eu hadnabod fel rhai sy'n rhwystro gwaharddiad cyfnod penodol a pharhaol. Roedd rhywfaint o bryder hefyd fod, wrth i ysgolion geisio lleihau cyfraddau o wahardd cyfnod penodol a pharhaol, y defnydd o wahardd mewnol wedi cynyddu.

*Amserlenni llai*

Gall fod ar ysgolion angen gweithredu amserlen lai i gefnogi plentyn na all fynychu'r ysgol yn llawn-amser am gyfnod byr y cytunwyd arno. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys ailintegreiddio i'r ysgol (ee yn dilyn gwaharddiad cyfnod penodol neu absenoldeb estynedig yn sgil salwch).

4.130 Caiff amserlen lai ei chofnodi mewn cynllun (megis cynllun cymorth bugeiliol, cynllun ymddygiad unigol neu gynllun ailintegreiddio) fel cytundeb ffurfiol rhwng y plentyn, ei rieni, a'r ysgol. Gall amserlen lai y cytunwyd arni gynnwys hefyd cyflwyno gwersi o bell neu ar-lein lle bo'n berthnasol er mwyn sicrhau parhad dysgu i'r plentyn. Unwaith y cytunir ar yr amserlen lai, rhaid i'r ysgol wedyn ei rhannu gyda'u hawdurdod lleol. Ni ddylai ysgolion byth ddefnyddio amserlenni llai fel mesur ar gyfer rheoli problemau ymddygiad (Llywodraeth Cymru, 2023a).

4.131 Fe wnaeth ychydig o'r ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion a ymatebodd i'r arolwg grybwyll y defnydd o amserlenni llai. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau gan fymryn dros hanner y staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar y defnydd o amserlenni llai, fel rhan o gynlluniau cymorth bugeiliol, o fewn y cyfweliadau â staff. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Roedd ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn defnyddio amserlenni llai fel mesur i leihau'r risg o wahardd trwy roi "lle i anadlu" fel mesur dros dro i gefnogi anghenion y plentyn, a fyddai wedyn yn ffurfio rhan o gynllun i baratoi'r plentyn yn ôl at addysg lawn-amser.
- Mae ysgolion yn defnyddio amserlenni llai mewn gwahanol ffyrdd i gefnogi anghenion dysgwyr, gan gynnwys defnyddio cymorth arall megis cymorth gweithwyr ieuenctid a theuluoedd law yn llaw â hyn.

  "Mae'r cymorth trwy sesiwn yn y bore i ymwrthodwyr ysgol / y rheini sydd â gorbryder am un wers, yna cofrestru addysgol am wers. Mae rhai [plant] wedyn yn mynd adref, rhai yn mynd i wersi, mae gan rai amserlenni amgen [llai]." (Cydlynydd ADY ysgol uwchradd)

  Y plant hynny sy'n mynd adref ar ôl mynychu'r sesiynau bore yw'r rheini nad ydynt yn gallu neu'n barod i fynychu'n fwy rheolaidd hyd nes y gellir cefnogi'r plant i wneud hynny.

“Caiff y ‘Ddarpariaeth ‘3-4’ ei defnyddio ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn dygymod neu sydd wedi bod yn tarfu ar eraill. Golyga hyn nad ydynt ond yn dod i mewn rhwng 3 a 4 yn y pnawn. Er bod yr ysgol yn lleihau amserlenni hefyd yn nhermau rhaglen gymorth bugeiliol, mae hyn yn opsiwn pellach, yn dilyn uwchgyfeirio.” (Dirprwy Brifathro Ysgol Uwchradd)

- Dywedodd ychydig o staff ysgolion fod y nifer o blant sydd ag amserlen lai wedi cynyddu dros amser, a oedd, yn eu teimlad hwy, yn adlewyrchu’r pwysau’r oedd staff yn eu profi wrth reoli ymddygiad plant yn unol â pholisi eu hysgol.

4.132 Roedd y rheini a gyfwelwyd o’r mwyafrif o awdurdodau lleol yn cyfeirio at y defnydd o amserlenni llai. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys:

- Bod ar awdurdodau lleol angen gwell dealltwriaeth o drefniadau unigol, rhywbeth roedd rhai yn credu ei fod yn gofyn am newid y broses yn systematig er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am yr holl blant sydd ar amserlenni llai.

  “Fe wnaethon ni roi polisi ar waith yn 2020, ac mae hyn yn cael ei adolygu bellach fel rhan o’r Strategaeth Ymddygiad i roi mwy o drylwyredd yn y system i sicrhau eu bod [amserlenni llai] yn cael eu defnyddio’n gywir.” (Ymatebydd o awdurdod lleol)

- Ar adegau, dywedodd rhai a gyfwelwyd fod awdurdodau lleol yn derbyn tystiolaeth gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion fod amserlenni llai wedi cael eu defnyddio’n effeithiol (fel mesur dros dro) a’u bod yn gallu gweld y cynnydd graddol mewn oriau a dreulir yn yr ysgol, gan gynyddu i amserlen lawn i blant penodol, ond nad oedd hyn yn digwydd bob amser.
- Yr angen i ysgolion sicrhau bod y defnydd o amserlenni llai yn rhan o becyn o gymorth i blant ddychwelyd at bresenoldeb llawn-amser, gan fod pryderon yn cael eu codi nad oedd amserlenni llawn o angenrheidrwydd yn gydnaws â chynhwysiant.

4.133 Gwnaed sylwadau gan ychydig o blant ar y defnydd o amserlenni llai. Roeddent yn dweud eu bod, ar adegau, yn teimlo fel ffordd i’w hysgol eu cael allan o’r ffordd oherwydd na allai’r staff ddygymod â hwy.

**Astudiaeth achos: Amserlen lai**

*Dengys yr astudiaeth achos hon sut y canfuwyd amserlen lai i fod yn ffordd effeithiol o gefnogi plentyn a oedd yn ei chael yn anodd mynychu'r ysgol yn llawn-amser. Roedd gan y plentyn hwn amserlen lai ynghyd â pherthynas dda gydag aelod bugeiliol o staff, gyda phrotocolau y neu lle fel y gallai'r plentyn adael yr ysgol yn ddiogel os oedd angen.*

Roedd plentyn ym Mlwyddyn 10 yn arddangos ymddygiad a oedd yn tarfu ar eraill ac yn profi llu o anawsterau yn ei deulu. Ceisiodd yr ysgol amryw o raglenni dysgu rhan-amser er mwyn addasu i anghenion y plentyn a cheisiodd symud drwy drefniant, ond torrodd hyn i lawr a dychwelodd y plentyn i'r ysgol.

Mynychodd y plentyn uned ddarparaeth wedi'i chyfoethogi yr ysgol er mwyn derbyn cymorth a chanolbwyntio ar bynciau craidd, ar amserlen lai. Cytunodd yr ysgol â'u hawdurdod lleol na fyddai'r plentyn yn mynychu'r ysgol yn llawn-amser.

Roedd gan y plentyn berthynas dda â gweithiwr bugeiliol, ac roedd yr ysgol wedi cytuno ar brotocolau gydag athrawon y byddai llwybr i'r plentyn adael y safle mewn ffordd o dan reolaidd pe bai'r plentyn yn ofidus neu'n colli arni.

4.134 Roedd ymchwil diweddar ar y defnydd o amserlenni llai yng Nghymru yn amlygu amwysedd ynghylch eu diben a'r canlyniadau arfaethedig. Mae tystiolaeth o ddefnydd helaeth o amserlenni llai gan ymatebwyr i'r adolygiad hwn, gyda staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn dweud bod amserlenni llai yn aml yn un o nodweddion rhaglenni cymorth. Roedd staff awdurdodau lleol yn awgrymu bod angen am ddealltwriaeth gliriach o sut y caiff amserlenni llai eu defnyddio gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.

**Crynodeb**

4.135 Roedd rhywfaint o dystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth a'r gwaith maes fod ymyraethau yn yr ysgol a gwahanol dulliau yn gallu cael effaith gadarnhaol ar rwystro gwaharddiadau. Arferion adferol yn cael eu dilyn gan ddulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad oedd y dulliau cyffredinol a oedd â'r sail dystiolaeth bresennol gryfaf i gefnogi eu defnydd ar gyfer rhwystro gwaharddiadau mewn ysgolion, ac o ran ymyraethau penodol, mentora oedd yn dangos yr effeithiau mwyaf sefydlog.

# 5. Canfyddiadau'r ymchwil: arferion i gynnal cyswllt yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol

5.1 Mae'r bennod hon yn adolygu'r dystiolaeth ynghylch arferion a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i gynnal cyswllt â phlant yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol.

5.2 Mae'r dull cyffredinol a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn tueddu i ymwneud â'r prif faterion canlynol:

- Cyfathrebu gyda'r plentyn a'r rhiant.
- Darparu gwaith ysgol.
- Gwirio dealltwriaeth o waith ysgol.
- Monitro cwblhau gwaith ysgol.

5.3 Roedd y rhai a gyfwelwyd o'r rhan fwyaf o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn esbonio bod y dull gweithredu'n amrywiol yn ôl hyd y gwaharddiad cyfnod penodol. Ar gyfer gwaharddiadau byr o hyd at un diwrnod, roedd y dull yn cael ei ddisgrifio'n gyffredinol fel un ysgafn, gyda llai o bwyslais ar ddarparu, gwirio neu fonitro gwaith ysgol.

**Cyfathrebu â'r plentyn a'r rhiant**

5.4 Roedd pawb a gafodd eu cyfweld yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu rhwng ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a phawb o'r rhieni a'r plant. Roedd rhai a gafodd eu cyfweld o tua hanner yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion yn dweud eu bod wedi sefydlu perthynas effeithiol gyda'r plentyn a'r rhiant ymhell cyn y gallai unrhyw waharddiad ddigwydd. Roedd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion yn disgrifio perthynas gadarn gyda rhieni a phlant fel rhai sy'n cynnwys athrawon gan sefydlu ymddiriedaeth, dangos ddealltwriaeth a rhoi cymorth. Felly, cyd-drafod yn gynnar â rhieni plant sydd mewn risg o waharddiad oedd y dull a oedd yn cael ei ffafrio, er bod y rhai a gyfwelwyd yn cydnabod nad yw pob rhiant yn croesawu'r cyfathrebu cynnar hwn.

5.5 Roedd rhai a holwyd o bob ysgol ac uned cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r ddeialog sy'n digwydd gyda'r rhiant a'r plentyn ar gychwyn ac yn ystod gwaharddiad cyfnod

penodol. Cafodd amrywiaeth o fecanweithiau ar gyfer cyflawni hyn eu disgrifio, megis:

- Aelod o dîm ymddygiad, tîm bugeiliol neu swyddog cyswllt teuluol yr ysgol yn cytuno ar amlder y cyswllt â'r plentyn yn ystod y gwaharddiad cyfnod penodol (gan ddibynnu ar hyd y gwaharddiad cyfnod penodol).
- Pennaeth blwyddyn sy'n gyfrifol am gymorth bugeiliol yn arwain ar ddarparu cymorth i blant yn ystod eu gwaharddiad cyfnod penodol (gall hyn amrywio o wirio dealltwriaeth o waith a gynlluniwyd i diwtora, yn aml ar-lein ond gartref mewn rhai achosion, i'w helpu i gyflawni gwaith a roddwyd). Byddant hefyd yn cydgysylltu ag athrawon eraill ynghylch anghenion academaidd y plentyn i ddarparu gwaith iddynt.
- Roedd ychydig o ysgolion yn dweud bod llinell ffôn uniongyrchol i'r adran ADY i rieni plant sydd ag ADY i'w defnyddio os ydynt yn cael anawsterau gartref gyda phlentyn sydd wedi ei wahardd am gyfnod penodol.

5.6 Roedd ychydig o staff ysgolion yn pwysleisio'n benodol pwysigrwydd siarad gyda'r rhiant a'r plentyn yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol (roedd athrawon yn cyfeirio at drafod eu gwaith dysgu ac ymddygiad yn y dyfodol trwy fyfyrio ynghylch pam y digwyddodd y gwaharddiad cyfnod penodol). Dywedodd eraill ei bod yn aml yn anodd cyflawni hyn yn ymarferol, yn enwedig os oedd ar y rhieni neu blant eisiau osgoi cyswllt. Mewn nifer bach o achosion, gallai'r cyswllt hwn fod wyneb yn wyneb yng nghartref y plentyn gyda chaniatâd rhieni, ond byddai dros y ffôn neu ar-lein yn bennaf.

5.7 Mewn ychydig o achosion, roedd rhai a gyfwelwyd yn disgrifio trefnu cyfarfodydd gyda rhieni a/neu blant mewn lleoliadau cymunedol niwtral (roedd staff yn disgrifio nod y cyfarfodydd hyn fel cynnal deialog, trafod eu gwaith a thrafod ymddygiad pan ddychwelant i'r ysgol). Er enghraifft, gallai hyn fod ar bwynt hanner ffordd gwaharddiad cyfnod penodol hirach o fwy nag wythnos.

**Darparu gwaith ysgol**

5.8 Roedd staff o bob ysgol ac uned gyfeirio disgyblion yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwaith ysgol i'r plentyn tra bo ar waharddiad cyfnod penodol (yn unol â'u dyletswydd statudol). Dywedodd ychydig fod adegau pan nad yw'n bosibl ennyn

cydweithrediad y plentyn i gwblhau gwaith draw o'r ysgol, boed ar-lein neu fel arall (gan nad yw'r plant, na'r rhieni weithiau, yn ymateb i geisiadau staff yr ysgol i gysylltu, neu eu bod yn gwrthod cwblhau gwaith).

5.9 Cafodd y prosesau canlynol eu disgrifio fel rhai sy'n galluogi darparu gwaith i blant sydd ar waharddiadau cyfnod penodol:

- Cais i staff uwchlwytho gwaith i Google Classroom i'r plentyn (mewn achosion lle nad oedd hyn yn digwydd yn awtomatig). Roedd rhai achosion hefyd lle'r oedd plant neu eu rhieni'n gofyn am waith ar bapur, a dywed ysgolion eu bod wedi ymateb i hynny.
- Mae'r cyswllt enwebedig, megis y rheini a ddisgrifir uchod, yn cysylltu ag athrawon dosbarth y plentyn i gydgysylltu paratoi gwaith i'r plentyn.
- Bydd aelod o dîm ymddygiad, tîm bugeiliol neu swyddog cyswllt teuluol yn darparu gwaith a chymorth naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb (fel y disgrifir uchod, os cytunwyd gyda rhieni).

5.10 Mae enghraifft o'r cymorth a ddarparwyd mewn un achos yn dangos sut mae hyn yn digwydd yn ymarferol.

> Roedd plentyn a oedd ar waharddiad cyfnod penodol yn cael cyswllt rheolaidd â gweithiwr ieunectid, a drefnwyd gan yr ysgol, bob yn ail ddiwrnod. Roedd y gweithiwr ieuenctid yn rhannu'r gwaith angenrheidiol gyda'r plentyn, yn siarad trwy'r hyn roedd y gwaith yn ei olygu, yn cefnogi'r plentyn os oedd ganddo unrhyw anawsterau'n ymwneud â'r gwaith, ac yn cysylltu â'r ysgol i weld a oedd angen galwad fideo gydag aelod penodol o staff.

5.11 Mewn ychydig o achosion, roedd staff ysgolion yn crybwyll fod rhai plant nad oedd ganddynt liniaduron, sy'n golygu na allant gwblhau gwaith electronig gartref. Dywedodd un ysgol nad oedd yn gallu cyflenwi gliniaduron yn yr achosion hyn, ac felly'n darparu gwaith ysgol i'w wneud ar bapur yn lle hynny. Roedd ysgol arall yn ceisio trefnu bod offer TG ar gael lle gallent, er bod y rhai a gyfwelwyd yn esbonio bod cyfyngiadau ar adnoddau yn rhwystro hyn weithiau.

**Gwirio dealltwriaeth o waith ysgol**

5.12 Roedd ychydig o ysgolion yn disgrifio pa mor bwysig oedd hi bod staff yn gwirio dealltwriaeth y plentyn o'r gwaith a roddwyd iddo. Roedd rhai ysgolion uwchradd yn disgrifio amrywiaeth o staff yr ysgol (ee, tiwtor dosbarth y plentyn, athro pwnc, aelod

o'r tîm bugeiliol, swyddog lles ysgolion neu gydlynydd ADY) yn cysylltu er mwyn gwirio bod y gwaith yn cael ei ddeall.

5.13 Roedd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion yn disgrifio natur gydweithredol y cyswllt hwn er mwyn gwirio ddealltwriaeth a gwirio bod y plentyn yn gwneud y gwaith.

> "Mae'r aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant ynghylch presenoldeb [yn gwneud y cyswllt hwn] a rhan o hyn yw gwirio nad ydym, pan ddywedwn ar-lein, yn golygu mewngofnodi i Google Classroom yn unig a chael taflen, ond bod yn rhaid iddo (y plentyn) gael galwad a mynd drwy'r gwaith gyda'r aelod hwn o staff." Dirprwy brifathro ysgol uwchradd)

5.14 Roedd ychydig o ysgolion yn esbonio y gellid gwella'r broses hon o wirio gwaith maes ac nad yw efallai'n cael ei chyflawni ar sail systematig.

**Monitro cwblhau gwaith ysgol**

5.15 Cafodd y monitro ei ddisgrifio gan rai staff ysgolion a oedd yn esbonio eu bod yn monitro gwaith ysgol trwy system addysgu electronig, megis Google Classroom neu debyg, a oedd yn galluogi staff i weld bod gwaith yn cael ei gyflawni a gweld canlyniadau'r gwaith.

5.16 Er hynny, roedd un ymatebydd yn esbonio y gallai hyn gael ei gymhlethu yn y sefyllfa lle nad oedd cyfrifiadur ar gael i'r plant gartref. Yn yr achosion hyn, byddai'r gwaith ar bapur a byddai'r gwirio yn cael ei wneud yn gyffredinol trwy alwad ffôn ac weithiau trwy ymweliadau â chartref y teulu (ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol hirach).

5.17 Y cam hwn oedd yn cael ei fonitro leiaf yn ôl cyfweliadau gydag ychydig o staff ysgolion.

> "Er bod gwaith yn cael ei anfon, nid yw bob amser yn dod yn ôl, nid yw'n cael ei fonitro'n systematig ac mae'n faes i'r ysgol ei wella." (Uwch Arweinydd Ysgol Uwchradd)

5.18 Roedd y staff hyn yn esbonio eu bod wedi canfod hyn fel gwendid yn eu systemau a'u bod yn ceisio'i wella.

## 6. Canfyddiadau'r ymchwil: arferion i gefnogi ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad

6.1 Mae'r bennod hon yn adolygu'r dystiolaeth ynghylch arferion a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i gefnogi ailintegreiddio plant yn dilyn gwaharddiad.

6.2 Mae'r dull cyffredinol a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn tueddu i ymwneud â'r canlynol:

- Cyfarfod ailintegreiddio.
  - Cytuno ar gynllun ymddygiad.
  - Dull arferion adferol.
  - Trefnu cymorth ychwanegol lle bo angen.
  - Cytuno ar strategaethau hunan-reoli.
- Cynnal deialog rheolaidd gyda'r plentyn a'r teulu.

**Cyfarfod ailintegreiddio**

6.3 Roedd neges gref gan bron bawb o staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd ynghylch pwysigrwydd cyfarfod dychwelyd i'r ysgol i'r plentyn a'r rhieni yn dilyn gwaharddiad o'r ysgol. Roedd llawer o rai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn nodi heriau os nad yw'r rhiant yn ymwneud â'r cyfarfod cychwynnol ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol. Roedd heriau'n cynnwys peidio â gallu cytuno ar y ffordd orau o symud ymlaen o'r ymddygiad a arweiniodd at waharddiad y plentyn a sut roedd yn bosibl hyrwyddo ymddygiad mwy cadarnhaol trwy ymyraethau cefnogol. Yn yr un modd, cytuno ar unrhyw gymorth ychwanegol, a chyfle i ysgolion wrando ar deuluoedd a gwirio bod rhieni'n atgyfnerthu negeseuon gan yr ysgol i'r plentyn. Roedd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio y gall lefel cydweithrediad rhieni amrywio o ran y graddau maent yn ymwneud yn gadarnhaol â'r ysgol yn y cyfarfod ailintegreiddio cychwynnol hwn neu mewn cyfleoedd eraill, yn ddiweddarach, i drafod ailintegreiddiad y plentyn (gan ddibynnu ar brosesau ailintegreiddio ysgolion unigol). Gall gwell perthynas rhwng ysgolion a rhieni ganiatáu mwy o gydweithio ynghylch strategaethau i gefnogi'r plentyn ac anogaeth i'r rhiant atgyfnerthu'r negeseuon gartref.

6.4 Roedd un a gyfwelwyd o ysgol yn esbonio bod y cyfarfod ailintegreiddio cychwynnol yn digwydd gyda phennaeth blwyddyn y plentyn neu uwch arweinydd gan ddibynnu ar natur y digwyddiad a oedd yn gofyn am waharddiad. Trafodir yr ymddygiad disgwyliedig wrth ddychwelyd i'r ysgol ac unrhyw ofynion cymorth gyda rhieni a'r plentyn yn ystod y cyfarfod hwn gan ddibynnu ar anghenion unigol y plentyn. Roedd rhai ysgolion yn dweud y gall y gofynion cymorth olygu amser yn y ganolfan cefnogi dysgu neu lai o amser yn yr ysgol, ac mae hefyd y cyfle am gyfarfod adferol.

6.5 Roedd un a gyfwelwyd o ysgol yn cyfeirio at sut roedd rhai rhieni ag agwedd negyddol at y cyfarfodydd ailintegreiddio hyn a'r anawsterau wrth ennyn cydweithrediad:

> "Roedd rhieni'n teimlo bod y cyfarfodydd hyn yn fwy o gyfarfod rheolau 'yn rhoi'r ddeddf i lawr' ac yn trafod y rheolau ynghylch am beth y cafodd [y plentyn] ei wahardd yn hytrach na pha fesurau y gellid eu rhoi ar waith i rwystro gwaharddiadau pellach." (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd)

6.6 Roedd hyn yn amlwg yn y cyfweliadau â rhieni, lle'r oedd rhai rhieni yn cyfeirio at y diffyg cyfathrebu gan yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion pan oedd eu plant wedi cael eu gwahardd a bod y cyfarfod ailintegreiddio wedi cael ei dreulio yn amlinellu pam y cafodd y plentyn ei wahardd yn hytrach na chanolbwyntio ar y cymorth a fyddai'n cael ei weithredu i rwystro'n gwaharddiad rhag digwydd eto.

6.7 Roedd eraill a gyfwelwyd o ysgolion yn disgrifio'r cyfarfod ailintegreiddio fel cyfle i gyfarfod â'r plentyn a'r teulu a symud ymlaen yn gadarnhaol. Mae'r cyfarfod yn rhoi lle i'r plentyn i'w helpu i ddeall pam ei fod yn aelod pwysig o gymuned yr ysgol, tra bod yr ysgol yn gwrando'n ofalu ar farn ac anghenion y plentyn a'i deulu a'r hyn y gall yr ysgol ei wneud yn wahanol i'w cefnogi.

*Cytuno ar gynllun ymddygiad*

6.8 Yn aml, cytunir ar gynllun ymddygiad yn ystod y cyfarfodydd ailintegreiddio. Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r prosesau canlynol ar gyfer hyn, er mwyn sicrhau bod disgwyliadau clir ynghylch ymddygiad o hynny ymlaen:

- Rhoddir set fanwl o ddisgwyliadau i blant ynghylch eu hymddygiad yn y dyfodol yn ystod y cyfarfod ailintegreiddio sy'n arwain at 'gontract' neu 'gytundeb'.

Gwahoddir y rhiant hefyd ac mae'n gallu cyfrannu at y drafodaeth a'r cytundeb. Os nad yw'r rhiant yn bresennol, caiff y cytundeb neu'r contract ei anfon atynt.

- Byddai'r plentyn yn arwyddo 'contract' wrth ddychwelyd, i gadarnhau ymrwymiad i ddysgu ac ymddygiad. Yn yr achos hwn, esboniodd yr ysgol y bydd plant yn cael proffil un-dudalen hefyd gyda thargedau y bydd staff yn eu defnyddio. Caiff y proffil hwn ei rannu wedyn drwy'r system wybodaeth am ddisgyblion fel y gall yr holl aelodau perthnasol o staff ei weld.

*Dull arferion adferol*

6.9 Roedd mwyafrif y rhai a gwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio ymdrin â chyfarfodydd ailintegreiddio mewn dull adferol a allai hefyd gynnwys gwaith therapiwtig dilynol ar ôl gwaharddiad. Y teimlad oedd bod y dull hwn yn caniatáu i'r plentyn feddwl am y sefyllfa a siarad drwy'r hyn a oedd wedi digwydd, a rhesymau posibl dros eu hymddygiad.

6.10 Dywedodd un a gyfwelwyd o uned cyfeirio disgyblion fod gwaharddiadau (yn enwedig ar ôl ymosodiad corffororol neu ddigwyddiad o'r natur hwnnw), yn ogystal â gweithredu fel cosb, yn rhoi rhywfaint o amser hefyd i blant ddweud "Iawn, mae hyn wedi digwydd, sut ydym ni am feddwl am y peth, gwersi a gafodd eu dysgu, y mathau hyn o bethau." (Athro mewn Uned Cyfeirio Disgyblion).

6.11 Esboniodd un arall a gyfwelwyd o uned cyfeirio disgyblion y gall fod yn anodd weithiau ennyn cydweithrediad plant yn ystod cyfarfodydd ailintegreiddio adferol gan eu bod yn aml yn teimlo cywilydd am eu gweithredoedd a bod arnynt eisiau symud ymlaen o'r sefyllfa. Mewn rhai achosion, gall hyn arwain at i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol i osgoi'r cyfarfodydd hyn, sy'n gallu gwaethygu'r sefyllfa ymhellach. Mewn amgylchiadau o'r fath mae staff yn gweithio i sicrhau bod trafodaeth yn gallu digwydd, er enghraifft, gan ei gwneud yn llai ffurfiol ar y cychwyn.

> "Pan fo rhai plant yn gwneud rhywbeth maen nhw'n teimlo sy'n wirioneddol ddrwg, fel galw athro yn enw gwirioneddol atgas, byddant yn aml yn gyndyn i gydweithredu a'r cyfan sydd arnynt ei eisiau yw symud ymlaen o'r digwyddiad. Bydd plant yn cadw draw o'r ysgol hyd yn oed am ddiwrnod neu ddau i osgoi wynebu'r athro yn y sesiwn adferol hwnnw, felly rhaid i staff weithio trwy hynny a

sicrhau nad yw'n dod i achosi problemau pellach." (Cydlynydd ADY uned cyfeirio disgyblion)

*Cymorth ychwanegol*

6.12 Roedd bron bawb o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio pwyslais mawr mewn cyfarfodydd ailintegreiddio ar wella ac adnabod pa gymorth sydd ei angen pan gaiff plant eu ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad cyfnod penodol.

6.13 Dywedodd un prifathro o ysgol uwchradd fod rhai plant yn ei chael yn anodd edrych yn ôl a meddwl ynghylch yr hyn maent wedi'i wneud, a'u bod yn aml wedi ymddwyn yn fyrbwyll ac na allant esbonio pam. Trwy helpu plant i feddwl am eu hamddygiad, mae'n galluogi ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i weithredu cymorth ychwanegol a all helpu plant i hunan-fyfyrio a bod yn fwy ymwybodol o'u gweithredoedd.

6.14 Yn ôl staff a gafodd eu cyfweld, rhoddwyd amserlenni â llai o oriau ar waith gan lawer o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn dilyn gwaharddiad cyfnod penodol i blant a oedd yn ei chael yn anodd dilyn amserlen lawn. Roedd staff o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn sôn hefyd y gall amserlen â llai o oriau helpu ailintegreiddio plant sydd wedi bod yn absennol yn hirdymorth oherwydd gorbryder a phroblemau eraill. Fodd bynnag, nid yw'n eglur a oedd y defnydd o amserlenni â llai o oriau mewn ysgolion i blant yn dilyn gwaharddiadau yn gyson bob amser â chanllawiau Llywodraeth Cymru (2019a) ar ailintegreiddio'n ôl i ysgol brif ffrwd.

6.15 Yn dilyn gwaharddiad, dywedodd llawer o rai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion y byddai cyfle i blant weithio gyda chynorthwywyr llythrennedd emosiynol. Cafodd amcanion y cymorth hwn eu disgrifio gan staff fel helpu plant i wneud y canlynol: datblygu strategaethau dygymod a siarad am anawsterau, rhyngweithio'n fwy llwyddiannus gyda phlant eraill ac athrawon, a datblygu mwy o hunan-ymwybyddiaeth er mwyn rheoli ysgol yn well a theimlo'n well amdanynt eu hunain,

6.16 Dywedodd ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion fod cymorth ychwanegol i blant sy'n ailintegreiddio  yn dilyn gwaharddiad yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd tîm. Yn aml, mae'r broses hon yn dod â'r holl staff perthnasol at

ei gilydd (staff bugeiliol, penaethiaid blwyddyn, arweinwyr cyfnod, swyddog diogelwch, cwnselwyr) bob ychydig wythnosau, i edrych ar bob blwyddyn ysgol. Maent wedyn yn ystyried os oes ar unrhyw blant angen cymorth ychwanegol pellach neu adolygiad o gymorth presennol. Trwy drafod plant yn ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad o fewn y cyfarfodydd tîm, mae hyn yn galluogi holl aelodau perthnasol staff yr ysgol sy'n ymwneud â'r plentyn i fod yn ymwybodol o'r trefniadau, gan sicrhau cysondeb a dychweliad rhwyddach i'r plentyn.

*Cytuno ar strategaethau hunan-reoli*

6.17 Amlygodd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion fod, yn aml, cytuno ar strategaethau rheoli-emosiynol yn ffurfio rhan o gyfarfodydd ailintegreiddio. Roedd hyn yn cynnwys cytuno ar 'strategaethau gadael' os yw sefyllfaoedd yn dod yn llethol i'r plentyn. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn cytuno ar ffyrdd gyda phlant iddynt gyfleu eu hanghenion, pryderon neu anghysur i oedolyn roeddent yn ymddiried ynddo, sy'n lleihau gorbryder iddynt eu hunain ac eraill, a mynd i le diogel megis ystafell ddynodedig neu swyddfa aelod o staff. Soniodd ychydig o aelodau staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn eu cyfweliadau fod strategaethau 'cytuno i adael' yn rhoi 'ffordd allan' i'r plentyn ac yn rhwystro sefyllfaoedd rhag dwysáu ymhellach.

6.18 Roedd un a gyfwelwyd o uned cyfeirio disgyblion yn disgrifio strategaeth hunan-reoli lle cytunir ar ymadroddion rhwng y plentyn a staff a gaiff eu cofnodi wedyn ar gynllun ymddygiad y plentyn. Mae hyn yn caniatáu mynediad i'r holl staff fel y gallant ddefnyddio'r ymadroddion y cytunwyd arnynt i helpu'r plentyn i'w reoli ei hun. Caiff yr ymadroddion hyn eu personoli i'r plentyn penodol. Mewn enghraifft arall, roedd plentyn nad oedd yn hoffi gofyn am help, a oedd hefyd yn ysgogiad, felly cytunwyd y gallai'r plentyn rhoi cerdyn lliw i'r athro i ddangos fod arno eisiau help.

**Deialog reolaidd gyda phlant**

6.19 Roedd staff o bob ysgol ac uned cyfeirio disgyblion yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu deialog reolaidd gyda phlentyn wrth ailintegreiddio i'w hysgol neu unedau cyfeirio disgyblion yn dilyn gwaharddiad.

6.20 Esboniodd aelod o staff mewn un ysgol fod, ar ôl cyfarfod ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad cyfnod penodol, swyddog llesiant a chysylltiadau cadarnhaol yr ysgol

yn cymryd amser i adeiladu ymddiriedaeth a datblygu'r berthynas gyda'r plentyn. Golyga hyn fod y plentyn yn sylweddoli y gall siarad gyda'r swyddog pan fo angen a sefydlu'r ddeialog reolaidd honno. Cyfeiriodd un a gyfwelwyd o ysgol arall at ddeialog reolaidd yn digwydd gyda'r plentyn trwy gymorth gan y tîm lles am tua chwe wythnos ar ôl y gwaharddiad cyfnod penodol i wirio cynnydd, trafod sut mae'r plentyn yn teimlo, a chynnig cymorth ynghylch gorbryder, hyder a dicter.

6.21 Trafodwyd apwyntiadau cynnydd wythnosol hefyd gan rai a gyfwelwyd o ysgolion, pryd y gall y plentyn drafod ei anghenion cymorth gyda swyddog lles.

# 7. Canfyddiadau'r ymchwil: cymorth sydd ei angen i rwystro gwaharddiadau, cynnal cydweithrediad a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd

7.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r cymorth sydd ei angen gan y rhanddeiliaid canlynol i rwystro gwaharddiadau, cynnal cydweithrediad a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd:

- Awdurdodau lleol
- Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion
- Rhieni
- Plant.

7.2 Ar gyfer pob pennawd, mae tabl cryno'n cysylltu'r cymorth i'r tri chategori. Caiff hyn wedyn ei ddisgrifio mewn mwy o fanylder.

**Awdurdodau lleol**

7.3 Roedd y rhai a gyfwelwyd yn disgrifio amrywiaeth o anghenion cymorth (Tabl 7.1), y rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar rwystro gwaharddiadau er bod gan rai gysylltiadau â chynnal cydweithrediad gyda phlant sydd ar waharddiadau cyfnod penodol a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i'r ysgol.

**Tabl 7.1 Cymorth sydd ei angen gan awdurdodau lleol**

| Math o gymorth | Rhwystro gwaharddiadau | Cynnal cydweithrediad | Cefnogi ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd |
|---|---|---|---|
| Diweddariadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyllid ac adnoddau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Arferion effeithiol wrth weithio mewn partneriaeth ag ysgolion | ✓ | | |
| Canllawiau ar adolygu ansawdd cyflwyno arferion mewn ysgolion | ✓ | | ✓ |
| Deialog gydag ysgolion i drafod achosion ynghynt | ✓ | | |
| Cymorth i gyflawni atebion amlasiantaethol | ✓ | | |

| | |
|---|---|
| Lleihau rhestrau aros am wasanaethau cymorth | ✓ |
| Gorfodi hyfforddiant i lywodraethwyr ar wahardd | ✓ |

*Diweddariadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru*

7.4 Roedd staff o bron bob awdurdod lleol a gyfwelwyd yn crybwyll canllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd o'r ysgol. Dywedodd rhai a gyfwelwyd o fwyafrif o awdurdodau lleol fod y canllawiau'n glir a hawdd eu dilyn, gyda rhai yn eu disgrifio fel eu "beibl" a'u bod yn "cael eu defnyddio'n rheolaidd".

> "Rhain yw fy hoff ganllawiau Llywodraeth Cymru. Maen nhw'n ddisgrifiadol ac yn glir. Er eu bod wedi bod ar waith ers amser hir, maen nhw'n dal yn berthnasol a chywir." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

7.5 Law yn llaw â'r teimlad cadarnhaol uchod, roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd yn nodi meysydd i'w gwella hefyd neu ddiweddariadau a fyddai'n fuddiol.

**Tabl 7.2 Enghreifftiau o adborth awdurdodau lleol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru**

| Thema | Adborth gan ran a gyfwelwyd o awdurdodau lleol |
|---|---|
| Cefnogi ysgolion | • Mae ysgolion yn cysylltu'n aml â'r awdurdod lleol i helpu dehongli'r canllawiau.<br>• Byddai esiamplau ac astudiaethau achos ychwanegol fel rhan o ganllawiau yn y dyfodol yn helpu ymarferwyr i ddychmygu ac ystyried gwahanol senarios yn y dyfodol ac ystyried 'amgylchiadau eithriadol'. |
| Eglurder | • Ystyried canllawiau ar wahân ynghylch gwaharddiadau mewnol i blant.<br>• Ystyried cysondeb ymateb i ddigwyddiadau / amgylchiadau / ymddygiadau tebyg. |
| Addasu iaith | • Addasu rhai categorïau, ee ehangu mathau o fwlio i gynnwys categorïau mwy penodol, er mwyn adrodd yn gywir.<br>• Mae angen i gam-drin geiriol gael categorïau mwy penodol, er mwyn adrodd yn gywir. |
| Diweddaru | • Newid cyfeiriadau o AAA i ADY. |

| | |
|---|---|
| Gwe-lywio | • Gwella rhwyddineb gwe-lywio. Er enghraifft, defnyddio siartiau proses neu siartiau llif a rhestrau gwirio i brifathrawon, fel eu bod yn gwybod eu bod wedi gwneud y pethau angenrheidiol.<br>• Ystyried trefn o godau lliw, yn enwedig ar gyfer llythyrau templed sy'n hawdd drysu yn eu cylch. |
| Fersiynau amgen | • Ystyried fersiwn hawdd i blant ac i rieni. [Nid oedd y sawl a gyfwelwyd yn gwybod fod fersiwn hawdd i blant yn bod eisoes (Llywodraeth Cymru, 2015)] |
| Arall | • Costau cludiant ar gyfer symudiadau drwy drefniant. |

*Cyllid ac adnoddau*

7.6 Roedd rhai a gyfwelwyd o'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn disgrifio'r heriau'r oeddent wedi eu profi o ran cyllid ac adnoddau. Yn aml, roedd y ddau fater wedi eu cydblethu, a'r termau'n cael eu cyfnewid yn aml am y naill neu'r llall.

7.7 Roedd rhai a gyfwelwyd yn trafod gormod o amser yn "ymladd tân" a pheidio â gallu mynd ati'n strategol gyda chynllun i ddarparu cymorth i ysgolion a phlant. Roedd rhai yn crybwyll bod adnoddau o dan bwysau ac anawsterau wrth gydbwyso blaenoriaethau. Mewn ychydig o ardaloedd, soniodd rhai a gyfwelwyd fod ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn llawn, a oedd yn creu cyfyngiadau capasiti.

7.8 Roedd un a gyfwelwyd yn disgrifio'i rwystredigaeth wrth beidio â gallu cynnig y ddarpariaeth arbenigol y credai fod ar ysgolion a phlant ei hangen. Esboniodd un arall fod grantiau Llywodraeth Cymru, er yn ddefnyddiol, yn anodd eu defnyddio fel ffordd gydgysylltiedig ac nad oedd manylion am y grantiau ar gael ymlaen llaw. Teimai fod yn rhaid iddynt adweithio i grantiau pan ddeuant ar gael ond os nad oeddent yn gwybod y manylion cyn y flwyddyn academaidd newydd yna ni allent wneud y ddarpariaeth yng nghynllun yr ysgol, a oedd yn gwneud yn cynllunio yn llai strategol.

*Arferion effeithiol wrth weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion*

7.9 Roedd ar rhai a gyfwelwyd o leiafrif o awdurdodau lleol eisiau mwy o gyfleoedd i rannu a dysgu gan awdurdodau lleol eraill a chymorth ar gyfer sut i ddatblygu'r partneriaethau hyn ar y cychwyn.

"Byddai gen i ddiddordeb mewn clywed am arferion o leoedd eraill sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol. Mae pob ardal yn wynebu problemau tebyg, felly mae'n hanfodol fod arferion effeithiol yn cael eu harchwilio, eu profi a'u rhannu." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

7.10 Roedd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd yn mynegi awydd i ddod ag awdurdodau lleol at ei gilydd i drafod materion o'r fath ledled Cymru. Roedd ar rai eisiau i hyn fod yn ehangach na'u consortia lleol er mwyn cefnogi dysgu a chynhyrchu syniadau newydd.

7.11 Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd yn disgrifio sut y daeth deialog gwahardd yn gymysg â materion presenoldeb, a'u teimlad oedd bod hyn yn cyfyngu deialog ynghylch gwaharddiadau.

"Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i awdurdodau lleol gymharu arferion a datblygu syniadau ar fater gwaharddiadau. Mae gwahardd yn tueddu i gael ei ystyried fel rhan o Gyfarfodydd Fframwaith Presenoldeb, sy'n cael eu mynychu i raddau helaeth gan wasanaethau lles addysg, yn hytrach na'r staff hynny'n sy'n gyfrifol am gymorth ymddygiad a gwaharddiadau. Felly, gallai fod gwerth mewn datblygu lleoedd i ymarferwyr gael trafodau mwy penodol ynghylch gwaharddiadau ar lefel genedlaethol. Mae cymysgu gwaharddiadau gyda materion presenoldeb yn golygu gwanhau'r canolbwyntio arnynt." (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol)

*Canllawiau ar adolygu ansawdd cyflwyno arferion mewn ysgolion*

7.12 Roedd ar rai a gyfwelwyd o ychydig o awdurdodau lleol eisiau canllawiau ar sut y gallent gynnig adborth a her i ysgolion ynghylch trefnu a gweithredu arferion i rwystro gwaharddiadau. Dywedodd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd nad oedd darpariaeth rhai ysgolion o ymyraethau penodol, gyda grwpiau anogaeth yn enghraifft a roddwyd, mor gadarn ag mewn ysgolion eraill. Roeddent yn teimlo y gellid gwella hyn gyda chanllawiau clir i awdurdodau lleol.

*Deialog gydag ysgolion i drafod achosion yn gynharach*

7.13 Roedd ar rai a gyfwelwyd o ychydig o awdurdodau lleol eisiau sicrhau deialog gydag ysgolion am blentyn penodol ddigwydd yn gynharach, ymhell cyn y gallai fod angen gwaharddiad parhaol.

7.14 Roedd rhai awdurdodau lleol nad oeddent yn adrodd profi'r mater hwn. Felly, gallai fod yn werth i hyn fod yn fater i'w drafod mewn rhannu arferion effeithiol ynghylch gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion.

*Cymorth i gyflawni atebion amlasiantaethol*

7.15 Er bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn disgrifio enghreifftiau helaeth o weithio amlasiantaethol i gefnogi plant sydd wedi cael eu gwahardd neu'r rheini sydd mewn risg o waharddiad, roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig o awdurdodau lleol yn nodi meysydd o gymorth ychwanegol sydd ei angen. Mewn ychydig achosion, roedd hyn ynghylch trefnu gwasanaethau a'r her o ymdrin yn effeithiol ag adrannau neu dimau eraill awdurdodau lleol. Yn benodol, amlygwyd bod gwasanaethau ieuenctid yn aml yn eistedd y tu allan i addysg, ac y gall hyn gyfyngu ar y graddau maent yn cael eu tynnu i gymorth a chydweithrediad cynnar gydag ysgolion. Trwy wella gweithio amlasiantaethol gyda sefydliadau fel y gwasanaeth ieuenctid, byddai'n caniatáu i gymorth gael ei ddarparu yn gynharach i blant, a allai helpu i leihau'r risg o waharddiad a rhwystro'r sefyllfa rhag dwysáu.

*Byrhau rhestrau aros am wasanaethau cymorth*

7.16 Roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig awdurdodau lleol yn disgrifio heriau penodol gyda rhestrau aros am gymorth arbenigol gan CAMHS a llwybrau ADY, a oedd yn teimlo eu bod yn cymryd yn rhy hir.

*Gorfodi hyfforddiant i lywodraethwyr ar wahardd*

7.17 Soniodd rhai a gyfwelwyd o ychydig o awdurdodau lleol fod rhai llywodraethwyr ysgol a oedd yn cymryd rhan mewn triwbiwnlysoedd heb dderbyn hyfforddiant awdurdod lleol ar wahardd. Dywedodd un a gyfwelwyd fod rhai modiwlau hyfforddiant yn orfodol, megis hyfforddiant i lywodraethwyr newydd a deall data, ond dywedodd nad oedd hyn yn wir am hyfforddiant ar waharddiadau. Er bod Canllawiau Llywodraeth Cymru yn 2019 ar waharddiadau yn glir fod hyn yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol, teimlai'r sawl a gyfwelwyd nad oedd eu hawdurdod lleol wedi gallu gwneud i hyn ddigwydd.

7.18 Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd yn mai un o ganlyniadau hyn yw bod llywodraethwyr yn cyfeirio cwestiynau at blant a rhieni mewn cyfarfodydd

llywodraethu yn hytrach na'r prifathro er mwyn gwirio bod pob ffordd arall o weithredu wedi cael ei hystyried cyn penderfynu ar waharddiad parhaol.

**Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion**

7.19 Roedd rhai a gyfwelwyd yn disgrifio amrywiaeth o anghenion cymorth (Tabl 7.3), gyda llawer yn ymwneud â rhwystro gwaharddiadau, cynnal cydweithrediad gyda phlant ar waharddiadau cyfnod penodol a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i'r ysgol.

**Tabl 7.3 Cymorth sydd ei angen ar ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion**

| Math o gymorth | Rhwystro gwaharddiadau | Cynnal cydweithrediad | Cefnogi ailintegreiddio |
|---|---|---|---|
| Cyllid ac adnoddau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyfforddiant i staff addysgu a staff eraill | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adnabod (diagnosis) anghenion a darparu cymorth yn gynnar | ✓ | | |
| Cymorth i deuluoedd | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhannu enghreifftiau o arferion effeithiol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu arbenigedd | ✓ | | |
| Deall sut i gael cymorth allanol | ✓ | | |
| Cynnydd mewn lleoedd a darpariaeth unedau cyfeirio disgyblion ar gyfer ysgolion arbennig | ✓ | | |
| Polisi ymddygiad enghreifftiol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Diweddariadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru | ✓ | ✓ | ✓ |

Ffynhonnell: Dadansoddiad York Consulting, 2023.

*Cyllid ac adnoddau*

7.20 Roedd ychydig o dan hanner yr ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a atebodd i'r arolwg yn disgrifio cyllid ychwanegol ac adnoddau ychwanegol fel pethau'r oedd eu hangen i helpu lleihau gwaharddiadau. Dywedodd rhai a gyfwelwyd o dros hanner yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion fod angen cyllid i leihau gwahardd. Roedd rhai a gyfwelwyd yn esbonio'r canlynol:

- Er bod ysgolion yn derbyn cyllid ynghylch rhaglenni darllen a llythrennedd, teimlent nad oedd cyllid penodol digonol i fynd i'r afael ag ymddygad ac afreolaeth rhai plant.
- Mae cymorth ac iddo'r nod o osgoi gwaharddiadau parhaol yn costio arian i ysgolion, rhywbeth sy'n rhaid ei gyfiawnhau bob blwyddyn. Er bod hyn o fudd i blant, mae ysgolion yn wynebu gorfod cydbwyso hyn â gwariant dewisol arall. Roedd un ysgol yn disgrifio profi diffyg o dros hanner miliwn o bunnau a oedd yn gysylltiedig â graddfa'r cymorth ychwanegol a ddarperir i blant sydd mewn risg o waharddiad.
- Roedd ychydig o brifathrawon yn disgrifio gofynion cyllid am elfennau fel 'gweithwyr cymorth i deuluoeddd', a oedd yn aml yn anodd eu canfod. Esboniodd un prifathro fod angen cyllid ychwanegol i gefnogi eu rhaglenni anogaeth yn ddigonol.

  "Pe bai digonedd o arian, byddech i bob pwrpas yn gallu diweddu'r angen i wahardd, oherwydd byddech yn canfod ffordd o gydweithredu â'r plant hyn a'u cadw'n brysur a'u cadw nhw allan o drwbl". (Prifathro Ysgol Uwchradd)

7.21 Dywedodd prifathro ysgol gynradd fod "tîm cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol … yn ymweld unwaith pob pythefnos am ddwy awr ac mae'r llwyth achosion yn llawn". Felly rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd ynghylch sut maent yn dyrannu'r cymorth hwn.

7.22 Roedd cydlynydd ADY ysgol ganol mewn ardal wledig yn disgrifio cyfyngiadau cyllid cludiant i blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac eraill yn wynebu tlodi i gael gwasanaethau a phrofiadau bywyd ehangach y tu allan i'r ardal. Heb hyn, teimlai'r cydlynydd ADY fod llawer o blant difreintiedig yn teimlo'n anhapus a diflas iawn, a all eu rhoi mewn risg o waharddiad.

7.23 Cafodd yr her benodol o gynnal cydweithrediad yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol ei chrybwyll gan rai staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Roeddent yn esbonio y gall adweithio i waharddiad cyfnod penodol gyda phecyn wedi'i deilwra o waith fod yn anodd i staff sydd eisoes o dan bwysau yn eu gwaith prif ffrwd. Roedd un prifathro uned cyfeirio disgyblion yn disgrifio sut y gallai hyn fod yn amrywiol.

“Rhai wythnosau rydym yn dda iawn ac wythnosau eraill rydym yn ei chael yn anodd rhoi’r holl drefniadau ar waith os ydym yn ymdrin ag argyfyngau eraill.” (Prifathro uned cyfeirio disgyblion)

7.24 Roedd yr un prifathro yn disgrifio hefyd sut nad oedd yn bosibl cyrraedd disgwyliadau rhai rheini, y byddai tiwtora un-i-un yn cael ei gyflwyno yn eu cartref yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol.

*Hyfforddiant i staff addysgu a staff eraill*

7.25 Roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig o dan hanner yr ysgolion yn disgrifio hyfforddiant a fyddai’n helpu eu gweithlu i ddatblygu cysondeb arferion drwy’r holl ysgol. Roedd meysydd pwnc a grybwyllwyd gan rai a gyfwelwyd yn cynnwys arferion adferol, hyfforddiant i gynorthwywyr llythrennedd emosiynol, dulliau sy’n ystyriol o drawma, ymwybyddiaeth o ASD a rhannu arferion gyda’r uned cyfeirio disgyblion leol. Roedd ychydig o ymatebwyr o ysgolion i’r arolwg yn awgrymu y dylai fod hyfforddiant gorfodol i bob aelod o staff addysgu mewn arferion sy’n ystyriol o drawma, deall profiad niweidiol yn ystod plentyndod chefnogi ADY plant.

7.26 Dywedodd un prifathro ysgol uwchardd, a oedd wedi gwneud hyfforddiant ysgol gyfan mewn dull sy’n ystyriol o drawma yn flaenoriaeth:

“Mae arnom eisiau i’n hathrawon fod yn chwilfrydig, i garu’r plant a gallu gwrthsefyll rhai o’u hymddygiadau mwyaf eraill. Does fawr o bwynt mewn gwneud môr a mynydd pan fo plentyn yn defnyddio’r ‘gair ff-’ oherwydd mewn rhai teuluoedd, caiff y gair hwnnw ei ddefnyddio fel atalnod, felly mae’n rhaid inni fynd ati o ddifrif i helpu staff i ganolbwyntio ar yr hyn sy’n bwysig”. (Prifathro Ysgol Uwchradd)

7.27 Roedd prifathro ysgol uwchradd arall yn disgrifio costau ôl-lenwi i’r ysgol o hyfforddi cynorthwywyr llythrennedd emosiynol:

“Ceisiodd yr ysgol fod yn ysgol Ffynnu a chynorthwywyr llythrennedd emosiynol, ond mae’n ymlafnio’n rheolaidd i gael cymorth seicolegydd addysg a chymorth CAMHS i ddisgyblion. Mae’r ysgol yn ceisio bod mor hunan-gynhaliol ac y gall, ohewydd yr heriau o beidio gallu cael at gymorth. Fodd bynnag, mae hyfforddiant yn costio arian – mae hyfforddiant cynorthwywyr llythrennedd emosiynol yn

costio £415 i bob aelod o staff, ond mae hefyd yn chwe diwrnod allan, sydd y rhan anodd i gael yr adnoddau ar ei gyfer.” (Prifathro Ysgol Uwchradd)

*Adnabod (diagnosis) anghenion a darparu cymorth yn gynnar*

7.28 Roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio pwysigrwydd adnabod anghenion, cael diagnosis dilynol a darparu cymorth yn gynnar. Teimlent y gallai hyn gael effaith fawr ar leihau gwaharddiadau, cyn belled â bod plant wedyn yn gallu cael at arbenigwyr yn yr awdurdod lleol, megis gan CAMHS.

*Cymorth i deuluoedd*

7.29 Roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ac ychydig o ymatebwyr i’r arolwg yn disgrifio’r angen am fwy o wasanaethau cymorth i deuluoedd a all weithio gyda’r rhiant a’r plentyn. Er bod rhai ysgolion eisoes yn cyflogi gweithwyr cymorth i deuluoedd neu yn eu defnyddio drwy’r awdurdod lleol neu brosiect arall a ariennir neu elusen, roedd ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a ddywedodd fod arnynt angen y cymorth hwn ond na allent ei ganfod na’i fforddio. Roedd yr ysgolion a’r unedau cyfeirio disgyblion hynny a oedd â gweithwyr cymorth i deuluoedd ar gael iddynt yn esbonio y gall rhai rhieni fod yn gyndyn iawn i gydweithredu, ac y gall gymryd dyfalbarhad i oresgyn eu rhwystrau rhag derbyn cymorth.

*Rhannu enghreifftiau o arferion effeithiol*

7.30 Roedd ar rai a gyfwelwyd o ychydig ysgolion eisiau mwy o enghreifftiau o arferion effeithiol wrth gefnogi plant sydd mewn risg o waharddiad. Er yn cydnabod bod rhai enghreifftiau cyfyngedig ar Hwb, y teimlad oedd y byddai mwy o enghreifftiau a chyfeirio cliriach yn ddefnyddiol.

*Datblygu arbenigedd*

7.31 Roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio angen cynyddol iddynt gyflogi staff arbenigol a staff nad ydynt yn addysgu. Roedd enghreifftiau’n cynnwys athrawon sydd â phrofiad o ysgolion arbennig neu o weithio mewn unedau cyfeirio disgyblion a staff sydd ag arbenigedd ymddygiadol a all weithio law yn llaw â staff addysgu mewn rhannau o ysgolion a neilltuwyd ar

gyfer gwahardd mewnol. Mewn rhai rhannau o Gymru, yn enwedig, ond nid yn unig, mewn ardaloedd gwledig, roedd ysgolion yn ei chael yn anodd i recriwtio arbenigedd o'r fath. Felly, roedd rhai swyddi'n mynd heb eu llenwi neu'n gorfod cael eu hailhysbysebu.

*Deall sut i gael arbenigedd allanol*

7.32 Roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig o ysgolion yn disgrifio'r anawsterau wrth ddarganfod am y gwasanaethau a'r arbenigedd sydd ar gael yn eu hardal i gefnogi plant sydd mewn risg o gael eu gwahardd. Mewn rhai achosion, adroddwyd bod staff awdurdodau lleol yn barod i helpu neu bod chwilio ar-lein eu hunain am wasanaethau yn ddefnyddiol. Mewn ardaloedd eraill, teimlai staff ysgolion mai cyfyngedig oedd y ddarpariaeth sy'n ymwneud ag arbenigedd o'r tu allan i'r ysgol, neu roeddent yn amau a fyddai'r darpariaeth sydd ar gael yn diwallu amrywiol angenion plant yn eu hysgol.

*Cynnydd mewn lleoedd a darpariaeth unedau cyfeirio disgyblion ysgolion arbennig*

7.33 Teimlai rhai a gyfwelwyd o ychydig ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion y gellid rhwystro gwaharddiadau trwy ehangu darpariaeth unedau cyfeirio disgyblion a lleoedd mewn ysgolion abennig. Esboniodd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion fod unedau cyfeirio disgyblion yn gynyddol yn cefnogi plant a allai fel arall dderbyn darpariaeth arbenigol nad oedd ar gael yn lleol a bod hyn yn lleihau gallu unedau cyfeirio disgyblion i gynnig darpariaeth dros dro i blant a oedd â'r potensial i ddychwelyd i ysgolion prif ffrwd.

*Polisi ymddygiad enghreifftiol*

7.34 Roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn mynegi y byddai polisi ymddygiad enghreifftiol yn helpu sicrhau cysondeb wrth gefnogi plant sydd mewn risg o waharddiad, ar draws ardal awdurdod lleol. Er bod Canllawiau Llywodraeth Cymru (2012) yn bod ar ddulliau o reoli ymddygiad, teimlai'r rheini a gyfwelwyd y byddai polisi enghreifftiol yn ychwanegiad defnyddiol. Canfuwyd ychydig enghreifftiau o hyn yn digwydd o fewn awdurdodau lleol unigol, ond nid ymddangosai fod hyn yn arfer gyffredin.

> "Gallai hyn sicrhau mwy o gysondeb a helpu staff sy'n ei chael yn anodd dygymod â phwysau datblygu ac adolygu llu o gynlluniau strategol. Gallai hyn

arwain at fwy o gysondeb ynghylch y ffordd yr ymdrinir â gwaharddiadau, er bod angen o hyd am hyblygrwydd i roi'r ymreolaeth hwnnw i ysgolion." (Prifathro Ysgol Ganol)

*Diweddariadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru*

7.35 Roedd rhai a gyfwelwyd o ychydig ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn gefnogol o ganllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar wahardd. Roeddent yn dweud eu bod yn eu defnyddio'n rheolaidd ac yn eu canfod yn ddefnyddiol. Roedd rhai ysgolion yn cynnwys dolen i'r Canllawiau ar eu gwefan.

> "Dw i'n meddwl bod y canllawiau'n fanwl iawn, dw i'n eu defnyddio'n rheolaidd ac yn cyfeirio'n aml atynt." (Prifathro Ysgol Uwchradd)

7.36 Roedd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd yn awgrymu rhai diweddariadau i Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd, a amlinellir yn Nhabl 7.4.

**Tabl 7.4 Enghreifftiau o adborth ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar ganllawiau Llywodraeth Cymru**

| Thema | Adborth gan rai a gyfwelwyd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion |
|---|---|
| Mynediad at gymorth | • Nid yw'r canllawiau'n adlewyrchu realiti'r sefyllfa o ran diffyg darpariaeth a'r cyfyngiadau capasiti sy'n ei gwneud yn anodd cael at gymorth ychwanegol neu arbenigol. |
| Eglurder | • Mae angen mwy o ganllawiau ar y math o weithredoedd sy'n addas ar gyfer gwahanol fathau o ymddygiadau.<br>• Byddai rhywfaint o fanylder ychwanegol yn ddefnyddiol ynghylch lefelau cosbau a sut y dylid cynyddu'r rhain am achosion ailadroddus. |
| Diweddaru | • Roedd ysgolion yn siarad am eu profiad ar ôl COVID-19. Er enghraifft, y gofyniad i gynnal cyfarfod wrth ddychwelyd i'r ysgol, pan fo cyfarfod ar gychwyn y broses yn gweithio'n well weithiau. Dywedodd staff ysgolion fod rhieni'n tueddu o gydweithio orau cyn i waharddiad ddigwydd. Fodd bynnag, gall ysgolion mewn gwirionedd gynnal cyfarfodydd gyda rheini pan maent yn meddwl ei bod yn addas gwneud hynny, yn ogystal â chynnal y rheini sy'n ofynnol gan y gyfraith.<br>• Y mater o sut i gefnogi plant sydd ag ADY. Teimlai'r ysgol hon fod gorgyffwrdd cryf yn aml rhwng problemau ymddygiad a phlant sydd ag ADY. Mae hyn yn creu sefyllfa wirioneddol anodd i'r ysgol, gan nad ydynt yn sicr o'r ffordd orau o reoli ymddygiad ac ymateb graddedig i'r plant hyn. |

| | |
|---|---|
| | • Diweddaru o Ddeddf AAA i Ddeddf ADY.<br>• Cydnabod amrywiadau mewn unedau cyfeirio disgyblion. |
| Fersiynau gwahanol | • Ystyried canllawiau penodol i unedau cyfeirio disgyblion. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad York Consulting, 2023.

**Rhieni**

7.37 Roedd rhai a gyfwelwyd yn disgrifio amrywiaeth o anghenion cymorth (Tabl 7.5) gyda llawer yn ymwneud â rhwystro gwaharddiadau, cynnal cydweithrediad gyda phlant sydd ar waharddiadau cyfnod penodol a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i'r ysgol.

**Tabl 7.5 Cymorth sydd ei angen gan rieni**

| Math o gymorth | Rhwystro gwaharddiadau | Cynnal cydweithrediad | Cefnogi ailintegreiddio |
|---|---|---|---|
| Perthynas sefydlog | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymorth i helpu eu plentyn | ✓ | ✓ | ✓ |
| Eglurder ynghylch gwaharddiadau mewnol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pwynt cyswllt clir yn yr ysgol | | ✓ | ✓ |
| Llinell ffôn uniongyrchol at gydlynydd ADY | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cytuno i weini meddyginiaeth | ✓ | | |
| Gwirio gallu a chysylltedd digidol digonol | | ✓ | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad York Consulting, 2023.

*Perthynas sefydlog*

7.38 Roedd llawer o rieni'n nodi bod cael perthynas dda gyda staff yr ysgol a sgyrsiau rhagweithiol gyda hwy am eu plentyn yn helpu sicrhau profiad mwy cadarnhaol i bawb ac yn lleihau'r risg o wahardd. Roedd rhieni'n nodi bod cydweithrediad yn "gweithio'r ddwy ffordd" a'u bod yn ei chael yn ddefnyddiol pan oedd staff yr ysgol yn cysylltu gyda hwy i drafod gwelliannau'r roedd eu plentyn yn eu gwneud yn ogystal â materion negyddol. "Mae'r arweinydd ymddygiad yn ffonio o leiaf bob yn ail wythnos. Mae'n rhoi gwybod imi am pryd mae'r plentyn wedi gwneud yn dda yn yr ysgol ac nid dim ond y pethau drwg. Llawer o ganmoliaeth iddo." (Rhiant)

7.39 Roedd un rhiant yn nodi y byddai arweinydd ymddygiad yr ysgol yn cysylltu pan allai weld ymddygiad y plentyn yn dwysáu, gan wahodd y rhiant wedyn i godi'r plentyn o'r ysgol i leihau unrhyw ddwysáu pellach.[22] "Bydd yr arweinydd ymddygiad yn fy ffonio os ydyn nhw'n gweld pethau'n gwaethygu, er mwyn [i'm plentyn] gael ei godi o'r ysgol, fel nad yw hyn yn arwain at unrhyw risgiau pellach o waharddiadau." (Rhiant)

*Cymorth i ddatblygu sgiliau rhianta a deall sut i helpu eu plentyn*

7.40 Dywedodd llawer o rieni y byddent wedi hoffi cymorth pellach i ddeall sut i helpu eu plentyn, boed hynny ar sut i ofyn am gymorth pellach neu gymorth i'w helpu hwy i ddatblygu eu sgiliau rhianta.

7.41 Teimlai un rhiant fod ysgol brif ffrwd eu plentyn yn gwahardd yn fewnol "am y peth lleiaf" ac y byddai'n rhaid i'r plentyn fynd i uned wahanu a "chael ei adael yno". Yn dilyn hynny, roedd y plentyn wedi bod yn mynychu'r uned cyfeirio disgyblion leol. Adroddodd y rhiant fod y plentyn yn cael ei gefnogi mewn modd mwy cadarnhaol gan yr uned cyfeirio disgyblion, a'u bod hwy fel rhieni'n teimlo'n fwy abl i ddeall sefyllfa eu plentyn yn well, a hefyd y dull a ddefnyddiwyd pan oedd ei ymddygiad yn dwysáu.

7.42 Roedd ychydig o rieni'n nodi anawsterau wrth ofyn am help gan rai ysgolion a theimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt na'u cefnogi'n ddigonol. "Ro'n i'n gwybod bod [ar y plentyn] angen help – ro'n i wedi bod yn gofyn am oesoedd." Roedd y rhiant yn gofyn am gymorth, a allai fod wedi eu helpu i ddeall sut i gefnogi eu plentyn.

7.43 Yn gysylltiedig â'r pwynt blaenorol, roedd staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn nodi y byddai cyflwyno gweithdai sgiliau rhianta yn gymorth defnyddiol i rieni ac y byddai'n helpu rhieni i ddeall sut i helpu eu plant. Dywedodd un prifathro ysgol uwchradd eu bod yn cynnal sesiynau i rieni ar sut i helpu rheoli emosiynau eu plentyn, a oedd wedi derbyn adborth cadarnhaol gan bawb a fu'n ymwneud â hynny.

---

[22] Gall hyn fod yn achos o wahardd anghyfreithlon, gan ei bod yn anghyfreithlon gwahardd plentyn yn anffurfiol hyd yn oed gyda chaniatâd y rhiant.

*Eglurder ynghylch gwaharddiadau mewnol*

7.44 Roedd rhai rhieni yn mynegi rhywfaint o ddryswch ynghylch eu dealltwriaeth o statws gwaharddiad mewnol, sy'n awgrymu y gall fod angen i ysgolion fod yn gliriach wrth esbonio diben gwaharddiadau mewnol o gymharu â bod eu plentyn mewn addysg lawn-amser a dosbarthiadau prif ffrwd.

> "Roedd tri gwaharddiad, dw i'n meddwl bod dau yn rhyw fath o answyddogol. Un swyddogol lle cawsom ni lythyr." (Rhiant)

*Pwynt cyswllt clir yn yr ysgol a gwybodaeth agored*

7.45 Roedd ychydig rieni a gafodd gysylltiad ag 'arweinydd ymddygiad' o fewn ysgol eu plentyn yn gwerthfawrogi hyn ac yn canfod y pwynt cyswllt clir i fod yn ddefnyddiol.

7.46 Mynegodd ychydig o rieni y byddent wedi hoffi mwy o gyfathrebu gydag ysgol eu plentyn, yn enwedig ynghylch beth oedd yr ysgol yn ei roi ar waith ar gyfer eu plentyn o ran cymorth a pham y gallai hyn fod yn angenrheidiol. Awgryma hyn y gall fod angen i rai ysgolion gyfathrebu'n well gyda rhieni wrth benderfynu ar eu harferion ar gyfer plant penodol.

7.47 Teimlai un rhiant mai galwadau ffôn oedd y modd gorau o gyfathrebu gyda'r athro perthnasol mewn unrhyw ddigwyddiadau penodol. Roedd hyn oherwydd nad oedd y dull a ddefnyddiai ysgol eu plentyn ar gyfer adrodd wrth rieni yn rhoi'r holl wybodaeth y byddai'r rhiant wedi'i hoffi, a'i fod yn aml yn arwain at y rhiant yn gorfod gofyn i'r ysgol am esboniad.

> "Bydd [y plentyn] yn darganfod pan ddaw adref a finnau'n dweud fod gen ti bwyntiau ymddygiad a dw i wedyn yn gorfod ffonio'r ysgol i wybod am beth mae'r pwyntiau hyn, gan ofyn beth mae [y plentyn] wedi'i wneud. Heb gyfleu iddyn nhw beth yw'r gosb, mae hyn yn gorfod dod drwof i. Dim esboniad dros beth sy'n mynd ymlaen." (Rhiant)

7.48 I rai rhieni roedd angen clir am fwy o gyfathrebu rhwng yr ysgol a hwy a'u plentyn pan fo eu plentyn wedi cael ei wahardd. Roedd un rhiant yn awgrymu y byddent wedi hoffi cyfarfod gyda'r ysgol cyn i'r gwaharddiad ddigwydd.

*Llinell ffôn uniongyrchol at gydlynydd ADY*

7.49 Roedd ychydig o rieni'n nodi y byddai'n ddefnyddiol gan llinell ffôn uniongyrchol at gydlynydd ADY eu plentyn.

7.50 I rieni, mae "gwybod y byddai'n iawn ffonio" yn annog perthynas rhwng yr ysgol a'r rhiant. Mae hyn yn bwysig gan mai'r dewis arall yn aml allai fod y rhiant yn meddwl mor anodd yw cael gafael ar yr ysgol er mwyn deall beth sy'n digwydd gyda'u plentyn, mewn sefyllfa a all fod eisoes yn anodd ac yn un sy'n peri straen.

*Cytuno i weini meddyginiaeth*

7.51 I'r ychydig iawn o rieni hynny a ddywedodd fod ganddynt gytundeb gydag ysgol neu uned cyfeirio disgyblion eu plentyn iddynt weini meddyginiaeth ADHD plentyn, adroddwyd ei fod yn gymorth defnyddiol i rieni. Mantais hyn yw bod y rhiant yn gwybod y bydd eu plentyn yn derbyn ei feddyginiaeth ac y bydd yn fwy abl i'w reoli ei hun, o gymharu â senario lle mae'r rhiant yn anghofio gweini'r feddyginiaeth. Nodwyd gan aelod o staff uned cyfeirio disgyblion y gallai hyn fod yn ddefnyddiol yn gynnar yn y bore, er mwyn setlo'r plentyn a'i gael yn barod i ddysgu, os yw rhiant wedi'i chael yn anodd sefydlu gweithrefn gyson yn y boreau.

*Gwirio gallu a chysylltedd digidol digonol*

7.52 Dywedodd ychydig o staff a gyfwelwyd y byddai'n ddefnyddiol i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion wirio a oes gan blant a rhieni fynediad digidol digonol at ddyfeisiadau a chysylltedd TG/Band eang cyn gwaharddiad.

7.53 Yn aml, darperir gwaith i blentyn trwy Google Classroom neu raglen debyg ac felly mae'n bwysig fod hyn ar gael i blant a'u rhieni a'u bod yn gallu ei ddeall a'i ddefnyddio. Dywedodd cydlynydd ADY un ysgol fod rhieni'n aml yn gofyn am fersiynau papur o'r gwaith, gyda phrifathro ysgol gynradd arall yn esbonio y gallant 'roi benthyg' dyfais i'r plentyn fynd adref o'r ysgol.

**Plant**

7.54 Roedd plant a gyfwelwyd yn disgrifio amrywiaeth o anghenion cymorth (Tabl 7.6) er mwyn cynnal cysylltiad â phlant ar waharddiadau cyfnod penodol, ac roedd rhai yn canolbwyntio ar rwystro gwaharddiadau a chefnogi ailintegreiddio'n ôl i'r ysgol.

**Tabl 7.6 Cymorth sydd ei angen gan blant**

| Math o gymorth | Rhwystro gwaharddiadau | Cynnal cydweithrediad | Cefnogi ailintegreiddio |
|---|---|---|---|
| Deall rhesymau dros ymddygiad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adnabod anghenion, diagnosis a darparu cymorth yn gynharach | ✓ | | |
| Cydlynydd ADY fel eiriolwr dros y plentyn i wirio a yw athrawon dosbarth yn dwallu anghenion ADY plentyn | ✓ | ✓ | |
| Gwirio dealltwriaeth plentyn o waith a ddarparwyd | | ✓ | |
| Cyswllt rheolaidd i gynnal cydweithrediad | | ✓ | |
| Gwirio bod enwau defnyddwyr a chyfrineiriau yn hysbys ar gyfer mynediad digidol | | ✓ | |
| Ystyried dychweliad graddol i'r ystafell ddosbarth i rai plant | | | ✓ |

Ffynhonnell: Dadansoddiad York Consulting, 2023.

*Cyffredinol*

7.55 Roedd nifer o faterion cyffredinol yn ymwneud â chymorth a godwyd gan y rhai a gyfwelwyd. Roedd y rhain yn cynnwys bod ar blant angen mwy o gymorth wrth iddynt ei chael yn anodd hunan-reoli ac ymdrin â'u hemosiynau, a oedd mewn rhai achosion yn arwain at blant fod yn anfoesgar a difrïol tuag at staff mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.

7.56 Teimlai ychydig o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion fod ymateb graddedig, sy'n aml yn cael ei ddefnyddio fel rhan o bolisi ymddygiad ehangach o fewn ysgolion, yn rhy araf i rai plant adweithio, a bod cymorth ymyrraeth yn ofynnol ar gam cynharach.

*Deall rhesymau dros ymddygiad*

7.57 Roedd rhai a gyfwelwyd yn nodi bod angen gwell dealltwriaeth, ymysg staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, o'r rhesymau pam fod plant wedi arddangos

ymddygiad penodol a arweiniodd iddynt at fod mewn risg o waharddiad cyfnod penodol neu barhaol.

7.58 Roedd cymorth a awgrymwyd ar gyfer plant yn cynnwys cyflwyno'r dewis o dynnu allan, fel y gallai'r plentyn dynnu ei hun allan o sefyllfaoedd sy'n dwysáu. Wrth i blant wybod lle i fynd o fewn yr ysgol neu uned cyfeirio disgyblion neu wybod pwy i siarad â hwy, gallai olygu bod aelodau a staff ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion yn gallu adnabod a deall yn haws beth sy'n digwydd i'r plentyn hwnnw ar yr adeg benodol honno heb i'r sefyllfa ddwysáu.

7.59 Dywedodd aelod o staff ysgol a gyfwelwyd fod ar rai plant angen gwaith mwy heriol i gynnal eu diddordeb a'u cydweithrediad mewn gwersi, neu fel arall gallant ddiflasu gan arwain at ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn yr ystafell ddosbarth. Roedd deall y rheswm dros yr ymddygiad hwn yn bwysig er mwyn gallu gweithredu camau addas i'w atal.

7.60 Roedd rhieni a oedd â phlentyn o fewn lleoliad uned cyfeirio disgyblion am rywfaint o'r wythnos yn teimlo bod ar y plentyn, pan oedd yn ei ysgol brif ffrwd, angen cymorth pellach. Teimlai'r rhieni fod angen i'r ysgol siarad mwy gyda'r plentyn ynghylch pam fod risg o waharddiad a'r rheswm dros ei ymddygiad, gan gymharu sut roedd yr uned cyfeirio disgyblion wedi bod yn cyfathrebu gyda'r rhieni. O fewn yr uned cyfeirio disgyblion, roedd rhieni'r plentyn yn nodi "y byddai'r uned cyfeirio disgyblion yn ein ffonio ac yn esbonio wrth [y plentyn] mai dyma oedd y cam olaf un os oedd arno angen gwaharddiad." (Rhiant). Roedd hyn yn caniatáu i'r plentyn ddeall y broses, a difrifoldeb cael ei wahardd yn barhaol, nad oedd yn cael ei esbonio o'r blaen.

7.61 Dywedodd rhiant arall fod eu plentyn bob amser wedi cael esboniad o pam roedd yn cael ei wahardd am gyfnod penodol, a pham fod ei ymddygiad wedi torri'r polisi ymddygiad. Er bod y plentyn yn derbyn hyn, nid oedd bob amser yn barod i wrando ac os oedd yn dal yn flin neu afreolus yna byddai'n "brasgamu'n flin allan o'r swyddfa ambell waith." (Plentyn). Dywedodd y plentyn nad oedd bob amser yn deall pam fod "pethau gwirion a wnes yn golygu'r angen am waharddiad, oherwydd unwaith roedd rhywun yn dweud wrtha' i, fyddwn id dim wedi gwneud hynny eto – fell y do'n i ddim yn gweld y pwynt imi orfod eistedd adref am ddiwrnod." Mae hyn

yn awgrymu bod angen cyfathrebu pellach a mwy o archwilio'r rhesymau y tu ôl i'r ymddygiad rhwng yr ysgol, y plentyn a'r rhieni.

*Adnabod anghenion, diagnosis a darparu cymorth yn gynharach*

7.62 Roedd rhieni a phlant yn cyfeirio at fod angen adnabod anghenion y plentyn yn gynharach, gan gynnwys o bosibl atgyfeiriad am ddiagnosis, er mwyn hwyluso darpariaeth o gymorth cynharach. Er enghraifft, os yw athro'n sylwi bod plentyn yn cael trafferth gyda darllen a sillafu, yna gallai drafod hyn gyda chydlynydd ADY yr ysgol er mwyn gofyn am asesiad gan seicolegydd addysg. Os yw diagnosis yr seicolegydd addysg yn dangos bod dyslecsia ar y plentyn, yna gall yr ysgol ddatblygu cynllun datblygu unigol sy'n cynnwys cymorth megis amser ychwanegol ar gyfer tasgau darllen ac ysgrifennu, mynediad at dechnoleg gynorthwyol, ac ymyraethau darllen penodol.

7.63 Roedd rhai plant yn dweud fod arnynt angen mwy o bethau i'w gwneud amser cinio, megis clybiau, fel nad ydyn nhw'n diflasu neu'n treulio amser gyda 'chriw anaddas'.

7.64 Dywedodd un rhiant, a oedd â'u plentyn sy'n mynychu uned cyfeirio disgyblion, fod angen i'w plentyn fod yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol na gwaith ysgrifenedig, rhywbeth roedd y rhiant yn ei gysylltu â diagnosis y plentyn o ADHD, ond nad yw hyn yn cael ei ddarparu bob amser. Law yn llaw â hyn, teimlai rhieni eraill y byddai cymorth un-i-un a lle tawel i ddysgu yn fwy addas mewn rhai amgylchiadau i'w plant.

7.65 Roedd cydlynydd ADY yn nodi mai rhan o'u rôl yn aml oedd bod yn eiriolwr i blant o safbwynt gwirio bod eu ADY yn cael eu diwallu gan athrawon dosbarth.

*Gwirio dealltwriaeth plentyn o waith a ddarparwyd*

7.66 Roedd rhiant yn nodi bod rhywfaint o ddryswch yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol eu plentyn ynghylch y gwaith ysgol a ddarparwyd ar eu cyfer. Roedd y gwaith a anfonwyd adref yn waith ar bapur, ond byddai'n well gan y plentyn a'r rhiant fod wedi derbyn hyn ar liniadur. Mae ystyriaethau a dealltwriaeth o'r gwaith a ddarperir yn bwysig, gan fod yn rhaid i'r rhiant wedyn fynd i holi'r ysgol:

> "Anfonais waith cartref ar bapur ond yr holl bwynt oedd ei gael ar liniadur. Rhowch y gwaith ar liniadur yn lle ar bapur, ac fe fyddai wedi cael ei wneud." (Rhiant)

*Cyswllt rheolaidd er mwyn cynnal cydweithrediad*

7.67 I'r plant sydd wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol, mae angen am gysylltu rheolaidd er mwyn cynnal eu cydweithrediad gyda'r ysgol.

7.68 Roedd ychydig o rieni yn nodi bod gwaith yn cael ei ddarparu a'i anfon adref gan yr ysgol, ond fod diffyg amlwg o ran cadw cyswllt ar ôl y pwynt hwn, cyn dychweliad y plentyn, a oedd yn creu anawsterau pellach.

> "Mae gwaith yn cael ei anfon gartref ond does dim cyswllt wedyn tra bydd wedi ei wahardd – mae'r pellter hwnnw'n golygu wedyn nad oes arno eisiau mynd yn ôl i'r ysgol (Rhiant)

*Gwirio bod enwau defnyddwyr / cyfrineiriau yn hysbys ar gyfer mynediad digidol*

7.69 I'r plant hynny sydd wedi eu gwahardd am gyfnod penodol ac yn derbyn eu gwaith ysgol ar lwyfannau fel Google Classroom a'u tebyg, awgrymwyd gan rai a gyfwelwyd fod angen i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion wirio bod enwau defnyddwyr a chyfrineiriau yn hysbys i'r plant er mwyn iddynt gael mynediad at y llwyfannau hyn. Er enghraifft, gellid cynnwys y rhain o fewn y llythyrau templed.

7.70 O fewn cyfweliadau gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, dywedodd rhai a holwyd fod, lle bo'n bosibl, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn ceisio darparu cyfrifiaduron a dyfeisiadau electronig i blant os a phan oedd angen hynny.

*Ystyried dychweliad graddol i'r ystafell ddosbarth i rai plant*

7.71 I'r plant hynny sydd wedi cael eu gwahardd yn fewnol neu am gyfnod penodol, awgrymwyd gan ychydig o rieni y byddai dychweliad graddol i'r ystafell ddosbarth yn gymorth defnyddiol i ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion ei ddarparu.

7.72 Er enghraifft, roedd un rhiant yn esbonio yn ystod ei gyfweliad fod eu plentyn wedi bod yn 'hyb' yr ysgol am y cyfan o Flwyddyn 9 a Blwyddyn 10 a bod teulu'r plentyn wedi gweld gwelliant yn ei ymddygiad yn yr ysgol a'i barodrwydd i ddysgu. Symudodd yr hyb wedyn i ran gwahanol o'r gwahanol, lle mae'r plentyn yn dal i'w

fwynhau, ond nad yw'n cymysgu gyda phlant eraill. Esboniodd y plentyn nad oedd dim cyfathrebu wedi bod ynghylch eu plentyn yn ailintegreiddio'n llawn.

> "Does dim trafodaeth bellach wedi bod ynghylch ailintegreiddio [y plentyn] yn ôl i amgylchedd yr ystafell dosbarth, bydd [y plentyn] yn aros yn yr hyb nes y bydd wedi gorffen yn yr ysgol." (Rhiant)

## 8. Casgliadau ac argymhellion

8.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r casgliadau o'r adolygiad hwn ac yn cynnig argymhellion ar gyfer sut y gellir helpu awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, plant a'u rhieni i osgoi gwaharddiadau o ysgolion.

8.2 Roedd amrywiaeth o ganlyniadau negyddol i blant a gaiff eu gwahardd o ysgolion, gan gynnwys effeithiau niweidiol ar iechyd meddwl a llesiant, a chanlyniadau addysgol gwael. Mae gwahardd o'r ysgol yn cael effeithiau negyddol sy'n parhau pan fo'r plant yn oedolion, wrth leihau potensial o enillion a pheri risg uwch o ddiweithdra, problemau iechyd meddwl a chorfforol, digartrefedd ac ymwneud â gweithgareddau troseddol.

8.3 Mae tri chategori a ddefnyddir ar gyfer cyfraddau gwaharddiadau o ysgolion: gwaharddiadau parhaol, gwaharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai, a gwaharddiadau cyfnod penodol dros 5 diwrnod. Ers 2014/15 tan y pandemig coronafeirws (COVID-19), roedd cyfraddau gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai wedi cynyddu bob blwyddyn. Cynyddodd pob un o'r tri chategori o waharddiadau yn 2021/22 o gymharu â'r hyn oedd cyn y pandemig COVID-19.

8.4 Dywedodd rhanddeiliaid fod ysgolion wedi profi cynnydd mewn ymddygiad heriol gan blant dros y blynyddoedd diwethaf, ar adeg pan fo ysgolion yn adrodd hefyd am gyfyngu ar adnoddau sy'n lleihau'r cymorth y gallant ei gynnig i blant sydd mewn risg o waharddiad. Roedd dulliau ysgolion o ymdrin â gwaharddiadau yn cael eu dylanwadu gan eu perthynas ag unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol a'r cymorth a oedd ar gael ganddynt.

8.5 Dengys tystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth a'r gwaith maes ansoddol amrywiaeth o ymyraethau cyffredinol a phenodol yn yr ysgol sydd â photensial canologol o leihau'r risg o waharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

8.6 Amlygodd yr adolygiad llenyddiaeth yr ymyraethau cyffredinol canlynol fel dulliau y gelir eu defnyddio i leihau gwaharddiadau o ysgolion: Cydweithrediad rhieni, arferion adferol, dulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad, arferion sy'n ystyriol o drawma, a dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.

8.7 Wrth ystyried cryfder y sail dystiolaeth, arferion adferol a ddilynir gan ddulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad oedd y dulliau cyffredinol a oedd â'r sail dystiolaeth bresennol gryfaf i gefnogi eu defnyddio ar gyfer rhwystro gwaharddiadau mewn ysgolion. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r dulliau a'r ymyraethau eraill yn cael effaith gadarnhaol ar rwystro gwaharddiadau nac ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc, ond yn hytrach y barnwyd bod y sail dystiolaeth dros eu defnyddio ar gyfer rhwystro gwaharddiadau yn fwy cyfyngedig.

8.8 Fodd bynnag, mae gweithredu llwyddiannus ac ystyriaethau penodol o gyd-destun yn hanfodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, yn enwedig wrth leihau gwaharddiadau o ysgolion.

8.9 Caiff y canfyddiadau ar gyfer pob ymyrraeth gyffredinol eu crynhoi isod:

- Arferion sy'n Ystyriol o Drawma: Gall dulliau sy'n ystyriol o drawma arwain at well canlyniadau i fyfyrwyr (ee presenoldeb, cyrhaeddiad academaidd, rheolaiddio emosiynol a hyder), a gwell dealltwriaeth gan ymarferwyr o achosion sylfaenol ymddygiad heriol. Mae rhywfaint o dystiolaeth addawol fod arferion ystyriol o drawma yn gysylltiedig â lleihau gwaharddiadau, ond mae angen ymchwil mwy trylwyr. Mae galluogwyr allweddol y dulliau hyn yn cynnwys cefnogaeth uwch arweinwyr a newid yn niwylliant yr ysgol i gyflwyno dull cyson drwy'r ysgol gyfan. Dywedodd ymarferwyr y caiff arferion ystyriol o drawma eu defnyddio'n helaeth mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru, ac yn wir mae rhywfaint o ymchwil addawol fod arferion sy'n ystyriol o drawma yn gysylltiedig â lleihau gwaharddiadau, er bod angen ymchwil mwy trylwyr.
- Cydweithrediad Rhieni: Gall cydweithrediad effeithiol â rhieni wella cynnydd academaidd plant, yn enwedig i blant bach, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth ansicr y gall cydweithrediad rhieni leihau gwaharddiadau, cyn belled â bod rhieni'n teimlo cysylltiad â'r ysgol. Roedd cyfranogwyr o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn sôn yn aml am gydweithrediad rhieni yn ystod y gwaith maes, gan bwysleisio rôl hyn wrth adnabod problemau gwaelodol sy'n effeithio ar ymddygiad heriol plentyn. Roedd y llenyddiaeth fodd bynnag yn amlygu ei bod yn bwysig sicrhau bod strategaethau cynnwys rhieni yn cyrraedd pob rhiant er mwyn osgoi'r perygl o gynyddu'r bwlch cyrhaeddiad i blant o gefndiroedd

difreintiedig. Yn ogystal, mae rhwystrau cyffredin rhag strategaethau effeithiol i gynnwys rhieni yn cynnwys staff sy'n brin o'r amser neu'r hyder i ymwneud â rhieini, a diffyg hyfforddiant i staff ar sut i ymdrin â sgyrsiau anodd gyda rhieni

- Arferion adferol: Mae arferion adferol yn dangos addewid o ran gwella diwylliant yr ysgol, presenoldeb, a lleihau gwaharddiadau yn enwedig ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol, ac yn enwedig pan weithredir hyn fel dull ysgol gyfan. Mae galluogwyr allweddol gweithredu llwyddiannus yn cynnwys mynd ati mewn dull ysgol gyfan, sicrhau ymrwymiad staff, ymroddiad, a hyder i gyflawni. Crybwyllwyd arferion adferol gan gyfranogwyr yn y gwaith maes a oedd yn disgrifio manteision yr arferion o ran meithrin perthynas gadarnhaol rhwng staff a phlant a rhwystro gwaharddiadau ar adegau.
- Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol: Roedd llawer o gyfranogwyr yn disgrifio datblygiad eu dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol fel dull a allai helpu i rwystro gwaharddiadau, trwy gefnogi anghenion llesiant meddyliol plant. Er y canfuwyd rhywfaint o ymchwil a oedd yn ymwneud yn benodol ag effeithiau dulliau ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a llesiant ar ganlyniadau plant, doedd dim tystiolaeth o effaith ar waharddiadau. Fodd bynnag, caiff gwell lleisant emosiynol a meddyliol ei gysylltu â gwell canlyniadau addysgol, gan gynnwys llai o waharddiadau, i blant.
- Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Ymddygiad: Gall gweithredu dull ysgol-gyfan, yn enwedig y rheini sy'n hyfforddi athrawon i weithredu'r ymyrraeth ac annog ymddygiad cadarnhaol (ee systemau gwobrwyo), yn hytrach na defnyddio mesurau cosbedigol, helpu i wella ymddygiad a lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol. Gellir cyflwyno'r ymyraethau hyn i bawb o'r plant, er bod y dystiolaeth yn dangos mwy o effeithiau o ran gwella ymddygiad pan gânt eu targedu tuag at y rheini sydd mewn risg o ymddygiad heriol a'u haddasu ar eu cyfer. Cafodd disgwyliadau clir, arferion cyson, a hyfforddiant staff eu nodi fel elfennau allweddol o weithredu'n llwyddiannus ddulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad. Roedd cyfranogwyr yn crybwyll defnyddio dulliau ysgol-gyfan o gefnogi ymddygiad plant mewn ysgolion yng Nghymru ac yn pwysleisio pwysigrwydd dull cadarnhaol sydd hefyd yn ymatebol i anghenion y plentyn unigol.

8.10 Cafodd un arfer gyffredinol arall, sef cymorth pontio (o'r cyfnod cynradd i'r uwchradd) ei ddisgrifio gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion fel ymyrraeth sy'n helpu rhwystro gwaharddiad cyfnod penodol neu barhaol. Er mai cyfyngedig yw'r ymchwil ar effaith cymorth pontio ar leihau gwaharddiadau, roedd tystiolaeth y gall ymdriniaethau systematig o gymorth pontio leihau gorbryder am ysgol i blant sy'n datblygu'n arferol, ac y gall dulliau penodol unigol fod o fudd i'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan bwysleisio'r angen am rhaglenni pontio cytbwys a chynhwysol sy'n ymwneud â myfyrwyr a rheini ac sy'n mynd i'r afael â phryderon cyffredin.

8.11 Amlygodd yr adolygiad llenyddiaeth ymyraethau penodol hefyd y gellir eu defnyddio i gefnogi anghenion plant ac a all rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol neu barhaol. Y rhain oedd cymorth cynorthwywyr llythrennedd emosiynol, gwella sgiliau academaidd, symud trwy drefniant, mentora, cwricwlwm wedi'i addasu, grwpiau anogaeth, rhaglenni cymorth bugeiliol, cwnsela yn yr ysgol, a rhai dulliau therapiwtig.

8.12 Wrth ystyried cryfder sail tystiolaeth pob un o'r ymyraethau targed, mentora oedd yn dangos yr effeithiau cadarnhaol mwyaf cyson ar rwystro gwaharddiadau.

8.13 Mae'r canfyddiadau ar gyfer pob ymyrraeth benodol wedi eu crynhoi isod:

- Grwpiau Anogaeth: Mae ymchwil yn dangos yn gyson y gall grwpiau anogaeth gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol plant, gyda rhai effeithiau cadarnhaol ar gynnydd academaidd, ac ymysg plant oed addysg gynradd, y potensial o leihau gwaharddiadau o ysgol, ond argymhellir gweithredu hirdymor er mwyn i'r grwpiau fod yn fwy effeithiol. Mae'r dystiolaeth am blant oed ysgol uwchradd yn fwy cyfyngedig. O'r gwaith maes, roedd cyfranogwyr yn nodi amrywiaeth o arferion a darpariaeth sy'n ymwneud â grwpiau meithrin neu leoedd a ddefnyddid mewn ysgolion, gan gynnwys lleoedd y gallai plant fynd iddynt os oeddent yn teimlo'u bod yn cael eu llethu, yn hytrach na'r grwpiau mwy strwythuredig a amlinellir yn y llenyddiaeth, er y rhoddwyd ychydig enghreifftiau o grwpiau o'r fath.
- Cwricwlwm wedi'i addasu: Roedd rhywfaint o dystiolaeth ryngwladol y gall cyflwyno cwricwlwm wedi'i addasu ar gyfer anghenion plant wella

cydweithrediad, ymddygiad, a phresesnoldeb plant, ond cyfyngedig yw'r dystiolaeth am leihau gwaharddiadau. Roedd cyfranogwyr yn cyfeirio'n aml at ddefnyddio cwricwla wedi'u haddasu yng Nghymru, gyda phlant yn ei ganfod fel ffordd o wella'u hagwedd at addysg. Rhaid i addasiadau i'r cwricwlwm gael eu gwneud yn unol â'r dyletswyddau a chyfrifoldebau am gwricwlwm cytbwys fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

- Cefnogaeth Cynorthwywyr Llythrennedd Emosiynol: Mae ymyraethau gan gynorthwywyr llythrennedd emosiynol wedi dangos effeithiau cadarnhaol ar lythrennedd emosiynol, sgiliau cymdeithasol, a chanlyniadau academaidd i blant, yn enwedig mewn plant oed ysgol gynradd, gyda'r potensial o leihau gwaharddiadau o ysgol er bod angen ymchwil mwy trylwyr. Mae gweithredu effeithiol yn gofyn am gyfathrebu clir gyda rhieni a chymorth gan arweinwyr ysgol i ganiatáu amser digonol i'r cynorthwywyr emosiynol a lle penodol i gynllunio a chyflwyno sesiynau. Ni chafodd cynorthwywyr llythrennedd emosiynol eu crybwyll yn aml yn y gwaith maes, er bod rhai cyfranogwyr a awgrymodd botensial yr ymyrraeth i rwystro gwaharddiadau.
- Symud drwy Drefniant: Er bod symud drwy drefniant yn rhwystro gwaharddiad parhaol yn y tymor byr, nid yw'r dystiolaeth yn eglur ar gyfer effeithiau hirdymor, gyda thystiolaeth ansicr o fanteision symudiadau drwy drefniant i leihau gwaharddiadau a gwella cyrhaeddiad. Roedd gan gyfranogwyr farn gymysg ynghylch effeithiolrwydd symud drwy drefniant yng Nghymru, er eu bod o'r farn fod symud drwy drefniant yn fwy effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio fel ymyrraeth gynnar law yn llaw â chyfathrebu clir rhwng y rhai sy'n ymwneud â hynny. Mae'n bwysig fod symudiadau drwy drefniant yn cael eu gweithredu'n unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (2011).
- Cwnsela yn yr Ysgol: Mae tystiolaeth o effeithiau cadarnhaol ar well iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc ac ar eu cydweithrediad yn yr ysgol, er bod gwerthusiadau mwy trylwyr yn dangos llai o effeithiau ac mae diffyg tystiolaeth gadarn fod cwnsela yn lleihau cyfraddau gwahardd. Amlygodd y llenyddiaeth mai'r gwasanaethau cwnsela sy'n debygol o fod y rhai mwyaf effeithiol yw'r rheini sydd wedi eu integreiddio o fewn dull ehangach, ysgol-gyfan, o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol, a gyflwynir gan gwnselwyr o ansawdd uchel yn darparu cymorth wedi'i deilwra o fewn lle penodedig yn yr ysgol, a chyda chefnogaeth

rhieni. Ni wnaeth llawer o gyfranogwyr gyfeirio at gwnsela yn yr ysgol fel ymyrraeth i gefnogi'r rheini sydd mewn risg o waharddiad, er i ganlyniadau cadarnhaol gael eu hadrodd pan drafodwyd hyn.

- Dulliau Therapiwtig: Mae rhai dulliau therapiwtig, megis therapïau celf, ymwybyddiaeth ofalgar, a dysgu cymdeithasol ac emosiynol, wedi dangos effeithiau cadarnhaol ar lesiant meddyliol ac emosiynol plant, ond nid yw eu heffaith yn glir ar leihau gwaharddiadau o'r ysgol, ac mae gweithredu llwyddiannus yn gofyn am adnoddau digonol, cefnogaeth gan arweinwyr ysgolion, a hyfforddiant i athrawon. Ni chafodd dulliau o'r fath eu crybwyll yn aml gan gyfranogwyr.
- Gwella Sgiliau Academaidd: Cyfyngedig yw'r llenyddiaeth sy'n archwilio effeithiolrwydd rhaglenni sgiliau academaidd i leihau'r risg o wahardd. Er bod yr ymchwil yn rhoi tystiolaeth ansicr fod rhaglenni ac iddynt y nod o wella sgiliau academaidd wedi dangos effeithiau cadarnhaol o ran lleihau gwaharddiadau o ysgol a gwella presenoldeb o gefndiroedd difreintiedig a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ond yn cynnwys nifer bach o astudiaethau – rhai mae'r awduron yn nodi na ellir llunio casgliadau cadarn ohonynt. Ni chafodd gwella sgiliau academaidd ei grybwyll yn aml gan gyfranogwyr yn ystod y gwaith maes.
- Mentora: Mae mentora yn cael effaith gadarnhaol ar leihau gwaharddiadau o ysgol, gwella cydweithrediad yn yr ysgol, cyrhaeddiad, ymddygiad a lleihau trais. Mae ymchwil yn amlygu pwysigrwydd cymorth mentor cyson a hirdymor, a bod angen ystyried yn ofalus pwy yw'r mentor a sut mae'r rhaglen fentora yn dod i ben. Er na chafodd mentora ei grybwyll yn aml gan gyfranogwyr yn ystod y gwaith maes, roedd rhai cyfranogwyr yn tynnu sylw at y defnydd o fentora mewn ysgolion yng Nghymru, yn enwedig i blant mewn risg o gael eu gwahardd.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r arferion y canfuwyd bod iddynt dystiolaeth o rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol neu barhaol gael eu rhannu gydag ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol. Arferion adferol a ddilynir gan ddulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad oedd y dulliau cyffredinol ac iddynt y sail dystiolaethau gryfaf ar hyn o bryd i gefnogi eu defnydddio er mwyn rhwystro gwaharddiadau mewn ysgolion; ac o ran ymyraethau penodol, mentora oedd yn dangos yr effeithiau cadarnhaol mwyaf cyson. Bydd hyn yn helpu gosod sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch arferion mae

ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn penderfynu eu defnyddio. Dylai hyn gynnwys cydnabyddiaeth fod ymarfer effeithiol yn ddibynnol ar weithredu effeithiol a ddylai ystyried cyd-destun unigol yr ysgol.

8.14 Soniodd llawer o gyfranogwyr ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol am gydweithio ag asiantaethau eraill i rwystro gwaharddiadau o ysgolion, er bod hefyd lawer o gyfeiriadau at yr angen am well gweithio amlasiantaethol. Un o'r prif ffyrdd o wella gweithio amlasiantaeth yw trwy fynd ati ar y cyd i ddatblygu cynlluniau cymorth bugeiliol gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn sydd mewn risg o waharddiad neu sydd wedi profi gwaharddiad. Roedd rhai staff awdurdodau lleol yn disgrifio bod heb fynediad prydlon at gynlluniau cymorth bugeiliol plant, ac felly nad oeddent yn gwybod am amgylchiadau plentyn na'r cymorth a ddarperir.

**Argymhelliad 2.** Sicrhau bod pob cynllun cymorth bugeiliol yn cael ei lunio gan ddefnyddio dull ymarfer amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar y person, ac yn cael eu rhannu gyda'r awdurdod lleol, i helpu rhwystro gwaharddiadau. Bydd hyn yn sicrhau bod amrywiaeth o leisiau yn arwain datblygiad cynllun cymorth bugeiliol i ymdrin ag anghenion y plentyn a bod yr awdurdod lleol yn derbyn copïau prydlon o'r cynlluniau ar gyfer plant sydd mewn risg o waharddiad.

8.15 Adroddwyd gan randdeiliaid fod gwahardd mewnol (symud o'r ystafell ddosbarth) yn cael ei ddefnyddio weithiau fel dewis arall yn lle gwahardd. Cymysg oedd y farn gan randdeiliaid ynghylch gwahardd mewnol, gyda rhai yn ei weld fel cam ataliol, tra bod eraill yn nodi bod y defnydd parhaus ohono ar gyfer yr un myfyrwyr yn awgrymu mai cyfyngedig yw ei effethiolrwydd o ran gwella canlyniadau. Yn ogystal, efallai nad yw dulliau cosbedigol o wahardd mewnol yn mynd i'r afael ag achosion gwraidd ymddygiad sy'n tarfu ar eraill. Dywedwyd hefyd y gallai'r defnydd o wahardd mewnol fod wedi cynyddu, ac mae'n bwysig sicrhau bod y defnydd ohono'n cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi anghenion y plentyn. Fodd bynnag, mae barn gyffredinol ymysg rhanddeiliaid cenedlaethol a llawer o awdurdodau lleol mai ychydig a wyddir am y graddau y mae gwahardd mewnol yn digwydd a sut y caiff ei ddefnyddio. Roedd pryderon hefyd fod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n amlach

gyda grwpiau penodol o blant (ee plant sydd ag ADY) heb ddealltwriaeth glir o sut mae hyn yn cefnogi eu hanghenion. Mae angen data, felly, ynghylch gwahardd mewnol er mwyn deall mwy am i ba raddau, a sut, y caiff hyn ei ddefnyddio.

**Argymhelliad 3**. Dylai ysgolion gofnodi achosion lle mae plentyn wedi cael ei wahardd yn fewnol o fewn eu systemau rheoli gwybodaeth. Dylai hyn gynnwys nodi pa weithgaredd mae'r plentyn yn ei gyflawni tra bydd wedi ei wahardd yn fewnol. Bydd y data hwn yn helpu ysgolion i archwilio eu defnydd eu hunain o waharddiadau mewnol ac yn cynnig y potensial i gyfuno data ar draws pob ysgol, os sefydlir ffyrdd cyson o fesur data, a fydd yn cefnogi gwell dealltwriaeth o raddau gwaharddiadau mewnol yng Nghymru, a'r defnydd a wneir ohonynt.

8.16 Roedd ymchwil diweddar ynghylch y defnydd o amserlenni â llai o oriau yn amlygu ansicrwydd ynghylch eu diben a'r canlyniadau y bwriadwyd iddynt eu cyflawni. Canfu'r llenyddiaeth fod amserlenni â llai o oriau yn cael eu defnyddio weithiau oherwydd bod ysgolion yn fyr o'r adnoddau i helpu plentyn gael amserlen lawn. Hefyd, roedd tystiolaeth fod amserlenni â llai o oriau yn cael eu defnyddio ar adegau er mwyn rhwystro digwyddiad a allai arwain at waharddiad parhaol. Er y deëllid bod yr arfer hon yn effeithiol i ryw raddau wrth rwystro gwaharddiadau parhaol, roedd plant ar amserlenni â llai o oriau yn profi teimladau ynysig, iselder ysbryd, diffyg hyder a mwy o anawsterau o ran perthynas ag eraill. Canfu'r gwaith maes fod tystiolaeth o ddefnydd helaeth o amserlenni â llai o oriau gyda staff ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn dweud bod amserlenni â llai o oriau yn aml ymhlith nodweddion rhaglenni cymorth bugeiliol, ac roedd ychydig o blant yn nodi'r defnydd o amserlenni â llai o oriau. Roedd staff awdurdodau lleol yn awgrymu bod angen am ddealltwriaeth gliriach ynghylch sut y caiff amserlenni â llai o oriau eu defnyddio gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.

**Argymhelliad 4.** Dylai ysgolion gofnodi achosion o lle mae amserlen â llai o oriau wedi cael ei threfnu ar gyfer plentyn o fewn eu systemau rheoli gwybodaeth. Dylai hyn gynnwys nodi pa weithgaredd mae'r plentyn yn ei gyflawni tra bydd ar amserlen â llai o oriau. Bydd y data hwn yn helpu ysgolion i archwilio eu defnydd eu hunain o amserlenni â llai o oriau ac yn cynnig y potensial i gyfuno data ar draws pob ysgol, os sefydlir ffyrdd

cyson o fesur data, a fydd yn cefnogi gwell dealltwriaeth o raddau'r defnydd a wneir o amserlenni â llai o oriau yng Nghymru.

8.17 Mae tystiolaeth fod staff mewn rhai ysgolion yn ansicr ynghylch y gefnogaeth benodol neu'r grantiau sydd ar gael gan eu hawdurdod lleol neu drwy sefydliadau trydydd sector ar gyfer plant sydd mewn risg o waharddiad a'r rheini sy'n profi gwaharddiad cyfnod penodol neu barhaol. Roedd rhai staff ysgolion nad oeddent yn gwybod pwy yn eu hawdurdod lleol allai eu helpu i ganfod cymorth sydd ar gael. Mae'n bwysig nodi bod mewn ysgolion eraill, lle mae plant yn derbyn cymorth, staff ag agwedd gadarnhaol ynghylch eu hymwybyddiaeth o gymorth a'r defnydd a wnânt ohono, gan ddisgrifio perthynas gadarnhaol gyda staff cynhwysiant yn eu hawdurdod lleol.

**Argymhelliad 5.** Dylai awdurdodau lleol rannu cyfeiriadur gydag ysgolion sy'n rhoi gwybodaeth o'r cymorth (a ddarperir neu a gyllidir gan yr awdurdodau lleol) sydd ar gael i blant sydd mewn risg o waharddiad a'r plant hynny sy'n profi, neu wedi profi, gwaharddiadau cyfnod penodol neu barhaol. Dylai hyn gynnwys manylion cyswllt swyddog perthnasol yr awdurdod lleol, fel y gall ysgolion wneud cyswllt uniongyrchol. Barn staff ysgolion hefyd oedd y byddai'n ddefnyddiol i ysgolion gael gwybodaeth ynghylch cymorth sydd ar gael megis y nifer o leoedd sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau, cymhwysedd, amserau aros ac a yw'r cymorth yn cael ei ariannu.

8.18 Datgelodd yr adolygiad llenyddiaeth fod cryfder y dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd yn amrywio rhwng yr ymyraethau a nodwyd. Roedd rhai astudiaethau trylwyr yn edrych yn aml ar wahardd fel un o lawer o ganlyniadau addysgol, tra bod eraill yn archwilio'r arferion hyn heb ystyried eu heffaith ar waharddiadau. Er bod rhai astudiaethau arbrofol, roedd llawer ohonynt yn dod o ffynonellau rhyngwladol ac o berthnasedd cyfyngedig i'r Deyrnas Unedig neu Gymru. Canfuwyd rhai astudiaethau yn y Deyrnas Unedig hefyd, ond roedd ansawdd eu tystiolaeth yn gyffredinol wanach.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru annog a/neu gefnogi ymchwil trylwyr a hirdymor sy'n archwilio effaith ymyraethau ar leihau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

8.19 Mae'n amlwg o'r ymchwil y gall fod yn anodd iawn i deuluoedd pan fo plentyn mewn risg o waharddiad neu wedi cael ei wahardd. Roedd y cymorth y gellir ei gynnig i deuluoedd (ee swyddogion cynnwys teuluoedd, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd) yn cael ei groesawu'n gyffredinol gan deuluoedd ac yn cael ei ddisgrifio fel effeithiol. Roedd pwysigrwydd cynnwys teuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl gwaharddiad cyfnod penodol yn amlwg drwy'r ymchwil hwn, gan gynnwys angen rhiant am bwynt cyswllt clir yn yr ysgol yn ystod gwaharddiad eu plentyn a gwybodaeth sut y gallent gefnogi eu plentyn. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon ar waith ym mhobman, ac felly nid yw hyn ar gael eto i bob teulu. O'r herwydd, mae lle i rannu enghreifftiau o'r 'hyn sy'n gweithio' yn y cyswllt hwn yn ehangach ar draws y sectorau ysgolion ac awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 7.** Sicrhau bod awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn ymwybodol o wasanaethau cymorth i rieni neu deuluoedd (a ddarperir gan ysgol, uned cyfeirio disgyblion, awdurdod lleol neu wasanaethau allanol).

8.20 Mae staff ysgolion yn elfen hanfodol wrth gyflwyno ymyraethau'n effeithiol yn yr ysgol i rwystro gwaharddiadau. Mae'n bwysig felly ystyried rôl staff ysgol wrth weithredu ymyraethau cyffredinol a phenodol, gan gynnwys eu hanghenion hyfforddiant er mwyn sicrhau gweithredu cyson ac effeithiol. Fodd bynnag, cymysg yw cynnwys hyfforddiant a'r graddau mae ar gael, ac mae heriau i uwch arweinwyr wrth ganfod y cyllid ar gyfer hyfforddiant a rhoi amser rhydd o addysgu i staff ar gyfer hyfforddiant. Yn yr un modd, amlygwyd rôl staff wrth ddarparu gwaith ysgol a gwella monitro cwblhau gwaith ysgol yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol.

**Argymhelliad 8.** Dylai ysgolion ystyried rôl staff ysgolion wrth weithredu ymyraethau i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol a sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant gofynnol i fod yn abl a hyderus wrth gyflwyno ymyraethau'n effeithiol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant. Gallai un agwedd o hyn olygu mwy o ddefnydd o arbenigedd staff unedau cyfeirio disgyblion i ddatblygu cymunedau ymarfer lleol. Bydd angen asesiad o'r cymorth a fyddai ei angen gan unedau cyfeirio disgyblion i weithredu hyn.

8.21 Gallai lleihau'r anawsterau a'r oedi a wynebir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion wrth gaffael arbenigedd helpu i rwystro gwaharddiad i'r plant hynny y canfyddir eu bod mewn risg a lleihau'r tebygolrwydd o waharddiad parhaol i'r rheini sydd wedi eu gwahardd am gyfnod penodol. Roedd ar blant eisiau i'w hanghenion gael eu hadnabod a'u deall yn gynharach. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys sicrhau cymorth rhieni/teulu neu CAMHS i blentyn penodol (ee trwy wasanaeth allgymorth CAMHS i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion na chafodd ei grybwyll ond gan ychydig o ysgolion yn ystod yr ymchwil, a all awgrymu diffyg ymwybyddiaeth). Byddai ysgolion yn ei chael yn ddefnyddiol pe bai gwasanaethau'n cyhoeddi eu hamserau aros i helpu ysgolion i gynllunio a rheoli disgwyliadau rhieni a phlant.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys iechyd, i hyrwyddo mynediad at gymorth prydlon, cydgysylltiedig i blant sydd mewn risg o waharddiad a'r rheini sydd wedi profi gwaharddiad.

8.22 Gallai gwella dysgu proffesiynol, rhannu arferion da a datblygu deialog rhwng ysgolion, helpu i rwystro gwaharddiadau. Mae nifer o ffyrdd y gellid cyflawni hyn. Er enghraifft, trwy grwpiau clwstwr a drefnir ar lefel awdurdod lleol neu trwy rôl consortia addysg ar draws gwahanol ranbarthau Cymru. Roedd rhai cyfranogwyr ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn disgrifio'r angen am gynhadledd genedlaethol ar reoli ymddygiad i roi sylw i'r mater ledled Cymru, gan eu bod yn teimlo nad oedd yn cael yr amlygrwydd angenrheidiol.

**Argymhelliad 10.** Cefnogi ffyrdd o nodi a rhannu arferion effeithiol sy'n ymwneud â rhwystro gwaharddiadau. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth trwy Hwb, consortia addysg, cynadleddau a chymunedau ymarfer.

8.23 Hoffai staff awdurdodau lleol gael mwy o gyfleoedd i drafod gyda'u cydweithwyr mewn awdurdodau lleol eraill ledled Cymru y ffordd orau o helpu ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Y farn oedd y byddai hyn yn creu mwy o gyfleoedd i rannu arferion a dysgu oddi wrth ei gilydd.

**Argymhelliad 11.** Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu staff yn cael cyfle i ddatblygu’n broffesiynol i roi cefnogaeth ddigonol i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol. Gallai hyn gynnwys rhannu arferion trwy gymunedau ymarfer.

## Llyfryddiaeth


Acosta, J., Chinman, M., Ebener, P., Malone, P. S., Phillips, A. & Wilks, A. (2019) Evaluation of a whole-school change intervention: Findings from a two-year cluster-randomized trial of the restorative practices intervention. *Journal of Youth and Adolescence,* 48, tt. 876-890.

Adran Addysg Lloegr. (2016) *Counselling in schools: a blueprint for the future. Departmental advice for school leaders and counsellors.*

Adran Addysg Lloegr. (2022) *Behaviour in schools: advice for headteachers and school staff.*

Akister, J., Guest, H., & Burch, S. (2016) Can Activity Projects Improve Children's Wellbeing during the Transition to Secondary Education? *International Education Studies,* 9(12), tt. 1-11.

Anyon, Y., Gregory, A., Stone, S., Farrar, J., Jenson, J. M., McQueen, J. & Simmons, J. (2016) Restorative interventions and school discipline sanctions in a large urban school district. *American Educational Research Journal,* 53(6), tt. 1663-1697.

Aspland, H., Cameron, H., & Strelitz, J. (2020) *Developing trauma-informed practices in inner London schools: The iTIPS Pilot.* Research in Practice.

Augustine, C., Engberg, J., Grimm, G., Lee, E., Wang, E., Christianson, K., & Joseph, A. (2018) *Can restorative practices improve school climate and curb suspensions. An evaluation of the impact of restorative practices in a mid-sized urban school district.* RAND Corporation.

Baer, R., Crane, C., Miller, E. & Kuyken, W. (2019) Doing no harm in mindfulness-based programs: Conceptual issues and empirical findings. *Clinical Psychology Review*, 71, tt. 101-114.

Bagnall, C., Fox, C., Skipper, Y. & Oldfield, J. (2021) Evaluating a universal emotional-centred intervention to improve children's emotional well-being over primary-secondary school transition. *Advances in Educational Research and Evaluation,* 2(1), tt. 113-126.

Barnes, O. (2015) Restorative justice in the criminal justice system: The McDonaldization of diversionary youth conferencing (Traethawd doethurol, Prifysgol Ulster).

Banerjee, R., Weare, K., & Farr, W. (2014) Working with 'Social and Emotional Aspects of Learning' (SEAL): Associations with school ethos, pupil social experiences, attendance, and attainment. *British educational research journal,* 40(4), tt. 718-742.

Beattie, A., Busse, H., Kipping, R., Gunnell, D., Hickman, M., Macleod, J., Hollingworth, W., Berridge, D., Metcalfe, C. & Campbell, R. (2016) Youth mentoring for young people at risk

of exclusion from secondary school: a feasibility randomised controlled trial. *The Lancet,* 388 (S22).

Bellis, M., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K., Bishop, J., & Paranjothy, S. (2016) *Adverse childhood experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population.* Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Bennett, T. (2017) *Creating a Culture: How school leaders can optimise behaviour. Independent review of behaviour in schools*. Adran Addysg Lloegr.

Bevington, T. (2015) Appreciative evaluation of restorative approaches in schools. *Pastoral Care in Education,* 33(2), pp. 105-115.

Blodgett, C. & Lanigan, J. (2018) The association between adverse childhood experience (ACE) and school success in elementary school children. *School Psychology Quarterly,* 33(1), tt. 137-146.

Bloyce, J. & Frederickson, N. (2012) Intervening to improve the transfer to secondary school. *Educational Psychology in Practice,* 28(1), tt. 1-18.

Blundell, R., Costa Dias, M., Cribb, J., Joyce, R., Waters, T., Wernham, T. and Xu, X. (2022) Inequality and the COVID-19 Crisis in the United Kingdom. *Annual Review of Economics*, 14, tt.607-636.

Bolton, K. (2002) Avoiding school exclusions: rethinking support and the curriculum. *Improving Schools,* 5(2), tt.10-21.

Bonell, C., Allen, E., Warren, E., McGowan, J., Bevilacqua, L., Jamal, F. & Viner, R. (2018) Effects of the Learning Together intervention on bullying and aggression in English secondary schools (INCLUSIVE): a cluster randomised controlled trial. *The Lancet,* 392(10163), tt. 2452-2464.

Bowman-Perrott, L., Davis, H., Vannest, K., Williams, L., Greenwood, C., & Parker, R. (2013) Academic benefits of peer tutoring: A meta-analytic review of single-case research. *School psychology review,* 42(1), tt. 39-55.

Bradbury, S. (2004) The use of pastoral support programmes within schools. *Educational Psychology in Practice,* 20(4), tt. 303-318.

Brewin, M. & Statham, J. (2011) Supporting the transition from primary school to secondary school for children who are looked after. *Educational Psychology in Practice,* 27(4), tt. 365-381.

Brinkley, A., Sherar, L. & Kinnafick, F. (2022) A sports-based intervention for pupils excluded from mainstream education: A systems approach to intervention acceptability and feasibility. *Psychology of Sport and Exercise,* 61.

Brown, R., Van Godwin, J., Edwards, A., Burdon, M. & Moore, G. (2021) *Datblygu asesiad o theori newid a’r gallu i werthuso yn achos y dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant emosiynol*. Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru.

Burtonshaw, S a Dorrell, E. (2023). *Listening to, and learning from, parents in the attendance crisis*. Public First, School home support.

Carlile, A. (2011) Docile bodies or contested space? Working under the shadow of permanent exclusion. *International Journal of Inclusive Education,* 15(3), tt.303-316.

Cattan, S., Kamhöfer, D.A., Karlsson, M. and Nilsson, T. (2023) The long-term effects of student absence: Evidence from Sweden. *The Economic Journal*, 133(650), tt.888-903.

Cavioni, V., Grazzani, I. & Ornaghi, V. (2020) Mental health promotion in schools: A comprehensive theoretical framework. *International Journal of Emotional Education,* 12(1), tt. 65-82.

Chapman, N., Appiah, M., Beha, O, & Hendry, C. (2022) *The rising cost of living and its impact on individuals in Great Britain: November 2021 to March 2022*. Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Charlton, T., Panting, C. & Willis, H. (2004) Targeting exclusion, disaffection and truancy in secondary schools: An evaluation of an alternative curriculum for older pupils. *Emotional and Behavioural Difficulties,* 9(4), tt.261-275.

Cherry, L., and Froustis, E. (2022) *Trauma Informed education settings in West Yorkshire.* West Yorkshire Health and Care Partnership and Violence Reduction Unit. Gorllewin Swydd Efrog: Lloegr.

Comisiynydd Plant Cymru. (2020) *Blociau Adeiladu: Cynhwysiant yn y Cyfnod Sylfaen.*

Clarke, A., Morreale, S., Field, C., Hussein, Y. & Barry, M. (2015) *What works in enhancing social and emotional skills development during childhood and adolescence. A review of the evidence on the effectiveness of school-based and out-of-school programmes in the UK*. Canolfan Gydweithredol Ymchwil Hyrwyddo Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd, Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway.

Cole, T., McCluskey, G., Daniels, H., Thompson, I., & Tawell, A. (2019) Factors associated with high and low levels of school exclusions: Comparing the English and wider UK experience. *Emotional and behavioural difficulties,* 24(4), tt. 374-390.

Cook P., Dodge, K., Farkas, G., Fryer, R., Guryan, J., Ludwig, J., Mayer, S., Pollack, H. and Steinberg, L. (2014) The (surprising) efficacy of academic behavioural intervention with disadvantaged youth: results from a randomized experiment in Chicago. *National Bureau of Economic Research Working Paper Series,* 19862.

Cook, T. (2018). *Therapeutic interventions to drive school improvement*. Headteacher Update, 11 Ionawr.

Cooper, P. a Tiknaz, Y. (2005) Progress and challenge in nurture groups: Evidence from three case studies. *British Journal of Special Education,* 32(4), tt. 211–222.

Cooper, M. (2009) Counselling in UK secondary schools: A comprehensive review of audit and evaluation data. *Counselling and Psychotherapy Research,* 9(3), tt. 137-150.

Cooper, P., Arnold, R., and Boyd, E. (2001) The effectiveness of Nurture Groups: Preliminary research findings. *British Journal of Special Education,* 28(4), tt. 160–166.

Copeland, L., Willis, S., Hewitt, G., Edwards, A., Jones, S., Page, N. & Evans, R. (2023) School-and community-based counselling services for children and young people aged 7–18 in the UK: A rapid review of effectiveness, implementation and acceptability. *Counselling and Psychotherapy Research* (VOR).

Critchley, A., Astle, J., Ellison, R., and Harrison, T. (2018). A whole-school approach to mental health. RSA Action and Research Centre.

Cunningham. L., Hartwell, B. & Kreppner, J. (2019) Exploring the impact of Nurture Groups on children's social skills: a mixed-methods approach. *Educational Psychology in Practice*, 35(4), tt. 368-383.

*Cwricwlwm 2008*. Ar gael ar: Cwricwlwm 2008.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. (2021) *Canllawiau Gwahardd Medi 2021.*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. (2023) *Pecyn Dogfennau Cyhoeddus (25 Ebrill 2023) ar gyfer cyfarfod o'r Cabinet 3 Mai 2023.*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. (2023) *Pa mor effeithiol yw ein gwaith i leihau gwaharddiadau.*

Cyngor Sir y Fflint. (2023) *Pecyn Dogfennau Cyhoeddus ar gyfer cyfarfod o Bwyllgor Craffu a Goruchwylio Addysg, Ieuencid a Diwylliant.*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. (2017) *Llawlyfr Gwahardd Disgyblion o Ysgolion 2017-20.*

*Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2011*. Ar gael ar: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

*Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*. Ar gael ar: Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Czone. (2018) *Therapeutic Thinking.*

Daniels, H. (2011) Exclusion from school and its consequences. *Psychological Science and Education),* 1, tt. 38-50.

Darling-Hammond, S., Fronius, T., Sutherland, H., Guckenburg, S., Petrosino, A. & Hurley, N. (2020) Effectiveness of restorative justice in US K-12 schools: A review of quantitative research. *Contemporary School Psychology,* 24, tt. 295-308.

*Deddf Addysg 2002*. Ar gael ar: Deddf Addysg 2002

Dupper, D. R., Theriot, M. T. & Craun, S. W. (2009) Reducing out-of-school suspensions: Practice guidelines for school social workers. *Children & Schools,* 31(1), tt. 6-14.

Early Intervention Foundation. (2023) *Nurture Groups Guidebook.*

Eby, L. T., Allen, T. D., Evans, S.C., Ng, T. and DuBois, D. L. (2008) Does mentoring matter? A multidisciplinary meta-analysis comparing mentored and non-mentored individuals. *Journal of vocational behavior,* 72(2), tt.254-267.

Edmunds, J. A., Bernstein, L., Unlu, F., Glennie, E., Willse, J., Smith, A. & Arshavsky, N. (2012) Expanding the start of the college pipeline: Ninth grade findings from an experimental study of the impact of the early college high school model. *Journal of Research on Educational Effectiveness,* 5(2), tt. 136-159.

Ekstrand, B. (2015) What it takes to keep children in school: a research review. *Educational Review,* 67(4), tt.459-482.

ELSA Network. (2017) *What is ELSA?*

Emerson, A. (2022) The case for trauma-informed behaviour policies. *Pastoral Care in Education,* 40(3), tt. 352-359.

Estyn. (2014) *Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd*.

Estyn. (2018a) *Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion.*

Estyn. (2018b) *Dull cydweithredol o gefnogi ymddygiad cadarnhaol.*

Estyn. (2019) *Arferion cofrestru disgyblion.*

Lereya, T. & Deighton, J. (2019) *Learning from HeadStart: the relationship between mental health and school attainment, attendance and exclusions in young people aged 11 to 14.* Llundain: Evidence Based Practice Unit.

Fancourt, N. & Sebba, J. (2018) *The Leicestershire virtual school's attachment aware schools programme: Evaluation report.* Canolfan Rees Adran Addysg Prifysgol Rhydychen.

Forde-Nassey, L. (2018) De-escalating behaviour: 8 tips for teachers, *TES Magazine*, 25 Medi.

Freeman, G. (2017) *Setting up a secondary school nurture group*. Ar gael ar: Setting up a secondary school nurture group (Gwelwyd: 1 Hydref 2023).

Gaffney, H., Farrington, D. P. and White, H. (2021). *Interventions to prevent school exclusion. Toolkit technical report.* Youth Endowment Fund.

Gage, N., Whitford, D, Katsiyannis, A. (2018). A review of schoolwide positive behavior interventions and supports as a framework for reducing disciplinary exclusions. *The Journal of Special Education,* 52(3), tt.142-151.

Gage, N. A., Grasley-Boy, N., Lombardo, M. & Anderson, L. (2019) The effect of school-wide positive behavior interventions and supports on disciplinary exclusions: A conceptual replication. *Behavioral Disorders*, 46(1), tt. 42-53.

Gayatri, M. and Irawaty, D.K. (2022) Family resilience during COVID-19 pandemic: A literature review. *The Family Journal*, 30(2), tt.132-138.

Gedikoglu, M. (2021) *Social and Emotional Learning. An Evidence Review and Synthesis of Key Issues*. Sefydliad Polisi Addysg y Deyrnas Unedig.

Gill, K., Quilter-Pinner, H., & Swift, D. (2017) *Making the difference: Breaking the link between school exclusion and social exclusion*. Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.

Goldberg, J. M., Sklad, M., Elfrink, T. R., Schreurs, K. M., Bohlmeijer, E. T., & Clarke, A. M. (2019) Effectiveness of interventions adopting a whole school approach to enhancing social and emotional development: a meta-analysis. *European Journal of Psychology of Education*, 34, tt. 755-782.

Golding, K. (2021) *A study investigating the prevalence, practice and perspectives of the use of internal exclusion in mainstream secondary schools.* (Traethawd doethurol, Coleg Prifysgol Llundain).

Gonzalez, T. (2012) Keeping kids in schools: restorative justice, punitive discipline, and the school to prison pipeline. *Journal of Law and Education,* 41(2), tt. 281-335.

Goodman, R. (1997). The Strengths and Difficulties Questionnaire: a research note. *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 38(5), tt.581-586.

Graham, B., White, C., Edwards, A., Potter, S. & Street, C. (2019) *School exclusion: a literature review on the continued disproportionate exclusion of certain.* Adran Addysg Lloegr.

Greenberg, M. T. (2023) *Evidence for social and emotional learning in schools.* Sefydliad Polisi Dysgu.

Greenhalgh, R., Fflur, S., Donnelly, K., Kirkaldie, H. & McDonnell, L. (2020) An evaluation of the impact of attachment and trauma training for pupil referral unit staff. *Developmental Child Welfare,* 2(2), tt.75-91.

Griffin, L. (2019). A whole-school approach to building parental relationships. *Optimus Education,* 26 Mehefin.

Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Gyfiawnder Adferol. (2021) *APPG Investigation: Implementing restorative practices in education, health and social care.* Adroddiad Ymchwil y Bwrdd Ymgynghorol.

Hashim, A. K., Strunk, K. O. & Dhaliwal, T. K. (2018) Justice for All? Suspension Bans and Restorative Justice Programs in the Los Angeles Unified School District. *Peabody Journal of Education,* 93(2), tt. 174-189.

Hanewald, R. (2013) Transition between primary and secondary school: Why it is important and how it can be supported. *Australian Journal of Teacher Education,* 38(1), tt. 62-74.

Hendry, R., Hopkins, B., & Steele, B. (2011) *Restorative approaches in schools in the UK.* Caergrawnt: Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Hewitt, G., Copeland, L., Page, N., Willis, S., Murphy, S., Edwards, A. & Evans, R. (2022) *Adolygiad o wasanaethau cwnsela statudol mewn ysgolion ac yn y gymuned: optimeiddio gwasanaethau i blant a phobl ifanc 11 i 18 oed ac ehangu i blant iau oed ysgol gynradd.* Llywodraeth Cymru.

Huang, F. L., Gregory, A., & Ward-Seidel, A. R. (2023) The impact of restorative practices on the use of out-of-school suspensions: Results from a cluster randomized controlled trial. *Prevention Science,* 24, tt. 962-973

Hwb. (2022). *Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth.* Hwb: Llywodraeth Cymru.

Hyb ACE Cymru. (2022) *Trauma-informed Wales: a societal approach to understanding, preventing and supporting the impacts of trauma and adversity*. Caerdydd: Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Iszatt, J. and Wasilewska, T. (1997) Nurture groups: An early intervention model enabling vulnerable children with emotional and behavioural difficulties to integrate successfully into school. *Educational and Child Psychology,* 14(3), tt. 121-139.

Jindal-Snape, D., Hannah, E. F., Cantali, D., Barlow, W., & MacGillivray, S. (2020) Systematic literature review of primary–secondary transitions: International research. *Review of Education*, 8(2), tt. 526-566.

John, A., Friedmann, Y., DelPozo-Banos, M., Frizzati, A., Ford, T., & Thapar, A. (2022) Association of school absence and exclusion with recorded neurodevelopmental disorders, mental disorders, or self-harm: a nationwide, retrospective, electronic cohort study of children and young people in Wales, UK. *The Lancet Psychiatry*, 9(1), 23-34.

Jones, H. (2020). *Understanding young people's experiences of a managed move,* (Traethawd doethurol, Coleg Prifysgol Llundain).

Kane, J., Lloyd, G., McCluskey, G., Riddell, S., Stead, J., Weedon, E., ... & Hendry, R. (2007). *Restorative practices in three Scottish councils: Final report of the evaluation of the first two years of the pilot projects 2004–2006.* Gweithrediaeth yr Alban.

Kiernan, K., and Mensah, F. (2009). Poverty, maternal depression, family status and children's cognitive and behavioural development in early childhood: A Longitudinal Study. *Journal of Social Policy,* 38(4), 569-588.

Klein, M., Sosu, E & Dare, S. (2020). Mapping inequalities in school attendance: The relationship between dimensions of socioeconomic status and forms of school absence. *Children and Youth Services Review,* 118, t.105432.

Kremer, K. P., Maynard, B. R., Polanin, J. R., Vaughn, M. G. and Sarteschi, C. M. (2015) Effects of after-school programs with at-risk youth on attendance and externalizing behaviors: A systematic review and meta-analysis. *Journal of youth and adolescence,* 44, tt.616-636.

Lord, L. & Kuyken, W. (2020) *10 Steps to Introduce Mindfulness to Your School.* Mindfulness in school project.

Little, A. (2018) *Economic evaluation of Place2Be's Counselling Service in Primary Schools.* Adroddiad Economeg Pro Bono i Place2Be.

Lyubansky, M. (2019) Nine criticisms of school restorative justice, *Psychology Today*, 7 Mawrth.

Llywodraeth Cymru. (2011) *Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli. Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2012) *Dulliau ymarferol o reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2016a) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2016b) *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2019a) *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2019b) *Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2021a) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2021b) *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2021c) *Adolygiad o'r polisi ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: adroddiad. Sut mae'r polisi wedi perfformio a sut gellir ei ddatblygu i'r dyfodol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2022a) *Y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: Trosolwg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2022b) *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2020 i Awst 2021.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2022c) *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2023a) *Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2023b). *Gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2023c). *Atodiad 3: Datblygu trefniadau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd mewn Ysgolion Bro*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mackenzie, K., and Williams, C. (2018). Universal, school-based interventions to promote mental and emotional well-being: what is being done in the UK and does it work? A systematic review. *BMJ Open,* 8(9), p.e022560.

Madia, J. E., Obsuth, I., Daniels, H., Thompson, I. and Murray, A. (2022) Long-term Labour Market and Economic Consequences of School Exclusions in England: Evidence from Two Counterfactual Approaches. *British Journal of Educational Psychology,* 92(3), tt.801-816.

March, S., & Kearney, M. (2017) A psychological service contribution to nurture: Glasgow's nurturing city. *Emotional & Behavioural Difficulties,* 22(3), tt. 237-247.

Martin-Denham, S. (2020) A review of school exclusion on the mental health, well-being of children and young people in the city of Sunderland. Adroddiad Prosiect: Prifysgol Sunderland.

Martin-Denham, S. (2021). *The benefits of school exclusion: Research with headteachers in England*. Prifysgol Sunderland.

Martin-Denham, S. & Scott, N. (2023) *Investigating the characteristics of children in years 5/6 at moderate, high and very high risk of exclusion upon transition to secondary school as reported by SENCOs in the City of Sunderland.* Prifysgol Sunderland.

Maughan, C., Teifi, I., Griffiths, E. & Roberts, M. (2020) Gwerthuso effeithiau TRAC ac ADTRAC ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd. Cyngor Sir Gwynedd.

Maynard, B., Solis, M., Miller, V. & Brendel, K. (2017) Mindfulness-based interventions for improving cognition, academic achievement, behavior and socio-emotional functioning of primary and secondary students. Campbell Systematic Reviews 13(1), tt.1-144.

Messeter, T. & Soni, A. (2018) A systematic literature review of the 'managed move' process as an alternative to exclusion in UK schools. *Emotional and Behavioural Difficulties,* 23(2), tt.169-185.

Mielke, M. & Farrington, D. P. (2021) School-based interventions to reduce suspension and arrest: A meta-analysis. *Aggression and Violent Behavior,* 56.

Mills, M. & Thomson, P. (2018) *Investigative research into alternative provision.* Adran Addysg Lloegr.

MIND. (2021) *Arts and Creative Therapies*. Ar gael ar: Arts and Creative Therapies (Gwelwyd: 25 Hydref 2023).

Moir, T. & MacLeod, S. (2018) What impact has the Educational Psychology Service had on the implementation of restorative approaches activities within schools across a Scottish Local Authority. *Educational and Child Psychology,* 35(S2), tt. 30-42.

Montero-Marin, J., Allwood, M., Ball, S., Crane, C., Wilde, K., Hinze, V., Jones, B., Lord, L., Nuthall, E., Raja, A., Taylor, L., Tudor, K., MYRIAD Team, Blakemore, S., Byford, S., Dalgleish, T., ford, T., Greenberg, M., Ukoumunne, O., Williams, J., & Kuyken, W. (2022). School-based mindfulness training in early adolescence: what works, for whom and how in the MYRIAD trial. *Evid Based Ment Health 2022;* 25:117-124.

Moore, D., Benham-Clarke, S., Kenchington, R., Boyle, C., Ford, T., Hayes, R., & Rogers, M. (2019) *Improving Behaviour in Schools: Evidence Review.* Llundain: Education Endowment Foundation.

Moore, G., Anthony, R., Angel, L., Hawkins, J., Morgan, K., Copeland, L., ... & Shenderovich, Y. (2022) Mental health and life satisfaction among 10–11-year-olds in Wales, before and one year after onset of the COVID-19 pandemic. *BMC public health,* 22(1), tt. 1-13.

Moore, M. (2008) *Restorative approaches in primary schools. An evaluation of the project co--ordinated by the Barnet Youth Offending Service*. Bwrdeistref Barnet, Llundain.

Moula, Z. & McDonald, A. (2021) *An emerging evidence-base for Art Therapy in primary schools, British Association of Art Therapists website*. Ar gael ar: British Association of Art Therapists website (Gwelwyd: 25 Hydref 2023).

Moula, Z., Powell, J. & Karkou, V. (2020) An investigation of the effectiveness of arts therapies interventions on measures of quality of life and wellbeing: A pilot randomized controlled study in primary schools. *Frontiers in Psychology,* 11.

Moula, Z., Powell, J. & Karkou, V. (2022) Qualitative and arts-based evidence from children participating in a pilot randomised controlled study of school-based arts therapies. *Children,* 9(6), p. 890.

Mowat, J. G. (2019) Supporting the socio-emotional aspects of the primary–secondary transition for pupils with social, emotional and behavioural needs: Affordances and constraints. *Improving Schools*, 22(1), pp. 4-28.

Munn, P. & Lloyd, G. (2005) Exclusion and excluded pupils. *British Educational Research Journal,* 31(2), tt. 205-221.

National Association of School Psychologists. (2020) *A Framework for effective school discipline.*

Neal, S., Rice, F., Ng-Knight, T., Riglin, L. & Frederickson, N. (2016) Exploring the longitudinal association between interventions to support the transition to secondary school and child anxiety. *Journal of Adolescence,* 50, tt. 31-43.

Nopa (2022) *How Implementing Art, Play and Drama Therapy in Schools Can Help Children Succeed.*

Nurture UK. (2021) *Controlled Studies of Nurture Groups.*

Nurture UK. (2023) *Nurture Groups.*

Ofsted. (2009) *The exclusion from school of children aged four to seven.*

Ofsted. (2018) *The Annual Report of Her Majesty's Chief Inspector of Education, children's Services and Skills 2017/18.*

Orr, C., Fisher, C., Bell, M., O'Donnell, M., Martin, K., Glauert, R., Preen, D. (2023) Exposure to family and domestic violence is associated with lower attendance and higher suspension in school children. *Child Abuse & Neglect,* 142, t.105594.

Parentkind (2023) *Understanding pupil absence in schools in Wales.*

Partridge, L., Strong, F., Lobley, E. and Mason, D. (2020) *Pinball Kids: preventing school exclusions.* Royal Society for the Encouragement of the Arts.

Pirrie, A., Macleod, G., Cullen, M. A., & McCluskey, G. (2011) What happens to pupils permanently excluded from special schools and pupil referral units in England? *British Educational Research Journal,* 37(3), tt. 519-538.

Phan, M. L., Renshaw, T. L., Caramanico, J., Greeson, J. M., MacKenzie, E., Atkinson-Diaz, Z., ... & Nuske, H. J. (2022) Mindfulness-based school interventions: A systematic review of outcome evidence quality by study design. *Mindfulness,* 13(7), tt. 1591-1613.

Power, S. & Taylor, C. (2021) School exclusions in Wales: policy discourse and policy enactment. *Emotional and Behavioural Difficulties,* 26(1), tt. 19-30.

Power the Fight. (2022) *The TIP Project: End of year report.* Uned Lleihau Trais Maer Llundain.

Pybis, J., Hill, A., Cooper, M., & Cromarty, K. (2012) A comparative analysis of the attitudes of key stakeholder groups to the Welsh Government's school-based counselling strategy. *British Journal of Guidance & Counselling,* 40(5), tt. 485-498.

Reynolds, S., Mackay, T. and Kearney, M. (2010) Nurture groups: A large-scale, controlled study of effects on development and academic attainment. *Educational and Child Psychology,* 27(3), tt.100-110.

Riley, G. S., & Bailey, J. W. (2019) *Gwerthusiad o Ymagwedd Gwybodus am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs) mewn tair ysgol uwchradd yng Nghymru* Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rose, J., Gilbert, L., McGuire-Snieckus, R., Gus, L., McInnes, K. & Digby, R. (2017) Attachment Aware Schools: working with families to enhance parental engagement and home-school relationships. *The Open Family Studies Journal,* 9(1), tt. 160-171.

Rose, J., McGuire-Snieckus, R., Gilbert, L., & McInnes, K. (2019) Attachment aware schools: The impact of a targeted and collaborative intervention. *Pastoral Care in Education,* 37(2), tt. 162-184.

Roseby, S., & Gascoigne, M. (2021) A systematic review on the impact of trauma-informed education programs on academic and academic-related functioning for students who have experienced childhood adversity. *Traumatology,* 27(2), tt. 149-167.

*Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010*. Ar gael ar: Rheoliadau Addysg

Samaritans Cymru. (2019) *Gwahardd unigolion o ysgolion yng Nghymru – Y gost gudd.*

Samji, H., Wu, J., Ladak, A., Vossen, C., Stewart, E., Dove, N., Long, D & Snell, G. (2022) Review: Mental health impacts of the COVID-19 pandemic on children and youth – a systematic review. *Child Adolescent Mental Health,* 27(2): 173–189.

Sebba, J., Berridge, D., Luke, N., Fletcher, J., Bell, K., Strand, S., Thomas, S., Sinclair, I., & O'Higgins, A. (2015) *The educational progress of looked after children in England: Linking care and educational data.* Adran Addysg Prifysgol Rhydychen/Prifysgol Bryste.

Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) (2019) *Improving behaviour in schools: Guidance report.*

Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF). (2021a) *Mentoring.*

Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF). (2021b) *Parental Engagement.*

Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF). (2021c) *Social and emotional learning.*

Seth-Smith, F., Levi, N., Pratt, R., Fonagy, P. & Jaffey, D. (2010) Do nurture groups improve the social, emotional and behavioural functioning of at risk children? *Educational and Child Psychology,* 27(1), tt. 21-34.

Skinns, L., Du Rose, N. & Hough, M. (2009) *An Evaluation of Bristol RaiS.* Sefydliad Ymchwil Polisi Troseddol: Kings College Llundain.

Sloan, S., Winter, K., Connolly, P. & Gildea, A. (2020) The effectiveness of Nurture Groups in improving outcomes for young children with social, emotional and behavioural difficulties in primary schools: An evaluation of Nurture Group provision in Northern Ireland. *Children and Youth Services Review,* 108.

Smith, L., Jackson, L., & Comber, N. (2013) *Therapeutic early interventions to prevent school exclusion and truancy: Evaluation of three contemporaneous projects*. Y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus.

Smith, P. (2019) A view from a PRU: An ethnographic study of pupil referral unit practice in Wales. (Traethawd doethurol, Prifysgol Caerdydd).

Sottile, S. E. (2022) Teachers' Self-Efficacy in Classroom Management through De-Escalation Strategies Training (Traethawd doethurol, Grand Canyon University).

Think for the Future. (2022) *Behaviour and Resilience Mentoring.*

The Challenging Behaviour Foundation. (2019). *Reducing Restrictive Intervention of Children and Young People.*

Timpson, E. (2019) *Timpson Review of School Exclusion*. Llundain: Adran Addysg Lloegr.

Toth, K., Cross, L., Golden, S. & Ford, T. (2022) From a child who IS a problem to a child who HAS a problem: fixed period school exclusions and mental health outcomes from routine outcome monitoring among children and young people attending school counselling. *Child and Adolescent Mental Health,* 28(2), tt. 277-286.

Tolan, P., Henry, D., Schoeny, M. & Bass, A. (2008). Mentoring interventions to affect juvenile delinquency and associated problems. *Campbell Systematic Reviews,* 4(1), tt.1-112.

Thomas, J. (2015) Play therapy in schools, *The Headteacher Update,* 10 Medi.

Thompson, F. & Smith, P. (2011) *The use and effectiveness of anti-bullying strategies in schools.* Adran Addysg Lloegr.

Tseliou, F. (2021a) *Characteristics of excluded children in Wales, Blog Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru.* Ar gael ar: Characteristics of excluded children in Wales (Gwelwyd: 25 Awst 2023).

Tseliou, F. (2021b) *Special education needs of excluded children in Wales, Blog Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru*. Ar gael ar: Special education needs of excluded children in Wales (Gwelwyd: 25 Awst 2023).

Tseliou, F. (2021c) *Area level variations of school exclusions across Wales, Blog Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru*. Ar gael ar: Area level variations of school exclusions across Wales (Gwelwyd: 25 Awst 2023).

Tseliou, F. (2022) *The more types of special education needs a pupil has, the more at risk of exclusion they are, Blog Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru*. Ar gael ar: Blog Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (Gwelwyd: 25 Awst 2023).

Tucker, S. (2013) Pupil vulnerability and school exclusion: Developing responsive pastoral policies and practices in secondary education in the UK. *Pastoral Care in Education,* 31(4), tt.279-291.

Valdebenito, S., Eisner, M., Farrington, D. P., Ttofi, M. M. and Sutherland, A. (2018) School-based interventions for reducing disciplinary school exclusion: A systematic review. *Campbell Systematic Reviews,* 14(1), tt. i-216.

Vincent, K. (2017) 'It's small steps, but that leads to bigger changes': evaluation of a nurture group intervention. *Emotional and Behavioural Difficulties,* 22(4), tt. 303-316.

Waddell, S. & Clarke, A. (2018) *Introduction to Social and Emotional Learning in Schools.*

Wall, C. R. G. (2021) Relationship over reproach: Fostering resilience by embracing a trauma-informed approach to elementary education. *Journal of Aggression, Maltreatment & Trauma,* 30(1), tt. 118-137.

Walker, J. (2022) *Internal exclusion at secondary school: A liminal space.* Ar gael ar: Internal exclusion at secondary school: A liminal space (Gwelwyd: 1 Hydref 2023).

Waschbusch, D, Pelham, W, Massetti, G. (2005). The Behavior Education Support and Treatment (BEST) school intervention program: pilot project data examining schoolwide-, targeted-school, and targeted-home approaches. *Journal of attention disorders*, 9(1), tt.313-322.

Weare, K. (2015) *What works in promoting social and emotional well-being and responding to mental health problems in schools*. Llundain: National Children's Bureau.

Weare, K., & Bethune, A. (2021) *Implementing mindfulness in schools: An evidence-based guide.* The Mindfulness Initiative.

Weaver, C. (2023) *“This is your last chance to prove to us that you can be here, we’ve tried everything to help you” – Exploring the use of reduced timetables as exclusionary practice for young people in Wales.* (Traethawd doethurol, Prifysgol Caerdydd).

White, C. & Laczik, A. (2016) Engaging disaffected learners in Key Stage 4 through work-related learning in England. *Journal of Vocational Education & Training,* 68(1), tt.17-32.

White, J. (2020) *Supporting children’s mental health and wellbeing at transition from primary to secondary school: Evidence review.* Gwasanaeth Iechyd Gwladol yr Alban.

Williams, A. (2015) *Restorative practice in schools*. Ar gael ar: Restorative practice in schools (Gwelwyd 1 Hydref 2023).

Wolpow, R., Johnson, M. M., Hertel, R., & Kincaid, S. O. (2009) *The heart of learning and teaching: Compassion, resiliency, and academic success.* Washington State Office of Superintendent of Public Instruction Compassionate Schools.

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2004) *National Evaluation of the Restorative Justice in Schools Programme.*

Youth Endowment Fund. (2022) *Statistics update: the latest data on crime and violence affecting young people.*

Zakszeski, B. & Rutherford, L. (2021) Mind the Gap: A Systematic Review of Research on Restorative Practices in Schools. *School Psychology Review,* 50(3), tt. 371-387.

**Atodiad A: Fframwaith ymchwil**

Mae’r atodiad hwn yn cynnwys y fframwaith ymchwil sy’n gosod y cwestiynau ymchwil allweddol i’w harchwilio drwy’r holl ymchwil.

| Prif gwestiynau | Meysydd i’w harchwilio |
| --- | --- |
| 1. Pa **strategaethau** neu ddulliau y bernir eu bod **o gymorth cadarnhaol i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a/neu barhaol** i blant mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, a sut maent yn gwneud hyn? | • Grwpiau oedran penodol (ee meithrin, cynradd, uwchradd cynnar, uwchradd hwyr).<br>• Ystyried y math o leoliad addysg (ee cyfrwng Cymraeg) a nodweddion yr ysgol, gan gynnwys ardal ddaearyddol, trefol/gwledig, nifer o blant sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, a’r nifer o blant ag ADY.<br>• Sut mae’r strategaethau neu ddulliau hyn yn amrywio gan ddibynnu ar amlder, difrifoldeb, hyd, yr ymddygiadau a all arwain at benderfyniad i wahardd?<br>• Plant agored i niwed ac o dan anfantais (ee plant sy’n derbyn gofal, plant ag ADY, plant sydd wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod).<br>• Pa ganran o blant mewn unedau cyfeirio disgyblion sydd wedi cael diagnosis o ASD, ADHD neu gyflyrau niwroddatblygiadol eraill ar lwybr at ddiagnosis?<br>• A yw rhai ysgolion yn defnyddio gwharddiadau yn gynharach nag eraill? Pam?<br>• I ba raddau y gweithredir dull cyson drwy’r ysgol?<br>• I ba raddau y defnyddir gwaharddiadau mewnol (plant yn cael eu cymryd allan o ystafelloedd dosbarth ond yn aros mewn ysgolion) ac a ydynt o gymorth?<br>• I ba raddau y defnyddir dulliau adferol sy’n ystyriol o drawma?<br>• Sut gellir rhannu’r arferion gorau ymysg ysgolion i rwystro gwaharddiadau’n well?<br>• I ba raddau mae strategaethau ymyrraeth gynnar i gefnogi plant/teuluoedd ar gael? Sut y caiff ymyrraeth gynnar ei diffinio? |

| | |
|---|---|
| 2. A oes **strategaethau** neu ddulliau y bernir eu bod **o gymorth cadarnhaol i rwystro gwaharddiadau o ysgolion o gwmpas adegau penodol** mewn addysg plentyn? | • Archwilio cyfnodau, dechrau yn yr ysgol, y pontio rhwng ysgol feithrin, gynradd ac uwchradd.<br>• Sut y cytunir ar strategaethau pontio rhwng yr ysgolion perthnasol? |
| 3. I blant sydd wedi profi gwaharddiadau cyfnod penodol, pa **strategaethau** neu ddulliau y bernir eu bod **o gymorth cadarnhaol i rwystro gwaharddiadau pellach**, gan gynnwys gwaharddiadau parhaol, a pham? | • Grwpiau oedran penodol.<br>• Ystyried y math o leoliad addysg a nodweddion yr ysgol.<br>• Sut mae'r strategaethau neu ddulliau hyn yn amrywio yn ôl amlder, difrifoldeb, hyd, a'r rheswm dros waharddiadau?<br>• Plant agored i niwed ac o dan anfantais.<br>• Pa gymorth pellach sydd ei angen gan deuluoedd, plant ac ysgolion i osgoi gwaharddiadau pellach, a chan bwy?<br>• |
| 4. Pa **strategaethau** neu ddulliau y bernir eu bod yn **effeithiol wrth gynnal cysylltiad a chydweithrediad cadarnhaol** gyda phlant sydd wedi cael eu gwahardd am **gyfnod penodol**, a pham? | • Beth yw'r daith arferol i blentyn unwaith y caiff ei wahardd?<br>• A yw plant yn dal i gael yr holl gymorth ac addysg mae ganddynt yr hawl i'w dderbyn unwaith y cânt eu gwahardd?<br>• I ba raddau mae plant yn dal i geisio mynd i'r ysgol tra maent wedi eu gwahardd? Pa ddulliau a ddefnyddir i fynd i'r afael â hyn? Beth yw achos yr ymddygiad hwn? [ee, cyfathrebu rhwng rheini/ysgolion, costau byw] |
| 5. Pa **strategaethau** neu ddulliau y bernir eu bod yn **effeithiol ac o gymorth cadarnhaol i ailintegreiddio** plant sydd wedi cael eu **gwahardd am gyfnod penodol** i addysg brif ffrwd, a pham? | • I ba raddau y cyflawnir newidiadau mewn agwedd, cymhellion ac ymddygiadau?<br>• A oes digon o gymorth i'r rheini sy'n dod i mewn i'r proffesiwn addysgu? |

| | |
|---|---|
| 6. Sut gellir **cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion**, a phwy ddylai wneud hynny, i helpu plant a'u rhieni i **osgoi gwaharddiadau**? | • Grwpiau oedran penodol.<br>• Ystyried y math o leoliad addysg a nodweddion yr ysgol.<br>• Sut mae'r strategaethau neu ddulliau hyn yn amrywio gan ddibynnu ar amlder, difrifoldeb, hyd, yr ymddygiadau a allai arwain at benderfyniad i wahardd.<br>• Plant agored i niwed ac o dan anfantais.<br>• Sut caiff polisïau awdurdodau lleol eu defnyddio / eu datblygu ynghylch gwaharddiadau i gefnogi arferion ysgol? |
| 7. Sut gellir cefnogi'r sefydliadau a'r cyfranogwyr hyn i **hwyluso dychweliad plant sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol** i addysg brif ffrwd? | • A yw'r ddarpariaeth ar lefel gyffredinol yn addas ac yn ddigonol?<br>• Sut mae plant yn profi gwaharddiad parhaol?<br>• I ba raddau mae plant yn gallu canfod ffyrdd cadarnhaol ymlaen i'w haddysg, gan sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu mewn amgylchedd dysgu lle maent yn gallu ffynnu? |

**Atodiad B: Offerynnau Ymchwil**

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys y canllawiau pwnc canlynol a'r holiadur a ddefnyddiwyd yng nghwrs yr ymchwil:

- Canllawiau pwnc ar gyfer cwmpasu
- Canllawiau pwnc ar gyfer Awdurdodau Lleol
- Canllawiau pwnc ar gyfer ysgolion
- Canllawiau pwnc ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion
- Canllawiau pwnc ar gyfer rhieni
- Canllawiau pwnc ar gyfer disgyblion
- Holiadur i ysgolion/unedau cyfeirio disgyblion (ffurflen).

**Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau**

**CANLLAWIAU PWNC AR GYFER CWMPASU**

## Trosolwg o'r astudiaeth

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi'n comisiynu ni – York Consulting – i adolygu'r arferion a'r dulliau presennol a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

Diolch am gymryd rhan yn y drafodaeth hon – bydd eich barn am wahardd ar y cam cynnar hwn yn yr ymchwil yn ein helpu ni i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach ynghylch meysydd fel – arferion i osgoi gwaharddiadau ac unrhyw anawsterau neu heriau wrth osgoi gwaharddiadau.

Bydd pob gwybodaeth a rennir yn cael ei drin yn gyfrinachol yn unol â hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru [Saesneg/Cymraeg] sydd wedi cael ei anfon atoch cyn y drafodaeth hon. Bydd gwybodaeth a rennir yn cael ei defnyddio i gynhyrchu adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolion, lleoliadau na sefydliadau.

Cyn imi gychwyn, oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil [*os oes, a'i fod yn ymwneud â'r math o gwestiynau a fydd yn cael eu gofyn gweler testun isod*] neu sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi *[os oes, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd*].

**Nodyn i'r ymchwilydd: yr unig adeg y dylid defnyddio'r isod yw os hoffai'r cyfranogwr fwy o wybodaeth am beth fydd y cwestiynau y byddwn yn eu trafod:**

*Mae gennym ddiddordeb mewn trafod y meysydd canlynol drwy'r drafodaeth hon:*

- *arferion da wrth rwystro gwaharddiadau*
- *y cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i helpu osgoi gwaharddiadau*
- *sut y cedwir cyswllt / y dylid cadw cyswllt gyda phlant sydd wedi cael eu gwahardd*
- *y cymorth a roddir ar waith / y dylid ei roi ar waith i gefnogi ailintegreiddio plant sydd wedi cael eu gwahardd*
- *heriau wrth rwystro gwaharddiadau*
- *beth sydd ei angen i gefnogi arferion da.*

## Cyflwyniad

1. Alla' i gadarnhau mai eich rôl yw *[nodi ar gyfer y cyfranogwr unigol]* ac yn lle'r ydych wedi eich lleoli [*nodi sefydliad y cyfranogwr unigol*]
2. Ym mha ffordd mae eich rôl chi'n ymwneud â gwaharddiadau?
3. Ydych chi wedi gweithio mewn swyddi blaenorol a oedd yn ymwneud â gwaharddiadau?

4. Gyda pha awdurdodau lleol ydych chi'n gweithio?

**Cwestiynau**

**Pwyntiau allweddol**

1. O'ch safbwynt chi, a oes unrhyw beth yn eich barn chi y dylem ei wybod ynghylch polisïau ymddygiad, polisïau gwahardd ac arferion neu ddulliau a ddefnyddir gan ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n ymwneud â gwahardd?
2. Beth yn eich barn chi yw'r agweddau neu fater(ion) pwysig o'ch safbwynt chi ynghylch gwaharddiadau cyfnod penodol / gwaharddiadau parhaol a'r arferion presennol?
3. A oes unrhyw agweddau neu faterion pwysig yr hoffech chi eu trafod sy'n ymwneud â gwahardd disgyblion bregus neu o dan anfantais – megis plant bach, plant sy'n derbyn gofal, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu blant sydd wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod?
4. I ba raddau yn eich barn chi mae ysgolion yn defnyddio polisi ac arferion gwahardd yn effeithiol i bob disgybl, gan gynnwys ar gam cynnar i osgoi risg o wahardd, ac i'r rheini sydd mewn risg o gael eu gwahardd? Sut mae hyn yn amrywio ar draws cyfnodau o addysg (cynradd, uwchradd cynnar, uwchradd hwyr)?
5. Pa ddogfennau polisi yn eich barn chi sy'n helpu i arwain ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar gyfer datblygu polisïau ac arferion gwahardd/ymddygiad ac o safbwynt osgoi gwaharddiadau?

**Arferion da**

6. Pa arferion sy'n gweithio'n dda yn eich barn chi i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol / gwaharddiadau parhaol, cynnal perthynas ac ailintegreiddio?
7. Sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl math o ysgol, fel cynradd/uwchradd, eu lleoliad a nodweddion disgyblion?
8. Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau penodol?
9. Beth yn eich barn chi sydd ynghlwm â gwneud yr arferion da hyn yn llwyddiant?

   [**annog:** polisïau clir gan yr ysgol neu uned cyfeirio disgyblion / gan yr awdurdod lleol, cymorth gan sefydliadau allanol (consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, Estyn, lleoliadau addysgol eraill), cyfathrebu effeithiol gyda disgyblion/teuluoedd/awdurdodau lleol, dulliau ailintegreiddio, adnoddau/cyllid].
10. O'ch safbwynt chi ydych chi'n meddwl bod yr arferion da hyn yn cael eu rhannu rhwng ysgolion a'r rheini sy'n cefnogi ysgolion?
11. Pa gymorth sydd ar gael i helpu ysgolion / unedau cyfeirio disgyblion i weithredu dulliau/arferion da i osgoi gwaharddiadau a chefnogi ailintegreiddio?
12. Beth yw'r rhwystrau rhag gweithredu arferion da?

**Heriau**

13. Beth yn eich barn chi yw'r heriau mwyaf ynghylch rhwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol?

    [**annog**: mewn gwahanol leoliadau – unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion cynradd ac uwchradd]

14. Allwch chi roi enghreifftiau penodol?
15. A oes unrhyw ardaloedd / ysgolion penodol / unedau cyfeirio disgyblion sy'n wynebu mwy o'r heriau hyn?
16. Ydych chi'n gwybod pa ddulliau mae ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion yn eu mabwysiadu i ymateb i'r heriau hyn? Ydych chi'n meddwl eu bod yn effeithiol?
17. Pa ddulliau yn eich barn chi a fyddai'n ddefnyddiol iddyn nhw eu mabwysiadu i oresgyn heriau o'r fath?
18. Pa gymorth yn eich barn chi y byddai ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, plant a theuluoedd yn elwa ohono i osgoi gwaharddiadau a chefnogi ailintegreiddio?

**Arall**

19. A oes unrhyw ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol a fyddai, yn eich barn chi, â diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymchwil hwn neu y byddai'n ddefnyddiol i ni eu cynnwys yn yr ymchwil hwn? Beth yn eich barn chi fyddai'r ffordd orau o gysylltu â nhw? Fyddech chi'n gallu'n helpu ni i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil, er enghraifft trwy anfon e-bost ymlaen atyn nhw?
20. Wrth feddwl am gam nesaf ein hymchwil, lle byddwn yn gofyn cwestiynau manwl i awdurdodau lleol, ysgolion, plant a'u teuluoedd, beth yn eich barn chi yw'r cwestiynau neu feysydd pwysicaf yn dylem eu trafod?
21. Allwch chi feddwl am unrhyw ddogfennau/llenyddiaeth/ymchwil penodol y dylem wybod amdanynt, sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon?
22. Unrhyw beth arall y dylem fod yn ymwybodol ohono yn eich barn chi?

**DIOLCH A CHAU.**

**Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau**

**CANLLAWIAU PWNC ar gyfer awdurdodau lleol**

**Trosolwg o'r astudiaeth**

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi'n comisiynu ni – York Consulting – i adolygu'r arferion a'r dulliau presennol a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

Diolch am gymryd rhan yn y drafodaeth hon – bydd eich barn am wahardd ar y cam cynnar hwn yn yr ymchwil yn ein helpu ni i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach ynghylch meysydd fel – arferion i osgoi gwaharddiadau ac unrhyw anawsterau neu heriau wrth osgoi gwaharddiadau.

Bydd pob gwybodaeth a rennir yn cael ei drin yn gyfrinachol yn unol â hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru [Saesneg/Cymraeg] sydd wedi cael ei anfon atoch cyn y drafodaeth hon. Bydd gwybodaeth a rennir yn cael ei defnyddio i gynhyrchu adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolion, lleoliadau na sefydliadau.

Cyn imi gychwyn, oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil [*os oes, a'i fod yn ymwneud â'r math o gwestiynau a fydd yn cael eu gofyn gweler testun isod*] neu sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi *[os oes, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd*].

**Nodyn i'r ymchwilydd: yr unig adeg y dylid defnyddio'r isod yw os hoffai'r cyfranogwr fwy o wybodaeth am beth fydd y cwestiynau y byddwn yn eu trafod:**

Mae gennym ddiddordeb mewn trafod y meysydd canlynol drwy'r drafodaeth hon:

- arferion da wrth rwystro gwaharddiadau
- y cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i helpu osgoi gwaharddiadau
- sut y cedwir cyswllt / y dylid cadw cyswllt gyda phlant sydd wedi cael eu gwahardd
- y cymorth a roddir ar waith / y dylid ei roi ar waith i gefnogi ailintegreiddio plant sydd wedi cael eu gwahardd
- heriau wrth rwystro gwaharddiadau
- beth sydd ei angen i gefnogi arferion da.

**Cyflwyniad**

1. Alla' i gadarnhau mai eich rôl yw [nodi ar gyfer y cyfranogwr unigol] ac yn lle'r ydych wedi eich lleoli [nodi sefydliad y cyfranogwr unigol]
2. Ym mha ffordd mae eich rôl chi'n ymwneud â gwaharddiadau?
3. Ydych chi wedi gweithio mewn swyddi blaenorol a oedd yn ymwneud â gwaharddiadau?

**Trosolwg**

4. Alla' i ddechrau trwy ofyn eich barn am agwedd Llywodraeth Cymru tuag at waharddiadau o'r ysgol?
5. Beth, os rhywbeth, hoffech chi weld Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn wahanol o ran polisi a chanllawiau o safbwynt gwaharddiadau o'r ysgol?

**Lefel awdurdod lleol**

6. O'ch safbwynt chi, esboniwch yn fras beth sy'n digwydd ar draws eich awdurdod lleol mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion o ran materion fel:
   - niferoedd yn cynyddu neu'n lleihau – beth yn eich barn chi yw'r rhesymau dros hyn?
   - mathau o ddulliau a fabwysiadir gan ysgolion i gefnogi plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd?
   - mathau o ddulliau o ran rheoli ymddygiad a pholisïau ymddygiad?
7. Ym mha ffyrdd, os o gwbl, mae'r awdurdod lleol yn helpu ysgolion/unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau?

   [**awgrymu:** datblygu eu polisi/canllawiau gwahardd eu hunain ar sail polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion, cyfleu gwybodaeth ynghylch ymyraethau sydd ar gael]
8. Beth yw eich barn / polisi'r awdurdod lleol ynghylch:
   - Cyd-drafod rhwng yr ysgol a rhieni, dulliau cymorth amlasiantaethol i osgoi gwaharddiadau
   - Gwahardd o'r ystafell ddosbarth fel dull o reoli ymddygiad
   - Symudiadau wedi eu rheoli
   - Amserlenni rhan-amser (wedi eu lleihau)
   - Defnyddio darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol / allgymorth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.
9. (Cwestiwn dilynol) Beth yw'r prif heriau, os o gwbl, mae'r awdurdod lleol yn eu profi wrth helpu ysgolion i rwystro gwaharddiadau? (Holwch ynghylch:
   - Data gan ysgolion
   - Cysondeb rhwng ysgolion a'i gilydd
   - Adnoddau

- Cydgysylltu gydag ysgolion a rhwng ysgolion a'i gilydd
- Cyfrifoldeb ar gyfer penderfyniadau i wahardd yn gorwedd gyda phrifathrawon / cyfrifoldeb ar gyfer datblygu polisïau gwahardd yn gorwedd gydag ysgolion unigol
- Darpariaeth a chyllid statudol awdurdodau lleol.

10. Beth yn eich barn chi sydd ei angen i oresgyn yr heriau a drafodwyd?
11. A oes agweddau o arferion, darpariaeth neu ymyraethau gwahardd gan awdurdodau lleol sydd, yn eich barn chi, wedi bod yn neilltuol o ddefnyddiol i ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion wrth rwystro ymyraethau? Os oes, pam?
12. A oes agweddau o arferion, darpariaeth neu ymyraethau gwahardd gan awdurdodau lleol nad ydynt, yn eich barn chi, wedi bod yn neilltuol o ddefnyddiol i ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion wrth rwystro ymyraethau? Os oes, pam?

**Lefel ysgol**

13. Pa anawsterau mae ysgolion/unedau cyfeirio disgyblion yn eu hwynebu o safbwynt gwaharddiadau? Sut mae ysgolion yn ymdrin â'r canlynol:
    - Rhwystro?
    - Cynnal cysylltiad?
    - Ailintegreiddio?
14. Mae gennym ddiddordeb mewn dysgu mwy am ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yn eich awdurdod lleol sydd â strategaethau effeithiol i rwystro gwaharddiadau.
    - Allwch chi nodi strategaethau penodol a ddefnyddir gan ysgolion ar draws yr awdurdod lleol? Allwch chi ddisgrifio'r rhain?
    - Allwch chi enwi ysgolion penodol sy'n gweithredu'r strategaethau hyn?
15. Allwch chi ddisgrifio'ch profiad o ysgolion yn yr awdurdod lleol nad ydynt yn rhwystro gwaharddiadau gystal ag ysgolion eraill, a pham fod hyn yn digwydd? (Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo y gallwch eu henwi nhw'n benodol)?
16. Pa resymau dros wahardd yw'r pryder mwyaf i'r awdurdod lleol? I ba raddau mae cynllun ar waith i helpu ysgolion i ddatblygu strategaethau neu dulliau o rwystro gwahardd plant am y rhesymau hyn?
17. Pa mor effeithiol mae strategaethau neu ddulliau ysgolion yn cyfrannu'n gadarnhaol at rwystro gwaharddiadau o ysgol o gwmpas adegau penodol mewn addysg plentyn? Megis cynradd, pontio, uwchradd cynnar ac uwchradd diweddarach?
18. Mae gan lawer o ysgolion amrywiol leoedd ar y safle, hyd yn oed oddi ar y safle lle gellir anfon myfyrwyr er mwyn lleihau tarfu ar fyfyrwyr eraill a/neu dderbyn cymorth mwy unigoledig. Ydych chi'n gwybod am unrhyw enghreifftiau o hyn yn ysgolion yr awdurdod lleol hwn?

    [**awgrymu:** Cyd-drafod rhwng yr ysgol a rhieni, cymorth amlasiantaethol i osgoi gwaharddiadau, rhan amser (amserlenni llai), rheoli symudiadau, lleoedd meithrin, lleoedd cadw ar wahân]

19. Sut y caiff ansawdd arferion ei sicrhau yn yr amgylchiadau hyn? A yw'r awdurdod lleol yn monitro defnydd a/neu effeithiolrwydd yr arferion hyn?

20. Rydym yn gwybod am rai enghreifftiau lle mae rhieni/gofalwyr yn dal i anfon eu plant i'r ysgol pan maent wedi eu gwahardd. A yw hyn yn rhywbeth sy'n digwydd eich ardal eich awdurdod lleol? Os felly, ydych chi'n meddwl bod hyn yn broblem gynyddol? A yw eich awdurdod lleol wedi datblygu polisi i ymateb i hyn?

**Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)**

21. A yw addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o rwystro gwaharddiadau? Sut?

22. A oes uned cyfeirio disgyblion gan eich awdurdod lleol? Os nad oes, sut y caiff plant ac arnynt angen addysg heblaw yn yr ysgol eu cefnogi?

23. A yw eich uned cyfeirio disgyblion / darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu defnyddio fel ffordd o rwystro gwaharddiadau? Sut?

24. Sut mae gwaharddiadau yn effeithio ar allu'r awdurdod lleol i reoli galw am ddarpariaeth ysgol arbennig i'r plant sydd ei angen?

**Camau nesaf**

25. Rydym yn gofyn i ysgolion gwblhau ffurflen/arolwg byr yn disgrifio'u safbwynt ar waharddiadau ac yn rhoi iddynt y cyfle i chwarae rhan pellach yn yr ymchwil hwn. Ydych chi'n gallu rhannu'r ffurflen gydag ysgolion yr eich awdurdod lleol?

26. A oes unrhyw unigolion eraill yn yr awdurdod lleol (aelodau paneli gwahardd, swyddogion Anghenion Dysgu Ychwanegol etc), ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion y gallwch feddwl y dylem geisio'u cynnwys yn y gwaith maes? (Os oes, gwiriwch eu bod yn hapus i'w manylion gael eu rhannu gyda ni a/neu gallwn ddarparu manylion o'r astudiaeth a'r hysbysiad preifatrwydd i'w anfon ymlaen).

**Diolch a chau.**

**Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau**

**CANLLAWIAU PWNC ar gyfer ysgolion**

**Trosolwg o'r astudiaeth**

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi'n comisiynu ni – York Consulting – i adolygu'r arferion a'r dulliau presennol a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

Diolch am gymryd rhan yn y drafodaeth hon – bydd eich barn am wahardd ar y cam cynnar hwn yn yr ymchwil yn ein helpu ni i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach ynghylch meysydd fel – arferion i osgoi gwaharddiadau ac unrhyw anawsterau neu heriau wrth osgoi gwaharddiadau.

Bydd pob gwybodaeth a rennir yn cael ei drin yn gyfrinachol yn unol â hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru [Saesneg/Cymraeg] sydd wedi cael ei anfon atoch cyn y drafodaeth hon. Bydd gwybodaeth a rennir yn cael ei defnyddio i gynhyrchu adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolion, lleoliadau na sefydliadau.

Cyn imi gychwyn, oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil [*os oes, a'i fod yn ymwneud â'r math o gwestiynau a fydd yn cael eu gofyn gweler testun isod*] neu sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi *[os oes, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd*]?

**Nodyn i'r ymchwilydd: yr unig adeg y dylid defnyddio'r isod yw os hoffai'r cyfranogwr fwy o wybodaeth am beth fydd y cwestiynau y byddwn yn eu trafod:**

Mae gennym ddiddordeb mewn trafod y meysydd canlynol drwy'r cyfweliad:

- arferion da wrth rwystro gwaharddiadau
- y cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i helpu osgoi gwaharddiadau
- sut y cedwir cyswllt / y dylid cadw cyswllt gyda phlant sydd wedi cael eu gwahardd
- y cymorth a roddir ar waith / y dylid ei roi ar waith i gefnogi ailintegreiddio plant sydd wedi cael eu gwahardd
- heriau wrth rwystro gwaharddiadau
- beth sydd ei angen i gefnogi arferion da.

*** Nodyn i'r ymchwilydd: mae cwestiynau sydd â seren ar gyfer uwch-arweinwyr yn unig.**

**Cyflwyniad**

1. Alla' i gadarnhau mai eich rôl yw *[nodi ar gyfer y cyfranogwr unigol]* ac yn lle'r ydych wedi eich lleoli [*nodi sefydliad y cyfranogwr unigol*]

2. Ym mha ffordd mae eich rôl chi'n ymwneud â gwaharddiadau?

3. Ydych chi wedi sylwi ar newidiadau mewn lefelau gwahardd o gymharu â blynyddoedd blaenorol?

**Trosolwg**

4. *Ym mha ffyrdd, os o gwbl, allai Llywodraeth Cymru gefnogi ysgolion o safbwynt polisi a chanllawiau gwaharddiadau ysgol?

5. Beth yn eich barn chi yw'r prif ffactorau mewn ysgolion sy'n effeithio ar lefel gwaharddiadau o'ch ysgol?

6. Beth yn eich barn chi yw'r prif ffactorau neu'r amgylchiadau o ran y plentyn sy'n effeithio ar y risg o blant yn cael eu gwahardd o'ch ysgol?

7. *Ydych chi'n derbyn cymorth gan eich awdurdod lleol i ddatblygu polisi ac arferion ynghylch ymddygiad a gwahardd? Disgrifiwch.

**Rhwystro gwaharddiadau**

8. Sut mae eich ysgol yn adnabod y rheini sydd mewn risg o waharddiadau ac yn asesu eu hanghenion i rwystro gwaharddiad?

9. Sut mae eich ysgol yn ceisio rhwystro gwaharddiadau trwy arferion neu ymyraethau sy'n cefnogi dysgwyr?

    - Beth sydd wedi bod yn effeithiol neu'n ddefnyddiol?
    - Beth na fu'n effeithiol na defnyddiol?

10. Sut mae eich ysgol yn ceisio rhwystro gwaharddiadau trwy arferion neu ymyraethau sy'n cefnogi staff?

    - Beth sydd wedi bod yn effeithiol neu'n ddefnyddiol?
    - Beth na fu'n effeithiol na defnyddiol?

11. Sut mae eich ysgol yn ceisio rhwystro gwaharddiadau trwy arferion neu ymyraethau drwy'r ysgol gyfan?

    - Beth sydd wedi bod yn effeithiol neu'n ddefnyddiol?
    - Beth na fu'n effeithiol na defnyddiol?

12. Sut y caiff y dulliau, arferion, neu'r ymyraethau a ddefnyddir gan eich ysgol i rwystro gwaharddiadau eu teilwra i anghenion eich plant?

13. Sut mae eich ysgol yn mynd ati mewn ffordd gadarnhaol i gefnogi plant ar adegau penodol yn eu haddysg i rwystro gwaharddiadau? **Annog**: Cynradd, pontio, uwchradd cynnar ac uwchradd diweddarach).

14. Pa dulliau, arferion a/neu ymyraethau pellach hoffech chi eu gweithredu neu eu datblygu yn eich ysgol i rwystro gwaharddiadau? Beth sydd arnoch ei angen i weithredu neu ddatblygu hyn? [**Annog**: cymorth, darpariaeth allgymorth, cyllid, hyfforddiant, cefnogaeth amlasiantaethol]

**Ailintegreiddio plant**

15. Ym mha ffyrdd, os o gwbl, mae eich ysgol yn cefnogi plant yn ystod gwaharddiad cyfnod penodol? [**annog**: addysg ar-lein, cynnig hyn a hyn o oriau o waith i'w gwblhau gartref]

16. A yw eich ysgol yn cynnal cysylltiad gyda phlant, neu eu rhieni, sydd wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol?

17. Ym mha ffyrdd mae eich ysgol yn cefnogi ailintegreiddio plant sydd wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol? **Annog**: cyfweliad ailintegreiddio gyda rhiant yn bresennol.

18. I ba raddau yn eich barn chi mae'r cymorth hwn wedi bod yn ddefnyddiol neu'n effeithiol wrth gefnogi ailintegreiddio plant sydd wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol? Pam?

**Cyd-drafod a chyfathrebu**

19. Sut mae eich ysgol yn cynnal perthynas dda gyda rhieni/gofalwyr pan fo plentyn mewn risg o waharddiad? Pa mor effeithiol yw'r berthynas hon wrth weithio i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol?

20. *Pa mor effeithiol yw'r cyfathrebu gydag ysgolion lleol eraill ynghylch gwahardd?

21. Sut mae eich ysgol yn manteisio ar gymorth ehangach neu weithio amlasiantaethol i helpu rhwystro gwaharddiadau?

    [**annog:** gweithio gyda'r uned cyfeirio disgyblion lleol, gwasanaethau cymorth ieuenctid, cyd-drafod â theuluoedd, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl]

22. *I ba raddau, ac ym mha ffyrdd, yn eich barn chi, mae corff llywodraethu'ch ysgol yn effeithio ar y nifer o waharddiadau o'ch ysgol?

**Rheoli gwaharddiad**

23. Ydych chi'n gwybod am unrhyw rieni/gofalwyr sy'n anfon eu plant i'r ysgol er gwaethaf iddynt gael eu gwahardd? Os felly, ydych chi'n meddwl bod hyn yn broblem gynyddol? A yw eich awdurdod lleol wedi datblygu polisi i ymateb i hyn? Beth ydych chi'n ei wneud yn yr amgylchiadau hyn?

**Cymorth ehangach**

24. * Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion lleol yn rhoi cymorth i'ch ysgol?

    [**annog:** darparu allgymorth i gefnogi plant a staff yr ysgol (cefnogi plant penodol/ dulliau o reoli ymddygiad etc), cyfathrebu, mynediad at sgiliau ymddygiad ac arferion da ]

**Enghraifft o astudiaeth achos**

25. Allwch chi ddisgrifio dwy enghraifft ddienw o brofiad plentyn o dderbyn cymorth. Un lle mae naill ai waharddiad cyfnod penodol neu waharddiad parhaol wedi cael ei atal ac un lle'r oedd naill ai waharddiad cyfnod penodol neu barhaol yn ofynnol. **Annog:**

- Cyd-destun.
- Ymddygiad.
- Cymorth/ymyrraeth a ddarparwyd.
- Adwaith y plentyn, rhiant/gofalwr.
- Canlyniad cychwynnol y gefnogaeth.
- Canlyniadau mwy hirdymor i'r plentyn.

**Y camau nesaf**

26. Rydym yn awyddus i siarad gyda phlant/pobl ifanc, a/neu rhieni neu ofalwyr plant a phobl ifanc, am eu profiadau o waharddiadau a deall y cymorth mae arnynt ei angen i rwystro gwaharddiadau i'r plentyn/person ifanc.

    Felly, ydych chi'n gallu adnabod unrhyw blant/pobl ifanc a/neu rhieni neu ofalwyr sydd wedi:

    - profi gwaharddiad cyfnod penodol neu barhaol
    - bod mewn risg o waharddiad yn y gorffennol ac wedi bod angen cymorth i rwystro hyn.

    Esboniwch fod gennych y canlynol i gefnogi hyn:

    - Taflen wybodaeth i rieini
    - Hysbysiad preifatrwydd i rieni
    - Taflen wybodaeth i blant
    - Hysbysiad preifatrwydd i blant
    - Tâl cymhelliad o docyn £30 Love to Shop i'r rhiant.

**Diolch a chau.**

**Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau**

**CANLLAWIAU PWNC ar gyfer UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION**

**Trosolwg o'r astudiaeth**

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi'n comisiynu ni – York Consulting – i adolygu'r arferion a'r dulliau presennol a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

Diolch am gymryd rhan yn y drafodaeth hon – bydd eich barn am wahardd ar y cam cynnar hwn yn yr ymchwil yn ein helpu ni i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach ynghylch meysydd fel – arferion i osgoi gwaharddiadau ac unrhyw anawsterau neu heriau wrth osgoi gwaharddiadau.

Bydd pob gwybodaeth a rennir yn cael ei drin yn gyfrinachol yn unol â hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru [Saesneg/Cymraeg] sydd wedi cael ei anfon atoch cyn y drafodaeth hon. Bydd gwybodaeth a rennir yn cael ei defnyddio i gynhyrchu adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolion, lleoliadau na sefydliadau.

Cyn imi gychwyn, oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil [*os oes, a'i fod yn ymwneud â'r math o gwestiynau a fydd yn cael eu gofyn gweler testun isod*] neu sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi *[os oes, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd*]?

**Nodyn i'r ymchwilydd: yr unig adeg y dylid defnyddio'r isod yw os hoffai'r cyfranogwr fwy o wybodaeth am beth fydd y cwestiynau y byddwn yn eu trafod:**

Mae gennym ddiddordeb mewn trafod y meysydd canlynol drwy'r cyfweliad:

- arferion da wrth rwystro gwaharddiadau
- y cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i helpu osgoi gwaharddiadau
- sut y cedwir cyswllt / y dylid cadw cyswllt gyda phlant sydd wedi cael eu gwahardd
- y cymorth a roddir ar waith / y dylid ei roi ar waith i gefnogi ailintegreiddio plant sydd wedi cael eu gwahardd
- heriau wrth rwystro gwaharddiadau
- beth sydd ei angen i gefnogi arferion da.

*** Nodyn i'r ymchwilydd: mae cwestiynau sydd â seren ar gyfer uwch-arweinwyr yn unig.**

**Cyflwyniad**

1. Alla' i gadarnhau mai eich rôl yw *[nodi ar gyfer y cyfranogwr unigol]* ac yn lle'r ydych wedi eich lleoli [*nodi sefydliad y cyfranogwr unigol*]

2. Ym mha ffordd mae eich rôl chi'n ymwneud â gwaharddiadau?

3. *Pa newidiadau os o gwbl ydych chi wedi sylwi arnynt mewn gwaharddiadau – ar draws yr awdurdod lleol o gymharu â blynyddoedd blaenorol – megis grwpiau o blant yn cael eu gwahardd neu lefelau gwaharddiadau?

4. Pa newidiadau ydych chi wedi sylwi arnynt mewn gwaharddiadau – yn yr uned cyfeirio disgyblion o gymharu â blynyddoedd blaenorol – megis grwpiau o blant yn cael eu gwahardd neu lefelau gwaharddiadau?

**Trosolwg**

5. *Ym mha ffyrdd, os o gwbl, allai Llywodraeth Cymru gefnogi unedau cyfeirio disgyblion o safbwynt polisi a chanllawiau gwaharddiadau?

6. Beth yn eich barn chi yw'r prif ffactorau sy'n effeithio ar lefel gwaharddiadau yn ardal eich awdurdod lleol?

7. Beth yn eich barn chi yw'r prif ffactorau o ran yr uned cyfeirio disgyblion sy'n effeithio ar lefel o waharddiadau o'r uned cyfeirio disgyblion?

8. Beth yn eich barn chi yw'r prif ffactorau neu'r amgylchiadau o ran y plentyn sy'n effeithio ar y risg o blentyn yn cael ei wahardd o'r uned cyfeirio disgyblion?

**Rhwystro gwaharddiadau o'r Uned Cyfeirio Disgyblion**

9. Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion yn adnabod y rheini sydd mewn risg o waharddiadau ac yn asesu eu hanghenion i rwystro gwaharddiad?

10. Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion yn ceisio rhwystro gwaharddiadau trwy arferion neu ymyraethau sy'n cefnogi dysgwyr?
    - Beth sydd wedi bod yn effeithiol neu'n ddefnyddiol?
    - Beth na fu'n effeithiol na defnyddiol?

11. Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion yn ceisio rhwystro gwaharddiadau trwy arferion neu ymyraethau sy'n cefnogi staff?
    - Beth sydd wedi bod yn effeithiol neu'n ddefnyddiol?
    - Beth na fu'n effeithiol na defnyddiol?

12. Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion yn ceisio rhwystro gwaharddiadau trwy arferion neu ymyraethau drwy'r sefydliad cyfan?
    - Beth sydd wedi bod yn effeithiol neu'n ddefnyddiol?
    - Beth na fu'n effeithiol na defnyddiol?

13. Pa arferion a/neu ymyraethau y gallai ysgolion eu gweithredu a fyddai o gymorth i blant a'u teuluoedd wrth rwystro gwaharddiadau?

14. Sut y caiff y dulliau, arferion, neu'r ymyraethau a ddefnyddir gan eich uned cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau eu teilwra i anghenion eich plant?

15. Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion yn mynd ati mewn ffordd gadarnhaol i gefnogi plant ar adegau penodol yn eu haddysg i rwystro gwaharddiadau? **Annog**: Cynradd, pontio, uwchradd cynnar ac uwchradd diweddarach).

16. Pa dulliau, arferion a/neu ymyraethau pellach hoffech chi eu gweithredu neu eu datblygu yn eich uned cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau? Beth sydd arnoch ei angen i weithredu neu ddatblygu hyn? [**Annog**: cymorth, darpariaeth allgymorth, cyllid, hyfforddiant, cefnogaeth amlasiantaethol]

**Rhwystro gwaharddiadau o ysgolion yn eich ardal**

17. *Pa ddulliau, arferion, a/neu ymyraethau sydd wedi bod yn effeithiol wrth rwystro gwaharddiadau mewn ysgolion lleol?
18. *Pa ddulliau, arferion, a/neu ymyraethau na fu'n effeithiol wrth rwystro gwaharddiadau mewn ysgolion lleol?

**Cyd-drafod a chyfathrebu**

19. Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion yn cynnal perthynas dda gyda rhieni/gofalwyr pan fo plentyn mewn risg o waharddiad? Pa mor effeithiol yw'r berthynas hon wrth weithio i rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol?
20. * Ydych chi'n gweithio gydag unedau cyfeirio disgyblion eraill yng Nghymru i osgoi gwaharddiadau o'ch uned cyfeirio disgyblion? [**annog**: Beth ydych chi'n ei wneud? Ydych chi'n teimlo bod hyn yn effeithiol wrth osgoi gwaharddiadau? Ym mha ffyrdd?]
21. * Ydych chi'n gweithio gydag ysgolion yn yr ardal i'w helpu i osgoi gwaharddiadau? [**annog**: Beth ydych chi'n ei wneud? Ydych chi'n teimlo bod hyn yn effeithiol wrth osgoi gwaharddiadau? Ym mha ffyrdd?]
22. Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion yn manteisio ar gymorth ehangach neu weithio amlasiantaethol i helpu rhwystro gwaharddiadau?

    [**annog:** gwasanaethau cymorth ieuenctid, cyd-drafod â theuluoedd, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl]

**Rôl staff**

23. Sut mae staff yn eich uned cyfeirio disgyblion yn helpu plant i osgoi cael eu gwahardd?
24. Sut mae eich uned cyfeirio disgyblion yn helpu staff i rwystro gwaharddiadau?
25. Sut mae eich staff yn cefnogi dysgu o fewn ysgolion lleol ynghylch rhwystro gwahardd?
26. Sut mae eich staff yn helpu plant i gael eu hailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad cyfnod sefydlog?

**Cymorth ehangach**

27. Pa gymorth ychwanegol yn eich barn chi a fyddai'n eich helpu fel uned cyfeirio disgyblion i rwystro gwahardd? Pa sefydliadau eraill a allai helpu i ddarparu cymorth? [**Annog:** cymorth, darpariaeth allgymorth, cyllid, hyfforddiant, cymorth amlasiantaethol]

**Enghraifft o astudiaeth achos**

28. Allwch chi ddisgrifio dwy enghraifft ddienw o brofiad plentyn o dderbyn cymorth. Un lle mae naill ai waharddiad cyfnod penodol neu waharddiad parhaol wedi cael ei atal ac un lle'r oedd naill ai waharddiad cyfnod penodol neu barhaol yn ofynnol?

**Annog:**

- Cyd-destun.
- Ymddygiad.
- Cymorth/ymyrraeth a ddarparwyd.
- Adwaith y plentyn, rhiant/gofalwr.
- Canlyniad cychwynnol y gefnogaeth.
- Canlyniadau mwy hirdymor i'r plentyn.

**Y camau nesaf**

29. Rydym yn awyddus i siarad gyda phlant/pobl ifanc, a/neu rhieni neu ofalwyr plant a phobl ifanc, am eu profiadau o waharddiadau a deall y cymorth mae arnynt ei angen i rwystro gwaharddiadau i'r plentyn/person ifanc.

Felly, ydych chi'n gallu adnabod unrhyw blant/pobl ifanc a/neu rhieni neu ofalwyr sydd wedi:

- profi gwaharddiad cyfnod penodol neu barhaol
- bod mewn risg o waharddiad yn y gorffennol ac wedi bod angen cymorth i rwystro hyn.

Esboniwch fod gennych y canlynol i gefnogi hyn:

- Taflen wybodaeth i rieini
- Hysbysiad preifatrwydd i rieni
- Taflen wybodaeth i blant
- Hysbysiad preifatrwydd i blant
- Tâl cymhelliad o docyn £30 Love to Shop i'r rhiant.

**Diolch a chau.**

**Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau**

**CANLLAWIAU PWNC ar gyfer rhieni**

### Trosolwg o'r astudiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i ni – York Consulting – i edrych ar y ffyrdd mae ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cefnogi plant, a'u teuluoedd, i helpu rhwystro plant rhag cael eu gwahardd o'r ysgol.

Diolch am gymryd rhan yn y drafodaeth hon – bydd eich barn yn ein helpu ni i ddatblygu dealltwriaeth o sut i helpu rhwystro plant rhag cael eu gwahardd o'r ysgol.

Bydd pob gwybodaeth y byddwch yn ei rannu gyda ni yn cael ei drin yn gyfrinachol yn unol â hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru [Saesneg/Cymraeg] sydd wedi cael ei anfon atoch cyn y drafodaeth hon.

Bydd eich barn yn cael ei defnyddio i gynhyrchu adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod pobl sydd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil.

Dewis cwbl wirfoddol yw cymryd rhan yn y drafodaeth hon. Gallwch ddod â'r cyfweliad yma i ben ar unrhyw adeg heb roi unrhyw resymau a gallwch hefyd ddweud os nad oes arnoch eisiau ateb unrhyw gwestiynau penodol. Ydych chi'n hapus i barhau?

Cyn imi gychwyn, oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil [*os oes, a'i fod yn ymwneud â'r math o gwestiynau a fydd yn cael eu gofyn gweler testun isod*] neu sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi *[os oes, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd*]?

**Nodyn i'r ymchwilydd: yr unig adeg y dylid defnyddio'r isod yw os hoffai'r cyfranogwr fwy o wybodaeth am beth fydd y cwestiynau y byddwn yn eu trafod:**

Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio'r meysydd canlynol yn ystod y cyfweliad:

- Profiadau plant a'u teuluoedd lle mae plant wedi cael eu gwahardd o'r ysgol neu sydd mewn risg o waharddiad.
    - Pan ydym yn siarad am blant sydd wedi bod mewn risg o waharddiad, rydym yn golygu plant sydd wedi profi anawsterau yn yr ysgol a arweiniodd at iddyn nhw dorri polisi ymddygiad yr ysgol.
    - Gall yr ysgol fod wedi sôn gyda chi fod eich plentyn mewn risg o waharddiad os oedd ei ymddygiad yn parhau i dorri polisi ymddygiad yr ysgol.
- Gallai'r gwaharddiad fod yn un tymor byr neu barhaol.
- Y cymorth mae plant, a'u teuluoedd, wedi ei dderbyn – neu allai fod wedi ei dderbyn – gan yr ysgol i helpu plant osgoi cael eu gwahardd.
- Sut y gwnaeth yr ysgol gadw cysylltiad – neu y gallen nhw fod wedi cadw cysylltiad – gyda phlant, a'u teuluoedd, pan fo plentyn wedi cael ei wahardd.
- Y cymorth wedi ysgolion wedi ei roi ar waith – neu y gallen nhw fod wedi ei roi ar waith – i helpu plant i ddychwelyd yn llwyddiannus i'r ysgol ar ôl iddyn nhw gael eu gwahardd.

**Cyflwyniad**

1. Allwch chi ddisgrifio profiad eich plentyn o'r ysgol yn gyffredinol? [**Annog**: Beth mae'n ei fwynhau am yr ysgol? Beth mae'n ei chael yn anodd gyda'r ysgol?

2. A yw eich plentyn:

   a) Wedi bod mewn risg o waharddiad?

   *(**Os nad yw'r diffiniad uchod o 'mewn risg' wedi cael ei ddarllen allan, yna darllenwch yr esboniad o beth yw ystyr bod mewn risg o waharddiad**)*

   b) Wedi cael ei wahardd o'r ysgol? Os felly, a yw eich plentyn:

      i. Wedi cael ei wahardd am amser byr (sef, fod eich plentyn wedi cael dychwelyd i'r ysgol ar ôl y gwaharddiad).
      ii. Wedi cael ei wahardd yn barhaol (sef, na chafodd eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol).

A. **Lle bo plentyn wedi bod mewn risg o waharddiad**

**(Nodyn i'r ymchwilydd: mae gennym ddiddordeb yn holl brofiadau'r rhiant (sef o ran beth oedd o gymorth, yn llai defnyddiol etc) yn hytrach na digwyddiad unigol. Felly, ceisiwch gyda rhieni gael eu crynodeb cyffredinol o'u profiad o waharddiad yn hytrach na chanolbwyntio ar ddigwyddiad o fod mewn risg neu ailadroddwch y cwestiynau ar gyfer pob digwyddiad risg.)**

3. Pryd ddaethoch chi i wybod bod eich plentyn mewn risg o waharddiad? [**annog**: trafodaeth gyda'ch plentyn/yr ysgol?]

4. Beth a ddywedodd yr ysgol oedd yn digwydd a oedd yn golygu bod eich plentyn mewn risg o waharddiad?

5. Pam ydych chi'n meddwl bod eich plentyn mewn risg o waharddiad? [**annog**: a oedd eich plentyn yn profi unrhyw anawsterau yn yr ysgol? A ddigwyddodd rhywbeth a allai fod wedi achosi i'ch plentyn ymddwyn mewn ffordd a oedd yn golygu y gallai fod mewn risg o waharddiad?]

6. Pa gymorth gafodd eich plentyn i'w helpu i aros yn yr ysgol? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
   - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
   - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?

7. Pa help gawsoch chi a'ch teulu i'ch cefnogi chi wrth helpu eich plentyn i aros yn yr ysgol? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
   - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
   - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?

8. Pa help arall (os o gwbl) fydddai wedi bod yn ddefnyddiol i'ch plentyn a'ch teulu pan oedd mewn risg o waharddiad? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].

9. Pa mor dda wnaeth yr ysgol gyfathrebu gyda chi, tra bod eich plentyn mewn risg o waharddiad? **Annog**:

   - Ydych chi'n teimlo eich bod wedi derbyn popeth roedd angen ichi ei ddeall beth oedd yn digwydd? Os na, beth ydych chi'n teimlo fyddai wedi helpu eich dealltwriaeth?
   - A oes ffyrdd (os o gwbl) y gallai'r cyfathrebu gan yr ysgol fod wedi bod yn well?

10. Pa mor dda wnaeth yr ysgol gyfathrebu gyda'ch plentyn pan oedd mewn risg o waharddiad?

11. Ydych chi'n teimlo bod eich plentyn wedi derbyn popeth roedd arno ei angen i ddeall beth oedd yn digwydd?

   - Os na, beth ydych chi'n teimlo fyddai wedi helpu dealltwriaeth eich plentyn?

12. A oes ffyrdd (os o gwbl) y gellid bod wedi gwella'r cyfathrebu o'r ysgol?

   ***(Os nad yw eu plentyn wedi profi gwaharddiadau dros dro na pharhaol yna neidiwch i 'Unrhyw beth arall?')***

**B (i). Pan fo plentyn wedi cael ei wahardd dros dro**

**(Nodyn i'r ymchwilydd: mae gennym ddiddordeb yn holl brofiadau'r rhiant (sef o ran beth oedd o gymorth, yn llai defnyddiol etc) yn hytrach na digwyddiad unigol. Felly, ceisiwch gyda rhieni gael eu crynodeb cyffredinol o'u profiad o waharddiad yn hytrach na chanolbwyntio ar un gwaharddiad neu ailadroddwch y cwestiynau ar gyfer pob gwaharddiad.)**

13. Beth a ddywedodd yr ysgol oedd wedi digwydd a oedd yn golygu bod eich plentyn yn cael ei wahardd dros dro?

14. Pam ydych chi'n meddwl bod eich plentyn wedi cael ei wahardd dros dro? [**annog**: a oedd yn profi unrhyw anawsterau yn yr ysgol? A ddigwyddodd rhywbeth a allai fod wedi achosi i'ch plentyn ymddwyn mewn ffordd a oedd yn golygu iddo gael ei wahardd dros dro?]

15. Pa gymorth gafodd eich plentyn yn ystod ei waharddiad ac wrth fynd yn ôl i'r ysgol? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].

   - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
   - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?
   - Pa help a dderbyniodd eich plentyn cyn ei waharddiad i'w helpu i aros yn yr ysgol?

16. Pa help gawsoch chi a'ch teulu i helpu eich plentyn yn ystod ei waharddiad ac wrth fynd yn ôl i'r ysgol? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].

   - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
   - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?
   - Pa help a dderbyniodd y teulu cyn y gwaharddiad i'w helpu i aros yn yr ysgol?

17. Pa help arall (os o gwbl) fydddai wedi bod yn ddefnyddiol i'ch plentyn a'ch teulu pan oedd wedi cael ei wahardd a phan aeth yn ôl i'r ysgol? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu

allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].

- Pa help fyddai wedi bod yn ddefnyddiol cyn ei wahardd i'w helpu i aros yn yr ysgol?

18. Pa mor dda wnaeth yr ysgol gyfathrebu gyda chi ynghylch gwahardd eich plentyn a phan aeth yn ôl i'r ysgol? **Annog**:
    - Ydych chi'n teimlo eich bod wedi derbyn popeth roedd angen ichi ei ddeall beth oedd yn digwydd? Os na, beth ydych chi'n teimlo fyddai wedi helpu eich dealltwriaeth?
    - A oes ffyrdd (os o gwbl) y gallai'r cyfathrebu gan yr ysgol fod wedi bod yn well?
19. Pa mor dda wnaeth yr ysgol gyfathrebu gyda'ch plentyn am ei waharddiad ac wrth fynd yn ôl i'r ysgol?
20. Ydych chi'n teimlo bod eich plentyn wedi derbyn popeth roedd arno ei angen i ddeall beth oedd yn digwydd?
    - Os na, beth ydych chi'n teimlo fyddai wedi helpu dealltwriaeth eich plentyn?
    - A oes ffyrdd (os o gwbl) y gellid bod wedi gwella'r cyfathrebu o'r ysgol i'ch plentyn?

***(Os nad yw eu plentyn wedi profi gwaharddiadau parhaol yna neidiwch i 'Unrhyw beth arall?')***

**B(ii). Lle bo plentyn wedi cael ei wahardd yn barhaol**

**(Nodyn i'r ymchwilydd: mae gennym ddiddordeb yn holl brofiadau'r rhiant (sef o ran beth oedd o gymorth, yn llai defnyddiol etc) yn hytrach na digwyddiad unigol. Felly, ceisiwch gyda rhieni gael eu crynodeb cyffredinol o'u profiad o waharddiad yn hytrach na chanolbwyntio ar un gwaharddiad neu ailadroddwch y cwestiynau ar gyfer pob gwaharddiad.)**

21. Beth a ddywedodd yr ysgol oedd wedi digwydd a wnaeth olygu bod eich plentyn yn cael ei wahardd yn barhaol?
22. Pam ydych chi'n meddwl bod eich plentyn wedi cael ei wahardd yn barhaol? [**annog**: a oedd yn profi unrhyw anawsterau yn yr ysgol? A ddigwyddodd rhywbeth a allai fod wedi achosi i'ch plentyn ymddwyn mewn ffordd a oedd yn golygu iddo gael ei wahardd yn barhaol?]
23. Pa gymorth gafodd eich plentyn yn ystod ei waharddiad ac wrth fynd yn ôl i addysg? [**Annog**: gan yr ysgol, ysgol newydd, gan ddarparwr addysg heblaw yn yr ysgol, yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
    - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
    - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?
    - Pa help a dderbyniodd eich plentyn cyn ei waharddiad i'w helpu i aros yn yr ysgol?
24. Pa help gawsoch chi a'ch teulu i helpu'ch plentyn yn ystod ei waharddiad ac wrth fynd yn ôl i addysg? [**Annog**: gan yr ysgol, ysgol newydd, gan ddarparwr addysg heblaw yn yr ysgol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
    - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
    - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?

- Pa help wnaeth y teulu ei dderbyn cyn y gwaharddiad i'w helpu i aros yn yr ysgol?

25. Pa help arall (os o gwbl) fydddai wedi bod yn ddefnyddiol i'ch plentyn a'ch teulu pan oedd wedi cael ei wahardd/gwahardd a phan aeth yn ôl i addysg? [**Annog**: gan yr ysgol, ysgol newydd, gan ddarparwr addysg heblaw yn yr ysgol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall]].
    - Pa help fyddai wedi bod yn ddefnyddiol cyn ei wahardd i'w helpu i aros yn yr ysgol?
26. Pa mor dda wnaeth yr ysgol a'r awdurdod lleol gyfathrebu gyda chi ynghylch gwahardd eich plentyn a phan aeth yn ôl i addysg? **Annog**:
    - Ydych chi'n teimlo eich bod wedi derbyn popeth roedd angen ichi ei ddeall beth oedd yn digwydd? Os na, beth ydych chi'n teimlo fyddai wedi helpu eich dealltwriaeth?
    - A oes ffyrdd (os o gwbl) y gallai'r cyfathrebu gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol fod wedi bod yn well?
27. Pa mor dda wnaeth yr ysgol gyfathrebu gyda'ch plentyn am ei waharddiad ac wrth fynd yn ôl i addysg?
    - Ydych chi'n teimlo bod eich plentyn wedi derbyn popeth roedd arno ei angen i ddeall beth oedd yn digwydd? Os na, beth ydych chi'n teimlo fyddai wedi helpu ei ddealltwriaeth?
    - A oes ffyrdd (os o gwbl) y gellid bod wedi gwella'r cyfathrebu o'r ysgol i'ch plentyn?

**Unrhyw beth arall**

28. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am eich profiadau'r ydych chi wedi eu disgrifio?

**Diolch am roi eich amser i siarad am hyn.** All ai eich atgoffa na fyddwn ni'n defnyddio eich enw na dim a allai eich adnabod chi na'ch plentyn fel rhan o'r ymchwil hwn a'r adroddiad i Lywodraeth Cymru.

**Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau**

**CANLLAWIAU PWNC ar gyfer disgyblion**

**Trosolwg o'r astudiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i ni – York Consulting – i edrych ar y ffyrdd mae ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cefnogi plant, a'u teuluoedd, i helpu osgoi plant rhag cael eu gwahardd o'r ysgol.

Diolch am siarad gyda ni – bydd eich barn yn ein helpu ni ddeall sut i helpu plant a phobl ifanc i osgoi gwaharddiad ac aros yn yr ysgol.

Fyddwn ni ddim yn dweud wrth neb beth a ddywedwch yn y cyfweliad oni bai ein bod ni'n meddwl eich bod chi, neu rywun rydych yn sôn amdanynt, mewn risg o gael eu niweidio.

Bydd eich barn yn cael ei defnyddio i gynhyrchu adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod pwy ydych chi.

Cofiwch, does dim rhaid ichi gymryd rhan os nad oes arnoch eisiau. Os ydych chi'n cymryd rhan, does dim rhaid ichi ateb unrhyw gwestiynau nad oes arnoch eisiau eu hateb. Ydych chi'n hapus i barhau?

Cyn imi gychwyn, oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil [*os oes, a'i fod yn ymwneud â'r math o gwestiynau a fydd yn cael eu gofyn gweler testun isod*] neu sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi *[os oes, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd Saesneg/Cymraeg]*.

**Nodyn i'r ymchwilydd: yr unig adeg y dylid defnyddio'r isod yw os hoffai'r cyfranogwr fwy o wybodaeth am beth fydd y cwestiynau y byddwn yn eu trafod:**

Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio'r meysydd canlynol yn ystod y cyfweliad:

- Profiadau plant a'u teuluoedd lle mae plant wedi cael eu gwahardd o'r ysgol
- Profiadau plant a'u teuluoedd lle mae plant wedi bod mewn risg o waharddiad.
    - Pan ydym yn siarad am blant sydd wedi bod mewn risg o waharddiad, rydym yn golygu plant sy'n torri rheolau'r ysgol.
    - Gall yr ysgol fod wedi sôn gyda chi am fod mewn risg o waharddiad..
- Gallai'r gwaharddiad fod naill ai'n fyr neu'n hirach.
- Y cymorth mae plant, a'u teuluoedd, wedi ei dderbyn i'w helpu i osgoi cael eu gwahardd.
- Lle bo plentyn wedi cael eu wahardd, sut mae'r ysgol wedi eu helpu nhw a'u teuluoedd
- Y cymorth wedi ysgolion wedi ei roi ar waith – neu y gallen nhw ei roi ar waith – i helpu plant i ddychwelyd yn llwyddiannus i'r ysgol ar ôl iddyn nhw gael eu gwahardd.

**Cyflwyniad**

1. Allwch chi ddisgrifio eich profiad o'r ysgol yn gyffredinol? [**Annog**: Beth ydych chi'n fwynhau am yr ysgol?]

*Yn y mwyafrif o achosion byddwn yn gwybod atebion 2 a 3 ymlaen llaw ac felly ni fydd angen gofyn:*

2. Ydych chi:

   A. Wedi bod mewn risg o waharddiad?

   *(**Os nad yw'r diffiniad uchod o 'mewn risg' wedi cael ei ddarllen allan, yna darllenwch yr esboniad o beth yw ystyr bod mewn risg o waharddiad – efallai y bydd angen ichi eu hatgoffa o'r ystyr p'run bynnag**)*

   B. Wedi cael eich gwahardd o'r ysgol? Os felly, ydych chi wedi profi:

   i. Gwaharddiad dros dro (sef, eich bod wedi cael mynd yn ôl i'r ysgol ar ôl y gwaharddiad).

   ii. Gwaharddiad parhaol (sef, na chawsoch fynd yn ôl i'r ysgol).

A. **Lle'r ydych wedi bod mewn risg o waharddiad**

**(Nodyn i'r ymchwilydd: mae gennym ddiddordeb yn holl brofiadau'r plentyn (sef o ran beth oedd o gymorth, yn llai defnyddiol etc) yn hytrach na digwyddiad unigol. Felly, ceisiwch gyda'r plentyn gael eu crynodeb cyffredinol o'u profiad o fod mewn risg o waharddiad yn hytrach na chanolbwyntio ar un profiad neu ailadroddwch y cwestiynau ar gyfer pob profiad.)**

3. Beth ddigwyddodd yn yr ysgol i chi a oedd yn golygu eich bod yn torri'r rheolau ac mewn risg o gael eich gwahardd?

4. Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi'n torri'r rheoliau ac mewn risg o gael eich gwahardd? [**annog**: oeddech chi'n cael unrhyw broblemau? Oedd rhywbeth wedi digwydd a oedd yn achosi problemau ichi?]

5. Pa help a roddodd unrhyw un ichi i'ch helpu i aros yn yr ysgol? [**Annog**: canolbwyntio ar agweddau sy'n rhwystro gwaharddiad, gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].

   - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
   - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?

6. Pa help a roddodd unrhyw un i'ch teulu i'ch helpu chi i aros yn yr ysgol? [**Annog**: canolbwyntio ar agweddau sy'n rhwystro gwaharddiad, gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].

   - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
   - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?

7. Pa help arall (os o gwbl) fydddai wedi bod yn ddefnyddiol i chi a'ch teulu i'ch helpu chi i aros yn yr ysgol? [**Annog**: canolbwyntio ar agweddau sy'n rhwystro gwaharddiad, gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].

8. Pa mor dda wnaeth yr ysgol adael ichi wybod beth oedd yn digwydd? **Annog**:

- Oeddech chi’n deall beth oedd yn digwydd? Os na, beth fyddai wedi’ch helpu chi i ddeall?
- A oes ffyrdd y gallai’r ysgol fod wedi gadael ichi wybod beth oedd yn digwydd mewn ffordd well?

***(Os nad ydynt wedi profi gwaharddiadau dros dro na pharhaol yna neidiwch i ‘Unrhyw beth arall?’)***

**B(i). Lle’r ydych wedi cael eich gwahardd dros dro**

***(Eu hatgoffa o’r diffiniad: Gofynnwyd ichi beidio â dod i’r ysgol am ddiwrnod neu fwy, ond roeddech chi’n cael mynd yn ôl ar ôl y cyfnod hwn.)***

**(Nodyn i’r ymchwilydd: mae gennym ddiddordeb yn holl brofiadau’r plentyn (sef o ran beth oedd o gymorth, yn llai defnyddiol etc) yn hytrach na digwyddiad unigol. Felly, ceisiwch gyda’r plentyn gael eu crynodeb cyffredinol o’u profiad o waharddiad yn hytrach na chanolbwyntio ar un gwaharddiad neu ailadroddwch y cwestiynau ar gyfer pob gwaharddiad.)**

9. Beth ddigwyddodd yn yr ysgol i chi a wnaeth arwain at ichi gael eich gwahardd am gyfnod byr?
10. Pam ydych chi’n meddwl eich bod chi wedi cael eich gwahardd? [**annog**: oeddech chi’n cael unrhyw broblemau? Oedd rhywbeth wedi digwydd a oedd yn achosi problemau ichi?]
11. Pa help a roddodd unrhyw un ichi pan gawsoch eich gwahardd a phan aethoch chi’n ôl i’r ysgol? [**Annog**: gan yr ysgol, o’r tu allan i’r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
    - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
    - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?
    - Pa help wnaethoch chi ei dderbyn cyn y gwaharddiad i’ch helpu chi i aros yn yr ysgol?
12. Pa help a roddodd unrhyw un i’ch teulu i’ch helpu chi pan oeddech chi wedi cael eich gwahardd a phan aethoch yn ôl i’r ysgol? [**Annog**: gan yr ysgol, o’r tu allan i’r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
    - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
    - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?
    - Pa help wnaethoch chi ei dderbyn cyn y gwaharddiad i’ch helpu chi i aros yn yr ysgol?
13. Pa help arall (os o gwbl) fydddai wedi bod yn ddefnyddiol i chi a’ch teulu pan oeddech chi wedi cael eich gwahardd ac ar ôl mynd yn ôl i’r ysgol? [**Annog**: gan yr ysgol, o’r tu allan i’r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
    - Pa help fyddai wedi bod yn ddefnyddiol cyn eich gwaharddiad i’ch helpu chi i aros yn yr ysgol?
14. Pa mor dda wnaeth yr ysgol adael ichi wybod beth oedd yn digwydd? **Annog**:

- Oeddech chi'n deall beth oedd yn digwydd? Os na, beth fyddai wedi'ch helpu chi i ddeall?
- A oes ffyrdd y gallai'r ysgol fod wedi gadael ichi wybod beth oedd yn digwydd mewn ffordd well?

***(Os nad ydynt wedi profi gwaharddiadau dros dro na pharhaol yna neidiwch i 'Unrhyw beth arall?')***

**B(ii). Lle'r ydych wedi cael eich gwahardd yn barhaol**

***(Eu hatgoffa o'r diffiniad: Penderfynodd eich ysgol nad oeddech chi'n cael mynd yn ôl i'r ysgol.)***

**(Nodyn i'r ymchwilydd: mae gennym ddiddordeb yn holl brofiadau'r plentyn (sef o ran beth oedd o gymorth, yn llai defnyddiol etc) yn hytrach na digwyddiad unigol. Felly, ceisiwch gyda'r plentyn gael eu crynodeb cyffredinol o'u profiad o waharddiad yn hytrach na chanolbwyntio ar un gwaharddiad neu ailadroddwch y cwestiynau ar gyfer pob gwaharddiad.)**

15. Beth ddigwyddodd yn yr ysgol i chi a wnaeth arwain at ichi gael eich gwahardd yn barhaol?
16. Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael eich gwahardd? [**annog**: oeddech chi'n cael unrhyw broblemau? Oedd rhywbeth wedi digwydd a oedd yn achosi problemau ichi?]
17. Pa help a roddodd unrhyw un ichi pan gawsoch eich gwahardd a phan aethoch chi'n ôl i addysg? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
    - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
    - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?
    - Pa help wnaethoch chi ei dderbyn cyn y gwaharddiad i'ch helpu chi i aros yn yr ysgol?
18. Pa help a roddodd unrhyw un i'ch teulu i'ch helpu chi pan oeddech chi wedi cael eich gwahardd a phan aethoch yn ôl i addysg? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
    - Pa rannau o hyn oedd yn ddefnyddiol?
    - Pa rannau oedd yn llai defnyddiol?
    - Pa help wnaethoch chi ei dderbyn cyn y gwaharddiad i'ch helpu chi i aros yn yr ysgol?
19. Pa help arall (os o gwbl) fydddai wedi bod yn ddefnyddiol i chi a'ch teulu pan oeddech chi wedi cael eich gwahardd ac ar ôl mynd yn ôl i addysg? [**Annog**: gan yr ysgol, o'r tu allan i'r ysgol – megis yr awdurdod lleol, gan wasanaethau iechyd neu gan sefydliad arall].
    - Pa help fyddai wedi bod yn ddefnyddiol cyn eich gwaharddiad i'ch helpu chi i aros yn yr ysgol?

20. Pa mor dda wnaeth yr ysgol adael ichi wybod beth oedd yn digwydd? **Annog**:
    - Oeddech chi'n deall beth oedd yn digwydd? Os na, beth fyddai wedi'ch helpu chi i ddeall?
    - A oes ffyrdd y gallai'r ysgol fod wedi gadael ichi wybod beth oedd yn digwydd mewn ffordd well?

**Unrhyw beth arall**

21. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am eich profiadau'r ydych chi wedi eu disgrifio?

**Diolch am roi eich amser i siarad am hyn.** Hoffwn eich atgoffa na fyddwn ni'n defnyddio eich enw na dim a allai eich adnabod chi fel rhan o'r ymchwil hwn a'r adroddiad i Lywodraeth Cymru.

**Holiadur ysgolion/unedau cyfeirio disgyblion (ffurflen)**

Cyflwyniad e-bost

**Ffurflen (Arolwg) ynghylch gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i York Consulting gasglu, trwy [ffurflen (arolwg)] fer, gwybodaeth gan ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion ynghylch:

- Beth mae ysgolion/unedau cyfeirio disgyblion yn ei wneud i rwystro gwaharddiadau, cynnal cyswllt gyda phlant a gaiff eu gwahardd, cadw cyswllt gyda phlant sydd wedi eu gwahardd a chefnogi ailintegreiddio plant ar ôl gwaharddiad.
- Y cymorth y gall fod ar ysgolion/unedau cyfeirio disgyblion, plant a'u teuluoedd ei angen i osgoi gwaharddiadau.

Bydd y canfyddiadau o'r ymchwil yn cael eu defnyddio i fel sail wrth ddatblygu polisi gwahardd Llywodraeth Cymru.

Mae'r ffurflen (arolwg) yn cynnwys 7 cwestiwn ac mae'n cymryd tua 10-15 munud i'w chwblhau. Byddem yn wirioneddol ddiolchgar os gallwch chi gwblhau'r ffurflen (arolwg) yma a/neu ei rhannu gyda chydweithwyr sy'n gweithio mewn ysgolion / unedau cyfeirio disgyblion sy'n ymwneud â gwaharddiadau / cefnogi plant i osgoi gwaharddiadau o'r ysgol.

Bydd pob gwybodaeth a roddir yn cael ei thrin yn gyfrinachol, yn unol â [hysbysiad preifatrwydd] Llywodraeth Cymru a fydd yn cael ei anfon atoch cyn y cyfarfod.

I gymryd rhan, gallwch weld yr arolwg [yma]

Diolch am eich amser.

Philip Wilson (Prif Ymchwilydd)

Philip.wilson@yorkconsulting.co.uk

**FFURFLEN (AROLWG) YSGOLION**

Rhowch rif cyfeirnod eich ysgol. Mae hwn yn rif ysgol 7-digid a elwir y 'rhif awdurdod addysg lleol a sefydliad' (y cyfeirir at hefyd fel 'rhif Adran Addysg')

Beth yw eich prif rôl yn eich ysgol neu uned cyfeirio disgyblion. Nodwch un dewis

- Prifathro neu brifathro dros dro
- Dirprwy brifathro
- Prifathro cynorthwyol
- Athro cyfrifol (am uned cyfeirio disgyblion) neu athro cyfrifol dros dro (am uned cyfeirio disgyblion)
- Pennaeth cyfnod
- Pennaeth blwyddyn
- Pennaeth adran
- Athro pwnc
- Nyrs ysgol
- Swyddog cyswllt rhieni
- Gweithiwr bugeiliol cymunedol
- Gweithiwr cefnogi teuluoedd
- Swyddog llesiant
- Swyddog cyswllt teuluoedd
- Cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol
- Arall – nodwch

1. Beth yw eich rôl o safbwynt gwaharddiadau? [testun agored]
2. Pa strategaethau neu ddulliau mae eich ysgol neu uned cyfeirio disgyblion yn eu defnyddio i rwystro gwaharddiadau o ysgol? [testun agored - dewisol]
3. Pa strategaethau neu ddulliau mae eich ysgol neu uned cyfeirio disgyblion yn eu defnyddio i gynnal perthynas gyda phlant a gaiff eu gwahardd? [testun agored - dewisol]
4. Pa strategaethau neu ddulliau mae eich ysgol neu uned cyfeirio disgyblion yn eu defnyddio i ailintegreiddio plant yn dilyn gwaharddiad? [testun agored - dewisol]
5. A yw eich dogfennau polisi o safbwynt ymddygiad / gwahardd wedi eu cyhoeddi ar eich gwefan? Y/N. Os ydynt, rhowch ddolen
6. Pa gymorth, yn eich barn chi, y gall fod ar ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, plant a'u teuluoedd ei angen i osgoi gwaharddiad? [testun agored - dewisol]

Fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn, byddwn yn cynnal cyfweliadau dilynol gyda staff o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Os hoffech gymryd rhan yn yr ymchwil hwn, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost isod.

## Atodiad C. Adolygiad llenyddiaeth

### Cyflwyniad

Cyflawnwyd adolygiad llenyddiaeth i archwilio ymyraethau ac arferion a all helpu i rwystro gwaharddiadau, yn ogystal â'r effaith ar ffactorau risg y gwyddom eu bod yn gysylltiedig â gwahardd (llesiant cymdeithasol ac emosiynol, ymddygiad heriol etc.). Mae mwy o wybodaeth ar y fethodoleg yr adolygiad llenyddiaeth i'w gael ym Mhennod 2.

Gellir defnyddio amrywiaeth helaeth o ymyraethau yn yr ysgol ac iddynt y nod o leihau'r risg o waharddiad cyfnod penodol a pharhaol. Gall yr ymyraethau hyn dargedu ffactorau risg ac ymddygiad ar lefel unigolyn/plentyn, ar lefel ysgol, neu'r naill a'r llall. Wrth wneud hynny, gallant gynnwys rhieni, athrawon, staff yr ysgol a'r gymuned ehangach (Gaffney, Farrington a White, 2021).

Fe wnaeth Valdebenito et al. (2018) gyflawni meta-ddadansoddiad o astudiaethau a gyhoeddwyd rhwng 1980 a 2015 i archwilio effaith ymyraethau yn yr ysgol ar leihau gwahardd o ysgolion prif ffrwd. Roeddent yn diffinio gwahardd fel tynnu plentyn oddi wrth ei addysg arferol ac, felly, roedd yn cynnwys gwahardd o fewn yr ysgol (sef, gwahardd o'r ystafell ddosbarth) a gwahardd y tu allan i'r ysgol (sef gwahardd o safle'r ysgol dros gyfnod penodol neu'n barhaol). Roedd yr ymyraethau yn eu dadansoddiad wedi eu dosbarthu'n naw categori:

- Gwella sgiliau academaidd.
- Rhaglenni ar ôl ysgol.
- Rhaglenni mentora/monitro.
- Hyfforddiant sgiliau cymdeithasol (i fyfyrwyr).
- Hyfforddiant sgiliau i athrawon.
- Ymyraethau ysgol-gyfan.
- Lleihau trais.
- Ymyraethau cwnsela ac iechyd meddwl.
- Categori amrywiol.

Ar draws 37 o hap-dreialon rheoli, yn bennaf yn yr Unol Daleithiau, ond hefyd yn y Deyrnas Unedig, y canfyddiadau allweddol o'r adolygiad oedd:

- Gall ymyraethau yn yr ysgol greu lleihad bach ac arwyddocaol mewn cyfraddau gwahardd, sef, bod plant a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymyraethau yn yr ysgol, wedi bod, ar gyfartaledd, yn llai tebygol o gael eu gwahardd na'r rheini a dyrannwyd i grwpiau rheoli/plasebo.
- Roedd rhai mathau penodol o ymyraethau yn dangos mwy o addewid ar sail tystiolaeth fwy cadarn a chyson, sef y rheini a oedd yn cynnwys mentora/monitro, hyfforddiant sgiliau i athrawon, gwella sgiliau academaidd a gwasanaethau cwnsela/iechyd meddwl. Fodd bynnag, roedd nifer bach yr astudiaethau a oedd yn ymwneud â'r cyfrifiadau meintiau effaith ar gyfer pob un o'r ymyraethau hyn yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli hyn.
- Roedd y canlyniadau yn seiliedig ar fesurau o effaith a gasglwyd yn ddi-oed yn ystod y chwe mis cyntaf ar ôl ymyrraeth (ar gyfartaledd). Pan oeddent yn archwilio is-set lai o astudiaethau a oedd yn mesur effaith dilynol (12 mis neu fwy ar ôl ymyrraeth) yr hyn a ganfuwyd oedd, er bod effaith gadarnhaol o hyd i'r ymyraethau, roedd y gwelliant hwn wedi lleihau ac nad oedd mwyach yn ystadegol arwyddocaol. Fe wnaeth dadansoddiad pellach archwilio astudiaethau a oedd yn cynnwys effeithiau tymor byr a hirdymor ymyraethau; canfuwyd bod effaith dymor byr yr ymyrraeth yn gadarnhaol ond yn lleihau o gymharu â'r canfyddiadau cyffredinol er bod yr effaith dymor byr yn hirach na'r canfyddiadau o effeithiau cyffredinol (12 mis yn hytrach na 6 mis). Yn gyffredinol, awgryma'r canfyddiadau hyn fod ymyraethau ysgol yn dangos effeithiau cadarnhaol ar leihau gwaharddiadau yn y tymor byr, ond efallai nad yw'r effeithiau'n cael eu cynnal yn fwy hirdymor er bod llai o dystiolaeth bendant ynghylch hyn.

Cyflawnwyd meta-ddadansoddiad gan Mielke a Farrington (2021) hefyd, gan edrych yn benodol ar hap-dreialon rheoli rhwng 2008 a 2019 a oedd ag o leiaf 100 o fyfyrwyr a chofnodion swyddogol o ardal yr ysgol o naill ai wahardd am gyfnod penodol neu arestio. Canfuwyd 14 o astudiaethau o'r fath, yn bennaf yn yr Unol Daleithiau ac a gyflawnwyd mewn cymdogaethau incwm isel. Roeddent yn rhoi sylw i amrywiaeth o ymyraethau a dulliau gan gynnwys arferion adferol cyffredinol, cymorth academaidd a therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT), a'r rhain ar waith am gyfnodau'n amrywio o bump i 165 o oriau (gan

adlewyrchu gwahanol amcanion, fformatau, dwysedd a chyfraddau cyfranogi yr ymyraethau). Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod:

- Yn gyffredinol, yr ymyraethau wedi dangos lleihad bach ond heb fod yn ystadegol arwyddocaol mewn gwaharddiadau cyfnod penodol.
- Ymyraethau cyffredinol yn tueddu i leihau gwaharddiadau cyfnod penodol yn fwy nag ymyraethau wedi eu targedu ar fyfyrwyr sydd ag anghenion ychwanegol.
- Ymyraethau mewn ysgolion uwchradd yn lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol yn sylweddol, lle nad oedd y rheini mewn ysgolion elfennol (ysgolion cynradd) yn gwneud hynny.
- Ymyraethau a gynlluniwyd yn benodol i leihau gwaharddiadau cyfnod penodol yn gwneud hynny i'r un graddau ag ymyraethau a oedd yn fwy cyffredinol ac wedi eu targedu tuag at leihau gwaharddiadau cyfnod penodol.

Ymarferiad ystadegol oedd astudiaeth Mielke a Farrington (2021) yn bennaf ac nid oedd yn ceisio esbonio pam, o safbwynt cynllunio na gweithredu, fod rhai ymyraethau wedi bod yn fwy effeithiol nag eraill wrth leihau gwaharddiadau cyfnod penodol. Fodd bynnag, canfuont un thema gyffredin, sef bod yr ymyraethau hynny a oedd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar waharddiadau cyfnod penodol yn ceisio datbygu sgiliau plant mewn rheoli ymddygiad ac emosiynau, boed hynny trwy sesiynau un-i-un (ee y Rochester Resilience Project) neu raglenni yn yr ystafell ddosbarth (ee, Positive Action).

**Ymyraethau a dulliau yn yr adolygiad hwn**

Roedd astudiaethau Valdebenito et al. (2018) a Mielke a Farrington (2021) yn helpu gosod canllawiau i arwain cwmpas a phwyslais yr adolygiad hwn[23]. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2, roedd canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o feysydd ymchwil uniongyrchol yr astudiaeth hon hefyd yn dylanwadu o ran pa ymyraethau y canolbwyntiwyd arnynt yn yr adolygiad llenyddiaeth.

[23] Gan gyfeirio'n benodol at ganfyddiadau Valdebenito, mae'n werth nodi yma na chynhwyswyd hyfforddiant sgiliau i athrawon (un o'r dulliau a grybwyllwyd fel un effeithiol wrth leihau gwaharddiadau, er bod hyn ar sail sampl o dair astudiaeth yn unig) yn yr adolygiad llenyddiaeth fel ymyraeth sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Mae hyn oherwydd ei fod eisoes yn ymddangos mewn amryw o'r ymyraethau eraill, yn enwedig wrth drafod y ffactorau sy'n sail i weithredu llwyddiannus. O'r herwydd, mae'r adolygiad wedi trin hyfforddiant staff fel thema drawsbynciol yn hytrach nag ymyrraeth benodol
.

**Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol *(Emotional Literacy Support Assistants – ELSA )***

*Cyflwyniad*

Mae ymyrraeth ELSA, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Sheila Burton, wedi cael ei gynllunio i gynyddu gallu ysgolion i gefnogi anghenion emosiynol eu plant o fewn eu hadnoddau eu hunain (ELSA Network, 2017). Mae cynorthwywyr ELSA yn cyflwyno rhaglenni i gefnogi sgiliau emosiynol a chymdeithasol plant gan gynnwys llythrennedd emosiynol, cyfeillgarwch a chwarae, rheoli emosiynau a sgiliau ar gyfer dygymod â phryderon, galar a cholled, gan helpu plant i reoli eu hemosiynau eu hunain.

Mae rhaglen ELSA yn golygu bod cynorthwywyr addysgu yn cael eu hyfforddi gan seicolegwyr addysgol i ddarparu'r cymorth emosiynol a chymdeithasol hwn i fyfyrwyr. Mae hyfforddiant yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau gan gynnwys theori seicolegol, diogelwch a pherthynas, gwrando gweithredol, cymhwysedd emosiynol, colled a phrofedigaeth, adeiladu perthynas a hunan-barch. Er mwyn i gynorthwywyr ELSA gael eu cymeradwyo gan Rwydwaith ELSA, rhaid iddynt gael eu cyflogi mewn sefydliad addysgol (neu sefydliad arall sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc), bod wedi cwblhau'r cyfan o'r hyfforddiant a rhaid iddynt dderbyn cymorth rheoli llinell a goruchwyliaeth gan seicolegydd addysgol.

*Effeithiolrwydd ELSA*

Mae gwefan ELSA Network (2017) yn rhoi dolenni i fwy na 25 o adroddiadau gwerthuso sydd wedi archwilio gweithgarwch ac effeithiolrwydd ymyraethau ELSA ledled Cymru a Lloegr. Mae canlyniadau'n cynnwys hunan-effeithiolrwydd emosiynol sylweddol uwch mewn plant a chynorthwywyr cymorth, cynnydd yng nghanfyddiadau'r athro o lythrennedd emosiynol y plentyn, effeithiau cadarnhaol ar gynnydd disgyblion ac ar lythrennedd emosiynol ac ymddygiad disgyblion, ac effaith gadarnhaol ar ddeallusrwydd a sgiliau emosiynol cynorthwywyr addysgu. Mae rhai enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Gwerthusiad o effaith ELSA, a gwblhawyd gan wasanaeth Seicoleg Addysgol Hampshire (2010) i blant sy'n mynychu ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd y gwerthusiad hwn yn cynnwys plant oed cynradd ac uwchradd a oedd naill ai wedi derbyn cymorth ELSA (grŵp ymyrraeth) neu a oedd yn disgwyl am dderbyn cymorth ELSA (grŵp rheoli). Casglwyd data cyn- ac ôl-ymyrraeth ar lythrennedd emosiynol a

oedd yn awgrymu bod cymorth ELSA yn arwain at welliannau mewn empathi, hunan-ymwybyddiaeth, sgiliau cymdeithasol, symbyliad a hunan-reolaeth, yn enwedig mewn plant oed ysgol gynradd, o gymharu â'r rheini yn y grŵp rheoli.

- Roedd adroddiad gwerthuso'r rhaglen ELSA rhwng 2014-15 yng Ngorllewin Sir Gaer a Chaer (2016) yn amlygu'r effaith a gafodd rhaglen ELSA o fewn ysgolion. Ar draws sampl o 47 o gynorthwywyr ELSA, dywedodd 91 y cant eu bod yn credu eu bod wedi galluogi canlyniadau gadarnhaol, gan gynnwys gwydnwch, presenoldeb a chydweithredu ag addysg. Canfu rheolwyr llinell y cynorthwywyr ELSA well canlyniadau o ganlyniad i'r cymorth ELSA. Er bod effeithiau cadarnhaol wedi cael eu hadrodd, dylid nodi bod y canlyniadau hyn yn seiliedig ar adroddiadau canfyddedig gan y rheini a oedd yn cyflwyno'r rhaglen (cynorthwywyr ELSA a'u rheolwyr llinell) ac y byddai mesurau mwy trylwyr a chadarn o ganlyniadau yn cynyddu hyder yn effaith y rhaglen ELSA. Yn ogystal, adroddwyd y canlyniadau hyn bum mis yn unig ar ôl i'r cynorthwywyr ELSA gwblhau eu hyfforddiant ac felly nid yw'r effeithiau mwy hirdymor yn glir.

Nid yw'r adroddiadau gwerthuso ar wefan rhwydwaith ELSA yn mesur effaith cymorth ELSA ar waharddiadau, ond maent yn cynnwys adborth ansoddol, fel arfer yn ffurf dyfyniadau gan brifathrawon neu eraill o staff ysgolion, sy'n awgrymu bod – yn eu barn hwy – yr ymyraethau ELSA wedi arwain at lai o waharddiadau.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Mae rhwydwaith ELSA yn amlinellu 'cod ymddygiad' ar gyfer gweithredu'r ymyrraeth yn effeithiol, gan bwysleisio pwysigrwydd cynllunio rhaglenni cymorth, cyfathrebu gyda rhieni, sesiynau rheolaidd, a chefnogaeth gan arweinwyr ysgolion. Er y gall gwaith grŵp fod yn fuddiol ar gyfer rhai dibenion, rhybuddir yn erbyn hynny ar gyfer rheoli dicter. Mae cyfyngiadau ar rôl ELSA mewn amrywiol ysgolion yn cynnwys materion fel cyllid, dyraniad amser, cydweithrediad rhieni, ac graddau mae ystafelloedd neu leoedd penodol ar gael ar gyfer sesiynau.

Mae rhai o'r adroddiadau gwerthuso y cyfeirir atynt ar wefan ELSA Network (2017) yn ystyried cyfyngiadau sy'n effeithio ar rôl cynorthwywyr ELSA mewn ysgolion penodol neu ardaloedd lleol, megis:

- **Diffyg cyllid:** Adroddir bod rhai cynorthwywyr ELSA wedi prynu adnoddau i gefnogi plant gan ddefnyddio eu harian eu hunain.
- **Amser a ddyrennir:** Gall y galw am gymorth ELSA weithiau fod yn fwy na'r amser a'r adnoddau sydd ar gael. Mae cynorthwywyr ELSA wedi dweud hefyd na ddyrennir amser cynllunio digonol iddynt neu eu bod wedi gorfod cyflenwi gwersi ystafell ddosbarth gan eu gadael heb fod yn gallu rhedeg sesiynau ELSA.
- **Cydsyniad/cydweithrediad rhieni:** Er gwaethaf eu hymdrechion gorau, gall cynorthwywyr ELSA ei chael yn anodd cynnwys rhieni yn llwyddiannus yn y gwaith maent yn ei wneud gyda'u plentyn.
- **Ystafelloedd:** Mae rhai cynorthwywyr ELSA heb ystafell/lleoliad parhaol wedi ei ddyrannu ar eu cyfer i gynnal sesiynau, a all lesteirio effeithiolrwydd a pharhad eu gwaith.

**Gwella sgiliau academaidd**

*Cyflwyniad*

Mae gwella sgiliau academaidd yn y cyd-destun hwn yn golygu rhaglenni neu weithgareddau yn targedu plant penodol sy'n wynebu anawsterau academaidd yn yr ysgol. Gallent hefyd fod yn ymddieithrio o wersi ac yn arddangos ymddygiad heriol (Gaffney et al., 2021), ac felly nod rhaglenni o'r fath yw cefnogi anghenion academaidd dysgwyr a all leihau'r risg o ymddygiad heriol a gwaharddiad.

Gall gweithgareddau ac adnoddau gynnwys:

- Addysgu manwl – a gaiff ei gynllunio i wella cywirdeb darllen, sillafu a mathemateg.
- Llawlyfrau darllen ar sail ffoneg i helpu plant sy'n ei chael yn anodd darllen.
- Meddalwedd penodol i gefnogi plant sydd â dyslecsia.
- Tiwtora.

*Effeithiolrwydd gwella sgiliau academaidd*

Cyfyngedig yw'r ymchwil yn y Deyrnas Unedig sy'n trafod tiwtora academaidd neu wella sgiliau academaidd fel ymyrraeth benodol a luniwyd i helpu rhwystro gwaharddiadau. Fodd bynnag, crybwyllwyd gwella sgiliau academaidd yn Valdebenito et al. (2018), gan ddefnyddio canfyddiadau o ddwy astudiaeth yn yr Unol Daleithiau:

- Cyflawnodd Cook et al. (2014) hap-dreial rheoli o ymyrraeth a oedd yn darparu cymorth academaidd mewn mathemateg, a chymorth anacademaidd seiliedig ar egwyddorion therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) i 106 o blant 14-16 oed o gefndiroedd difreintiedig mewn ysgol uwchradd yn Chicago. Roedd y cymorth academaidd yn golygu tiwtora mathemateg unigoledig dau-ar-un (dau blentyn i bob un aelod o staff) am un awr y diwrnod dros flwyddyn ysgol lawn. Roedd bron bawb o'r plant a dderbyniodd y cymorth yn gymwys am brydau ysgol am ddim ac roedd y mwyafrif wedi cael diagnosis o anabledd dysgu (nid yw'r adroddiad yn rhoi dim manylion pellach ar y math o'r anableddau dysgu hyn, na'u difrifoldeb). Daw'r adroddiad i'r casgliad fod gwaharddiadau cyfnod penodol wedi gostwng ymysg y rheini a dderbyniodd y cymorth academaidd, ynghyd â'r ymyrraeth academaidd yn arwain at lai o ddyddiau ysgol yn cael eu colli yn y flwyddyn academaidd 2012-2013 (cyfartaledd o 13 yn llai o ddyddiau yn cael eu colli fesul disgybl ar draws y sampl o 98 o ddisgyblion) a gwelliant yn eu symbyliad. Fodd bynnag, oherwydd gwyriad safonol uchel yn y data, nid oedd yn bosibl haeru bod y gostyngiadau yn ystadegol arwyddocaol.
- Cyflawnodd Edmunds et al. (2012) astudiaeth arbrofol o effaith y 'model ysgolion uwchradd coleg cynnar' ar ganlyniadau Gradd 9 (Blwyddyn 10 ym Mhrydain) yng Ngogledd Carolina. Mae i ysgolion uwchradd colegau cynnar y nod o gynyddu'r nifer o blant sy'n graddio o'r ysgol uwchradd a'r nifer sy'n mynd ymlaen i addysg ôl-uwchradd ac maent wedi eu cynllunio i gyflymu cynnydd academaidd plant gan leihau neu ddileu unrhyw rwystrau y gellir eu hwynebu rhwng yr ysgol a'r coleg. Mae'r ysgolion hyn, sydd wedi eu lleoli'n bennaf ar gampysau colegau, yn galluogi plant i raddio gyda diploma ysgol uwchradd, gradd gyswllt a/neu hyd at ddwy flynedd o gredyd coleg, a/neu fanylion gwaith ardystiedig. Maent yn cofrestru plant o gefndiroedd difreintiedig, gan gynnwys y rheini sydd ar incwm isel, y cyntaf yn eu teulu i fynd i goleg, neu aelod o grŵp lleiafrifol, gan ddarparu cyrsiau carlam ar y cyd â chymorth bugeiliol. Canfu Edmunds et al. (2012) fod cyfran ystadegol arwyddocaol a sylweddol uwch o blant a oedd yn mynychu ysgolion uwchradd coleg cynnar yng Ngogledd Carolina yn cymryd cyrsiau coleg paratoadol craidd ac yn llwyddo, ynghyd â bod gwaharddiadau cyfnod penodol ymysg y grŵp hwn yn ystadegol is nag ymysg grŵp rheoli mewn ysgolion uwchradd confensiynol.

Yn ogystal, cyflawnodd Kremer et al. (2015) adolygiad a meta-ddadansoddiad systematig o 24 o astudiaethau i archwilio effeithiau rhaglenni ar-ôl-ysgol ar ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgol. Roedd rhaglenni ar-ôl-ysgol yn yr achos hwn yn cynnwys gweithgareddau chwarae a chymdeithasu, cyfoethogi academaidd a help gyda gwaith cartref, byrbrydau, gwasanaeth cymunedol, chwaraeon a chelf a chrefft. Canfuont nad oedd, ar gyfartaledd, plant a oedd yn cymryd rhan mewn rhaglenni ar-ôl-ysgol yn arddangos gwell ymddygiad na phresenoldeb yn yr ysgol o gymharu â phlant yn y grwpiau cymharu. Fodd bynnag, gellid dadlau y byddai unrhyw effeithiau cyfoethogi academaidd wedi eu cuddio o fewn yr agweddau eraill a gyflwynwyd o fewn y rhaglen ar-ôl-ysgol hon.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Er mwyn gwella sgiliau academaidd, mae angen i ysgolion allu adnabod plant sydd angen cymorth yn y meysydd penodol hyn a gallu gweithredu'r rhaglenni gofynnol (Gaffney et al., 2021). Lle bo hyn yn digwydd, gall plant ddechrau ailgydio mewn addysg a lleihau ymddygiad heriol a allai fod, cyn y rhaglenni, wedi arwain at fod mewn risg o waharddiad cyfnod penodol neu barhaol.

**Gwaharddiadau mewnol**

*Cyflwyniad*

Mae 'gwaharddiadau mewnol' neu, yn benodol, i leoliad dynodedig o fewn yr ysgol, gyda chymorth addas, neu i ddosbarth arall dro, yn un o'r atebion eraill yr awgryma Canllawiau Llywodraeth Cymru (2019a) y dylid eu hystyried cyn gwaharddiad parhaol neu gyfnod penodol.

Mae gwahardd mewnol yn derm eang o fewn y llenyddiaeth sydd ar gael, ond yn aml, caiff ei ddiffinio fel pan fo plentyn yn cael ei dynnu oddi wrth ei ystafell ddosbarth brif ffrwd reolaidd a'i roi mewn lleoliad dynodedig o fewn yr ysgol am gyfnod penodol o amser. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff y plentyn ei wahanu oddi wrth ei gyfoedion a gall dderbyn cymorth ychwanegol, gan ddibynnu ar bolisïau'r ysgol. Gall gwahardd mewnol gynnwys ffurfiau mwy cefnogol o wahanu megis cymorth dysgu, cynhwysiant a grwpiau anogaeth. Gall hefyd gwmpasu lleoedd ynysu a chael ei ddefnyddio fel dull disgyblu, er gwaethaf canllawiau nad yw'r ffurfiau hyn o wahardd yn ddefnyddiol o fewn ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Awgryma'r llenyddiaeth sydd ar gael mai cyfyngedig yw'r ymchwil ynghylch gwaharddiadau mewnol, er ei fod yn arfer sydd wedi ei hen sefydlu ei hun mewn ysgolion ledled y Deyrnas Unedig (Walker, 2022).

*Effeithiolrwydd gwaharddiadau mewnol*

Cyflawnodd Mills (2018) asesiad cyflym o'r dystiolaeth ar waharddiadau mewnol, yn cynnwys cyfweliadau gyda staff mewn 276 o ysgolion a 200 o ddarparwyr amgen yn Lloegr. Canfuont fod:

- Staff yn gweld unedau gwahardd mewnol fel pwynt hanner ffordd rhwng ystafell ddosbarth brif ffrwd a gwahardd plentyn.
- Natur yr unedau yn amrywio'n fawr, gyda rhai ysgolion yn rhoi pwyslais ar gosbi, sef defnyddio gwaharddiadau mewnol fel ffurf o gosbi, tra bod eraill yn eu defnyddio mewn ffordd fwy cefnogol, gan gynnig dysgu wedi'i deilwra nad oedd ar gael i'r un graddau yn ystafell ddosbarth brif ffrwd y plentyn.
- Lle'r oedd staff ysgolion yn teimlo bod gwaharddiadau mewnol wedi bod yn effeithiol, roedd hyn oherwydd yr amser a'r lle a roddwyd i blant edrych yn ôl a meddwl am ddigwyddiadau ac ymddygiadau a arweinodd at iddynt fod yno yn y lle cyntaf.

Ymchwiliodd Golding (2021)[24] pa mor gyffredin ac effeithiol oedd gwaharddiadau mewnol yn Lloegr trwy arolygon gyda staff ysgolion (94 o ymatebwyr) a seicolegwyr addysgol (83 o ymatebwyr), a chyfweliadau lled-strwythuredig gyda naw o arweinwyr ysgol. Canfuont fod:

- Gwaharddiadau mewnol yn gyffredin iawn ledled Lloegr ond eu bod yn amrywio yn y ffordd y cânt eu gweithredu.
- Nifer cynyddol o blant mewn unedau gwahardd mewnol, gydag ymatebion i'r arolwg a data cyfweliadau yn awgrymu mai'r un plant yn aml sy'n cael eu hanfon yno dros gyfnodau estynedig o amser.
- Plant sydd ag ADY yn mynychu unedau gwahardd mewnol yn amlach na'u cyfoedion, sydd, awgryma'r awduron, yn amlygu'r angen am eglurder yng nghanllawiau'r llywodraeth ynghylch polisi ac arferion yr amgylchedd gwahardd mewnol.

[24] Nid yw hwn yn bapur a adolygwyd gan gymheiriaid.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Er mwyn i waharddiadau mewnol gael eu gweithredu'n llwyddiannus, ac er mwyn iddynt rwystro gwaharddiadau cyfnod penodol neu barhaol, mae angen iddynt fod yn amgylchedd dysgu cefnogol i blant yn hytrach na chael eu defnyddio ar gyfer swyddogaeth gosbedigol, ddisgyblaethol (Golding, 2021).

Mae angen hefyd i leoedd neu unedau gwahardd mewnol gael y gymhareb gywir rhwng staff a phlant er mwyn gallu hwyluso'r gwaharddiad mewnol â'r graddau iawn o gymorth a dysgu i blant. Pe na bai hyn ar gael, awgrymwyd y gallai fod yn rhwystr posibl rhag sicrhau bod perthynas gadarnhaol yn cael ei datblygu a bod plant yn dal i allu cael y graddau iawn o addysg a chymorth mae arnynt ei angen.

Mae Mills (2018) yn nodi hefyd bod, er gwaethaf ysgolion yn sôn yn aml am waharddiadau mewnol fel modd o leihau gwaharddiadau cyfnod penodol neu barhaol, mewn gwirionedd ddiffyg tystiolaeth ddibynadwy o'u heffaith gan nad yw ysgolion yn arferol yn cyflawni gwerthusiadau ffurfiol a all ddangos effaith yn gywir.

**Symud drwy drefniant**

*Cyflwyniad*

Os yw ysgol yn teimlo nad ydynt yn gallu cefnogi plentyn sydd mewn risg o waharddiad, gall yr ysgol drefnu, fel arfer trwy'r awdurdod lleol, i'r plentyn gael dechrau o'r newydd mewn ysgol arall. Caiff hyn ei adnabod fel 'symud drwy drefniant'.

Mae Llywodraeth Cymru (2011) yn darparu canllawiau i ysgolion, awdurdodau lleol a theuluoedd ar y broses hon. Mae'r canllawiau'n datgan y canlynol:

- Ni ddylid symud drwy drefniant ond gyda gwybodaeth a chydweithrediad llawn pawb perthnasol, gan gynnwys y rhieni a'r awdurdod lleol, a dim ond mewn amgylchiadau lle mai hyn sydd orau i'r plentyn.
- Ni ddylid rhoi pwysau ar rieni i dynnu eu plentyn o'r ysgol o dan fygythiad gwaharddiad parhaol, ac ni ddylai plentyn ychwaith gael ei dynnu o gofrestr yr ysgol er mwyn eu hannog i geisio lle mewn ysgol arall.
- Cyn ystyried symud drwy drefniant, mae'n bwysig darganfod pam fod y plentyn yn profi anawsterau yn yr ysgol. Efallai na fyddai fawr o fudd mewn symud plentyn sydd â phroblemau ymddygiad, er enghraifft, heb helpu'r plentyn i ddysgu sgiliau i ryngweithio

â chyfoedion ac athrawon. Os yw'r problemau craidd wedi eu gwreiddio mewn materion teuluol, yna mae symud plentyn heb ddatrys y problemau hyn hefyd yn annhebygol o fod yn llwyddiannus.

*Effeithiolrwydd symudiadau drwy drefniant*

Canfu adolygiad systematig gan Messeter a Soni (2018) rywfaint o dystiolaeth galonogol ar y defnydd o symud drwy drefniant fel dewis arall yn lle gwahardd yn y Deyrnas Unedig o ran lleihau gwaharddiadau a gwella cyrhaeddiad. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys naw astudiaeth ar symud drwy drefniant, gyda chyfanswm cyfunol o 103 o gyfranogwyr (35 o blant a oedd wedi profi symudiad drwy drefniant, 16 o rieni, 39 o staff ysgolion a 13 o swyddogion awdurdodau lleol). Canfu'r awduron amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc o ganlyniad i symud drwy drefniant. Y canlyniadau a adroddwyd amlaf oedd: Dechrau newydd i'r plentyn, datblygu perthynas gadarnhaol newydd ag eraill, gwella cynnydd a dysgu, gwella llesiant emosiynol, ac ymddygiad yn unol â'r hyn sydd ddisgwyliedig. Doedd dim tystiolaeth a oedd y symudiadau drwy drefniant yn rhwystro gwaharddiadau. Daw'r awduron i'r casgliad fod angen ymchwil pellach i'r broses symud drwy drefniant, yn enwedig defnyddio data ar ganlyniadau hirdymor i blant, er mwyn gallu dod i'r casglu fod symud drwy drefniant yn ddewis arall llwyddiannus a chynaliadwy yn lle gwahardd.

Fe wnaeth adroddiad a gynhyrchwyd gan Estyn (2018a) archwilio'r defnydd o symudiadau drwy drefniant gan awdurdodau lleol ac ysgolion ledled Cymru, gan edrych hefyd ar sut y gallant gefnogi plant sydd mewn risg o gael eu gwahardd neu o ymddieithrio. Canfuont y canlynol:

- Fod meini prawf clir a chyson wrth dderbyn ac ymadael ar gyfer cymorth oddi ar y safle (megis symud drwy drefniant, cwricwlwm amgen, addysg heblaw yn yr ysgol a lleoliadau arbenigol) yn bwysig.
- Mae symudiadau drwy drefniant yn gweithredu fwyaf effeithiol lle bo ysgolion yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol drwy gydol y broses.
- Symud drwy drefniant fel arfer yw'r cam olaf pan fo pob strategaeth arall wedi methu, a gwaharddiad parhaol yn hynod debygol.

- I blant yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2, mae symud drwy drefniant yn aml yn cynnig dechrau newydd, gall leihau'r risg o waharddiad a gall helpu plant i (ail)gydweithredu mewn dysgu. I'r plant hyn, dywed yr awduron nad yw symud drwy drefniant a gynlluniwyd yn dda yn cael effaith hirdymor negyddol yn gyffredinol ar eu profiadau dysgu ac yn sgil hynny ar y canlyniadau maent yn eu cyflawni ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

Roedd ymchwil a gyhoeddwyd gan Thomson (2019) yn cymharu nodweddion plant yn Mlwyddyn 9 a 10 yn Lloegr a oedd naill ai wedi cael eu gwahardd yn barhaol neu wedi profi symudiad drwy drefniant yn 2015/16. Canfu'r ymchwil:

- Fod plant a brofodd symudiad drwy drefniant yn fwy tebygol o fod yn ferched, ond yn llai tebygol o fod yn absennol yn barhaus, o gael lefelau isel o gyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2 a/neu o fod wedi profi gwaharddiadau cyfnod penodol na'r rheini a oedd wedi cael eu gwahardd yn barhaol.
- Mae cyfyngiadau data yn rhwystro llunio casgliad cadarn, ond mae arwydd fod plant sydd wedi cael eu symud drwy drefniant yn cyflawni, ar gyfartaledd, lefelau ychydig uwch o gyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4 na'r rheini sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Yn yr adolygiad systematig a ddisgrifir uchod, awgryma Messeter a Soni (2018) fod nifer o ffactorau'n cyfrannu at symudiad llwyddianns drwy drefniant:

- Cyfle i'r plentyn ddatblygu perthynas newydd gyda staff a chyfoedion, gan feithrin teimlad o berthyn yn eu hamgylchedd newydd. Roedd athrawon yn cydnabod pwysigrwydd perthynas gefnogol â staff er mwyn helpu i'r plant deimlo'n bod yn cael eu cynnwys a'u croesawu ac yn ddiogel yn eu hysgol newydd, gyda rhieni yn yr astudiaethau yn cydnabod bod hyn yn cael ei gyflawni trwy ymroddiad gan staff. I'r plant yn yr astudiaethau, roedd y gallu i feithrin perthynas newydd yn penderfynu a oeddent yn gweld eu lleoliad ysgol newydd yn llwyddiannus neu beidio.
- Cyfathrebu effeithiol rhwng yr holl randdeiliaid (ysgolion, awdurdod lleol, rhieni a phlant).
- Cynllun cymorth personoledig a bugeiliol i'r plentyn.

- Mae gwrando ar lais y plentyn yn bwysig. Canfuwyd bod llesiant emosiynol plant yn amrywio yn ôl eu teimladau o “ymgysylltiad cymdeithasol”, megis plentyn yn teimlo gofid wrth adael ei ffrindiau cyn y symud drwy drefnaint a byddai’n profi’r emosiynau hyn hyd nes y byddai wedi sefydlu perthynas ag eraill yn ei ysgol newydd.

Un o gyfyngiadau pwysig adolygiad systematig Messeter a Soni (2018) oedd i’r ymgynghori â’r cyfranogwyr o fewn y naw astudiaeth gael ei wneud o fewn blwyddyn i’r symudiad drwy drefniant ddigwydd, felly doedd dim gwybodaeth ar gael am ganlyniadau mwy hirdymor. Mae’r adolygiad yn brin hefyd o fanylion am yr awdurdodau lleol a oedd yn rhan o’r astudiaeth ac felly nid yw’r adolygiad yn rhoi golwg gyffredinol gynhwysfawr ar sut y defnyddir symudiadau drwy drefniant ledled Lloegr, gydag arferion yn ymddangos fel pe baent yn amrywio’n helaeth. Golyga hyn fod rheswm i gredu na fyddai symudiadau drwy drefniant mor effeithiol wrth leihau gwaharddiadau a gwella cyrhaeddiad ym mhob ardal awdurdod lleol oherwydd eu lleoliad a dosbarthiad daearyddol. Gallai awdurdodau lleol gwledig fod â’r ysgol agosaf i’r un bresennol 25 milltir i ffwrdd, gan golygu y gallai symud drwy drefniant fod yn anymarferol ac yn peri anghyfleustra i’r teulu.

Mae Estyn (2018a) yn adrodd bod symud drwy drefniant yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan fo ysgolion ac awdurdodau lleol yn gweithio’n dda gyda phlant a’u teuluouedd ac yn defnyddio hyn fel strategaeth ymyrraeth gynnar. Os caiff ei ddefnyddio fel y cam olaf, mae’r berthynas gyda’r ysgol wreiddiol yn aml wedi chwalu, cyfyngedig yw’r potensial o ddychweld i’r ysgol hynny a gall plant yn aml ddangos graddau uchel o ymddieithrio. Yn yr achosion hyn, mae plant yn fwy tebygol o’i chael yn anodd setlo yn yr ysgol sy’n eu derbyn ac o ganlyniad o gael eu symud i uned cyfeirio disgyblion neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn hirdymor.

Rhaid i amseru symudiad drwy drefniant gael ei ystyried yn ofalus – yn enwedig sut mae’n cyfateb i’r plentyn yn cychwyn Cyfnod Allweddol 3 neu 4 ac unrhyw effaith ar asesiadau athrawon neu arholiadau (Estyn, 2018a). Mae Jones (2020) yn nodi hefyd fod y tarfu posibl wrth symud ysgol yng Nghyfnod Allweddol 4, ac mae Llywodraeth Cymru (2011) yn nodi y gall plant sydd fwy nag un tymor i mewn i’w cyrsiau arholiad ym Mlwyddyn 10 wynebu anawsterau os ydynt yn symud ysgol, gan gynnwys canlyniadau gwaelach mewn arholiadau.

**Mentora**

*Cyflwyniad*

Mae mentora'n golygu paru plentyn sydd mewn addysg gynradd neu uwchradd â chyd-ddisgybl hŷn neu oedolyn sy'n cynnig cymorth un-i-un ac sy'n gweithredu fel esiampl cadarnhaol. Gall y mentor fod yn wirfoddolwr neu gall fod yn arbenigwr sydd wedi cael ei hyfforddi i weithio gyda phlant mewn risg o waharddiad cyfnod penodol neu barhaol.

Mae mentoriaid yn arfer cyfarfod gyda phlant un-i-un yn rheolaidd ar amlder y cytunwyd arno (ee, yn wythnosol) dros gyfnod sylweddol – yn arferol un tymor ysgol, un flwyddyn ysgol neu fwy. Gall sesiynau mentora ddigwydd yn ystod y diwrnod ysgol, ar ddiwedd y diwrnod ysgol neu ar benwythnosau. Mewn rhai achosion, bydd mentoriaid yn cyfarfod eu 'disgyblion' mewn grwpiau bach. Gall mentoriaid ymwneud â gwasanaethau neu weithwyr proffesiynol eraill hefyd sy'n gweithio gyda'r plentyn a/neu ei deulu i helpu sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r problemau, yr amcanion a'r ymyraethau a weithredir.

Nod mentora yw gweithio trwy adeiladu hyder y dysgwr a gwella'i berthynas ag eraill, gan ddatblygu gwydnwch a chymeriad, a/neu godi dyheadau (Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF), 2021a).

Gall mentoriaid gynnig cymorth i blant ar sail eu hanghenion unigol a sgiliau a phrofiad y mentor. Gall pynciau gynnwys (er nad ydynt o angenrheidrwydd wedi eu cyfyngu i'r rhain): strategaethau hunan-reoli, hunan-ganfyddiad a hunan-gred, dyheadau am astudiaethau a dewisiadau gyrfa yn y dyfodol, agweddau at yr ysgol a sgiliau academaidd neu wybodaeth benodol. Trwy ganolbwyntio ar anghenion unigol y plant, gall rhaglenni mentora roi i blant y canllawiau, cymorth a'r adnoddau sydd eu arnynt hangen i oresgyn yr heriau hyn a pharhau i gydweithredu yn eu haddysg, a allai fod yn fuddiol i'r rheini sydd mewn risg o waharddiad.

*Effeithiolrwydd mentora*

Mae tystiolaeth galonogol ar effeithiolrwydd mentora wrth helpu i leihau lefelau gwaharddiadau o'r ysgol a'r effaith gyffredinol y gall mentora ei chael ar blant oedran ysgol. Er hynny, roedd awduron yn nod niferoedd cyfyngedig o astudiaethau arbrofol (Beattie et al., 2016).

Cyflawnwyd meta-ddadansoddiad gan Valdebenito et al. (2018) a ganfu fod mentora yn cael effaith gadarnhaol ar waharddiadau o'r ysgol. Ymddengys fod mentora yn gyffredinol yn ymyrraeth effeithiol ar gyfer lleihau trais ac ymddygiad sy'n tarfu ar eraill o fewn yr

astudiaethau a ddadansoddwyd. Fodd bynnag, er bod meintiau'r effeithiau yn yr astudiaethau mentora yn sylweddol ac ymysg yr uchaf o gymharu ag ymyraethau eraill, cymedrol oeddent.

Fe wnaeth Beattie et al. (2016) asesu pa mor ddichonadwy a derbyniol fyddai cyflawni hap-dreial rheoli o raglen 'Breakthrough Mentoring' – a gefnogwyd gan Gyngor De Swydd Gaerloyw, gyda mentoriaid a oedd yn oedolion taledig yn darparu mentora un-i-un i fyfyrwyr ysgol uwchradd (rhwng 12 a 16 oed). Cafodd cyfanswm o 21 o blant eu dyrannu ar hap i ddau grŵp: gydag un grŵp yn derbyn sesiynau mentora dwyawr wythnosol am un flwyddyn academaidd (11 o blant); a'r grŵp arall yn derbyn gofal fel arfer (10 o blant). Gofynnwyd i'r plant gwblhau holiaduron hunan-adrodd a chymryd rhan mewn cyfweliadau. Digwyddodd cyfweliadau ansoddol hefyd gyda rhieni, staff ysgol, mentoriaid, a chomisiynwyr fel rhan o werthuso'r broses. Er bod y rhai a gymerodd ran yn yr ymyrraeth yn dweud bod cael mentor nad oedd yn gysylltiedig â'u hysgol yn eu helpu i siarad am deimladau anodd ac ymdrin â hwy, ni wnaeth yr astudiaeth ymchwilio i effeithiolrwydd mentora, gyda disgwyl am dreial diffiniadol.

Fe wnaeth Brinkley, Sherar and Kinnafick (2022) werthuso pa mor dderbyniol a dichonadwy oedd ymyraeth seiliedig ar chwaraeon a gydgynhyrchwyd ac a oedd yn cynnwys mentora, chwaraeon, addysg a myfyrio i hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol, a chanlyniadau ymddygiadol ac addysgol cymdeithasol-gadarnhaol. Mewn un uned cyfeirio disgyblion yng nghanolbarth Lloegr, fe wnaeth 38 o blant (rhwng 11 a 16 oed), pump o staff cymorth, wyth o athrawon, wyth o fentoriaid a thri a randdeiliaid gymryd rhan yn y gwerthusiad. Cafodd yr astudiaeth ei gwerthuso mewn modd aml-ddull gan gynnwys cyfweliadau, gwaith ethnograffig ac astudiaeth cyn-arbrofol. Roedd canfyddiadau'n awgrymu bod chwaraeon yn ffordd ddichonadwy o gefnogi mentora, ac y gall cymryd rhan helpu i leihau rhai anawsterau wrth ennyn cydweithrediad mewn myfyrio ac addysg. Awgryma'r canfyddiadau cynnar hyn y gallai mentora trwy chwaraeon fod yn effeithiol i blant mewn unedau cyfeirio disgyblion o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol, a chanlyniadau ymddygiadol ac addysgol cymdeithasol-gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd yr awduron yn pwysleisio pwysigrwydd cynllun cydgynhyrchu cadarn ac ystyried llythrennedd ac emosiynol ac iechyd plant ar gyfer y math hwn o ymyrraeth.

Roedd y fenter gymdeithasol yn y Deyrnas Unedig, Think for the Future (2022), sy'n partneriaethu gyda dros 150 o ysgolion ac aml-academïau ledled y DU i weithredu ei

ymyrraeth fentora strwythuredig ei hun, yn adrodd am leihad o 15 y cant[25] mewn gwaharddiadau cyfnod penodol o ganlyniad i'w rhaglen fentora i 85 y cant o'r plant a gefnogwyd. Nod y rhaglen hon yw gweithio gyda phlant oed ysgol uwchradd i fynd i'r afael ag ymddieithrio o addysg gan ddefnyddio modelau rôl y gellir unieithu â hwy, a dysgu cymdeithasol ac emosiynol strwythuredig. Mae'r rhaglen yn targedu grwpiau o blant (y rheini sydd yn yr un flwyddyn neu flynyddoedd nesaf at ei gilydd) sy'n ymddieithrio o addysg, yn dangos tarfu lefel isel ar ddysgu, sydd â phresenoldeb isel, gwydnwch emosiynol isel neu sydd mewn risg o waharddiad. Mae'r mentora grŵp yn gweithio trwy bennu canlyniadau targed megis: lleihau pwyntiau ymddygiad negyddol (system bwyntiau a ddefnyddir weithiau mewn ysgolion i fonitro ymddygiad ac amlygu cydnabyddiaeth gadarnhaol), lleihau'r nifer o waharddiadau a chynyddu presenoldeb ac ymddygiadau cadarnhaol. Mae'r mentor o Think for the Future ar y safle o fewn yr ysgol yn rhedeg y sesiynau mentora grŵp (wyth i 15 o blant y sesiwn ar sail canlyniadau targed) ac mae'n cynnal pump i chwe sesiwn y dydd.

Er y caiff proses y ddarpariaeth fentora ei disgrifio yn fanwl o fewn ymchwil Think for the Future (2022), cyfyngedig yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar fethodoleg y ddarpariaeth ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau a ddisgrifir.

Mae astudiaethau eraill hefyd wedi canfod effeithiau cadarnhaol yn sgil mentora. Er enghraifft:

- Fe wnaeth Tolan et al. (2008), fel papur a adolygwyd yn Valdebenito et al. (2018), gyflawni meta-ddadansoddiad o ymyraethau mentora sydd wedi cael eu gwerthuso o ran eu heffeithiau ar ganlyniadau ymddygiad tarfol plant a phobl ifanc o dan 18 oed. Roedd yr astudiaethau a ddewiswyd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, canlyniadau llwyddiannau academaidd, defnydd o gyffurfiau a chanlyniadau ymosodedd. Mae patrymau'r effeithiau a ganfuwyd yn awgrymu y gall mentora fod yn werthfawr i'r bobl ifanc hynny sydd mewn risg o arddangos, neu sydd eisoes yn arddangos, ymddygiad sy'n tarfu ar eraill. Daethpwyd i'r casgliad fod mentora yn effeithiol wrth leihau ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, ymosodedd a defnydd o gyffuriau, a gwella llwyddiant academaidd i bobl ifanc. Er i Tolan et al. (2008) ganfod effeithiau arwyddocaol ond bach o ran maint, adroddwyd y dylid dehongli hyn â gofal oherwydd y cyfyngiadau mewn manylder a chymaradwyedd ar draws yr astudiaethau

[25] Nid yw hwn yn bapur a adolygwyd gan gymheiriaid

o ran beth oedd yn ffurfio gweithgarwch mentora a nodweddion gweithredu ym mhob un.

- Adroddodd y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021a) effaith gadarnhaol fach mentora ar gyrhaeddiad mewn meta-ddadansoddiad a oedd yn nodi papurau ymchwil lle defnyddiwyd yr ymyrraeth. Nod dadansoddiad y Sefydliad Gwaddol Addysgol oedd darparu gwybodaeth o ansawdd uchel i ysgolion am agweddau buddiol yr ymyrraeth ar sail tystiolaeth sydd ar gael. Roedd y papurau ymchwil hyn yn cynnwys sampl poblogaeth o blant a phobl ifanc rhwng tair a 18 oed. Er bod y gweithgarwch yn amrywio rhwng y papurau ymchwil a'i gilydd, roedd yr ymyraethau mentora yn cynnwys rhaglenni a oedd wedi eu diffinio'n glir a dulliau adnabyddadwy megis mentora gan gymheiriaid neu addysgu mewn grwpiau bach a oedd mewn rhai achosion yn ymestyn at gymorth academaidd. Adorddwyd effeithiau cadarnhaol bach ar gyfer plant a oedd wedi dilyn mentora o ran cyrhaeddiad, hyder ac ymddygiad, yn enwedig lle'r oedd rhaglenni â strwythur a disgwyliadau clir, yn darparu hyfforddiant a chymorth i fentoriaid, ac yn cynnwys cyfarfodydd rhwng y mentor a'r disgybl yn wythnosol o leiaf.
- Adroddodd yr EEF (2021a) dystiolaeth hefyd y gallai mentora fod yn arbennig o fuddiol i blant o gefndiroedd difreintiedig, gan gynnwys y rheini sy'n dangos cydweithrediad isel, neu ddisgwyliadau isel, o addysg.
- Adolygodd Eby et al. (2008) fentora ar draws tri maes o wahanol fathau o berthynas (pobl ifanc, academaidd a gweithle) i benderfynu ar faint cyffredinol yr effaith o ran canlyniadau mentora i ddisgyblion, ac a oedd canlyniadau ar gyfer y berthynas hon yn amrywio yn ôl y math o berthynas fentora (pobl ifanc, academaidd a gweithle). Awgryma Eby et al. (2008) fod mentora fel ymyrraeth â chysylltiad sylweddol â chanlyniadau ffafriol gan gynnwys rhai'n ymwneud ag ymddygiad, agwedd ac iechyd, a rhai rhyngbersonol. Er bod maint yr effaith yn gyffredinol fach, ymddengys fod mentora yn fwy cysylltiedig â rhai canlyniadau i ddisgyblion megis gwell agweddau at yr ysgol, hyn hytrach na chanlyniadau'n ymwneud â lleihau straen seicolegol i bobl ifanc.

*Gallogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Mae'r adroddiad gan yr EEF (2021a) uchod yn amlygu ystyriaethau defnyddiol ar sut i weithredu mentora effeithiol. Mae hyn yn cynnwys bod rhaglenni mentora sydd â strwythurau a disgwyliadau clir, hyfforddiant a chymorth i fentoriaid a sesiynau mentora cyson yn dangos effaith fwy cadarnhaol. Cyfeirir at hyn hefyd yn Tolan et al. (2008), lle awgrymwyd effeithiau cryfach pan oedd cymorth emosiynol yn un o brosesau allweddol y strwythur mentora mewn rhai papurau, ynghyd â bod ffactorau gweithredu gan gynnwys datblygu proffesiynol yn symbyliad amlwg i'r mentoriaid.

Fel y nodwyd yn Beattie et al. (2016), er mwyn i fentora gael ei weithredu'n llwyddiannus mae'n bwysig ystyried defnyddio mentoriaid sydd heb gysylltiad ag ysgol y plentyn. Y rheswm dros hyn, o gymharu â mentoriaid sy'n adnabyddus o fewn yr ysgol benodol, oedd bod plant yn teimlo'n fwy rhydd i siarad am deimladau anodd a ymdrin â hwy.

Roedd rhai a gafodd eu mentora yn adrodd am brofiadau negyddol ynghylch y ffordd y daeth y berthynas fentora i ben (Beattie et al., 2016). Awgryma hyn fod angen cymryd gofal wrth ddod â'r berthynas i ben, gyda lleihad graddol mewn cyswllt.

Mae astudiaeth yr EEF (2021a) yn adrodd bod effeithiau cadarnhaol mentora, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chyrhaeddiad a gwahardd, yn rhai dros dro fel arfer ac yn tueddu i beidio â chael eu cynnal unwaith mae'r mentora yn peidio. Mae hefyd risgiau sy'n gysylltiedig â pharu aflwyddiannus mentoriaid, a mentoriaid yn gadael, gan y gall y naill a'r llall gael effeithiau a chanlyniadau niweidiol ar y sawl a gaiff ei fentora a gallai fod yn rhwystr posibl yn y defnydd o fentora. Mae'r ddau bapur  ei bod, felly, yn bwysig ystyried ffyrdd y gellir cefnogi'r mentoriaid eu hunain yn eu gwaith a rhoi ystyriaeth ofalus wrth recriwtio mentoriaid dibynadwy. Cred yr awduron y byddai hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o weithredu mentora yn llwyddiannus.

Awgryma ymchwil menter Think for the Future (2022) fod angen mentora o fewn ysgolion am o leiaf un tymor llawn o'r flwyddyn ysgol er mwyn cael effaith gadarnhaol gynaliadwy hirdymor.

**Cwricwlwm wedi'i addasu**

*Cyflwyniad*

Cwricwlwm wedi'i addasu yw'r cwricwlwm safonol wedi ei ddiweddaru ar gyfer unigolyn i ddarparu mwy, neu lai, o ddysgu prif ffrwd a chymorth ychwanegol, i ddiwallu anghenion plentyn penodol. Gellir cynnig cwricwlwm wedi'i addasu i blant sy'n ei chael yn anodd mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac na ellir diwallu eu hanghenion yn y lleoliad hwnnw, fodd bynnag mae hyn yn ddibynnol ar awdurdodaethau mewn ardaloedd lleol ac efallai nad yw'n bosibl ledled Cymru gyfan. Gall cwricwlwm wedi'i addasu gynnwys y canlynol (Llywodraeth Cymru, 2019a):

- Cymysgedd o wersi prif ffrwd a gweithgareddau oddi ar y safle neu ddysgu yn yr awyr agored (gall hyn gynnwys chwaraeon, dysgu galwedigaethol neu brofiad gwaith).
- Cymorth ychwanegol ar gyfer gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd y tu allan i leoliad ystafell ddosbarth arferol y plentyn.
- Safleoedd ysgolion yn cyflwyno'u darpariaeth eu hunain o gymorth ymddygiad ac anogaeth i blant fel rhan o ymateb graddedig i lesiant ac ymddygiad.
- Cymorth arbenigol yn cael ei gyflwyno gan ddarparwr allanol tra bo plentyn yn aros am le mewn uned cyfeirio disgyblion neu sy'n mynychu uned cyfeirio disgyblion yn rhan-amser.

Gellir newid cwricwla wedi eu haddasu i gefnogi amrywiaeth o anghenion plant gan gynnwys y rheini sydd ag emosiynau afreolus, anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol mwy na rhai plant eraill o oedran tebyg, sy'n arddangos ymddygiadau heriol neu sydd ag angen dysgu ychwanegol yn gofyn am gymorth ychwanegol mwy na'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i blant (Price, 2015).

Mae Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (Hwb, 2022).

*Effeithiolrwydd cwricwlwm wedi'i addasu*

Mae'r llenyddiaeth sydd ar gael yn canolbwyntio'n bennaf ar bresenoldeb, llesiant ac ymddygiad fel canlyniadau cadarnhaol cwricwlwm wedi'i addasu. Ar y llaw arall, mae corff bach o dystiolaeth ar effeithiolrwydd cwricwlwm wedi'i addasu wrth leihau'r risg o waharddiadau cyfnod penodol neu barhaol yn benodol, a thrafodir hyn isod:

- Yn Sweden, cwblhaodd Ekstrand (2015) adolygiad llenyddiaeth o 155 o adroddiadau ymchwil a oedd yn canolbwyntio ar sut i rwystro absenoldebau anawdurdodedig a sut y gall ysgolion a chymuned helpu i wella presenoldeb mewn ysgolion. O'r adroddiadau hyn, roedd 72 o America, 37 o'r Deyrnas Unedig a'r 46 a oedd yn weddill o wledydd eraill ledled Ewrop. Cafodd y defnydd o gwricwlwm wedi'i addasu ei nodi fel un ffactor a oedd yn effeithiol wrth rwystro lleihad mewn presenoldeb mewn ysgolion. Roedd un enghraifft o gwricwlwm wedi'i addasu a ddisgrifiwyd gan Ekstrand (2015) yn cynnwys cwricwlwm yn canolbwyntio ar alwedigaethau i blant 14-16 oed y barnwyd ei fod yn llwyddiannus o ran symbylu, cyfathrebu, ymddiriedaeth a chymhwysedd cymdeithasol.
- Fe wnaeth Charlton, Panting and Willis (2004) adolygu effeithiolrwydd prosiect lle'r oedd plant ar leoliadau astudio allanol mewn canolfannau addysg bellach allanol fel rhan o gwricwlwm wedi'i addasu lle defnyddiwyd gweithgareddau oddi ar y safle. Fe wnaeth y prosiect gyflogi gweithwyr cymorth dysgu ychwanegol hefyd i fonitro profiadau cyflogaeth seiliedig ar waith y plant. Cymerodd 15 o blant yn Mlwyddyn 11 ran yn yr astudiaeth, a theimlai'r mwyafrif ohonynt fod eu hymddygiad, cydweithrediad ag addysg a phresenoldeb wedi gwella. Dywedodd staff ysgol y byddai rhan fwyaf o'r plant wedi cael eu gwahardd heblaw am y prosiect.
- Cyflawnodd White a Laczik (2016) astudiaeth ansoddol i adnabod enghreifftiau o arferion da wrth symbylu plant i gydweithredu mewn dysgu ymhlith y rheini a allai fod wedi colli diddordeb mewn dysgu a/neu y rheini a oedd yn dangos ymddygiad sy'n tarfu ar eraill ac mewn risg o waharddiad. Roedd y plant yn yr astudiaeth yn 14-16 oed ac yn cymryd rhan mewn dysgu cysylltiedig â gwaith ledled Lloegr. Ar draws naw astudiaeth, yn ymwneud â chyfweliadau gyda staff a phlant, canfuont fod dysgu cysylltiedig â gwaith yn ffordd effeithiol o annog a chefnogi ailgydio mewn addysg brif ffrwd. Roedd yr ymyrraeth wedi ei chynllunio ar sail dull personoledig i bob plentyn, a oedd yn golygu bod ganddo lais yn yr hyn oedd arno eisiau ei wneud heb ddim rhwymedigaeth i gael ei orfodi i gyfeiriadau penodol. Cafodd y dull hwn ei ddisgrifio fel un a oedd yn galluogi i benderfyniadau mwy gwybodus gael eu gwneud gan y plant am eu dewisiadau gyrfa yn y dyfodol a chynaliadwyedd unrhyw addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16. Oherwydd agwedd bersonoledig y dull, roedd yr ymyrraeth yn cynnig dewis helaeth o feysydd galwedigaethol y gwelwyd eu bod yn ennyn diddordeb y plant. Roedd y rhain yn cynnwys TG a'r cyfryngau, adeiladu a gwallt a harddwch.

Roedd y plant yn mwynhau gweithio mewn grwpiau bach ac yn ei chael yn ddefnyddiol nad oedd yr amgylchedd dysgu wedi ei drefnu yr un fath ag yn eu hysgol. Mae White a Laczik (2016) yn awgrymu hefyd fod angen adnabod paramedrau ehangach llwyddiant a chanolbwyntio ar fesurau meddalach sy'n cydnabod plant am lwyddiannau cadarnhaol, yn hytrach na chanlyniadau fel cyrhaeddiad academaidd, presenoldeb yn yr ysgol ac ennill cymwysterau. Maent yn dadlau y dylai ysgogi plant a oedd wedi ymddieithrio o'r blaen i gydweithredu a chymryd rhan mewn dysgu gael ei ystyried fel llwyddiant, ac y gall datblygu sgiliau megis cyfathrebu a gwaith tîm helpu i rwystro gwaharddiadau.

- Mae Bolton (2002) yn disgrifio pum astudiaeth achos o uned cyfeirio disgyblion yn Slough lle mae plant yn mynychu'n rhan-amser oherwydd eu bod mewn risg o waharddiad o'r ysgol neu'n mynychu'n llawn-amser oherwydd eu bod wedi cael eu gwahardd o'r ysgol. Mae'r astudiaethau achos yn disgrifio sut mae cwricwla amgen wedi cael eu defnyddio (gan gynnwys gwersi technoleg cerddoriaeth, mecaneg a chwaraeon) a pha mor effeithiol maent wedi bod. Maent yn crybwyll enghreifftiau o leihad mewn ymddygiad heriol ac ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, a phlant yn gallu sefyll TGAU, y dywedwyd y byddai wedi bod yn annhebygol iawn pe na bai cwricwlwm amgen wedi bod ar gael.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Er mwyn i gwricwlwm wedi'i addasu gael ei weithredu'n effeithiol, dylid ystyried nifer o ffactorau:

- Roedd Bolton (2002) yn nodi pwysigrwydd addysgu mewn grwpiau bach a sut mae hyn yn helpu plant i ailgydio yn gyflymach mewn addysg. Canfu Bolton (2002) hefyd fod rhieni'n llai tebygol o arddangos agwedd gwrth-ysgol pan oedd eu plant yn cael eu haddysgu mewn grwpiau bach. Mae hyn oherwydd bod cyfarfodydd adolygu yn digwydd yn aml ar sail grŵp, gan alluogi rhieni a phlant i roi sylwadau ar y cynnydd mewn dysgu a gwaith roedd y plant yn ei wneud.
- Roedd Bolton (2002) yn amlygu hefyd bwysigrwydd dull amlasiantaeth o ddatblygu a gweithredu cwricwlwm wedi'i addasu, gan gynnwys asiantaethau lleol a all gefnogi'r ysgol gydag anawsterau ymddygiadol plant. Gall hyn, er enghraifft, gynnwys gwasanaethau ieuenctid lleol neu gymunedau busnes sy'n helpu i ddarparu rhai o

weithgareddau cwricwlwm wedi'i addasu y plentyn. Law yn llaw â hyn, mae Bolton (2022) yn awgrymu bod cyflogi staff a all weithio'n effeithiol gyda phlant sydd wedi ymddieithrio a chynnig, lle bo'n bosibl, amrywiaeth o ddewisiadau pynciau i'r blant, Iawn mor bwysig wrth sicrhau y gall cwricwla wedi eu haddasu gael eu gweithredu'n effeithiol.

- Mae White a Laczik (2016) yn cytuno, gan ddweud bod y berthynas gadarnhaol o ymddiriedaeth a ddatblygwyd rhwng plant a staff yn hanfodol i ganlyniadau cadarnhaol cwricwla wedi eu haddasu.

Mae'n bwysig nodi hefyd y gellir defnyddio cwricwlwm wedi'i addasu i blant sydd eisoes wedi eu gwahardd yn barhaol o ysgol neu uned cyfeirio disgyblion. Golyga hyn y gall eu cwricwlwm wedi'i addasu, sydd â chysylltiad agos â defnyddio addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaethau tebyg, adlewyrchu ymyraethau a drafodir uchod.

**Grwpiau anogaeth**

*Cyflwyniad*

Mae grwpiau anogaeth, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y seicolegydd addysg Marjorie Boxall yn yr 1970au, yn ymyrraeth benodol, dymor byr a gynlluniwyd i roi cymorth gydag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol mewn plant oed ysgol. Mae'r pwyslais cynyddol ar lesiant ac iechyd meddwl mewn ysgolion wedi cyd-ddigwydd â chefnogaeth o'r newydd i grwpiau anogaeth a chynnydd sylweddol yn eu nifer (Smith, 2019).

Mae grwpiau anogaeth yn ddull cynhwysol a gall wella cyfleoedd dysgu i blant sy'n ei chael yn anodd dysgu mewn dosbarth prif ffrwd. Gan eu bod wedi eu cynllunio i ymdrin ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant, a all darfu ar eu dysgu, mae grwpiau anogaeth hefyd yn helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol pwysig, hyder a hunan-barch, ynghyd â darparu addysgu academaidd (Nurture UK, 2023). Gallan helpu plant i gymryd balchder mewn llwyddo ac ymddwyn yn dda, a all yn ei dro gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau gwahardd ysgolion.

Mae grwpiau anogaeth wedi cael eu defnyddio mewn ysgolion cynradd prif ffrwd i blant sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol ac sydd mewn risg o waharddiad. Gallant helpu plant i gymryd balchder mewn llwyddo ac ymddwyn yn dda, a'u haddysgu sut i ddatblygu perthynas gadarnhaol gydag athrawon a chyfoedion (Cole, 2015).

Mewn grwpiau anogaeth, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn dangos esiampl o berthynas gadarnhaol, ac yn helpu plant i ddatblygu sgiliau iaith a chyfathrebu, sgiliau cymdeithasol yn ogystal â sgiliau emosiynol. Yn ogystal â datblygu sgiliau cwricwlwm, anogir plant i ddathlu eu cynnydd eu hunain mewn caffael sgiliau megis gwrando, rhannu a chymryd tro a fydd yn lleihau neu gael gwared ar rwystrau rhag dysgu, ac felly'n galluogi lllwyddiant yn ôl yn yr ystafell ddosbarth brif ffrwd. Gall hyn gynnwys gemau cymryd tro, gweithgareddau grŵp, sesiynau llythrennedd emosiynol, rhannu newyddion neu glybiau brecwast (Sloan et al., 2020).

Mae grŵp anogaeth fel arfer yn cynnwys hyd at 12 o blant a dau aelod o staff. Yn aml, bydd plant yn mynychu'r grŵp anogaeth am ddau dymor o'r flwyddyn academaidd, ac ar ôl hynny byddant fel arfer yn gallu ailintegreiddio'n ôl i'w dosbarthiadau prif ffrwd yn llawn-amser (Early Intervention Foundation, 2023). Awgryma Nurture UK (2023) fod plant yn cychwyn eu diwrnod yn yr ystafell ddosbarth brif ffrwd ac yn cael eu codi gan staff a'u cymryd i'w grŵp anogaeth, lle maent wedyn yn cwblhau'r mathau o weithgareddau a drafodir uchod, ac yna dychwelyd i'w hystafell ddosbarth brif ffrwd am rywfaint o ddarpariaeth bob dydd. Gall model arall o grwpiau anogaeth gynnwys bod plant yn llawn-amser yn y grŵp anogaeth heb ddim gweithgarwch ystafell ddosbarth brif ffrwd (Cooper, Arnold a Boyd, 2001).

*Effeithiolrwydd grwpiau anogaeth*

Mae'r ymchwil a gyhoeddwyd ar effeithiolrwydd grwpiau anogaeth gyda phlant yn ymddangos yn gadarnhaol (mewn ysgolion cynradd), yn enwedig wrth ystyried canlyniadau a all effeithio ar leihau gwaharddiadau o'r ysgol:

- Canfu Cooper et al. (2001) fod y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod grwpiau anogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol eu plant (mae hyn yn cynnwys rhieni a oedd yn gyndyn ar y cychwyn tuag at y syniad o'u plant yn mynd i grwpiau anogaeth). Roedd plant yn gwerthfawrogi'r berthynas roeddent yn ei datblygu gyda chyfoedion a staff, distawrwydd a natur heddychlon yr amgylchedd, cysondeb y drefn reolaidd a natur ddiddorol y gweithgareddau. Fodd bynnag, dywedodd yr awduron hefyd y gallai plant fod wedi bod yn gyndyn o ymddangos yn annheyrngar at eu hathrawon a'u hysgol wrth siarad am y grwpiau anogaeth, gan olygu bod angen cymryd rhywfaint o ofal wrth ddehongli'r canfyddiadau.

- Cyflawnodd Cooper et al. (2001) astudiaeth hydredol dros gyfnod o ddwy flynedd yn cynnwys 342 o blant (216 mewn grŵp anogaeth a 126 mewn grwpiau rheoli) rhwng pedair a 10 oed mewn 25 o ysgolion ar draws wyth o ardaloedd awdurdodau lleol yn Lloegr. Dywedodd 96 y cant o'r staff addysgu yn yr astudiaeth fod y grwpiau anogaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol fel cyfanrwydd, yn enwedig o safbwynt:
    - Datblygu agweddau ac arferion sy'n rhoi mwy o anogaeth drwy'r holl ysgol.
    - Newidiadau yn y ffyrdd mae athrawon yn meddwl ac yn siarad am blant.
    - Cyfrannu egwyddorion anogaeth at bolisïau ysgol-gyfan.
    - Cynyddu teimlad o rymuso gyda phlant sy'n tarfu ar eraill.
    - Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion datblygiadol a'r berthynas rhwng ffactorau cymdeithasol-emosiynol a dysgu.
- Fe wnaeth Nurture UK (2021) ddogfennu pum astudiaeth yn cynnwys darpariaeth grwpiau anogaeth, gan edrych ar welliannau mewn gweithredu cymdeithasol ac emosiynol a chynnydd academaidd. Mewn cyfanswm cyfunol o 1,239 o blant mewn 139 o ysgolion, canfuont fod plant sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn sylweddol fwy tebygol o wella mewn gweithredu cymdeithasol ac emosiynol a llwyddiant academaidd trwy fynychu darpariaeth grwpiau anogaeth am o leiaf ddau dymor, yn hytrach na pharhau yn eu hystafell ddosbarth brif ffrwd.
- Cwblhaodd Reynolds, MacKay a Kearney (2009) astudiaeth o grwpiau anogaeth a oedd yn cynnwys 221 o blant rhwng pump a saith oed mewn 32 o ysgolion cynradd ar draws Glasgow. Canfuont fod plant a oedd yn mynychu grwpiau anogaeth yn dangos enillion sylweddol mewn cyrhaeddiad academaidd, datblygiad emosiynol ac ymddygiad o gymharu â phlant mewn grŵp rheoli cyfatebol.
- Fel y crybwyllwyd yn Sloan et al. (2020), cyflawnodd Iszatt a Wasilewska (1997) astudiaeth ôl-weithredol o 308 o blant mewn grwpiau anogaeth yn Enfield rhwng 1984 ac 1988. Roedd 87 y cant o'r plant yn gallu dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd o fewn un flwyddyn academaidd ac roedd 83 y cant yn dal yn y dosbarthiadau hyn dair blynedd yn ddiweddarach. Roedd hyn, yn ôl yr awduron, yn cymharu'n ffafrio â grŵp bach o 20 o blant eraill y barnwyd eu bod yn addas ar gyfer ymyrraeth grŵp anogaeth ond nad oedd lle ar gael (roedd y gyfran o blant y grŵp rheoli a oedd angen asesiadau statudol a darpariaeth arbennig yn fwy na theirgwaith mwy na'r rheini yn y grwpiau

anogaeth). Awgryma  canfyddiadau o'r astudiaeth yr ymddengys fod grwpiau anogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar broblemau cymdeithasol ac emosiynol a hunan hyder plant a allai fel arall gyfrannu at ymddygiad heriol a'r potensial o waharddiad.

- Cwblhaodd Ofsted (2009) arolwg ar waharddiadau gyda 30 o ysgolion cynradd a oedd wedi gwahardd amryw o blant saith oed ac iau, a 27 o ysgolion nad oedd wedi gwahardd unrhyw blant. Canfuont fod grwpiau anogaeth wedi bod yn "effeithiol iawn wrth wella ymddygiad plant a rhwystro gwaharddiadau", er eu bod yn adrodd hefyd fod amryw o ysgolion yn y sampl nad oedd yn gallu eu fforddio.
- Roedd adroddiad gan Estyn (2014) yn canolbwyntio ar strategaethau a gweithredoedd roedd ysgolion uwchradd ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn eu defnyddio i wella presenoldeb. O fewn yr adroddiad, dywedwyd bod grwpiau anogaeth (ynghyd ag ymyraethau eraill) yn cael eu defnyddio gan yr ysgolion uwchradd a oedd y rhai gorau am wella a chynnal lefelau uwch o bresenoldeb. Roedd Estyn yn nodi bod grwpiau anogaeth yn helpu i ddatblygu hunan barch ac annog presenoldeb, gan argymell y dylid cefnogi ysgolion nad ydynt yn eu defnyddio ar hyn o bryd i wneud hynny.
- Awgryma Seth-Smith et al. (2010) ei bod yn ymddangos mai plant y mae eu hanghenion emosiynol yn gysylltiedig â hunan-barch a rheoli dicter, a'r plant hynny sy'n ddistaw a mewnblyg, sy'n elwa fwyaf o grwpiau anogaeth. Roedd yr ymchwil yn cynnwys 10 o ysgolion cynradd grwpiau anogaeth (44 o blant) a phum ysgol gynradd rheoli (39 o blant). Canfu'r ymchwil fod, ar gyfartaledd, plant iau yn dangos mwy o welliant mewn sgiliau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn dilyn ymwneud â grwpiau anogaeth, tra bod plant hŷn yn gwella mwy o safbwynt sgiliau academaidd.
- Bu astudiaeth gan Brifysgol Southampton (Cunningham, Hartwell a Kreppner, 2019), a oedd yn ymwneud â sampl bach o 16 o blant chwech i naw oed a fu'n mynychu grwpiau anogaeth, yn asesu sgiliau cymdeithasol trwy adborth gan athrawon a phlant. Canfu fod plant yn y grŵp anogaeth yn defnyddio ymatebion a oedd yn sylweddol fwy addas yn gymdeithasol, bod eu sgiliau cymdeithasol wedi gwella, a'u bod yn mwynhau mynychu'r grwpiau. Fodd bynnag, roeddent yn dal i adrodd am heriau wrth ymwneud â'u cyfoedion y tu hwnt i'r grwpiau, yn enwedig ar y maes chwarae.
- Disgrifiodd Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (2023) dair o'u hysgolion cynradd yn cael eu cefnogi i weithredu darpariaeth anogaeth i blant oedd â phroblemau llesiant. Daeth

yr adroddiad i'r casgliad fod gwaharddiadau yn yr ysgolion hyn wedi lleihau yn dilyn gweithredu grwpiau anogaeth, er na wnaeth ddarparu unrhyw ddata meintiol.

- Yng Nghanolbarth Lloegr, cyflawnwyd prosiect ymchwil ar raddfa fach i werthuso effeithiolrwydd grŵp anogaeth rhan-amser mewn un ysgol gynradd (Vincent, 2017). Defnyddiwyd cyfweliadau ansoddol i gasglu canfyddiadau gan staff, plant (7-11 oed) a rhieni, gyda phawb ohonynt yn crybwyll gwell sgiliau cymdeithasol, mwy o gydweithrediad mewn tasgau academaidd a llai o ddigwyddiadau o ymddygiad annymmunol. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod y grŵp anogaeth wedi cynnig ffordd effeithiol o gefnogi sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol mewn plant y barnwyd eu bod mewn risg o waharddiad o'r ysgol.
- Roedd March a Kearney (2017) yn priodoli "lleihad clir mewn gwaharddiadau disgyblion" i ehangu grwpiau anogaeth ar draws Glasgow. Roedd Gwasanaeth Seicolegol Glasgow, mewn partneriaeth â chydweithwyr addysg yn Glasgow, wedi defnyddio egwyddorion grwpiau anogaeth a nodwyd gan y Nurture Group Network i ddatblygu canllawiau a hyfforddiant manwl i 8,000 o staff ysgolion ar draws y ddinas.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Wrth ysgrifennu yn SecEd – y cylchgrawn addysg uwchradd yn y Deyrnas Unedig i staff addysgu ac arweinwyr ysgolion – darparodd Freeman (2017) ganllawiau ar sefydlu grwpiau anogaeth effeithiol a'r ffactorau llwyddiannus sydd eu hangen ar gyfer eu gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynnwys rhieni ar bob cam o weithgarwch y plentyn yn y grŵp anogaeth.
- Ymateb i anghenion (cyfnewidiol) y plentyn ac adolygu arferion a dulliau wrth i blant newydd ymuno ac eraill yn gadael.
- Sicrhau bod yr ystafell/lleoliad yn groesawgar ac yn adlewyrchu anghenion a llwyddiannau'r plant.
- Cadw rheolau'r grŵp yn syml, clir a gweladwy.

Wrth bwysleisio'r naw nodwedd ganlynol o grwpiau anogaeth effeithiol, mae Vincent (2017) yn adleisio rhywfaint o'r uchod:

- Sefydlu llythrennedd emosiynol ym mhob agwedd o'r rhaglen.

- Oedolion yn gosod esiampl cadarnhaol, ailadrodd ac annog.
- Cydnabod mannau cychwyn plant ac adeiladu arnynt.
- Ansawdd y berthynas rhwng staff a phlant.
- Gosod nodau wedi eu teilwra'n unigol.
- Cydnabod y gall newid gymryd amser hir.
- Ailintegreiddio wedi ei gynllunio'n ofalus a'i gefnogi o'r grŵp anogaeth yn ôl i'r ystafell ddosbarth brif ffrwd yn llawn-amser.
- Cyfathrebu da rhwng staff y grŵp anogaeth ac athrawon ystafell ddsobarth.
- Grwpiau bach o ran maint.

Fel y trafodwyd yn Cunningham et al. (2019), mae'n bwysig i blant allu defnyddio'r sgiliau cymdeithasol maent wedi eu dysgu y tu allan i amgylchedd y grŵp anogaeth. Yn ddelfrydol, dylai ymarferwyr ddysgu sut y gallant helpu i hwyluso hyn, a all yn ei dro helpu i fynd i'r afael â sefyllfaoedd o ymddygiad gwael a allai arwain at waharddiad.

Mae'n werth nodi hefyd wrth gydnabod y newidiadau cadarnhaol sylweddol i blant mewn grwpiau anogaeth sydd wedi cael eu hadrodd gan yr amrywiol awduron a grybwyllir uchod, fod Cooper a Tiknaz (2005) yn awgrymu bod angen i grwpiau anogaeth fod yn gweithredu am isafswm o ddwy flynedd i fod yn gwbl effeithiol.

**Cydweithrediad rhieni**

*Cyflwyniad*

Gellir diffinio ennyn cydweithrediad rheini yn y cyd-destun hwn fel athrawon ac ysgolion yn cynnwys rhieni wrth gefnogi dysgu academaidd a llesiant eu plant (EEF, 2021b). Mae cydweithrediad effeithiol â rhieni yn golygu creu perthynas gydweithredol a chefnogol rhwng ysgolion a rhieni a gall gynnwys amrywiaeth o weithgareddau, yn amrywio o gyfathrebu mwy rheolaidd ac annog rhieni i gefnogi eu plant wrth iddynt ddysgu gartref i gymorth mwy dwys megis gweithdai neu raglenni i ddatblygu llythrennedd, TG, neu sgiliau rhianta rhieni, neu rhaglenni cymorth i deuluoedd mewn argyfwng.

Gall cydweithrediad effeithiol â rhieni gael effaith gadarnhaol ar nifer o ganlyniadau i blant, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, a gall leihau'r risg o waharddiad cyfnod penodol neu barhaol.

*Effeithiolrwydd cydweithrediad rheini*

Canfu adolygiad EEF (2021b) o 97 o astudiaethau y gall cydweithrediad effeithiol â rhieni, yn enwedig gyda rhieni plant bach iawn, fod yn gyfwerth â chyfartaledd o bedwar mis ychwanegol o gynnydd dros gwrs blwyddyn mewn gwaith cartref cyffredinol plant, darllen, llythrennedd a mathemateg. Mae effeithiau uwch hefyd ar ddisgyblion sydd â chyrhaeddiad blaenorol is. Cafodd y dystiolaeth gyffredinol ei graddio fel tystiolaeth gref er bod yr EEF yn nodi bod cyfran fawr o'r astudiaethau o fewn cwmpas eu hadolygiad nad oedd wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol na'u gwerthuso gan sefydliadau sy'n ymwneud â chyflwyno'r gwaith, megis darparwyr masnachol. Yn ogystal, roedd cwmpas yr astudiaethau braidd yn gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf yn archwilio ymyrraethau darllen gartref gyda nifer bach o astudiaethau a oedd yn archwilio ymyraethau ac iddynt y nod o wella sgiliau rhianta.

Defnyddiodd Rose et al. (2017) ddull cymysg i ymchwilio prosiect peilot Attachment Aware Schools a oedd wedi cael ei gomisiynu gan ddau awdurdod lleol yn Lloegr i wella canlyniadau addysgol plant a oedd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd y prosiect yn darparu strategaethau cysylltiedig ag ymlyniad, yn rhai ysgol-gyfan a phenodol, i gefnogi llesiant, ymddygiad a chyrhaeddiad academaidd plant wrth hwyluso partneriaethau cydweithredol â theuluoedd. Roedd canlyniadau'n awgrymu bod gwelliant sylweddol mewn darllen, Saesneg a mathemateg ymysg y rhai a gefnogwyd gan y prosiect. Roedd lleihad hefyd mewn gwaharddiadau y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddsobarth. Dylid cydnabod fodd bynnag nad oedd grŵp rheoli yn yr astudiaeth hon felly ni allwn fod yn sicr fod y gwelliannau o ganlyniad i'r prosiect.

Ysgrifenna Griffin (2019)[26] "bydd diwylliant ysgol lle mae rhieni'n teimlo'n rhan o'r ysgol yn arwain at welliant ysgol-gyfan", gan bwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion a rhieni.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Mae adolygiad EEF (2021b) o gydweithrediad rhieni yn pwysleisio pa mor bwysig yw bod strategaethau ennyn cydweithrediad rhieni yn cyrraedd pawb o'r rhieni. Os yw'r rhieni sy'n manteisio ar gyfleoedd i gydweithredu yn dod o gefndiroedd llewyrchus yn bennaf, mae risg y gallai hyn gynyddu'r bwlch cyrhaeddiad i blant sydd o gefndiroedd difreintiedig, ac yn ei dro gall fethu ag atal gwaharddiadau. Amlygwyd hefyd fod strategaethau ennyn

[26] Nid yw'r ymchwil hwn wedi cael ei adolygu gan gymheiriaid.

cydweithrediad rhieni yn fwy effeithiol yn arferol gyda rhieni plant bach iawn ac felly mae'n bwysig ystyried sut fydd ysgolion yn cynnal cydweithrediad rhieni wrth i'r plant fynd yn hyn.

Cafodd rhwystrau posibl rhag ennyn cydweithrediad rheini yn llwyddiannus eu hystyried gan Griffin (2019), gyda phob un ohonynt yn gallu cyfyngu ar effeithiolrwydd y gwaith gyda rheini ar leihau neu atal gwaharddiadau:

- Llwythi gwaith yn peri i rai staff weld cydweithrediad rhieni fel rhywbeth 'ychwanegol' yn hytrach nag elfen graidd o'u rôl.
- Staff ysgolion yn ofni gwneud camgymeriadau gyda rhieni neu wneud sefyllfaoedd yn waeth yn anfwriadol.
- Diffyg hyfforddiant yn golygu bod staff yn teimlo'n ansicr sut i ymdrin â sgyrsiau anodd gyda rhieni.

**Amserlenni llai**

*Cyflwyniad*

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall fod angen i ysgolion weithredu amserlen lai i gefnogi plentyn na all fynychu'r ysgol yn llawn-amser am gyfnod byr, y cytunwyd arno. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys ailintegreiddio â'r ysgol (ee, yn dilyn gwaharddiad cyfnod penodol neu absenoldeb estynedig oherwydd salwch).

Caiff amserlen lai ei chofnodi mewn cynllun (megis cynllun cymorth bugeiliol, cynllun ymddygiad unigol neu gynllun ailintegreiddio) fel cytundeb ffurfiol rhwng y plentyn, ei rieni, a'r ysgol. Gall amserlen lai y cytunwyd arni gynnwys hefyd cyflwyno gwersi o bell neu ar-lein lle bo'n berthnasol er mwyn sicrhau parhad dysgu i'r plentyn (Llywodraeth Cymru, 2023a).

Unwaith y cytunir ar yr amserlen lai, dylai'r ysgol rannu hyn wedyn gyda'u hawdurdod lleol. Er y cynghorir rhannu'r cynllun sy'n cynnwys yr amserlen lai gyda'r awdurdod lleol, does dim tystiolaeth feintiol ar draws ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar gael i ddeall i ba raddau mae hyn yn digwydd.

Yn ddiweddar, fe'i gwnaeth Llywodraeth Cymru (2023a) hi'n glir na ddylai ysgolion fyth ddefnyddio amserlenni llai fel mesur ar gyfer rheoli problemau ymddygiadol, oherwydd mae corff bach o dystiolaeth i awgrymu eu bod wedi cael eu defnyddio fel hyn (Weaver, 2023). Lle bo hyn yn digwydd, mae ysgolion yn eu defnyddio fel arfer fel ymyrraeth dros dro i fynd

i’r afael a rheoli effaith ymddygiad sylweddol heriol neu anghenion emosiynol neu gymdeithasol rhai plant (Weaver, 2023).

*Effeithiolrwydd amserlenni llai*

Nod ymchwil diweddar gydag awdurdodau lleol yng Nghymru (Weaver, 2023) oedd deall y defnydd o amserlenni llai yn genedlaethol. Derbyniodd arolwg o’r holl awdurdodau lleol 13 o ymatebion a chafodd saith o weithwyr proffesiynol sy’n ymwneud â chefnogi plant ar amserlenni llai eu cyfweld. Roedd yr ymchwil yn amlygu canfyddiad o ddiffyg tryloywder, ymysg ymatebwyr awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol, ynghylch diben amserlenni llai. Roedd barn, yn enwedig ymysg ymatebwyr awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol, fod amserlenni llai yn cael eu defnyddio weithiau oherwydd fod ysgolion yn brin o’r adnoddau i gefnogi plentyn, sydd ag anghenion ychwanegol, i fanteisio ar amserlen lawn. Disgrifiwyd hefyd y defnydd o amserlenni llai er mwyn osgoi digwyddiad a allai arwain at waharddiad parhaol.  Yn yr ystyr hwn, roeddent yn cael eu gweld fel ffordd effeithiol i raddau o leihau gwahardd parhaol, er y nodwyd y byddai plant ar amserlen lai yn debygol o deimlo’u bod yn cael eu hallgáu, er hynny. Adroddwyd y teimladau hyn o allgáu yn dilyn y defnydd o amserlen lai gan Weaver (2023) fel rhywbeth sy’n cael effeithiau negyddol ar blant megis gwaethygu teimladau o gael eu hynysu, hwyliau isel, diffyg hyder ac anawsterau cynyddol o ran perthynas ag eraill, a allai gynyddu ymddygiadau a allai arwain at waharddiadau o fewn yr ysgol.

**Arferion adferol**

*Cyflwyniad*

Dull o fynd i’r afael â phroblemau ymddygiad a gwrthdaro yw arferion adferol, sy’n defnyddio deialog i annog atebolrwydd am weithredoedd unigolyn ac atgyweirio perthynas lle bo niwed wedi digwydd (Gonzalez, 2012). Gall hefyd gynnwys datblygu diwylliant ysgol-gyfan, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau, er mwyn lleihau’r posibilrwydd o wrthdaro a niwed ddigwydd (Kane et al., 2008). Er nad oes dim diffiniad cynhwysfawr o arferion adferol, caiff y dull ei weld yn gyffredinol fel dewis arall yn lle mynd ati i reoli ymddygiad trwy gosbi a gwahardd, ac sy’n hyrwyddo cyfrifoldeb personol a dysgu cymdeithasol (Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfiawnder Adferol, 2021).

Mae’r defnydd o ddulliau adferol mewn ysgolion yn cychwyn o’r dybiaeth mai “perthynas gref ag eraill, gyda’r naill a’r llall yn parchu ei gilydd, a chymuned gydlynus yw’r sylfeini y

gall addysgu a dysgu da ffynnu arnynt” (Hendry et al., 2011). Rhan allweddol o arferion adferol, felly, yw atgyweirio perthynas lle bo niwed neu wrthdaro wedi digwydd. Gellir eu defnyddio gyda phlant o bob oed, wedi eu haddasu i anghenion ac oedrannau’r plant hynny. Yn ystod sgyrsiau adferol (y cyfeirir yn aml atynt fel cynhadleddau adferol), caiff y rheini a oedd yn ymwneud â digwyddiad neu wrthdaro eu gwahodd i drafod beth oedd wedi digwydd, beth oedd yr effaith a beth sydd angen iddo ddigwydd i gywiro pethau neu wneud pethau’n well yn y dyfodol. Bwriad y broses yw helpu plant i ddatblygu synnwyr o gyfrifoldeb cymdeithasol, fel y gallant wneud dewisiadau gwell yn y dyfodol heb fod angen y bygythiad o gosb.

Yn ogystal â rhoi fframwaith ar gyfer deialog rhwng y rheini sy’n ymwneud ag ymddygiad niweidiol, mae arferion adferol mewn ysgolion yn cynnwys amrywiaeth o strategaethau eraill y gellir eu defnyddio i feithrin perthynas dda ag eraill a dylanwadu ar well ymddygiad yn y dyfodol. Mae’r rhain yn cynnwys defnyddio datganiadau affeithiol (neu ddatganiadau ‘fi’ wrth ddisgrifio effaith ymddygiad), gan roi llais i blant wrth ddatblygu normau a disgwyliadau ystafell ddosbarth, a thrafodaethau grŵp (y cyfeirir yn aml atynt fel cylchoedd adeiladau cymuned) i helpu plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac economaidd ac adeiladu perthynas gadarnhaol â’i gilydd (Augustine et al., 2018).

Gellir defnyddio’r arferion adferol a ddisgrifir uchod fel rhan o ddull ysgol-gyfan neu eu defnyddio fel fforddd benodol fel ymateb i ddigwyddiadau a/neu gyda grwpiau a dargedwyd o blant i helpu i rwystro gwaharddiad.

*Effeithiolrwydd arferion adferol*

Mewn adolygiad systematig o ymchwil ynghylch arferion adferol mewn ysgolion, roedd y rhan fwyaf o’r astudiaethau a adolygwyd yn adrodd canlyniadau cadarnhaol arferion adferol, gan gynnwys gwella sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol myfyrwyr (Zakszeski a Rutherford, 2021). Fodd bynnag, canfu’r adolygiad nifer bach yn unig o astudiaethau arbrofol neu led-arbrofol yn asesu effaith arferion adferol, gyda chanfyddiadau cymysg ynghylch effeithiolrwydd y dull wrth leihau gwaharddiadau. Caiff y rhain eu disgrifio’n fyr isod, gyda rhai astudiaethau ychwanegol yn cynnwys ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar iawn neu ymchwil na chafodd ei adolygu gan gymheiriaid:

- Hap-dreial clwstwr rheoli o brosiect arferion adferol ysgol-gyfan yn ymwneud â 18 o ysgolion (yn cynnwys oedrannau pump i 18) mewn ardal drefol yn ngogledd-ddwyrain

yr Unol Daleithiau (Huang, 2023). Roedd yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn gwasanaethu myfyrwyr Du a Hisbanaidd yn bennaf o gymdogaethau incwm-isel. Cafodd naw o ysgolion eu dyrannu ar hap i'r grŵp ymyrraeth, gyda'r ysgolion hyn yn derbyn hyfforddiant i bawb o'u staff ar arferion adferol a chwricwlwm penodol ar gyfer lefelau cyrhaeddiad i arwain dysgu cymdeithasol-emosiynol a chylchoedd adeiladu cymuned. Cafodd yr ysgolion a oedd yn weddill eu dyrannu i'r grŵp rheoli, nad oedd yn derbyn dim ymyrraeth. Ni chanfu'r astudiaeth ddim gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o waharddiad cyfnod penodol rhwng myfyrwyr yn ysgolion yr ymyrraeth a'r ysgolion rheoli. Fodd bynnag, i fyfyrwyr yn y grŵp ymyrraeth, roedd llai o debygolrwydd, o gymharu â'r grŵp rheoli, o dderbyn gwaharddiad cyfnod penodol i'r rheini a oedd wedi cael gwaharddiadau cyfnod penodol o'r blaen.

- Roedd hap-dreial clwstwr rheoli arall o ymyrraeth arferion adferol ysgol-gyfan, dwy-flynedd, yn ymwneud â 14 o ysgolion canol ym Maine (Acosta et al., 2019). Roedd myfyrwyr a fu'n cymryd rhan yn yr astudiaeth yn wyn yn bennaf a rhwng 11 a 12 oed. Roedd arolygon llinell sylfaen a dilynol yn cynnwys mesurau hunan-adrodd safonedig o hinsawdd yr ysgol, ymgysylltiad, ymlyniad cymheiriaid, sgiliau cymdeithasol a dioddefaint o fwlio. Ni sylwyd ar ddim gwahaniaethau arwyddocaol ar draws y canlyniadau hyn rhwng ysgolion yr ymyrraeth a'r ysgolion rheoli. Mae'r awduron yn awgrymu mai rheswm posibl dros hyn yw mai dim ond lleiafrif o fyfyrwyr yn ysgolion yr ymyraeth oedd yn profi arferion adferol i raddau helaeth, tra bod myfyrwyr yn yr ysgolion rheoli yn profi mwy o arferion adferol na'r disgwyl (mae hyn yn un o gyfyngiadau'r astudiaeth). Er na sylwyd ar ddim gwahaniaethau rhwng y grwpiau ymyrraeth a'r grwpiau rheoli ar lefel ysgol, roedd myfyrwyr a brofodd fwy o arferion adferol yn adrodd canlyniadau mwy cadarnhaol, gan gynnwys gwell hinsawdd ac ymgysylltiad ysgol, ymlyniad cymheiriaid, sgiliau cymdeithasol a llai o ddioddefaint seibrfwlio.
- Roedd hap-dreial rheoli Augustine et al (2018) yn ymwneud â rhaglen arferion adferol a gyflwynwyd dros ddwy flynedd mewn ysgolion (yn cynnwys oedrannau o bump i 18) ar draws ardal ysgolion cyhoeddus Pittsburgh (nodwyd yr astudiaeth hon gan Zakszeski a Rutherford (2021) fel un o werth ond cafodd ei hepgor o'u gwaith gan na chafodd ei hadolygu gan gymheiriaid). Canfu'r astudiaeth fod y nifer o ddyddiau a gollwyd i waharddiadau cyfnod penodol yn ysgolion yr ymyrraeth wedi gostwng 36 y

cant dros gyfnod yr astudiaeth, o gymharu â 18 y cant yn yr ysgolion rheoli. Roedd y gwahaniaeth mewn cyfraddau gwahardd cyfnod penodol rhwng myfyrwyr Affricanaidd Americanaidd a gwyn, a rhwng myfyrwyr incwm-isel ac incwm-uchel (sef y caiff myfyrwyr Affricanaidd Americanaidd ac incwm-isel eu gwahardd ar gyfraddau anghymesur o uchel o gymharu â myfyrwyr gwyn ac incwm-uchel), hefyd yn culhau yn ysgolion yr ymyrraeth. Fodd bynnag, roedd y gostyngiadu mewn gwaharddiadau y sylwyd arnynt yn ysgolion yr ymyrraeth yn cael eu gyrru i raddau helaeth gan ostyngiadau mewn cyfraddau gwahardd cyfnod penodol mewn ysgolion elfennol (pump i 10 oed). Yn ogystal, ni leihaodd cyfraddau gwahardd cyfnod penodol i fyfyrwyr gwrywaidd na'r rheini oedd â chynlluniau addysg (a ddatblygwyd i'r rheini oedd ag AAA).

- Bu hap-dreial clwstwr rheoli o'r ymyrraeth Learning Together i ddeall ei heffaith ar fwlio ac ymosodedd yn cymharu grŵp ymyrraeth â grŵp rheoli (Bonell et al., 2018). Roedd yr ymyrraeth yn ymwneud â hyfforddi staff mewn arferion adferol yn ogystal ag ymyraethau arferion anadferol yn cynnwys hwyluso grŵp gweithredu ysgol a chwricwlwm sgiliau cymdeithasol ac emosiynol i fyfyrwyr. Fe wnaeth cyfanswm o 40 o ysgolion uwchradd yn ne-ddwyrain Lloegr gymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd effeithiau bach ond arwyddocaol ar brofiadau a hunan-adroddwyd gan y plant o ddioddef bwlio yn y grŵp ymyrraeth, er nad oedd dim effaith weladwy ar ymosodedd.

Mae astudiaethau lled-arbrofol ac arsylwadol o effaith arferion adferol, yn rhai a gafodd ac na chafodd eu hadolygu gan gymheiriaid, yn dangos canlyniadau cadarnhaol gan gynnwys lleihad mewn gwaharddiadau. Fodd bynnag, nid oedd yr astudiaethau hyn yn dewis ysgolion ar hap i'r grwpiau ymyrraeth a'r grwpiau rheol, sy'n golygu na allant adnabod effeithiau achosol arferion adferol:

- Bu Hashim et al. (2018) yn archwilio effaith gwaharddiad ardal ysgolion Los Angeles a gyflwynwyd yn 2011/12 ar waharddiadau cyfnod penodol am anufudd-dod bwriadol, a gweithredu arferion adferol ar gyfraddau gwahardd cyfnod penodol 2014/15. Wrth fodelu cofnodion disgyblaeth myfyrwyr ar draws 785 o ysgolion (5 – 18 oed) canfuwyd bod myfyrwyr, yn dilyn y gwaharddiad, â thebygolrwydd is o waharddiad cyfnod penodol, gyda bwlch is yng nghyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol rhwng plant a oedd yn cael eu disgyblu'n aml a chyfoedion nad oedd yn cael eu disgyblu gymaint. Byddai hyn i'w ddisgwyl i ryw raddau o ystyried y gwaharddiad ar fathau penodol o

wahardd myfyrwyr, ond roedd gostyngiadau pellach yng nghyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol i'w gweld mewn ysgolion a oedd yn darparu hyfforddiant cyfiawnder adferol. Canfu'r astudiaeth hefyd fod defnyddio arferion cyfiawnder adferol, megis cyfryngu rhwng cymheiriaid a datrys gwrthdaro, yn helpu i greu amgylchedd ysgol mwy cynhwysol a chefnogol.

- Bu astudiaeth arall a oedd yn defnyddio cynllun cyfres amser yn archwilio'r defnydd o arferion adferol mewn 180 o ysgolion mewn ardal ysgol drefol fawr yn yr Unol Daleithiau (Anyon, 2016). Dangosodd modelu cofnodion disgyblaeth 9,921 o fyfyrwyr fod cymryd rhan mewn ymyraethau adferol yn nhymor un yn gysylltiedig â thebygolrwydd is o waharddiad cyfnod penodol yn nhymor dau. Roedd y cysylltiad hwn yn parhau ar ôl cyfrif am gefndir hiliol myfyrwyr, fodd bynnag, roedd myfyrwyr du yn dal i gael eu gwahardd ar gyfradd uwch na myfyrwyr gwyn er gwaethaf yr ymyrraeth.
- Cafodd dulliau adferol eu gwerthuso mewn pedair ysgol ym Mryste (Skinns et al., 2009[27]) gan ddefnyddio cynllun lled-arbrofol (cymharu yn erbyn grŵp rheoli nad oedd ar hap ac wedi ei ffurfio o ddwy ysgol a wrthododd gymryd rhan yn yr ymyrraeth). Roedd y chwe ysgol yn gwasanaethu myfyrwyr a oedd yn profi graddau uchel o amddifadedd ac a oedd yn wynebu anawsterau sylweddol gydag ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad. Canfu'r ymchwil fod gan ysgolion yr arferion adferol gyfradd presenoldeb cyfartalog bum pwynt canran yn uwch na'r ysgolion nad oedd yn defnyddio arferion adferol. Fodd bynnag, ni chafodd yr ymyrraeth ddim effaith ar waharddiadau cyfnod penodol.
- Canfu gwerthusiad o raglen hyfforddi arferion adferol a gyflwynwyd i staff mewn 16 o ysgolion cynradd ym mwrdeistref Barnet, Llundain, fod, dros gyfnod o ddwy flynedd, cyfraddau cyfartalog gwaharddiadau cyfnod penodol wedi gostwng 51 y cant mewn ysgolion a gafodd hyfforddiant arferion adferol o gymharu â chynnydd o 65 y cant yn y 36 o ysgolion yn y fwrdeistref na chymerodd ran yn yr hyfforddiant (Moore, 2008[28]).

NI chanfu'r adolygiad hwn ddim ymchwil i effeithiolrwydd dulliau adferol mewn ysgolion yng Nghymru. Adroddodd Ysgol Gyfun Trefynwy fod gwaharddiadau wedi gostwng 95 y cant dros gyfnod o bum mlynedd yn dilyn cyflwyno arferion adferol ac ennill Marc Ansawdd

[27] Heb ei adolygu gan gymheiriaid.
[28] Heb ei adolygu gan gymheiriaid.

Gwasanaeth Adferol (Williams, 2015). Fodd bynnag, adroddwyd hyn gan dîm arweinwyr yr ysgol yn hytrach nag fel canfyddiad o astudiaeth ymchwil.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Mae tystiolaeth ymchwil a gwerthuso yn awgrymu galluogwyr allweddol gweithredu arferion adferol yn effeithiol mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymdrin ag arferion adferol mewn dull ysgol-gyfan, gan gynnwys cynllunio strategol ac integreiddio â pholisïau ymddygiad yr ysgol (Moir a MacLead, 2018; Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfiawnder Adferol, 2021).
- Ymrwymiad a dangos esiampl gan arweinwyr ysgolion er mwyn annog ymrwymiad staff (Kane et al., 2008). Ymddengys hefyd fod profiad a hygrededd y person sy'n cyflwyno arferion adferol i ysgol yn bwysig (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2004).
- Hyder staff mewn defnyddio arferiol adferol, wedi ei gefnogi gan hyfforddiant rheolaidd a chyfleoedd i fyfyrio a thrafod y dulliau a ddefnyddiwyd (Bevington, 2015).
- O ran sgyrsiau unigol a chynadleddau adferol, mae angen am gyfathrebu effeithiol rhwng pawb perthnasol am y camau sy'n deillio ohonynt. Heb hyn, mae perygl y gallai'r canlyniadau gael eu canfod fel rhai annheg (Kane et al., 2008).

Her allweddol wrth weithredu a nodwyd yn y llenyddiaeth yw sicrhau ymrwymiad staff, gyda staff weithiau'n gyndyn o ddefnyddio arferion adferol oherwydd ofn o 'golli awdurdod' (Skinns et al., 2009) neu bod yn well ganddynt ddull mwy cosbedigol (Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfiawnder Adferol, 2021). Mae amser yn ffactor allweddol hefyd, gyda rhai amcangyfrifon yn awgrymu y gall newid diwylliant yr ysgol tuag at egwyddorion ac arferion adferol eu trywydd gymryd rhwng un flwyddyn a thair blynedd, gydag amcangyfrif fod ymwreiddio newid yn llawn yn cymryd hyd at bum mlynedd (Darling-Hammond et al., 2020). Yn ogystal, gall trosiant staff wanhau gweithredu dros amser, wrth i staff a hyfforddwyd mewn arferion adferol adael yr ysgol (Acosta et al., 2019 a Kane et al., 2008).

Gall anawsterau neu risgiau eraill gynnwys diffyg amser ar gael i gael sgyrsiau adferol, cytundebau a wneir mewn cynadleddau adferol heb fod yn cael eu dilyn, a gwrth-adwaith gan rieni a staff y dylai athrawon fod yn addysgu yn lle gweithredu arferion adferol (Lyubansky, 2019). Roedd ymchwil i'r defnydd o arferion adferol i leihau bwlio yn amlygu hefyd nad yw dulliau adferol mor effeithiol efallai wrth ddatrys gwrthdaro ym mhob sefyllfa, a

bod cosbau uniongyrchol yn dal i fod yn angenrheidiol fel cam wrth gefn pan fo'r broses adferol yn methu (Thompson, 2011).

Nid oedd yr astudiaethau a amlinellir yn yr adran hon yn gwneud sylw yn arferol am ganlyniadau arferion adferol yn cael eu gweithredu'n wael, heblaw awgrymu gweithredu gwael fel rheswm posibl pan mai cyfyngedig oedd y canlyniadau cadarnhaol a arsylwyd. Fodd bynnag, awgryma ymchwil ansoddol i'r defnydd o ddulliau adferol mewn cyfiawnder ieuenctid y gall gweithredu gwael arwain at blant yn teimlo'u bod yn cael eu dadrymuso a'u gorfodi i wneud ymddiheuriadau (Barnes, 2015).

**Cwnsela yn yr ysgol**

*Cyflwyniad*

Nod gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol yw cefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi problemau neu ofid iechyd meddwl a llesiant. Mae'r rhain yn ffactorau risg sy'n gysylltiedig â gwahardd o'r ysgol (John et al. (2022), Graham et al. (2019), Lereya a Deighton (2019), Tseliou (2021c a 2022)) ac maent ar gynnydd: Mae (Copeland et al. (2023) yn crybwyll iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc fel problem sylweddol o ran iechyd cyhoeddus sydd wedi cael ei gwaethygu gan y pandemig COVID-19).

Gall cwnsela helpu plant i archwilio, deall a goresgyn problemau yn eu bywydau a all fod yn peri anhawster, gofid a/neu ddryswch iddynt. Fel ymyrraeth mewn ysgolion, mae'n ymwneud â chyflwyno cymorth therapiwtig proffesiynol wyneb yn wyneb, ar-lein neu ar y ffôn gan gwnselydd proffesiynol. Gall gwmpasu amrywiaeth o ddulliau therapiwtig gan gynnwys therapi byr seiliedig ar atebion, therapi gwybyddol ymddygiadol, dulliau ymwybyddiaeth ofalgar, dyneiddiol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

*Effeithiolrwydd cwnsela yn yr ysgol*

- Canfu adolygiad cyflym o dystiolaeth o gwnsela yn yr ysgol ac yn y gymuned yn y Deyrnas Unedig (Copeland et al., 2023) nad oes dim tystiolaeth glir o effeithiolrwydd y dull therapiwtig oherwydd y diffyd gwerthusiadau gwyddonol gadarn a rhai canfyddiadau cymysg. Canfuont, fodd bynnag, rywfaint o dystiolaeth ansicr o gynlluniau ymchwil gwanach y gallai cwnsela gael rhywfaint o effeithiau cadarnhaol ar draws gwahanol leoliadau. Roedd y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan ddysgwyr, athrawon a rhieni a chredir ei fod yn gwella iechyd meddwl, llesiant a

hunan-barch plant a phobl ifanc a'u gallu i ddatblygu perthynas ag eraill a'u cydweithrediad yn yr ysgol.

Yn yr un modd, canfu adolygiad llenyddiaeth o waharddiadau ysgol a gyflawnwyd gan Graham et al. (2019) ar gyfer Adran Addysg Lloegr (DfE) dystiolaeth gyfyngedig ynghylch effaith ymyraethau cwnsela yn benodol ar rwystro gwaharddiadau. Er hynny, roeddent yn gallu crybwyll rhywfaint o ymchwil sy'n awgrymu rhai cysylltiadau rhwng gwasanaethau cwnsela a gwelliannau mewn cydweithredu yn yr ysgol a chyfraddau gwahardd:

- Mae plant a staff gofal bugeiliol yn gweld cwnsela yn yr ysgol fel ymyrraeth hygyrch, heb fod yn codi cywilydd, ac effeithiol (Cooper, 2009).
- Mae rheolwyr ysgolion yn adrodd am welliannau mewn cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad plant sydd â gwasanaethau cwnsela ar gael iddynt (Pybis et al., 2012).
- Mewn un astudiaeth, roedd cwnsela yn yr ysgol yn helpu peri lleihad o tua 31 y cant mewn cyfraddau gwahardd o ysgolion (Banerjee et al., 2014).
- Roedd Valdebenito et al. (2018) yn crybwyll lleihad bach ond ystadegol arwyddocaol mewn cyfraddau gwahardd mewn tair astudiaeth yn yr Unol Daleithiau a oedd yn canolbwyntio ar gwnsela.

Yn fwy diweddar, canfu gwerthusiad o wasanaeth cwnsela un-i-un Place2Be y gall cwnsela yn yr ysgol ddylanwadu'n gadarnhaol ar gydweithrediad addysgol ac effeithio ar lefelau gwaharddiadau (Toth et al., 2022). Bu'r gwerthuswyr yn cymharu cyfraddau gwahardd cyfnod penodol yn y blynyddoedd academaidd cynt ac yn ystod y cyfnod hwn roedd 6,700 o blant (o 308 o ysgolion cynradd a 61 o ysgolion uwchradd) wedi bod mewn rhwng 16 a 22 o sesiynau cwnsela. Canfuont fod plant a oedd wedi profi o leiaf un gwaharddiad cyfnod penodol yn y flwyddyn cyn mynychu cwnsela wedi colli nifer cryn dipyn llai o sesiynau ysgol oherwydd gwaharddiad ym mlwyddyn eu cwnsela, o gymharu â'r flwyddyn gynt. Roedd mwy na hanner y rhain heb gael unrhyw waharddiadau cyfnod penodol dilynol. Ar gyfartaledd, cafodd y plant well iechyd meddwl hefyd, a fesurwyd gan welliannau a adroddwyd gan athrawon ar yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (Strengths and Difficulties Questionnaire; Goodman, 1997). Roedd yr ymchwilwyr yn nodi, fodd bynnag, fod ymchwil pellach yn angenrheidiol (gan gynnwys gwrthffeithiol) er mwyn archwilio'n fwy trylwyr effaith cwnsela yn yr ysgol ar waharddiadau.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Roedd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (2013) yn ei gwneud yn statudol ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol plant ym Mlynyddoedd 6 i 13, a phobl ifanc yn yr ardaloedd rhwng 11 a 18 oed a gaiff eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

Canfu'r adolygiad o wasanaethau cwnsela statudol yn yr ysgol ac yn y gymuned a gyflawnwyd gan Hewitt et al. (2022) ar ran Llywodraeth Cymru fod cymysgedd o ddulliau cyflwyno, gyda rhai gwasanaethau'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol eu hunain, eraill yn cael eu comisiynu i ddarparwr allanol, a rhai gwasanaethau yn cael gafael ar ffynonellau ychwanegol o gyllid a oedd yn cynyddu'r nifer o oriau cwnsela wedi eu hariannu y gellid eu cynnig. O ran cyrhaeddiad gwasanaethau cwnsela a'r graddau'r oeddent ar gael ar draws lleoliadau ysgolion a chymunedau yng Nghymru, canfu'r ymchwilwyr:

- Gall gwasanaethau yn y gymuned gynyddu cyrhaeddiad, yn enwedig i blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol.
- Gall fod anghydraddoldeb mynediad at wasanaethau cwnsela, yn enwedig ymysg plant iau, y rheini nad ydynt yn cyrraedd trothwy diagnosis, y rheini sy'n llai tebygol o geisio cymorth (ee oherwydd pryderon ynghylch cywilydd), plant o dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r rheini sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Gall fod amserau aros hir am wasanaethau cwnsela, a all arwain at heriau'n dyfnhau a gwaethygu, neu blant/rhieni yn cael eu dadrithio gyda'r cynnig o gwnsela.

Ar sail adolygiad cyflym o'r dystiolaeth ac ymchwil ansoddol dyfnach pellach, canfu Hewitt et al. (2022) hefyd agweddau o gynllunio a gweithredu a all arwain at ymyraethau cwnsela llwyddiannus:

- Integreiddio o fewn dull ysgol-gyfan ehangach o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol gyda chysylltiadau cryf â gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol.
- Graddau uchel o ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc, gyda'r dewis o sesiynau galw heibio i gefnogi dealltwriaeth a gwneud penderfyniadau.
- Cefnogaeth gan rieni a gofalwyr.

- Amrywiaeth hyblyg a chynhwysol o dechnegau wedi eu teilwra i alluogi dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cynnig dewis ac annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch sesiynau cwnsela.
- Bod â lleoliad dynodedig, cyson ac addas i gynnal y cwnsela.
- Recriwtio a chadw cwnselwyr o ansawdd da.
- Galluogi perthynas gadarnhaol o ymddiriedaeth rhwng cwnselwyr a phlant, a rhwng cwnselwyr ac ysgolion neu wasanaethau cymunedol.
- Darparu cyllid i helpu ysgolion i gyflwyno a chynnal gwasanaethau cwnsela.

**Dull ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad**

*Cyflwyniad*

Yma rydym yn ystyried y dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd dulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad a sut y gallent helpu i gyfyngu neu leihau'r nifer o waharddiadau cyfnod penodol neu barhaol.

Dull ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad yw un lle mae safonau a disgwyliadau ymddygiad da yn treiddio i bob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys diwylliant, ethos a gwerthoedd yr ysgol, sut y caiff plant eu haddysgu a'u hannog i ymddwyn, yr ymateb i gamymddwyn a'r berthynas rhwng staff, plant a rhieni. Mae'n ymwneud â chael disgwyliadau clir o ymddygiad sy'n cael eu cyfleu'n dda a mesurau a chymorth ymddygiad yn cael eu gweithredu'n gyson drwy'r holl ysgol a chan staff a disgyblion (Adran Addysg Lloegr, 2022).

Mae elfennau allweddol o ddull ysgol o ymdrin ag ymddygiad yn cynnwys:

- Safonau'r ysgol, gan gynnwys ymddygiadau a gaiff eu caniatáu a'u gwahardd, y gwerthoedd, agweddau a'r credoau maent yn eu hyrwyddo a'r normau a'r gweithdrefnau cymdeithasol y dylid eu hannog drwy holl gymuned yr ysgol (Adran Addysg Lloegr, 2022b).
- Gwobrau, ee siartiau sêr, systemau pwyntiau tŷ neu wobrau gwasanaeth/pennaeth blwyddyn.

- Cosbau, ee ceryddau geiriol, systemau goleuadau traffig, colli brentiau, hysbysu rhieni/gofalwyr, amserau ymdawelu, codi sbwriel, cadw i mewn neu waharddiadau mewnol (Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2019).
- Addysgu ymddygiadau dysgu cadarnhaol megis canolbwyntio, ymddygiad rhag-gymdeithasol, sgiliau cyfathrebu a chydweithrediad.
- Defnyddio technegau ymdawelu gyda dysgwyr, megis gwrando gweithredol, cynnig dewisiadau cadarnhaol, a defnyddio iaith corff anfygythiol (Moore et al., 2019 a'r Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2019).
- Dulliau ysgol-gyfan, gan gynnwys y rheini a drafodir mewn lleoedd eraill yn yr adolygiad llenyddiaeth hwn, megis arferion sy'n ystyriol o drawma, cydweithrediad rhieni, arferion adferol a dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol. Ar lefel yr ystafell ddosbarth, mae strategaethau'n aml yn cynnwys gweithdrefnau, gwobrau, systemau atgyfnerthu cadarnhaol a chytundebau ymddygiad. (Moore et al., 2019 a Llywodraeth Cymru, 2012).
- Ymyraethau penodol i blant sydd angen cymorth mwy dwys neu unigoledig, ee asesiadau ymddygiad gweithredol a chardiau adrodd dyddiol (Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2019), a hefyd ymyraethau penodol y cyfeirir atynt mewn lleoedd eraill yn yr adolygiad hwn megis mentora, rhaglenni cymorth bugeiliol, cwricwlwm wedi'i addasu, cynorthwywyr ELSA, cwnsela a dulliau therapiwtig.

*Effeithiolrwydd dulliau ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad*

Cyflawnodd Moore et al. (2019) adolygiad systematig o dystiolaeth (gan gynnwys ffynonellau Prydeinig a rhyngwladol) o effaith ymyraethau ymddygiadol, yn rhai ysgol-gyfan ac ystafell ddosbarth, megis hyfforddi athrawon, systemau gwobrau, atgyfnerthu ymddygiad rhag-gymdeithasol, a disgyblaeth am gamymddwyn. Cafodd yr ymyraethau hyn eu gweithredu naill ai mewn dull penodol neu gyffredinol. Nod ymyraethau penodol oedd gwella ymddygiad grwpiau a dargedwyd o blant fel rhai mewn risg o anawsterau ymddygiadol. Roedd llawer o elfennau'r ymyraethau penodol yr un fath â'r ymyraethau cyffredinol ond yn cael eu cyflwyno i'r grŵp targed yn unig. Elfennau a oedd yn unigryw i'r ymyraethau penodol oedd y rheini a oedd yn canolbwyntio ar hyfforddi sgiliau myfyrwyr (ee asesiadau ymddygiadol gweithredol). Roedd ymyraethau penodol yn adrodd effeithiau mwy

eu maint nag yn y dulliau cyffredinol, gan gyflawni effeithiau cymharol fawr eu heffaith ar ganlyniadau ymddygiadol (canolrif o 0.50).

Nod ymyraethau cyffredinol oedd gwella ymddygiad ymysg pawb o'r plant yn yr holl ddosbarthiadau a chanfuwyd eu bod yn cyflawni rhai effeithiau buddiol ar ganlyniadau ymddygiad (maint effeithiau yn amrywio o -0.14 i 0.37 gyda chanolrif o 0.12). Roedd yr awduron yn awgrymu y gallai'r effaith fach hon adlewyrchu'r amser a gymerwyd i sefydlu newid mewn ymddygiad drwy'r holl ysgol neu'r anhawster wrth weithredu rhaglenni o'r fath. Gwelwyd effaith mwy ei maint (0.57) mewn un ymyrraeth a oedd yn cyfuno elfennau cyffredinol a phenodol wrth weithredu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad, sy'n awgrymu manteision dull mwy integredig ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad (Waschbusch et al., 2005).

Yn gyffredinol, canfu Moore et al. (2019) y gall naill ai hyfforddi athrawon neu roi systemau gwobrwyo clir ar waith wella ymddygiad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth i bawb o'r plant. I blant sy'n arddangos ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, gall gweithredu ymyraethau sy'n darparu hyfforddiant i athrawon a sefydlu strategaethau penodol ar gyfer ystafell ddosbarth hefyd fod yn fuddiol. Mae'r ymyraethau penodol hyn yn aml yn fwy llwyddiannus pan gânt eu haddasu i ddiwallu anghenion yr unigolion yn hytrach na gweithredu'r un strategaethau i'r holl blant.

Ceisiodd ymchwil yn California ddarganfod effaith ymyraethau a chymorth ymddygiad cadarnhaol ysgol-gyfan ar waharddiadau disgyblaethol (Gage et al., 2019). Elfennau allweddol y dulliau a ystyriwyd oedd disgwyliadau ymddygiadol clir drwy'r holl ysgol, rhaglenni ymyraeth ar gyfer ystafell ddosbarth (ee cofrestriadau neu hyfforddiant sgiliau cymdeithasol yn yr ystafell ddosbarth) ac ymyraethau penodol yn defnyddio asesiadau ymddygiad gweithredol. Defnyddiodd yr astudiaeth ddull cyfateb sgoriau tueddiad i gymharu gwahaniaeth rhwng ysgolion yn gweithredu'r dull a'r rheini nad oedd yn gwneud hynny. Canfu fod cryn dipyn llai o waharddiadau cyfnod penodol wedi digwydd yn yr ysgolion a oedd yn gweithredu'r ymyraethau (gyda maint effaith o fwy na 0.25). Fodd bynnag, ni chanfuwyd dim effeithiau ar waharddiadau parhaol.

Yn yr un modd, cyflawnodd Gage et al. (2018) adolygiad o astudiaethau arbrofol a lled-arbrofol a oedd yn gwerthuso effaith ymyrraethau a chymorth ymddygiad cadarnhaol ysgol-gyfan. Roedd yr astudiaethau a gynhwyswyd yn ymwneud â 90 o ysgolion ledled America,

gydag effaith fawr ac ystadegol arwyddocaol yn cael ei chanfod ar gyfer lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol (maint effaith -0.86).

Yng Nghymru, mae astudiaeth achos a ddatblygwyd gan (2018b) yn amlinellu model cydweithredol ysgol gyfan o gymorth ymddygiad cadarnaol. Mae hyn yn cynnwys gwella cyfathrebu, addysgu sgiliau academaidd a lleihau ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill ar sail cydweithio rhwng athrawon, dadansoddwyr ymddygiad a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r astudiaeth achos yn adrodd bod "y model wedi galluogi pawb o'r disgyblion i gynnal eu lleoliadau yn llwyddiannus yn yr ysgol. Mae hyn wedi golygu, er enghraifft, nad oes dim gwaharddiadau parhaol wedi bod o'r ysgol dros y tair blynedd ddiwethaf".

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Caiff nodweddion pwysig dull ysgol-gyfan o ymdrin ag ymddygiad eu canfod gan Bennett (2017) a'r EEF (2019). Maent yn cynnwys:

- Ymrwymiad gan uwch-arweinwyr.
- Disgwyliadau ymddygiadol manwl sy'n cael eu deall yn dda.
- Hyfforddiant i staff, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu, derbynwyr, staff amser cinio a phawb arall sy'n ymwneud â phlant.
- Arferion a strategaethau cyson a thrylwyr yn cael eu defnyddio drwy'r holl ysgol.
- Synnwyr o gyd-gyfrifoldeb a chyd-ymrwymiad ymysg staff, rhieni a phlant.
- Dealltwriaeth o'r effaith a ddisgwylir, a sut i'w fesur.

Mewn dadansoddiad ansoddol cymharol, roedd Moore et al. (2019) yn rhagfynegi elfennau o ymyraethau a fyddai'n gwella canlyniadau ymddygiadol, gan amlygu dau gyfuniad penodol:

- Teilwra'r cymorth i anghenion plentyn, gan ganolbwyntio ar wella perthynas ag aeraill a darparu dros 20 awr o hyfforddiant i athrawon.
- Canolbwyntio ar faterion academaidd gan addysgu sgiliau dygymod a gwydnwch yn ogystal.

Mae llenyddiaeth arall yn amlygu cysondeb gweithredu a chydlyniant fel elfennau allweddol o weithredu effeithiol, waeth pa ddull cyffredinol a fabwysiedir (EEF, 2019; Cymdeithas Genedlaethol Seicolegwyr Ysgol, 2020; Bennett, 2017).

## Ymyraethau therapiwtig

*Cyflwyniad*

Yn ogystal â'r dulliau cwnsela yn yr ysgol a drafodwyd yn gynharach, mae amryw o ymyraethau therapiwtig eraill y gallai ysgolion eu defnyddio i gefnogi plant gyda'u llesiant meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol. Gan fod y rhain, fel y cyfeiriwyd yn gynharach, yn ffactorau risg sy'n gysylltiedig â gwaharddiadau o'r ysgol, mae potensial y gallai'r gweithgareddau hyn gyfrannu at leihau gwaharddiadau yng nghyd-destun yr ysgol.

Mae ymyraethau sy'n seiliedig ar feddwl therapiwtig yn canolbwyntio ar sut gellir cefnogi plant a phobl ifanc o safbwynt eu llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl. Gallant helpu hefyd i ddatblygu dealltwriaeth o sut i ymateb i'r rheini a allai fod yn cyfathrebu trwy ymddygiadau sy'n peri pryder (Czone, 2018).

Yn aml, mae nifer o arferion a amlinellir mewn lleoedd eraill yn yr adolygiad hwn yn ymgorffori dulliau therapiwtig, gan gynnwys arferion sy'n ystyriol o drawma ac arferion adferol, grwpiau anogaeth, cynorthwywyr ELSA a mentora. Amlinellwn isod dri math arall o ymyrraeth therapiwtig nas crybwyllir yn benodol yn unlle arall – therapïau chwarae a chreadigol, ymwybyddiaeth ofalgar, a rhaglenni dysgu cymdeithasol ac emosiynol.

*Therapïau Chwarae a'r Celfyddydau*

Mae'r therapïau hyn yn defnyddio chwarae neu fynegiant creadigol i helpu plant i fynegi a deall eu hemosiynau, dygymod â straen a phryderon, a datblygu hunan-ymwybyddiaeth a hunan-barch (Moula a McDonald, 2021). Yn gyffredinol, eu nod yw (MIND, 2021):

- Caniatáu i blant gyfleu meddyliau a theimladau'r ydych yn ei chael yn anodd i'w rhoi mewn geiriau.
- Helpu plant i wneud synnwyr o beth a deall eich hun yn well.
- Rhoi amser a lle diogel i blant gyda rhywun na fydd yn eich barnu.
- Helpu plant i ganfod ffyrdd newydd o edrych ar broblemau neu sefyllfaoedd anodd.
- Helpu plant i siarad am deimladau cymhleth neu brofiadau anodd.
- Helpu plant i gysylltu â phobl eraill.

Mae ysgolion yn ymwneud â gwasanaethau therapi chwarae i helpu cefnogi iechyd meddwl a llesiant plant (Thomas, 2015). Maent yn cynnig ffordd naturiol a hwyliog i blant fynegi eu

hunain a gwella sgiliau cymdeithasol neu ddygymod gan ddefnyddio teganau, gemau a deunyddiau eraill. Fe'u defnyddir yn aml gyda phlant bach (nad ydynt efallai yn gallu mynegi eu hunain yn eiriol) ond gellir eu defnyddio hefyd gyda phlant hŷn a glasoed (Nopa, 2022).

Mae therapïau celf yn cyfeirio at therapi celf, cerddoriaeth, drama a symudiadau dawns, sy'n ddulliau seicotherapiwtig ac iddynt y nod o hwyluso newid seicolegol a thwf personol trwy ddefnyddio cyfryngau celf (Moula et al., 2020):

- Gallai therapi celf gynnwys paentio, darlunio, cerflunwaith, collage neu ffotograffiaeth. Mae'r therapydd yn annog y plentyn i siarad am ei waith celf a beth mae'n ei gynrychioli, gyda'r trafodaethau'n gweithredu fel ffyrdd o ddangos anwylderau iechyd meddwl neu broblemau personol (Nopa, 2022).
- Gallai therapi drama gynnwys actio byrfyfyr, chwarae rhan neu ysgrifennu creadigol i drin amrywiol broblemau iechyd meddwl (Nopa, 2022).
- Mae therapi cerdd yn archwilio cerddoriaeth a sain – gan ddefnyddio offerynnau neu lais i archwilio ffyrdd o gyfathrebu a mynegi teimladau (MIND, 2021).
- Mae therapi dawns yn ymwned â defnyddio symudiad y corff a dawns i fynd i'r afael â theimladau anodd ynghylch ymddangosiad, er enghraifft, neu i archwilio profiadau anodd trwy symudiad yn hytrach na geiriau (MIND, 2021).

*Ymwybyddiaeth ofalgar*

Mae Weare a Bethune (2021) yn disgrifio ymwybyddiaeth ofalgar fel talu sylw bwriadol i brofiad y funud bresennol, yn tu mewn i'n hunain, ein meddyliau a'n cyrff, ac yn ein hamgylchedd, gydag agwedd agored, o chwilfrydedd, caredigrwydd a gofal. Mae cwrs ymwybyddiaeth ofalgar yn helpu cyfranogwyr i ddatblygu perthynas newydd gyda'u profiad, 'symud tuag at' eu profiadau, gan gynnwys rhai anodd. Gall feithrin teimladau megis llawenydd, tosturi, doethineb, tegwch, y gallu i dalu sylw, cysylltu'n effeithiol â'r emosiynau ac ymwneud mewn gweithredu mwy medrus.

Gallai datblygu dull ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion olygu sefydlu hyrwyddwyr ymwybyddiaeth ofalgar, hyfforddi athrawon i addysgu ymwybyddiaeth ofalgar, neu ddatblygu amserlenni i ymgorffori sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar (Weare a Buthune, 2021). Mae'r arferion yn cynnwys seicoaddysg ynghylch emosiynau ac ymwybyddiaeth ofalgar yn ogystal ag addysgu ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar megis ymwybyddiaeth o

anadl, sganiau corff gofalgar ac ymwybyddiaeth o feddyliau a theimladau (Phan et al., 2022).

*Rhaglenni Dysgu Cymdeithasol ac Emosiynol*

Mae ymyraethau dysgu cymdeithasol ac emosiynol yn ceisio gwella sgiliau penderfynu plant, y ffordd maent yn rhyngweithio ag eraill, deall eu hemosiynau eu hunain a'i gilydd, a rheoli emosiynol. Gallai ymyraethau ganolbwyntio ar y ffyrdd mae plant yn gweithio gyda'u cyfoedion, athrawon, teulu neu gymuned (a law yn llaw â hwy) (EEF, 2021c). Maent yn cynnwys (Early Intervention Foundation, 2018):

- Dulliau ysgol-gyfan sy'n ymwneud â gweithredu cydgysylltiedig ar draws y cwricwlwm, ethos yr ysgol a'r teulu.
- Rhaglenni cyffredinol sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft i addysgu adnabod a rheoli emosiynau, cyfathrebu effeithiol, datrys problemau, datrys anghydfodau a sgiliau dygymod.
- Ymyraethau penodol, a gyflawnir yn aml trwy waith grwpiau bach, i atgyfnerthu ac ategu cyfarwyddyd ystafell ddosbarth i blant sydd angen cymorth mwy dwys.
- Rhaglenni mwy arbenigol sy'n defnyddio elfennau o ddysgu cymdeithasol ac emosiynol ac sydd wedi eu targedu at plant sydd ag anghenion cymdeithasol neu emosiynol penodol.

*Effeithiolrwydd*

Mae amrywiaeth o dystiolaeth ymchwil yn dangos effeithiau cadarnhaol rhai o'r dulliau therapiwtig hyn ar lesiant meddyliol ac emosiynol plant:

- Trwy astudiaeth a hap-reolwyd yn ymwneud â 62 o blant saith i 10 oed gyda mân anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, dangosodd Moula et al. (2022) effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant meddwl trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o therapïau celf, gan gynnwys cerddoriaeth, dawns a drama. Canfuwyd bod y therapïau yn neilltuol o effeithiol ar gyfer mynegi emosiynau a theimladau cymhleth na ellid eu rhoi'n hawdd mewn geiriau.
- Ar sail adolygiadau a meta-ddadansoddiadau systematig, canfu Weare a Bethune (2021) ganlyniadau cadarnhaol i blant yn deillio o ymwneud ag arferion ymwybyddiaeth ofalgar, gan gynnwys gwell iechyd a llesiant seico-gymdeithasol a

chorfforol, llai o broblemau iechyd meddwl (gan gynnwsy straen ac iselder) a gwell sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, ymddygiad, gwybyddiaeth a pherfformiad academaidd.

- Mewn adolygiad systematig o dystiolaeth canlyniadau, canfu Phan et al. (2022) fod yr ymyraethau ysgol ar sail ymwybyddiaeth ofalgar yn cynyddu ymddygiad rhag-gymdeithasol, gwydnwch, gweithrediad goruwchwyliol a chanolbwyntio, a lleihau gorbryder, problemau canolbwyntio/anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac ymddygiadau.
- Mae adolygiadau systemig o dystiolaeth ar effeithiolrwydd ymyraethau dysgu cymdeithasol ac emosiynol (Clarke et al., 2015, Gedikoglu, 2021, Goldberg et al., 2019) yn crybwyll tystiolaeth o raglenni cyffredinol effeithiol a gafodd effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant, gan leihau problemau ymddygiad a gwella perfformiad academaidd.

Fodd bynnag, roedd yr awduron uchod yn cydnabod hefyd y diffyg cymharol o dystiolaeth ar effeithiau mwy hirdymor yr ymyraethau hyn. Yn ogystal, canfu ymchwil ar gyfer rhaglen MYRIAD (Montero-Marin et al., 2022), a oedd yn profi effeithiau ymyrraeth ymwybyddiaeth ofalgar fer i blant yn eu harddegau cynnar, na chafodd ddim effaith ar iechyd meddwl a llesiant cyffredinol plant. Er hynny, nodwyd canlyniadau cadarnhaol i ddiwylliant ysgol ac o ran lleihau gorflinder athrawon, ac amlygodd yr astudiaeth fod y ffordd y cyflwynir arferion ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgol yn bwysig wrth sicrhau mwy o effaith i blant. Awgrymwyd newidiadau systemig ehangach a defnyddio ymarferwyr ymwybyddiaeth ofalgar.

Fe wnaeth Maynard et al. (2017) grynhoi 61 o astudiaethau ar ymyraethau ymwybyddiaeth ofalgar a chanfu fod canlyniadau da ar gyfer perfformiad gwybyddyddol a chymdeithasol-emosiynol ond diffyg tystiolaeth ar gyfer perfformiad academaidd ac ymddygiadol.

Ni chanfu'r adolygiad llenyddiaeth hwn unrhyw ymchwil sy'n cysyllu'n ddiamwys weithredu'r ymyraethau therapiwtig hyn â lleihad mewn gwaharddiadau ysgol ar raddfa eang. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau unigol:

- Wrth ysgrifennu yn Headteacher Update (cylchgrawn i brifathrawon ysgolion cynradd yn y Deyrnas Unedig), dywedodd prifathro ysgol gynradd yng Nghernyw fod dyddiau o waharddiadau wedi cwympo o 36 yn y flwyddyn cyn cyflwyno amrywiol ddulliau

therapiwtig[29], i bum diwrnod ddwy flynedd yn ddiweddarach (Cook, 2018). Adroddodd y prifathro welliannau hefyd yn sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant yn yr ysgol.

- Rhoddodd gwerthusiad o'r prosiect Therapeutic Intervention for Peace (Power the Fight, 2022) enghreifftiau o astudiaethau achos ar lefel plentyn lle ymddengys fod gwaharddiadau wedi cael eu rhwystro gan y prosiect. Nod y prosiect, Therapeutic Intervention for Peace, a gyflwynwyd mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn ne Llundain, yw lleihau trais rhyngbersonol ymysg ieuenctid. Mae ei ddulliau yn cynnwys hyfforddiant sensitifrwydd diwylliannol, gweithdai therapi celf, sesiynau un-i-un a grŵp gyda phlant, a lleoliadau arferion myfyrio a gyd-ddatblygwyd i rieni a theuluoedd.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Ar draws y rhychwant o ddulliau therapiwtig a drafodir uchod, mae'r ymchwil yn nodi rhai themâu cyffredin ar gyfer gweithredu llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bod ag adnoddau/cyllidebau digonol (Nopa, 2022).
- Argymhellir mabwysiadu dulliau ysgol-gyfan neu gyffredinol sy'n galluogi integreiddio sesiynau a datblygu sgiliau o fewn y cwricwlwm o safbwynt yr iaith a ddefnyddir (Weare a Buthune, 2021) a chyfleoedd i roi sgiliau a ddysgwyd ar waith mewn meysydd eraill (Gedikoglu, 2021).
- Cefnogaeth gan brifathrawon ac uwch arweinwyr, gan gynnwys cyfleoedd iddynt hyfforddi a dysgu'r egwyddorion eu hunain (Lord a Kukyen, 2020).
- Hyfforddiant i athrawon greu amgylcheddau therapiwtig a gweithredu rhaglenni yn effeithiol (Greenberg, 2023).

Mae'n dal i fod niweidiau posibl sy'n gysylltiedig â rhaglenni seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar yr awgryma rhai awduron eu bod yn gofyn am archwilio pellach, mae'r rhain yn cynnwys ffactorau'n ymwneud â rhaglenni, ffactorau'n ymwneud â chyfranogwyr, a ffactorau'n ymwneud â chlinigwyr neu athrawon (Baer et al., 2019).

[29] Roedd y rhain yn cynnwys 'Ystafell Ffynnu' (gyda bagiau ffa, drychau, clustogau a phypedau), therapi cerddoriaeth a chwarae, therapi syrffio a therapi anifeiliaid.

**Cymorth pontio**

*Cyflwyniad*

Caiff symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ei gydnabod fel pwynt sylweddol o newid ym mywydau plant. Er bod y rhan fwyaf o blant yn ymdrin â'r newid hwn yn llwyddiannus, gall rhai ganfod y pontio yn fwy o her (Hanewald, 2013). Mae cymorth pontio, felly, yn cyfeirio at arferion (naill ai arferion cyffredinol neu benodol) ac iddynt y nod o fynd i'r afael â'r heriau posibl y gall plant eu hwynebu wrth symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Canfu'r Astudiaeth Ymchwil Pontio Ysgol ac Addasu 17 o ddulliau cyffredin wrth roi cymorth pontio, wedi eu dosbarthu'n dri chategori (Neal et al. 2016):

- **Dulliau systematig:** ac iddynt y nod o ddatblygu cysylltiadau rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, gan adeiladu sianelau cyfathrebu effeithiol rhwng y ddwy lefel, a helpu i ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol. Gallai'r rhain gynnwys prosiectau ar y cyd neu bontio unedau gyda'r ysgol uwchradd, grwpiau cymorth cymheiriaid gyda phlant ysgol gynradd yn mynd i'r un ysgol uwchradd, grwpiau cymorth rhieni, cyfarfodydd rhwng staff yr ysgol a rhieni, a phasbortau disgyblion (gwybodaeth am y plentyn yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol newydd).
- **Strategaethau gwybyddol:** ac iddynt y nod o fynd i'r afael â phryderon plant ynghylch y pontio. Er enghraifft, rhoi gwybodaeth ysgrifenedig am yr ysgol uwchradd, trafodaethau yn y dosbarth am bryderon plant, cyfarfodydd ymgynnull ynghylch pontio a defnyddio adnoddau ar-lein.
- **Dulliau ymddygiadol:** ac iddynt y nod o ymgyfarwyddo plant â'u hysgol newydd, a'r gwahanol weithdrefnau, disgwyliadau a dulliau addysgu y byddant yn eu hwynebu. Er enghraifft, ymweliadau â'r ysgol uwchradd (ymweliadau dosbarthiadau cyfan ac ymweliadau ychwanegol gyda grwpiau penodol), mwy o waith cartref, addysgu geirfa ysgol uwchradd, addasiadau amserlen i adlewyrchu amserlenni uwchradd ac addysgu sgiliau trefnu allweddol.

Fe wnaeth arolwg diweddar o Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ysgolion cynradd yn y Deyrnas Unedig amlygu rhai anghenion cymorth pontio penodol i blant sydd mewn risg o waharddiad (Martin-Denham, 2023). Roedd cydlynwyr AAA yn mynegi pryder y gallai plant sydd mewn risg o waharddiad ei chael yn anodd gydag amrywiol agweddau o

bontio i'r ysgol uwchradd, gan gynnwys datblygu perthynas gydag athrawon a phlant eraill, dygymod â'r newid mewn amgylchedd, cydymffurfio â disgwyliadau a rheolau ymddygiad newydd ac, yn enwedig i'r rheini ag AAA, dygymod â'r straen uwch a ddaw yn sgil gofynion cwricwlwm a dulliau addysgu newydd. Roeddent yn awgrymu y dylai atebion, i'r rheini sydd mewn risg cymedrol o waharddiad, gynnwys cymorth bugeiliol ychwanegol, gan ddewis oedolion cefnogol yr ymddiriedir ynddynt yn yr ysgol uwchradd, ac ymwybyddiaeth staff o anghenion y plentyn. Yn ogystal, i'r rheini mewn risg uchel o waharddiad, awgrymwyd cymorth cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl yn ystod y pontio (gan gynnwys CAMHS neu gwnsela), ynghyd ag ymweliadau ychwanegol i'r ysgol newydd, dosbarthiadau bach eu maint, pennu lleoliadau diogel i'r plentyn fynd iddynt pan fo angen cymorth, gwiriadau yn ystod y diwrnod ysgol, a staff yn gwybod beth oedd y ffordd orau o gyfathrebu â'r plentyn pan fo wedi'i lethu.

*Effeithiolrwydd cymorth pontio*

Er bod llawer o lenyddiaeth ar gael ar bontio'n gyffredinol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mae ymchwil sy'n gwerthuso ymyraethau penodol ac iddynt y nod o wella profiadau plant o bontio yn fwy cyfyngedig, ac ni chanfuwyd dim astudiaethau sy'n asesu effaith ymyraethau cymorth pontio ar y risg o waharddiad. Roedd adolygiad systematig diweddar o bontio o addysg gynradd i uwchradd (a oedd yn cynnwys adolygiad o naw adolygiad llenyddiaeth arall) yn canolbwyntio ar yr hyn mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud am brofiad plant o bontio, effaith pontio ar ganlyniadau addysgol a llesiant, a'r ffactorau allweddol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol neu negyddol at bontio o'r cynradd i'r uwchradd (Jindal-Snape et al., 2020). Ni chafodd ymyraethau cymorth pontio eu hystyried yn y drafodaeth o dystiolaeth sy'n ymwneud â ffactorau cyfrannol cadarnhaol neu negyddol.

Er hynny, canfu'r adolygiad hwn nifer bach o astudiaethau sy'n archwilio effeithiolrwydd gwahanol ymyraethau cymorth pontio ar brofiadau plant o bontio i'r ysgol uwchradd. Roedd ymchwil gan Neal et al. (2016), y datblygwyd y deipoleg uchod o ddulliau cymorth pontio drwyddo, yn asesu effaith gwahanol fathau o gymorth pontio ar 532 a oedd yn datblygu'n arferol ac 89 o blant ag AAA. Gan ddefnyddio cynllun hydredol, arolygwyd plant mewn ysgolion yn de-ddwyrain Lloeg yn nhymor olaf Blwyddyn 6 a thymor cyntaf Blwyddyn 7. Canfu'r astudiaeth fod dulliau systematig o gyflwyno cymorth pontio yn gysylltiedig â gorbryder is am ysgol ymysg plant a oedd yn datblygu'n arferol, ond lefelau uwch o orbryder am ysgol ymysg y rheini ag AAA, gan awgrymu y gallai fod ar y plant hyn angen dull wedi ei

bersonoli'n fwy. Ni welwyd dim cysylltiad rhwng dulliau gwybyddol ac ymddygiadol o roi cymorth pontio a gorbryder am ysgol.

Daeth adolygiad tystiolaeth o ymyraethau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant yn ystod pontio i'r casgliad fod rhaglenni sy'n pontio'r ddwy lefel o ysgolion, sy'n cefnogi perthynas plant â'u cyfoedion a'u hathrawon, sy'n cynnwys rhieni, sy'n mynd i'r afael â phryderon cyffredin am bontio ac sy'n cynnig cymorth unigoledig i blant agored i ganlyniadau negyddol yn debygol o fod y rhai mwyaf effeithiol wrth gefnogi llesiant (White, 2020). Lluniwyd y casgliadau hyn o nifer bach o astudiaethau, gan gynnwys yr ymchwil canlynol gan ddefnyddio cynllun arbrofol i'r arolwg cynt ac wedyn:

- Gwerthusiad lled-arbrofol o'r Transfer Support Team (Bloyce a Fredrickson, 2012), ymyrraeth yn cynnwys 12 o sesiynau a gyflwynwyd yn nhymor olaf ysgol gynradd a thymor cyntaf ysgol uwchradd. Roedd y sesiynau wedi eu targedu at blant bregus (a ddiffiniwyd fel rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol a phlant di-ddatganiad ag AAA) ac roeddent yn canolbwyntio ar agweddau trefniadol, cymdeithasol ac academaidd pontio i'r ysgol uwchradd. Fe wnaeth cyfanswm o 351 o blant o 75 o ysgolion cynradd gymryd rhan yn yr ymyrraeth, ynghyd â grŵp cymharu o 106 o blant. Dangosodd data o holiadur pryderon yr ysgolion, a gwblhawyd cyn ac ar ôl yr ymyrraeth, fod gan grŵp yr ymyrraeth fwy o bryderon cyn y sesiynau, ond bod gan y ddau grŵp lefelau tebyg o bryderon wedyn, gan awgrymu bod yr ymyrraeth yn effeithiol. Canfu'r astudiaeth fod yr ymyrraeth yr un mor effeithiol i'r rheini a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant di-ddatganiad oedd ag AAA. Fodd bynnag, nid oedd mor effeithiol i blant a oedd yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn ogystal, nid oedd cydberthynas arwyddocaol rhwng lleihad mewn pryderon am ysgol a newidiadau mewn problemau â chyfoedion neu ymddygiad rhag-gymdeithasol.
- Gwerthusiad o glwb pontio gweithgareddau haf (Akister et al., 2016), a oedd yn darparu gweithgareddau ar ôl ysgol ac yn y gwyliau i 48 o blant a gafodd eu hadnabod fel rhai mewn risg o ganlyniadau negyddol pontio oherwydd pryderon yn ymwneud â hunan-barch, ymddygiad, presenoldeb neu anghenion dysgu. Roedd y plant o 10 o ysgolion cynradd mewn ardal wledig yn Nwyrain Lloegr. Defnyddiodd y gwerthusiad sgoriau holiadur cryfderau ac anawsterau (SDQ) a raddiwyd gan athrawon, a roddwyd cyn yr ymyrraeth gan athro ysgol gynradd y plentyn ac ar ôl yr ymyrraeth gan athro

ysgol uwchradd, er mwyn dangos newid. Cyn y clwb gweithgareddau, cafodd 65 y cant o'r plant eu sgorio o fewn yr amrediad tebygol o fod yn anodd, ond erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd, dim ond 31 y cant oedd yn sgorio yn yr amrediad hwnnw. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth yn nodi mai ychydig iawn o effaith ar faterion ymddygiad a raddiwyd gan athrawon a sylwyd, ac y gallai'r gwelliant mewn sgoriau SDQ fod o ganlyniad i athrawon gwahanol yn cwblhau'r holiaduron cynt ac wedyn.

- Gwerthusiad lled-arbrofol o Talking about School Transition (Bagnall, 2021), ymyrraeth cymorth o dan arweiniad athrawon a oedd yn cynnwys sesiynau wythnosol awr o ran hyn yn cael eu cyflwyno dros bum wythnos, ac iddynt y nod o adeiladu sgiliau dygymod plant ar gyfer ymdrin â phontio. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys 143 o blant o saith ysgol gynradd yng ngorllewin canolbarth Lloegr, gyda phedair ysgol gynradd yn y grŵp ymyrraeth a thair yn y grŵp cymharu. Canfu'r gwerthusiad fod, o'r pedwar newidyn canlyniadau a fesurwyd gan yr arolygon cynt ac wedyn, yr ymyrraeth yn effeithiol wrth leihau pryderon pontio ymysg plant yn y grŵp ymyrraeth.

Yn ogystal â'r ymchwil uchod, archwiliodd Brewin a Statham (2011) y ffactorau allweddol sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal pan maent yn pontio o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Roedd yr ymchwil hwn, a gyflawnwyd mewn bwrdeistref led-wledig yng Nghymru, yn cynnwys cyfweliadau gyda phlant Blwyddyn 6 a 7 yn ogystal â'u hathrawon a gofalwyr. Roedd canfyddiadau'n amlygu amrywiaeth o ffactorau a all gefnogi neu lesteirio pontio, o ffactorau o fewn y plentyn megis gwydnwch a sgiliau cymdeithasol i ffactorau ehangach megis graddau gweithio amlasiantaethol.

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

O'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar ymyraethau i gefnogi plant wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ychydig iawn o astudiaethau a oedd yn cynnwys elfen o werthuso prosesau. Yn ogystal, mae cymorth pontio yn cwmpas amrywiaeth o arferion a gweithgareddau, ac mae'n debygol y gall rhwystrau a galluogwyr wrth eu gweithredu amrywio gan ddibynnu ar y math o ymyrraeth a gyflwynwyd. Mae'n anodd felly gwneud sylwadau ar y rhwystrau a'r galluogwyr sydd wrth weithredu ymyraethau cymorth pontio.

Fodd bynnag, fe wnaeth un astudiaeth achos a oedd yn archwilio profiadau athrawon o ymyrraeth cymorth pontio seiliedig ar waith grŵp ganfod rhai rhwystrau a galluogwyr a allai

fod yn berthnasol i ymyraethau cymorth pontio eraill (Mowat, 2019). Un rhwystr ymarferol oedd y gystadleuaeth gan yr amrywiaeth o weithgareddau eraill sy'n digwydd yn aml yn ystod tymor haf blwyddyn olaf ysgol gynradd (ee dyddiau chwaraeon a thripiau). Yn ogystal, gan fod cymorth pontio yn ymyrraeth gynnar sy'n digwydd ar ddechrau taith plentyn yn yr ysgol uwchradd, amlygwyd hefyd y risg o deimlad o gywilydd ac o labelu i grwpiau sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau sydd wedi eu targedu. Y farn oedd bod hyn yn risg penodol os oedd plant yn cael eu tynnu o wersi prif ffrwd am gymorth neu weithgareddau ychwanegol, fodd bynnag, roedd yr ymchwil yn rhybuddio y dylid cydbwyso'r risg hwn yn erbyn yr angen am i rai plant dderbyn cymorth o'r fath yn ystod y cyfnod pontio allweddol hwn, sy'n aml yn heriol. Roedd galluogwyr allweddol yn cynnwys ymrwymiad a chefnogaeth yr awdurdod lleol, ymrwymiad ac arweiniad gan uwch arweinwyr yn y ddwy ysgol, a chyfathrebu cryf rhwng pawb perthnasol, gan gynnwys staff yr ysgolion, rhieni a phlant.

**Arferion sy'n ystyriol o drawma**

*Cyflwyniad*

Mae arferion sy'n ystyriol o drawma yn seiliedig ar theori ymlyniad[30], ac maent yn cydnabod ac yn ceisio ymateb i effaith trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar unigolion (Emerson, 2022).

Mae plant bregus a ddioddefodd brofiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod (ACE) mewn risg uwch o waharddiad o'r ysgol, camddefnyddio sylweddau, diweithdra, digartrefedd a throseddu (Sebba et al., 2015; Cole et al., 2019; Timpson, 2019). Roedd astudiaeth a gyflawnwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (Bellis et al., 2015) yn amlygu perthynas gref rhwng bod yn agored i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a pherfformiad gwael yn yr ysgol. Canfu Blodgett a Lanningan (2018) berthynas gref rhwng y nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a risg o bresenoldeb gwael yn yr ysgol, problemau ymddygiadol a methiant i gyrraedd safonau academaidd.

Trwy fabwysiadu dulliau sy'n ystyriol o drawma, y bwriad yw y gall oedolion sy'n gweithio mewn ysgolion adnabod y profiadau a allai achosi ymddygiadau plentyn, deall eu heffaith,

---

[30] Term clinigol yw ymlyniad a ddefnyddir i ddisgrifio "teimlad o ymgysylltiad seicolegol parhaus rhwng bodau dynol" (Bowlby, 1997)[1]. Yn benodo, mae theori ymlyniad yn amlygu pwysigrwydd cwlwm emosiynol plentyn â'i brif ofalwyr. Gall tarfu ar y cwlwm hwn, neu ei golii, barhau i effeithio ar blentyn yn emosiynol a seicolegol pan fydd yn oedolyn a gall effeithio ar ei berthynas ag eraill yn y dyfodol. (NSPCC, 2021)

cydnabod y diffyg rheolaeth y gall plentyn ei gael, addasu eu hymatebion a mynd ati o ddifrif i ddatblygu sgiliau'r plentyn i allu mynd i'r afael â'r heriau mae'n eu hwynebu (Aspland et al., 2020). Disgwylir i hyn yn ei droi arwain at effeithiau cadarnhaol ar lesiant, ymddygiad, cydweithrediad â'r ysgol a chanlyniadau dysgu.

Cafodd 'Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Ymagwedd Gymdeithasol at Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd' – fframwaith cenedlaethol arferion sy'n ystyriol o drawma i Gymru – ei lansio yn 2022 (Hyb ACE Cymru, 2022). Mae'n nodi sut y gall cymdeithas "ystyried adfyd a thrawma, gan gydnabod a chefnogi cryfderau unigolyn i oresgyn y profiad hwn yn eu bywydau".

Yn 2018/19, derbyniodd dros 600 o ysgolion yng Nghymru hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ACE ac arferion sy'n ystyriol y drawma (a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gan weithio gyda Cymru Well Wales, Barnardo's Cymru a'r NSPCC), gyda'r hyfforddiant hwn ar gael i bob ysgol yng Nghymru o 2019/2020 (Llywodraeth Cymru, 2021c).

*Effeithiolrwydd arferion sy'n ystyriol o drawma*

Mae ymchwil o Unol Daleithiau America wedi canfod buddion dull sy'n ystyriol o drawma i blant mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliant mewn presenoldeb, llwyddiant academaidd, rheolaeth emosiynol a hyder (Roseby a Gascoigne, 2021; Wall, 2021). Yn ogystal, yn y Deyrnas Unedig:

- Adroddodd Riley a Bailey (2019) fod arferion sy'n ystyriol o drawma yn rhoi gwell dealltwriaeth i athrawon o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac achosion gwreiddiol ymddygiad anodd.
- Canfu Fancourt a Sebba, (2018), Smith et al. (2013), Greenhalgh et al. (2020) a Rose et al. (2019) fod staff yn dod yn fwy hyderus a medrus wrth weithio gyda phlant bregus wrth ddefnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma.
- Canfu Aspland et al. (2020) fod staff wedi datblygu mwy o empathi ac ymateb mwy perthynol tuag at blant sy'n ei chael yn anodd yn yr ysgol.

Mae rhai astudiaethau wedi canfod canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwaharddiadau hefyd:

- Fel rhan o adolygiad o arferion sy'n ystyriol o drawma yng Ngorllewin Swydd Efrog, cyflawnodd Cherry a Froustis (2022) arolwg o leoliadau addysgol, gan gynnwys addysg gynradd, uwchradd, bellach, uwch, amgen ac arbennig. O'r 29 a oedd wedi

derbyn hyfforddiant ar fod yn ystyriol o drawma, dywedodd 31 y cant fod gwaharddiadau wedi syrthio o ganlyniad.

- Roedd ysgolion cynradd a gymerodd rhan mewn prosiect arferion sy’n ystyriol o drawma mewn ysgolion yn Islington yn adrodd am gwymp mewn gwaharddiadau cyfnod penodol yn dilyn gweithredu dulliau sy’n ystyriol o drawma (Aspland et al., 2020).
- Fe wnaeth dadansoddiad o ddata o 40 o ysgolion (addysg gynradd, uwchradd ac arbennig) a gymerodd ran yng nghynlluniau peilot Attachment Aware Schools mewn dau awdurdod lleol yn Lloegr ddatgelu gostyngiadau ystadegol arwyddocaol mewn gwaharddiadau (lleihaodd nifer cyfartalog y gwaharddiadau[31] o 0.46 i 0.21) dros un flwyddyn academaidd (Rose et al., 2019).

*Galluogwyr a rhwystrau gweithredu effeithiol*

Mae amrywiol werthusiadau wedi amlygu galluogwyr a rhwystrau sy’n berthnasol i weithredu dulliau sy’n ystyriol o drawma mewn ysgolion. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Pwysigrwydd cefnogaeth uwch arweinwyr i agwedd berthynol at ddisgyblaeth a rheoli risg (Fancourt a Sebba, 2018, Cherry a Froustis, 2022).
- Yr angen (mewn rhai achosion) mewn newid mewn diwylliant sefydliad tuag at iaith gadarnhaol, disgyblaeth adferol, perthynas empathetig ag eraill, cymorth staff a dull ysgol-gyfan (Cherry a Froustis, 2022).
- Sicrhau bod gan staff ddigon o amser i weithio gyda phlant gan ddefnyddio dull sy’n ystyriol o drawma (Riley a Bailey, 2019).
- Defnyddio dull ysgol-gyfan a chyson o ymdrin â hyfforddiant (Smith et al., 2013; Cherry a Froustis, 2022).
- Cynnig sesiynau cymorth a/neu hyfforddiant i rieni i’w helpu i ddeall y dull (Smith et al., 2013; Cherry a Froustis, 2022).

[31] Mae’r awduron yn disgrifio gwaharddiadau fel rhai “y tu mewn a’r tu allan i’r ystafell ddosbarth” ond nid yw’n esbonio sut y caiff y metrig hwn ei gyfrifo.

**Dull ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol**

*Cyflwyniad*

Mae'r 'Fframwaith ar sefydlu dull ysgol-gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol' (Llywodraeth Cymru, 2021b) yn ceisio cefnogi llesiant emosiynol a meddyliol da trwy hyrwyddo amgylchedd diwylliannol cadarnhaol mewn ysgolion. Mae wedi ei lunio i helpu ysgolion i asesu eu hangen, mapio eu cryfderau a gwendidau, a datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â bylchau yn eu dull o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant. Mae'n cynnwys y canlynol:

- Sefydlu llesiant da trwy addysgu a phob agwedd arall o fywyd ysgol.
- Ethos sy'n gwerthfawrogi cynhwysiant, lle mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd, gan gyfrannu eu sgiliau ac adnoddau unigol er lles pawb.
- Creu amgylchedd cefnogol lle caiff pobl ifanc eu hannog i gyflawni eu potensial personol ac academaidd, lle maent yn ffynnu, dysgu a datblygu'n emosiynol, gyda chefnogaeth athrawon sy'n gweithredu mewn diwylliant sydd hefyd yn rhoi gwerth ar lesiant yr athrawon eu hunain hefyd.
- Ymgorffori gwaith eraill, megis CAMHS, sy'n draddodiadol wedi cynnig asesiadau, triniaeth ac ymyraethau, ac a ddylai bellach fod yn edrych ar y plentyn a'i anghenion yn fwy cyfannol.

Er mai'n achlysurol yn unig y caiff gwahardd ei grybwyll yn y canllawiau (sy'n ddealladwy o ystyried ei gylch gwaith llawer ehangach), mae'r cysylltiad rhwng iechyd meddwl/llesiant gwael a risg uwch o waharddiadau wedi cael ei grybwyll yn gynharach yn yr adolygiad hwn (ee, Tseliou (2021a) a John et al. (2022)).

*Effeithriolrwydd dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol*

Nid yw'r adolygiad llenyddiaeth hwn wedi canfod unrhyw ymchwil trwyadl a chadarn sy'n dangos yr effaith ar waharddiadau ar blant sy'n codi o gyflwyno dulliau ysgol-gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod dulliau system-gyfan sy'n canolbwyntio ar newid amgylcheddau ysgolion arwain at welliannau yn iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant (Bonell et al., 2018; Goldberg et al., 2019). Canfu adolygiad systematig o ymyraethau cyffredinol yn yr ysgol i hyrwyddo llesiant meddyliol ac emosiynol fod effeithiau niwtral i fach, ond bod y rhain o astudiaethau o ansawdd salach a'r

rheini sy'n seiliedig ar ysgolion cynradd (Mackenzie a Williams, 2018). Roedd yr astudiaeth yn awgrymu bod angen methodolegau mwy cadarn a hirdymor ledled y Deyrnas Unedig er mwyn profi buddion hirdymor i ddisgyblion.

Mesurodd Critchley et al (2018) yr effaith ar staff mewn astudiaeth o ddull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a oedd yn cynnwys hyfforddiant i bawb o'r staff ar draws chwe ysgol (nid oedd yn ymarferol mesur gwelliannau i ddisgyblion gan mai un flwyddyn oedd rhychwant amser y prosiect). Canfuont ymwybyddiaeth a llythrennedd sylweddol fwy ynghylch iechyd meddwl eu disgyblion, mwy o hyder wrth siarad am broblemau iechyd meddwl ac ymateb iddynt, a chynnydd yn eu hymddygiadau cefnogol eu hunain yn yr asesiad dilynol o gymharu â'r llinell sylfaen cyn yr hyfforddiant.

*Gweithredu*

Cafodd ystyriaethau ar gyfer gweithredu dull ysgol gyfan yn llwyddiannus eu nodi gan Brown et al. (2021), Weare (2015) a Cavioni et al. (2020). Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfathrebu clir a therminoleg gyson rhwng pawb o'r rhanddeiliaid (staff ysgolion, plant, rhieni/teuluoedd ac ymarferwyr iechyd meddwl).
- Ymrwymiad i lesiant staff, a hyrwyddo llesiant staff.
- Hyfforddi staff er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o batrymau ac amlder problemau iechyd meddwl, yn ogystal â dealltwriaeth ac ymatebolrwydd i ddatgeliadau disgyblion.
- Cyflawni asesiad ac ymarferiad mapio anghenion/llinell sylfaen er mwyn deall dulliau presennol a'r adnoddau o fewn yr ysgol.
- Mabwysiadu cymysgedd o gymorth cyffredinol a phenodol, gan gynnwys:
    - Canolbwyntio cadarnhaol a chyffredinol ar lesiant.
    - Hinsawdd ac ethos cefnogol yr ysgol a'r ystafell ddosbarth.
    - Ymyraethau iechyd meddwl dwysach a mwy hirdymor lle canfyddir anghenion.

Datblygu a chryfhau perthynas â gwasanaethau allanol (ee nyrsys ysgol, byrddau iechyd lleol, CAMHS).